

GWEITHIO I GYFLAWNI DYFODOL IACHACH I GYMRU



Adroddiad Blynyddol
2018/19



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

CYNNWYS

Rhywfaint o'n blwyddyn mewn rhifau	4
Rhagair y Cadeirydd	6
Cyflwyniad y Prif Weithredwr	8
1. Yr hyn a gyflawnwyd gennym	10
2. Sut gwnaethom gyflawni ein hamcanion llesiant	61
3. Ein Hadroddiad Cynaliadwyedd	72
4. Ein Hadroddiad Atebolrwydd	90
5. Ein Datganiadau Ariannol	159

RHYWFAINT O'N BLWYDDYN MEWN RHIFAU

Cynnydd yn
nifer y smygwyr
a gofrestrodd ar
gyfer cymorth
Helpa Fi i Stopio
yn Ch1 2019

Nifer y
gwahoddiadau
sgrinio a
gynigiwyd i'r
boblogaeth
gymwys

Practisau
Deintyddol wedi'u
cofrestru gyda
Rhaglen Diwygio'r
Gwasanaeth
Deintyddol
Cyffredinol



Llysgenhadon
12-13 oed a
hyfforddwyd
mewn ysgolion
drwy raglen
ddi-fwg Just B

Staff
sy'n gweithio
i gyflawni
dyfodol iachach
i Gymru

Achosion,
ymholiadau a
digwyddiadau
diogelu iechyd
yr ydym wedi
ymdrin â nhw



RHAGAIR Y CADEIRYDD

Rwyf bellach yn fy ail flwyddyn fel cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae fy ymdeimlad o fraint yn cynyddu wrth i amser fynd heibio. Yn 2018/19 cyhoeddwyd ein Strategaeth Hirdymor 2018-30, gyda saith blaenoriaeth sy'n gosod Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth wraidd "Creu Cymru Iachach" – penllanw gwaith drwy'r flwyddyn, gyda chydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ar gyfres o flaenoriaethau seiliedig ar dystiolaeth i ysgogi gwelliannau mewn iechyd a llesiant.

Cymeradwywyd y blaenoriaethau mewn cynhadledd Arweinyddiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 12 Mawrth 2019 ac roeddem yn falch iawn o gael cefnogaeth Weinidogol. Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd grŵp cydgysylltu cyffredinol yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r broses gyflawni.

Mae hon yn enghraifft o Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydgrynhoi ac yn cryfhau ei rôl fel y sefydliad iechyd y cyhoedd yng Nghymru; ceir rhagor o enghreifftiau yng ngweithgareddau ein Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant ac, yn enwedig, yn ein Hasesiad Effaith Iechyd arloesol ar oblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd ar iechyd cyhoeddus. Roedd hyn yn rhan o'r cymorth sylweddol yn llywodraethol ac ar draws y system a roddwyd gan y sefydliad drwy gydol y flwyddyn, a chydabuwyd bod hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at barodrwydd ar lefel genedlaethol.

Parhaodd Iechyd Cyhoeddus Cymru i adeiladu a chynnal partneriaethau effeithiol, gyda llwyddiannau nodedig gan gynnwys ein gwaith drwy Cymru Well Wales a chyda Cartrefi Cymunedol Cymru. Gwnaethom gryfhau ymhellach ein partneriaeth â phartneriaid plismona a chyfiawnder troseddol er mwyn mynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd trosedd a bod yn agored i niwed ac roedd yn fraint i ni ymuno â Thasglu'r Swyddfa Gartref ar Drais Difrifol. Gwnaethom hefyd benderfynu buddsoddi mewn Uned Atal Trais, a fydd yn weithredol yn 2019.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru bob amser yn cydbwysu ei ffocws ar arweinyddiaeth system gyfan ac ehangder gweithgareddau rhyngwladol â ffocws mewnol ar gyflawni gweithredol. Yn 2018/19, unwaith eto gwelwyd y sefydliad yn cyflawni yn erbyn y rhan fwyaf o'r cynllun yn ystod y flwyddyn, gan roi sylw penodol i ateb heriau sy'n wynebu gwasanaethau microbiolog a sgrinio, ac i fodelu gwasanaeth diogelu iechyd/heintiau cenedlaethol a fydd yn gydnerth yn y degawdau i ddod.

Eleni gwelwyd cynnydd amlwg yn ein ffocws ar iechyd a llesiant staff; cyrhaeddwyd y Safon Iechyd Corfforaethol Arian, llwyddwyd i wella'n sylweddol ein safle ym Mynegai Gweithle Stonewall, cyflwynwyd y fenter "Amser i Symud" a chynhaliwyd yr Wythnos Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gyntaf. Mae aelodau'r Bwrdd yn ymuno â mi i longyfarch pawb sy'n ymwneud â'r maes gwaith hollbwysig hwn.

Roeddwn wedi parhau i ymhyfrydu yn fy nghyfarfodydd gyda'r staff a defnyddwyr gwasanaethau, un o bleserau mwyaf fy rôl. Ble bynnag rwy'n ymweld, rwyf bob amser yn edmygu'r doniau sydd gennym ar draws y sefydliad – mae gan ein staff ddigonedd o wybodaeth, arbenigedd a phrofiad; mae ganddynt yr angerdd a'r ymrwymiad hefyd i wneud gwahaniaeth ac mae hynny bob amser yn galonogol ac mae'n gwneud i mi deimlo'n ostyngedig.

Parhaodd y Bwrdd ar ei daith i berfformiad uchel ac effaith uchel, gan oruchwylio'r broses o

weithredu'r strategaeth, cyflawni yn erbyn cynlluniau yn ystod y flwyddyn, cadw llygad ar risgiau strategol a chanolbwyntio ar osod y cywair a'r diwylliant yr ydym am eu gweld ar draws y sefydliad – un o ymddiriedaeth a bod yn agored, lle mae'r staff yn ymgysylltu'n llawn ac yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon. Mae fy nyled yn fawr i holl aelodau'r Bwrdd am eu cymorth, eu cyngor a'u harweiniad i mi fel cadeirydd, ac am gyflawni ein cyfrifoldebau cyfunol ar gyfer y Bwrdd Unedol gyda diwydrwydd, ymddiriedaeth a pharch. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chyd-aelodau o'r Bwrdd dros y flwyddyn i ddod.

Mae hanes Iechyd Cyhoeddus Cymru o lwyddo a gwella'n barhaus yn ddyledus iawn i'w arweinyddiaeth weithredol, a hoffwn ganmol cydweithwyr gweithredol eto eleni. Yn Tracey Cooper, mae gennym brif weithredwr ysbrydoledig a llawn gweledigaeth, sy'n enghraifft o'n gwerthoedd ac sy'n gweithio'n ddiflino i wella iechyd y cyhoedd yng

Nghymru. Llongyfarchiadau iddi ar flwyddyn eithriadol o gyflawniad.

Roedd rôl arweinyddiaeth systemau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amlwg iawn eleni, gyda gweithio traws-sector sylweddol a rhywfaint o waith arloesol o ran cymorth polisi. Roedd tystiolaeth, hefyd, o'r tîm yn adeiladu ar ei enw da yn y DU ac yn rhyngwladol, gyda'r cyfle i sicrhau bod Cymru ar flaen y gad o ran yr ymgyrch ryngwladol ym maes tegwch o ran iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Rwy'n hyderus y bydd y flwyddyn i ddod yn gweld Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ddatblygu ein pobl, cynyddu ein ffocws ar ansawdd ac effaith ein gwaith a helpu i ysgogi gwelliant cadarnhaol ar draws yr holl benderfynyddion iechyd a llesiant yng Nghymru, gan adeiladu ar lwyddiannau 2018/19 fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

Jan Williams OBE FRSPH
Cadeirydd
Iechyd Cyhoeddus Cymru



“Mae hon yn enghraifft o Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydgrynhoi ac yn cryfhau ei rôl fel y sefydliad iechyd y cyhoedd yng Nghymru.”

CYFLWYNIAD Y PRIF WEITHREDWR

Mae'n anrhydedd i mi gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol newydd. Mae hyn yn fwy na dim ond disgrifiad o'n perfformiad a'n cyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf. Dyma'r Adroddiad Blynyddol cyntaf ers cyflwyno ein Strategaeth Hirdymor newydd uchelgeisiol – cynllun penderfynol i drawsnewid iechyd a llesiant ein cenedl, yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Dyma'r Adroddiad Blynyddol cyntaf hefyd i gynnwys ein cynnydd yn erbyn set newydd sbon o flaenoriaethau strategol – blaenoriaethau sy'n unol â'n hamcanion llesiant.

Mae cymaint i fyfyrho arno yma, ac fe'ch anogaf i ddarllen drwy'r tudalennau hyn i ddeall ehangder a chwmpas y gwaith sy'n mynd rhagddo ar draws ein sefydliad gwyb.

Darllenwch am ein Hasesiad o Effaith Brexit ar Iechyd ar dudalen 15, lle gwnaethom drafod effeithiau posibl ymadawiad arfaethedig y DU o'r Undeb Ewropeaidd ar iechyd tymor byr, canolig a hirdymor pobl sy'n byw yng Nghymru. Mae'r cyhoeddiad hwn wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr seiliedig ar dystiolaeth i un o faterion mwyaf dadleuol ein cyfnod, a chafodd ei groesawu ar draws grwpiau'r pleidiau yn y cyfarfod llawn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dysgwch am y gwaith gwyb rydym wedi bod yn ei wneud gyda phartneriaid plismona a chyfiawnder troseddol ar dudalen 18. Mae ein gwaith drwy'r rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd a'r Hyb ACE newydd i wella dealltwriaeth o effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) wedi gwneud cyfraniad enfawr i'n hamcan allweddol o sicrhau system cyfiawnder troseddol sy'n seiliedig ar ACE yng Nghymru.

Rydym wedi croesawu technoleg newydd sy'n dod i'r amlwg, nid yn unig o ran datblygu ein gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru newydd sbon, ond yn ein rhaglenni hefyd. Trowch i dudalen 20 i weld sut y mae ein gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn defnyddio dull marchnata cymdeithasol newydd wedi'i dargedu ac arloesol drwy sianeli digidol i gael mwy a mwy o smygwyr i geisio cymorth.

Darganfyddwch sut y mae ein hadran Sgrinio wedi bod yn gweithio'n galed i gyflwyno prawf sylfaenol newydd yn rhaglen Sgrinio Serfigol Cymru. Mae'r prawf yn edrych yn gyntaf am fathau risg uchel o'r Feirws Papiloma Dynol (HPV) sy'n achosi 99.8 y cant o ganser ceg y groth. Drwy gyflwyno'r prawf newydd hwn, rydym wedi gwneud cyfraniad sylweddol at wella iechyd y boblogaeth, yn ogystal â sicrhau mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i weithredu HPV fel y prawf cyntaf a wnaed ar samplau sgrinio serfigol. Rydym hefyd wedi dechrau gweithredu fesul cam y prawf ymgarthol imiwnocemegol (FIT) gwell i Sgrinio Coluddion Cymru, sy'n haws i'w gwblhau na'r pecyn prawf presennol, ac yn well o ran canfod canser y coluddyn yn gynnar.

Rydym wedi ailgadarnhau ein hymrwymiad i helpu Cymru i aros yn wlad sy'n edrych tuag allan gyda rôl i'w chwarae ar y llwyfan rhwngwladol. Ein Huned Genomeg Pathogen yng Nghymru oedd un o'r rhai cyntaf i gyfrannu canlyniadau sampl Dilyniannu Genomau Cyfan i raglen goruchwyllo fflw Sefydliad Iechyd y Byd. Trowch i dudalen 38 i gael disgrifiad o sut y mae ein tîm polisi wedi bod yn helpu Cymru i chwarae ei rhan ar lwyfan y Byd drwy ein dynodiad cyffrous newydd fel Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd.

Ni allai hyn fod wedi digwydd oni bai am waith caled ymroddedig ac angerdd ein cyflogaion gwych, ein Bwrdd, a'n sefydliadau partner gwych ledled Cymru.

Drwy weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth bwrpasol, rydym wedi gwneud cynnydd gwirioneddol tuag at adeiladu'r math o newid radical sydd ei angen arnom yn iechyd ein poblogaeth.

Pan fyddaf yn edrych ar ein cyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf, rwy'n cael mwy o sicrwydd nag erioed bod gennym y sgiliau, yr angerdd a'r dalent i gyflawni dyfodol iachach i Gymru.

Dr Tracey Cooper
Prif Weithredwr
Iechyd Cyhoeddus Cymru



“Drwy weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth bwrpasol, rydym wedi gwneud cynnydd gwirioneddol tuag at adeiladu'r math o newid radical sydd ei angen arnom yn iechyd ein poblogaeth.”



YR HYN A GYFLAWNWYD GENNYM

Mae'r rhan hon o'n Hadroddiad Blynyddol yn amlinellu'r hyn rydym wedi'i gyflawni yn ystod 2018-19, gan ddangos sut rydym wedi cael effaith. Yma, rydym yn adrodd ar ein cyflawniadau yn erbyn saith maes gwaith â blaenoriaeth, sef:

1

Dylanwadu ar benderfyniadau ehangach iechyd

2

Gwella llesiant meddyliol a chydnerthedd

3

Hyrwyddo ymddygiad iach

4

Sicrhau dyfodol iach i'r genhedlaeth nesaf

5

Diogelu'r cyhoedd rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol i iechyd

6

Cefnogi datblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar

7

Adeiladu a symud gwybodaeth a sgiliau i wella iechyd a llesiant ar draws Cymru

Blaenoriaeth Strategol 1

Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd

“Byddwn yn cydweithio ag eraill i ddeall a gwella’r ffactorau sy’n effeithio ar iechyd pawb.”

Os gallwn wella penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant – sy’n cynnwys addysg a sgiliau, gwaith da, arian ac adnoddau, tai a’n hamgylchedd – byddwn yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ddisgwyliad oes iach poblogaeth Cymru.

Rydym yn gwybod bod y pethau hyn yn cael effaith fwy o lawer ar ddisgwyliad oes iach na’r gwasanaeth iechyd.

Bu hwn yn faes gwaith sy’n datblygu i ni. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae’r gwaith wedi canolbwyntio ar ddeall a blaenoriaethu pa gamau gweithredu sydd eu hangen ym mhob un o’r meysydd hyn, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, tai a sectorau eraill o ran lle y mae angen gweithredu.

Mae ein gwaith yn datblygu’n gyson, ond mae ein llwyddiannau mawr wedi cynnwys:

- Cyfrannu at broses datblygu cwricwlwm newydd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys darparu tystiolaeth a mewnwelediad ar iechyd a llesiant, a chefnogi ysgolion arloesi wrth iddynt ddatblygu’r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles
- Llundio papur ar effeithiau cyflogaeth ansicr ar iechyd a llesiant
- Gweithio gydag eraill i helpu i leihau llygredd aer, risgiau ac anghydraddoldebau drwy ddarparu gwasanaethau i asesu, cyfathrebu a diogelu iechyd y cyhoedd – megis ein gwaith i gynllunio, paratoi a rheoli risgiau o ddigwyddiadau amgylcheddol aciwt, fel tanau mawr
- Cwblhau asesiad o oblygiadau Brexit o ran iechyd y cyhoedd, a chyhoeddi’r adroddiad cysylltiedig Asesu Effaith ar Iechyd ym mis Ionawr 2019. Mae’r adroddiad wedi helpu i lywio gwaith cynllunio ac ymatebion polisi yn y tymor byr, y tymor canolig a’r hirdymor

- Datblygu Strategaeth Hyfforddiant Asesu Effaith ar Iechyd gyda Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau ategol i baratoi a meithrin capasiti a chymhwysedd ar gyfer Asesu Effaith ar Iechyd wrth baratoi ar gyfer Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017
- Datblygu cyfres o bapurau briffio ar Benderfynyddion Ehangach Iechyd, gan gwpasu trethiant, trafnidiaeth, addysg, gwasanaethau cyngor, plant, pobl ifanc a theuluoedd

Rydym hefyd wedi gweithio i fynd i’r afael â’r penderfynyddion ehangach yn uniongyrchol drwy ein rhaglen Cymru Iach ar Waith. Yn y ffordd hon, rydym wedi cefnogi 91 o sefydliadau i gyflawni gwobr iechyd y gweithle y llynedd, gyda 34 yn ennill Safon Iechyd Corfforaethol a 57 yn ennill Gwobr Iechyd y Gweithle Bach.







91

**nifer y sefydliadau a
gefnogwyd i gyflawni
gwobr iechyd y gweithle**

Mae'r gwaith hefyd wedi cynnwys datblygu model rhesymegol a fframwaith dangosyddion cysylltiedig i lywio model cyflawni newydd ar gyfer Cymru iach ar Waith a fydd yn ehangu ei gyrhaeddiad i fwy o gyflogwyr busnesau bach a chanolig a darparu arlwy sy'n seiliedig ar anghenion i gyflogwyr. Cynhaliwyd arolwg ansoddol o 700 o gyflogeion i lywio'r gwaith o ddatblygu'r model cyflawni, darparu gwaelodlin ar gyfer gwerthuso yn y dyfodol, a hefyd helpu i ddatblygu adnoddau. Rydym wedi gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i ddatblygu offer ar-lein newydd a fydd yn helpu cyflogwyr i hunanasesu eu hanghenion iechyd a llesiant, nodi meysydd â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, a mesur gwelliannau dros amser.

Rydym wedi sefydlu partneriaeth â Busnes Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i fwrw ymlaen â mentrau sy'n targedu busnesau bach a chanolig, gyda phwyslais penodol ar lesiant meddyliol. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i hyrwyddo'r defnydd rhagweithiol o nodiadau ffitrwydd gan feddygon teulu a chyflogwyr drwy fodiwlau hyfforddiant a gynhelir gan wefan Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol a gwefan Busnes Cymru.



ASTUDIAETH ACHOS:

Asesiad eang o effaith Brexit ar iechyd a llesiant yng Nghymru

Ym mis Ionawr 2019, gwnaethom gyhoeddi Asesiad Effaith Brexit ar iechyd yng Nghymru a ganfu y gallai Brexit gael effaith eang a hirhoedlog ar iechyd a llesiant, gyda'r effeithiau'n fwy aciwt mewn cymunedau difreintiedig. Nododd yr adroddiad amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar iechyd a llesiant sy'n deillio o Brexit yng Nghymru, ac argymhellodd weithredu ar unwaith er mwyn lliniaru effeithiau andwyol.

Roedd yr effeithiau cadarnhaol a nodwyd yn cynnwys y cyfle i weithio gyda llywodraeth y DU i ailstrwythuro modelau cyllido ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Un o'r effeithiau mwy andwyol a nodwyd oedd effaith negyddol ar y cyflenwad o weithwyr i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru am fwy na degawd.

Ymhlith yr effeithiau posibl eraill a nodwyd roedd:

- Mynediad llai neu ohiriedig at feddyginiaethau, treialau clinigol a dyfeisiau oherwydd bod y DU yn gadael cyrff rheoleiddio a chydlynw allweddol
- Llai o gapasiti diogelu iechyd oherwydd na fydd y DU yn cymryd rhan mwyach mewn systemau cydlynw iechyd y cyhoedd a dulliau rhannu tystiolaeth
- Tarfu ar systemau diogelwch a safonau bwyd a chadwyni cyflenwi
- Cyfleoedd posibl i adolygu'r polisi amaethyddiaeth i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd, gyda'r potensial i gynyddu'r gwaith o gynhyrchu a chyflenwi bwyd cynaliadwy lleol a lleihau ôl troed carbon Cymru, er bod ansicrwydd uniongyrchol ynghylch model taliadau amaethyddol yn y dyfodol
- Cynnydd mewn costau bwyd, yn deillio o chwyddiant, a fydd yn cael effaith ar bobl sydd ar incwm isel yn benodol
- Gallai effeithio ar safonau diogelwch cymdeithasol, gweithle, cydraddoldeb, cyflogaeth ac amgylcheddol drwy gytundebau masnach neu newidiadau polisi yn y dyfodol

- Colli awdurdodaeth Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd i ddinasyddion y DU
- Potensial ar gyfer cynnydd mewn diweithdra mewn sectorau sy'n agored iawn i farchnadoedd allforio oherwydd newidiadau mewn tariffau, rhwystrau nad ydynt yn dariffau a rheoliadau tollau
- Colli neu leihau mynediad i gyllid yr UE yn y dyfodol ar gyfer ymchwil a datblygu, seilwaith, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a thlodi a datblygu economaidd
- Y posibilrwydd o gyfleoedd newydd i bobl yng Nghymru ynghylch cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant
- Effaith ar iechyd a llesiant meddyliol drwy ansicrwydd am y dyfodol, straen ar berthnasoedd teuluol a chymunedol, dirywiad economaidd, lefelau cydnerthedd cymunedol i newid mawr, a llai o gydlyniant a goddefgarwch cymunedol

Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at effaith fawr debygol ar iechyd a llesiant i bobl sydd ar incwm isel, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn tldi bwyd a thanwydd, yn ogystal ag i bobl sydd mewn perygl o ddiweithdra neu sydd eisoes yn ddi-waith.

Dywedodd fod angen gweithredu ar unwaith mewn meysydd sy'n cynnwys mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol, a safonau diogelwch bwyd a mynediad at fwyd.

Gan wneud sylw ar yr adroddiad, meddai'r Athro Mark Bellis, Cyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant:

"Mae rhagfynegi canlyniadau iechyd yn gymhleth ac yn anodd, hyd yn oed yn fwy yng nghyd-destun yr ansicrwydd ynghylch y broses Brexit. Serch hynny, bydd yr adroddiad hwn yn rhoi digon i sefydliadau yng Nghymru feddwl amdano. Mae'n tynnu'r sylw at yr angen am weithredu er mwyn manteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd ar gyfer gwella iechyd a llesiant yng Nghymru ar ôl Brexit, yn ogystal â lliniaru neu ganlyniadau anfwriadol."

Blaenoriaeth Strategol 2

Gwella llesiant
meddyliol
a meithrin
cydnerthedd

*“Byddwn yn helpu
pawb i gyflawni ei
botensial a gallu
ymdopi’n well â’r
heriau y mae bywyd
yn eu taflu atom.”*



Mae ein gwaith i wella llesiant meddyliol a meithrin cydnerthedd yn eang ac yn bellgyrhaeddol.

Mae ein cyflawniadau allweddol wedi cynnwys cydweithredu â Sefydliad Iechyd y Byd, datblygu rhaglen draws-sefydliadol i hyrwyddo iechyd a llesiant meddyliol, gweithio gydag ysgolion a phobl ifanc, helpu cyflogwyr i feithrin cydnerthedd, a gwaith partneriaeth helaeth gyda'r heddlu a sefydliadau cyfiawnder troseddol i sefydlu'r seilwaith angenrheidiol i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol sy'n arwain at fod yn agored i niwed a throseddau cysylltiedig.

Dyma grynodeb o'n cyflawniadau:

- Erbyn hyn, ni yw Canolfan Gydweithredol gyntaf Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant. Fel rhan o hyn, cwblhawyd adolygiad llenyddiaeth o gydnerthedd unigolion a chymunedau a rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chaiff ei gyhoeddi'n fuan. Mae Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd wedi bod yn gweithio ar y budd cymdeithasol ar fuddsoddi mewn camau gweithredu sy'n datblygu cydnerthedd
- Datblygu rhaglen Iechyd a Llesiant Meddyliol draws-sefydliadol, a fydd yn sbarduno ein blaenoriaethau i hyrwyddo iechyd a llesiant meddyliol ar draws y boblogaeth. Bydd rhanddeiliaid yn cytuno ar hyn fel rhan o ymateb systemau wrth symud ymlaen
- Meithrin dull gweithredu ysgol gyfan o ran llesiant meddyliol a chydnerthedd, gan gynnwys creu canllawiau ac offer i gefnogi a lledaenu'r deunyddiau i ysgolion a datblygu rhagor o waith gyda phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru
- Arwain gweithdy Cymunedau Iach a Llesol yng nghynhadledd flynyddol Cyfnewidfa Iechyd Cymunedol yr Alban, lle y gwnaethom gyflwyno egwyddorion ymgysylltu cymunedol ar gyfer grymuso



3,000

nifer yr heddlu a phartneriaid a hyfforddwyd ym maes Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) ac arfer wedi'i lywio gan drawma yn y Rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd

At hynny, rydym wedi gweithio i sefydlu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer Rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd Plismona a Chyfiawnder Troseddol Iechyd y Cyhoedd. Mae'r Rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd wedi cynnwys gweithio gyda phartneriaid Plismona a Chyfiawnder Troseddol ledled Cymru, sefydliadau'r trydydd sector, awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd i ddilyn dull iechyd y cyhoedd i nodi'r myriadau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol sy'n arwain at fod yn agored i niwed a throsedd gysylltiedig. Hyd yn hyn, mae'r Rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd wedi:

- Hyfforddi dros 3,000 o bartneriaid gyda'r heddlu a phartneriaid statudol ac o'r trydydd sector ym maes Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) ac arfer wedi'i lywio gan drawma
- Darparu systemau a phrosesau wedi'u llywio gan drawma cymorth cynnar, sy'n cael eu profi mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Mae gwaith datblygedig yn mynd rhagddo gyda Chyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr

- Datblygu gwaith partneriaeth ar ddulliau iechyd y cyhoedd i atal trais difrifol, llesiant gweithlu heddluoedd a chyfiawnder troseddol, rhagnodi cymdeithasol a pherthynas heddluoedd ag ysgolion
- Cwblhau a chyhoeddi gwaith ymchwil ar y cysylltiad rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) a'r carchar, er mwyn llywio'r gwaith o greu carchardai a rhaglenni troseddu cymunedol wedi'u llywio gan drawma (gan gynnwys pecyn offer adfer ar ôl profiadau niweidiol yn ystod plentyndod)
- Creu rhwydwaith dysgu cenedlaethol ar-lein, wedi'i gynnal gan Gymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd, i rannu gwybodaeth ac arfer gorau i sicrhau cynaliadwyedd y gwaith
- Denu 160 o gynrychiolwyr rhyngwladol ac o'r DU i gynhadledd yn cynrychioli Plismona a Chyfiawnder Troseddol, gwasanaethau statudol ac asiantaethau'r trydydd sector
- Mae canlyniadau'r Rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd hyd yn hyn yn cynnwys dylanwad ar y polisi plismona a'r Swyddfa Gartref, er enghraifft, cyfeirir at y rhaglen yn Strategaeth Trais Difrifol Llywodraeth y DU, llesiant gwell y gweithlu a threfniadau rhannu gwybodaeth a gwersi gwell ar sut i weithredu Canolfannau Ymateb Amlsectoraidd Cymorth Cynnar.

- Mae cynnydd yn y dull cymorth cynnar cydweithredol eisoes yn sicrhau gostyngiad o ran ar y galw am yr heddlu a phartneriaid, h.y. llai o alwadau mynych gan yr un unigolion a theuluoedd i'r heddlu gan fod ganddynt y cymorth cywir yn ei le gan y sefydliadau cywir.

Yn ychwanegol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn cydweithrediad â'i bartneriaid yn Cymru Well Wales, wedi sefydlu Hyb Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod. Mae'r Hyb wedi lansio fframwaith sgiliau a gwybodaeth ar gyfer sefydliadau, ochr yn ochr â Phrosbectws Hyfforddiant Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, gyda'r bwriad o ddatblygu pecyn offer sefydliadol a chyfres o adnoddau. Hefyd, cefnogodd yr Hyb ddatblygu ysgolion cynhwysol wedi'u llywio gan drawma, hyfforddi 309 o lysgenhadon profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, 140 o arolygwyr Estyn a 95 o arweinwyr hyfforddi'r hyfforddwr.





ASTUDIAETH ACHOS:

Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru: Beth yw ysgol gydnerth o ran iechyd meddwl?

Bellach wedi'u sefydlu fwy na degawd yn ôl, mae Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru yn helpu ysgolion ledled Cymru i ddatblygu dull ysgol gyfan o ran iechyd a llesiant.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi gweithio i adnewyddu ein harlwy er mwyn sicrhau ei fod yn y sefyllfa orau i helpu i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'n dyhead i greu unigolion iach a hyderus.

O gofio bod Blaenoriaeth Strategol 2 yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant meddyliol, gwnaethom flaenoriaethu'r llinyn hwn fel y cyntaf i'w ddatblygu. Gan weithio gyda sefydliadau partner, gan gynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Plant, Cyfarwyddwyr Addysg, ac Estyn, gwnaethom sicrhau dewis meini prawf priodol a lleihau achosion o ddyblygu ymdrech.

Efallai'n bwysicaf, cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc i gael eu safbwynt ar sut beth fyddai ysgol sy'n iach yn feddyliol.

Nododd ein gwaith amrywiaeth o themâu i fynd i'r afael â nhw, yr oeddem wedi disgwyl rhai ohonynt – fel y cymorth sydd ei angen yn ystod cyfnodau o bwysau, fel arholiadau – ac eraill sy'n helpu i feithrin ein dealltwriaeth o'r amrywiaeth eang o ffactorau eraill sy'n cefnogi llesiant meddyliol, fel rhoi amser a lle ar gyfer ymlacio ac ymarfer corff.

Defnyddiwyd y gwaith hwn i helpu i ddrafftio meini prawf diwygiedig ar gyfer y Wobr Ansawdd Genedlaethol, a chaiff ei rannu â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y Dull Ysgol Gyfan.

Blaenoriaeth Strategol 3

Hyrwyddo ymddygiad iach

Gweithio i hyrwyddo ymddygiad iach

Rydym yn gweithio i leihau baich clefyd, a helpu i gau'r bwlch mewn anghydraddoldebau iechyd sy'n deillio o gyflyrau iechyd hirdymor, drwy wneud y dewisiadau iach yn ddewisiadau hawdd. Ar gyfer yr effaith fwyaf, mae ein blaenoriaethau ar leihau achosion o smygu, hyrwyddo pwysau iach, cynyddu gweithgarwch corfforol, ac atal niwed o ddefnyddio cyffuriau ac yfed alcohol.

Smygu

Sicrhawyd cynnydd o 20 y cant yn nifer y smygwyr yn ceisio cymorth gan wasanaethau rhoi'r gorau iddi'r GIG yng Nghymru yn ystod chwarter olaf 2018-19 o'i gymharu â'r un adeg y flwyddyn flaenorol, gyda nifer y smygwyr sy'n cael eu trin yn cynyddu 17.7 y cant yn yr un cyfnod lle y mae data ar gael. Cyflawnwyd hyn gyda rhaglen farchnata gymdeithasol benodol, gan roi cynnig ar ddulliau newydd fel hyperleol a geo-dargedu i gyrraedd pobl mewn ardaloedd diffiniedig. Yn sgil datblygu Hyb newydd Helpa Fi i Stopio, llwyddwyd i wella mynediad at gymorth rhoi'r gorau iddi dros y ffôn i smygwyr nad oeddent yn gallu defnyddio gwasanaethau wyneb yn wyneb neu nad oeddent yn fodlon gwneud hynny.

Gwnaethom barhau i gynyddu ein dealltwriaeth o batrymau ymddygiad smygu presennol a newydd gydag adnodd

rhyngweithiol ar-lein newydd a ddatblygwyd gan ein Harsyllfa.

Gwnaethom barhau i adeiladu ar ein gwaith partneriaeth i gryfhau ein rhaglen, megis gyda Chanolfan y DU ar gyfer Astudiaethau Tybaco ac Alcohol a Phrifysgol Caerdydd. Hefyd, gwnaethom weithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd i ddatblygu'r system Helpa Fi i Stopio ymhellach.



14,000

**smygwyr a gysylltodd â
Hyb Helpa Fi i Stopio a
derbyn cymorth**





Atal gordewdra a maeth

Gwnaethom gefnogi Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu a lansio ei strategaeth 'Pwysau Iach: Cymru Iach' ar gyfer ymgynghori, gan gyfrannu cyngor iechyd y cyhoedd arbenigol, y sail dystiolaeth, a gwyddor newid ymddygiad. Tynnodd cyfres o ddata a gafodd eu coladu a'u dehongli gan ein harsyllfa sylw at yr angen brys am gamau gweithredu, gyda bron chwarter o oedolion yn hunangofnodi eu hunain yn ordew. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar ymgynghori â rhieni ynghylch nodi pwysau iach mewn plant, a hyfforddi ymwelwyr iechyd ar draws Cymru.

Gweithgarwch corfforol

Parhaodd ein gwaith gyda phartneriaid, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull cynaliadwy i hyrwyddo gweithgarwch corfforol. Yn benodol, gwnaethom gyfrannu at gyflwyno Prosiect y Gronfa Iach ac Egnïol, sy'n ceisio gwella iechyd meddwl a chorfforol pobl drwy alluogi ffyrdd egnïol o fyw.

Gwnaethom hefyd gwblhau'r astudiaeth ddilysu Dwylo i Fyn gydag ysgolion cynradd i'w helpu i hyrwyddo teithio llesol.

Atal camddefnyddio sylweddau

Wrth flaenoriaethu camau gweithredu i atal niwed o ddefnyddio sylweddau, gwnaethom ddatblygu dealltwriaeth well o effaith defnyddio cyffuriau ar iechyd y boblogaeth, a'r ffyrdd y gallwn gefnogi'r system i gael yr effaith fwyaf.

Datblygodd ein Harsyllfa adnoddau rhyngweithiol ar-lein i gefnogi ein dealltwriaeth o batrymau ymddygiad sy'n ymwneud ag alcohol. Gwnaethom hefyd nodi blaenoriaethau rhanddeiliaid ar gyfer atal camddefnyddio alcohol, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu rhaglen waith newydd.

Newid ymddygiad

Er mwyn datblygu'r capasiti i ddeall ymddygiad a newid ymddygiad ar draws gweithlu arbenigol iechyd y cyhoedd, rydym wedi dechrau datblygu fframwaith gwybodaeth a sgiliau.

Rydym hefyd wedi datblygu offeryn i gefnogi gwyddor ymddygiad mewn ymgyrchoedd marchnata, ac ymgorffori gwyddor ymddygiad mewn un o'r cymwysterau gwella ansawdd a fabwysiadwyd ar draws y GIG.



ASTUDIAETH ACHOS:

Croesawu Bwydo ar y Fron

Yn 2018/19, casglodd Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid allweddol yng Nghymru amrywiaeth cynhwysfawr o ddata, gan ddefnyddio'r pecyn offer Croesawu Bwydo ar y Fron i greu darlun cyflawn o fwydo ar y fron yng Nghymru.

Datblygwyd pecyn offer Croesawu Bwydo ar y Fron drwy gydweithrediad technegol ac academiaidd strwythuredig dan arweiniad Prifysgol Yale. Yn y tymor byr, mae'n darparu offeryn sy'n seiliedig ar dystiolaeth i arwain gwledydd wrth asesu eu statws bwydo ar y fron, a'u parodrwydd i'w gynyddu. Yn yr hirdymor, mae'n cefnogi gwledydd i nodi'r mesurau pendant y gallant eu cymryd i gynyddu cyfraddau bwydo ar y fron yn gynaliadwy, yn seiliedig ar argymhellion a ysgogir gan ddata. Gwnaethom gydlyn dull Cymru gyfan i ddefnyddio'r broses Croesawu Bwydo ar y Fron ochr yn ochr â'r Alban a Lloegr, wedi'i goruchwyllo gan Brifysgol Caint.

Sefydlwyd Pwyllgor Croesawu Bwydo ar y Fron Cymru ym mis Ebrill 2018 ac roedd yn cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, Iechyd

Cyhoeddus Cymru, y GIG, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caerdydd, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, ac Unicef y DU. Roeddem yn gweithredu fel y cydlynnydd mewnwladol, ac yn cadeirio Pwyllgor Croesawu Bwydo ar y Fron Cymru gyda chymorth tîm Prifysgol Caint.

Yn dilyn y broses a chanolbwyntio ar wyth amod sy'n cynnal bwydo ar y fron, cynhaliodd tîm Bwydo ar y Fron Cymru asesiadau yn erbyn 54 o feincnodau, gan ddefnyddio chwiliadau dogfennau a chyfryngau cymdeithasol, ac adolygiadau a chyfweiliadau cydweithredol i ddogfennu polisi presennol, arfer a bylchau o'r 12 mis blaenorol. Lluniodd y tîm gyfres derfynol o sgoriau ar gyfer pob meincnod i ddarparu darlun o gyflwr camau gweithredu ar fwydo ar y fron yng Nghymru.

Arweiniodd y broses a barhaodd am flwyddyn at adroddiad terfynol, gan gynnwys cyfres o argymhellion ar draws chwe thema allweddol yn canolbwyntio ar famau, babanod a theuluoedd a gaiff eu defnyddio i lywio cynllun gweithredu Cymru gyfan yn 2019/20.

Blaenoriaeth Strategol 4

Sicrhau dyfodol iach i'r genhedlaeth nesaf

Mae'r blynyddoedd cynnar yn gyfnod allweddol i rieni, gofalwyr a'u plant, sy'n gosod y sylfeini ar gyfer plentyndod hapus, iach ac arwain at iechyd a llesiant gwell pan fyddant yn oedolion.

Rydym yn gweithio gyda mwy o bwyslais ar y blynyddoedd cynnar, lle rydym yn gwybod y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf, drwy fentrau fel rhaglen Cymru Well Wales, y '1000 Diwrnod Cyntaf'.

Mae'r Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf yn dwyn partneriaid ynghyd o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau'r trydydd sector a'r cyhoedd, i gefnogi a herio ein gilydd i feddwl a gweithio gyda'n gilydd yn wahanol.

Yn ystod 2018-19, datblygwyd 'System 1000 Diwrnod Cyntaf' o ffactorau allweddol i helpu rhanddeiliaid yng Nghymru i sicrhau bod plant yn cyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol. Mae hyn yn seiliedig ar adolygiadau tystiolaeth o ffactorau sy'n effeithio ar gyflawni'r cerrig milltir a dod i gysylltiad â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) yn ystod y 1000 diwrnodau cyntaf, ac mae'n ategu gwaith i gynyddu ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n cael yr effaith fwyaf ar wella iechyd a llesiant plant.

Cyflwynwyd achos ar gyfer camau gweithredu i ddatblygu fframwaith strategol ar gyfer iechyd meddwl babanod yng Nghymru drwy gyfres o adroddiadau technegol yn tynnu sylw at angen iechyd meddwl babanod yng Nghymru, tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i wella iechyd meddwl babanod, a'n sefyllfa bresennol o ran polisi ac arfer yng Nghymru. Hefyd, cynhaliwyd cyfres o weithdai gydag ymarferwyr ar draws Cymru, ac mae canfyddiadau'r adroddiadau a'r gweithdai bellach yn llywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith strategol i hyrwyddo iechyd meddwl babanod a chefnogi'r gweithlu yn y 1000 Diwrnod Cyntaf i gymryd camau ataliol.



11

**nifer y Byrddau
Gwasanaethau Cyhoeddus
sy'n ymwneud yn
weithredol â rhaglen
1000 Diwrnod Cyntaf**



Mae cyfranogiad gan bartneriaethau lleol yn y rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf wedi cynyddu, ac mae 11 o'r 19 o Fyrddau Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru bellach yn cymryd rhan weithredol yn y rhaglen. Yn ychwanegol, mae wyth o'r 11 yn braenaru yn Rhaglen Integreiddio'r Blynnyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru, ac mae'r Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r ffocws ar y 1000 diwrnod cyntaf yn ei rhaglen Integreiddio'r Blynnyddoedd Cynnar.

Mae gwerthusiad o'r cynllun peilot, hyfforddiant Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd Arian ar gyfer y 1000 Diwrnod Cyntaf, wedi'i gynnal a lluniwyd argymhellion ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r dulliau mwyaf effeithiol o wella iechyd a llesiant yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf.

Yn ystod y flwyddyn hon, gwnaethom hefyd sefydlu cydweithrediad ymchwil newydd, gan arwain at gynnig cyllido newydd, uchelgeisiol. Y gobaith yw y bydd y cynnig yn galluogi datblygu dull o gefnogi llesiant meddyliol a chydnerthedd mamau beichiog a newydd.





Dan arweiniad yr Is-adran Ymchwil a Datblygu mewn cydweithrediad â'r Tîm 1000 Diwrnod Cyntaf, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Phrifysgol Caerdydd, cyflwynwyd y cynnig i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gefnogi rhaglen ymchwil 18 mis ym maes *Gwrando ar Rien i Ymateb iddynt a Galluogi Cydnherthedd Mamau mewn Gofal Cynenedigol*. Mae'r cynnig wedi cyrraedd yr ail gam o lunio rhestr fer ac, os caiff ei ddyfarnu, bydd yn dechrau ym mis Hydref. Llywiodd y cyflwyniad gan adolygiadau tystiolaeth ac astudiaeth gwmpasu gyda chymorth yr Is-adran Ymchwil a Datblygu a'r Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf.

Cyflwyno *Codwch y Wefus* i ymweliadau iechyd

Erbyn iddynt gyrraedd pump oed, mae 42.2 y cant o blant sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru wedi cael profiad o bydredd dannedd, o gymharu â 22.3 y cant o blant sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Er bod ganddynt yr angen mwyaf, y grwpiau difreintiedig sydd â'r cyfraddau gwaethaf o ran mynd i ddeintyddfeydd.

Yn 2018-19, cynhaliodd y Tîm Deintyddol Iechyd Cyhoeddus gynllun peilot i drafod dichonoldeb a derbynioldeb defnyddio *Codwch y Wefus* - offeryn asesu iechyd deintyddol syml – yn y rhaglen Plant Iach Cymru, gyda'r nod o hwyluso mynd i'r ddeintyddfa'n ifanc ac ymyriad cynnar gan y deintydd, a chyfrannu at ymdrechion i leihau derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer pydredd difrifol.

Cafodd pymtheg o ymwelwyr iechyd ym Mwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr hyfforddiant, ac yna cyflwynwyd *Codwch y Wefus* yn ystod eu hymweliadau â phlant o 15 mis i 3.5 oed. Cafwyd bod *Codwch y Wefus* yn helpu i nodi plant â phryderon am bydredd dannedd, yn ogystal â bod yn gyfrwng i gynnig cyngor gwell am iechyd y geg.

Mae Tîm Deintyddol Iechyd y Cyhoedd, mewn cydweithrediad â Cynllun Gwên, bellach yn dechrau cyflwyno hyfforddiant *Codwch y Wefus* yn genedlaethol, gan ddarparu adnoddau a chymorth i wella llwybrau gofal.

Cafwyd bod Codwch y Wefus yn helpu i nodi plant â phryderon am bydredd dannedd, yn ogystal â bod yn gyfrwng i gynnig cyngor gwell am iechyd y geg.

ASTUDIAETH ACHOS:

Gwybodaeth i rhieni

Gyda llawer o ffactorau'n dylanwadu ar gyfleoedd a datblygiad bywyd plentyn yn y blynyddoedd cynnar, mae'n bwysig bod menywod beichiog a rhieni plant yn y blynyddoedd cynnar â mynediad hawdd at y wybodaeth y mae ei hangen arnynt i'w helpu i fod yn rhiant a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plentyn.

Mae gwaith ymchwil gan yr Is-adran Gwella Iechyd wedi dangos y gallai'r wybodaeth bresennol am iechyd a llesiant a roddir i rieni ar draws Cymru fod yn fwy effeithiol:

- Mae'n anodd i rieni ganfod beth yw'r wybodaeth hollbwysig gan ffynhonnell ddibynadwy
- Rhoddir gormod o wybodaeth, ac mae cymhelliant masnachol iddi
- Mae ansawdd y wybodaeth a roddir am iechyd a llesiant yn amrywio, gyda llawer o'r wybodaeth sy'n dal i gael ei dosbarthu bellach yn hen
- Mae amrywiad sylweddol o ran maint y wybodaeth a'r negeseuon rhwng ardaloedd o Gymru
- Mae diffyg cyfatebiaeth o ran cynnwys, fformatau a llwyfannau rhwng yr hyn sy'n bwysig ym marn rhieni a'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd

- Diffyg gwybodaeth i dadau
- Mae darpariaeth gwybodaeth yn anamserol i rieni a gweithwyr proffesiynol yng Nghymru

Mae'r Is-adran Gwella Iechyd, gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol ym maes iechyd a llesiant plant a theuluoedd ar draws Cymru, wedi sefydlu bwrdd rhanddeiliaid wedi'i gadeirio gan y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol. Mae'r bwrdd yn cynnig dull ar gyfer arwain a llywodraethu systemau ar baratoi a defnyddio adnoddau gwybodaeth newydd i rieni ar draws Cymru, gan wella ansawdd a mynediad a lleihau achosion o ddyblygu.

Er mwyn gwneud yr adnoddau gwybodaeth i rieni newydd yn berthnasol i rieni, mae angen iddynt:

- Ddiwallu anghenion rhieni am wybodaeth - sicrhau eu bod yn cwmparu'r pynciau cywir ar yr adeg gywir, ac wedi'u hysgrifennu o safbwynt rhiant ac yn ddiddorol ac yn hawdd eu darllen
- Bodloni disgwyliadau rhieni ynghylch sut a lle y byddent yn cael mynediad at y fath wybodaeth, y fformatiau y mae'r wybodaeth yn cael ei chreu ynddynt a'r sianeli a ddefnyddir i'w lledaenu

Mae ymgysylltu â rhieni i sicrhau eu mewnbwn drwy gydol y gwaith o ddatblygu adnoddau gwybodaeth i rieni newydd yn hanfodol er mwyn i'r adnoddau ddiwallu anghenion rhieni a bodloni eu disgwyliadau a dod yn brif ffynhonnell ddibynadwy am wybodaeth iechyd a llesiant i rieni yng Nghymru.

Gall gwybodaeth iechyd a llesiant gael yr effaith fwyaf pan gaiff ei defnyddio fel rhan o sgwrs rhwng gweithwyr proffesiynol a rhieni. Mae angen i adnoddau gwybodaeth newydd i rieni hefyd ddiwallu anghenion gweithwyr proffesiynol sy'n eu defnyddio i ategu sgysiau pwysig â rhieni yn eu cysylltiadau arferol ar draws rhaglen Plant Iach Cymru.

Mae nifer o ffyrdd y mae rhieni a gweithwyr proffesiynol yn ein helpu i lunio'r adnoddau newydd ar y cyd:

- Llywio'r cynnwys â blaenoriaeth yn yr adnoddau
- Arwain ym mha fformatau y dangosir y wybodaeth
- Cyfrannu eu straeon yn uniongyrchol i'w cynnwys
- Profi a mireinio iteriad cynhyrchion

Mae'r Is-adran Gwella Iechyd yn gweithio'n strategol gyda phartneriaid y mae ganddynt berthnasodd cryf â grwpiau presennol o weithwyr proffesiynol a rhieni o ystod ddemograffig eang y mae gan y cyfranogwyr berthnasodd sefydledig ynddynt.

Hefyd, bu nifer o weithdai pwrpasol, penodol a dulliau eraill, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol wedi'u trefnu gan yr Is-adran Gwella Iechyd i ddod â rhieni a gweithwyr proffesiynol at ei gilydd i gyfrannu at ddatblygu adnoddau newydd.

Rydym wedi gweithio gyda thros 100 o weithwyr proffesiynol yng Nghymru y mae ganddynt arbenigedd penodol mewn pynciau sy'n cyfrannu at ddiogelu a hyrwyddo iechyd a llesiant plant yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf a'r blynyddoedd cynnar. Yn cynrychioli cyrff proffesiynol cenedlaethol neu ranbarthol neu dimau lleol, gweithiodd y gweithwyr proffesiynol gyda'i gilydd i ddatblygu a blaenoriaethu'r wybodaeth bwysicaf, gywir, gyfoes a ddylai fod ar gael i bawb ar adegau perthnasol wrth fagu a datblygu plant a chyfateb i atodlen gysylltiadau Plant Iach Cymru.



Rydym wedi cynnal tri gweithdy penodol gyda thadau yn Abertawe, a chwe grŵp i rieni cymysg yn Nhredegar Newydd a Chaerffili. Rydym yn rhan o'r ffordd drwy chwe gweithdy penodol a drefnwyd yng Ngogledd Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg a thri arall yng Nghaerdydd.

Mae rhieni wedi gweithio gyda'i gilydd drwy ddulliau cadarn a diddorol i'n helpu i ddeall y pynciau a'r cynnwys sy'n bwysig iddyn nhw, yn enwedig ym mhenderfynyddion cymdeithasol iechyd a llesiant a'r cyfnod pontio i fod yn rhiant. Bydd cyfraniadau gwerthfawr yn y dyfodol gan rieni, yn ogystal â'r dystiolaeth, yn ein helpu i ddatblygu fformatau newydd y bydd rhieni'n fwy tebygol o'u defnyddio i gael mynediad at wybodaeth am agweddau gwahanol ar iechyd a llesiant.

Mae rhieni'n gweithio gyda ni i gyfrannu eu straeon magu plant sy'n enghreifftiol o rywfaif o'r wybodaeth sy'n bwysig i bawb wrth greu deunydd diddorol, dilys gan negesydd perthnasol.

Mae'r rhieni a'r gweithwyr proffesiynol sydd wedi cymryd rhan hyd yn hyn wedi ymrwymo i'n helpu i brofi a mireinio iteriadau o ran negeseuon, cynnwys, dyluniad a fformatau i sicrhau ei bod yn hawdd cael mynediad at y gwaith a chymryd rhan ynddo. Mae rhieni a gweithwyr proffesiynol yn profi'r adnoddau'n ddigidol drwy grwpiau Facebook ac e-bost.

Bydd cyd-ddatblygu gwybodaeth gyhoeddus o ansawdd uchel i rieni'n arwain at wybodaeth fwy cywir a pherthnasol y mae'n haws i rieni a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd gael mynediad ati, a bydd yn fwy tebygol o gyfrannu at iechyd a llesiant gwell i blant yng Nghymru.

Blaenoriaeth Strategol 5

Diogelu'r cyhoedd rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol i iechyd

Mae gennym gyfrifoldeb i baratoi at heriau nawr ac yn y dyfodol mewn perthynas â diogelu iechyd y cyhoedd ac ymateb i'r heriau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli clefydau trosglwyddadwy, gwasanaethau iechyd cyhoeddus amgylcheddol a pharodrwydd am argyfwng a'r gallu i ymateb iddo, ynghyd â gwasanaethau microbioleg labordy, clinigol ac iechyd y cyhoedd i boblogaeth gyfan Cymru.


Parhaodd digwyddiadau yn 2018/19, gan gynnwys achosion yng Nghaersallog ac Aylesbury, nifer o achosion yn cynnwys heintiau canlyniad mawr sy'n dod i'r amlwg, fel brech y mwnci, a pharatoadau ar gyfer y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, i dynnu sylw at y maes hwn o ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Yn fframwaith strategaeth 'Cymru Iachach', mae atal heintiau a lleihau baich clefydau o heintiau'n parhau i fod yn ffocws allweddol i ni. Yn ystod 2018/19, rydym wedi datblygu amrywiaeth o gamau gweithredu'n llwyddiannus mewn perthynas â themâu allweddol y blaenoriaeth strategol hon.

Gwnaed gwaith helaeth i sefydlogi a darparu cydnerthedd i feysydd o'n gwasanaethau microbioleg. Gan ategu hyn, lluniwyd adroddiad cynghori manwl a chynigion ar gyfer cryfhau Gwasanaethau Diogelu Iechyd Cenedlaethol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi arwain at ddyrannu cyllid cenedlaethol ychwanegol i'r maes pwysig hwn a chaiff cynigion manylach eu datblygu mewn partneriaeth â GIG Cymru a rhanddeiliaid eraill yn ystod 2019/20 i drawsnewid gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Cyflawnodd ein gwasanaethau microbioleg ailachrediad ar gyfer Sefydliad Safoni Rhyngwladol ar gyfer ein gwasanaethau labordy diagnostig, gan gynnal ein manyleb gwasanaeth ansawdd uchel ar gyfer yr 1.4 miliwn o samplau a ddadansoddir ar draws ein hwyth safle labordy. Cwblhawyd gwaith i gyflwyno gwasanaethau diagnostig moleciwlaidd enterig a, chan weithio gyda byrddau iechyd, cyflwynodd ein timau wasanaethau profi anadlol cyflym i'r holl ysbytai aciwt ledled Cymru mewn pryd i gynorthwyo yn ystod tymor ffliw y gaeaf.

Datblygodd timau microbioleg glinigol, gan gefnogi byrddau iechyd, eu gwaith ar y cyd â thimau ysbyty wrth reoli heintiau cleifion unigol ac atal effeithiau ar y boblogaeth ehangach.



Datblygodd ein timau arbenigol ein gwaith ymhellach ar Ddilyniannu Genomau Cyfan, gan gynnal digwyddiadau gwyddonol cenedlaethol, a'r Uned Genomeg Pathogen yng Nghymru oedd y gyntaf i gyfrannu canlyniadau sampl Dilyniannu Genomau Cyfan i raglen goruchwyllo ffliw Sefydliad Iechyd y Byd sy'n llywio'r gwaith o baratoi brechlynnau yn y dyfodol.

Gan gynnal ein penderfyniad i gefnogi'r gwaith o leihau risgiau o Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd ac Ymwrthedd Gwrthficrobaidd, rydym wedi parhau i ddarparu ein rhaglenni goruchwyllo cenedlaethol a darparu arweinyddiaeth systemau a rhaglenni addysg i fforymau cenedlaethol ar Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd ac Atal a Rheoli Heintiau.



Yn benodol, gwnaethom gefnogi'r GIG yng Nghymru i weithredu ICNet, sef system rheoli achosion ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau. Bydd y system hon yn gwella effeithlonrwydd gwasanaethau lleol, yn darparu offer newydd ac yn gwella goruchwyliaeth genedlaethol ymhellach. Gan gydweithredu â sefydliadau iechyd y cyhoedd ar draws y DU, helpodd ein timau arbenigol hefyd i ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd newydd y DU a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol (2019 – 2024), sydd bellach yn cael ei weithredu ledled Cymru.

Helpodd ein timau Diogelu Iechyd y GIG yng Nghymru i ymateb i heriau allweddol.



Yn ystod blwyddyn pan gyflwynwyd brechlynnau ffliw newydd, aeth ein timau, gan gynnwys y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, ati i gynorthwyo'r GIG yng Nghymru i ddarparu'r nifer mwyaf o frechlynnau ffliw i'r boblogaeth ac ymateb i achosion o heintiau mewn cymunedau ac ysbytai.

Cwblhawyd gwaith manwl ar adolygiad cenedlaethol o wasanaethau iechyd rhywiol, a dechreuodd gwaith ar broses ailymgysylltu genedlaethol i gleifion â Hepatitis C. Parhaodd gwaith ar helpu i leihau heintiau a niwed arall ymhlith poblogaethau agored i niwed, gan gynnwys iechyd troseddwy a chamddefnyddio sylweddau, drwy gyhoeddi canllawiau ac adroddiadau allweddol.



1.4m

**nifer y samplau ar gyfer
microbioleg a gaiff eu
prosesu bob blwyddyn ar
draws ein hwyth safle**

Gweithiodd ein timau clefyd trosglwyddadwy'n ddiiflino gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol a byrddau iechyd i reoli achosion o glefydau heintus, gan gynnwys heintiau sy'n cael eu cario mewn bwyd, y frech goch, E.coli 0157 a thwbercwlosis. Ymatebodd ein tîm Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol, gyda chymorth cydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Lloegr, yn adweitheddol i dros 500 o achosion, ymholiadau a cheisiadau am drwydded a helpu Llywodraeth Cymru yn rhagweithiol i ddatblygu Rhaglen Aer Glân newydd i Gymru.

Bydd y gwaith hwn yn parhau a bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio i ddatblygu ein cynlluniau parhad busnes ac ymateb i argyfwng ymhellach.

Mae gennym rôl allweddol o ran Cynllunio ar Argyfwng ac ymateb iddo

Yn ystod y flwyddyn, mae ein timau wedi gweithio gydag ymatebwyr Categori Un eraill i ddiwygio'r Cynllun ar gyfer Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy i Gymru er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben ac i brofi ein cynlluniau ar gyfer ymateb i achosion Cemegol, Biolegol, Ymbelydrol a Niwclear. Yn fewnol, mae ein sefydliad wedi adolygu a mabwysiadu trefniadau newydd Cynllun Ymateb mewn Argyfwng

a chynnal hyfforddiant a phrofion i sicrhau sgiliau a chydnerthedd ar draws y sefydliad. Mewn ymateb i'r angen i gynllunio ar gyfer y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, rydym wedi cymryd rhan ac arwain mewn trefniadau Cymru gyfan a ledled y DU. Bydd y gwaith hwn yn parhau a bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio i ddatblygu ein cynlluniau parhad busnes ac ymateb i argyfwng ymhellach.



ASTUDIAETH ACHOS:

Gweithredu Gwasanaethau Diagnosio Anadlol Cyflym ledled Cymru

Mae diogelu'r cyhoedd rhag effeithiau pathogenau ar iechyd yn gyfrifoldeb statudol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n un o'r blaenoriaethau allweddol yn strategaeth hirdymor y sefydliad.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Iechyd Cyhoeddus Cymru gyflwyno system o brofion cyflym ar gyfer pathogenau anadlol cyffredin, gan gynnwys fflw. Mae'r fath brofion yn helpu byrddau iechyd i wella gofal cleifion a helpu i reoli llif cleifion mewn ysbytai aciwt, yn enwedig yn ystod tymor (fflw) y gaeaf, ac yn helpu i atal a rheoli heintiau'n ehangach drwy ryddhau cleifion yn ddiogel, creu carfan neu ynysu cleifion yn seiliedig ar brawf cyflym a diffiniol.

Yn ystod 2017/18, cwblhaodd y Gwasanaeth Microbioleg archwiliad o ganlyniadau treialon cychwynnol a defnyddio'r rhain i ymgysylltu â'r farchnad, datblygu manyleb genedlaethol a thendr caffael. Datblygwyd y gwaith hwn mewn cydweithrediad â chydweithwyr mewnol a chynrychiolwyr yr holl fyrddau iechyd ar draws Cymru.

Yn ystod 2018, arweiniodd y Gwasanaeth Microbioleg ddatblygiadau i wella amseroldeb cadarnhau feirws fflw mewn labordai ymhlith cleifion ysbyty ar draws Cymru. Gweithredodd y gwasanaeth systemau a oedd yn galluogi canlyniad 'sampl i ateb' ar gyfer yr holl bathogenau anadlol, gan gynnwys fflw.

Yna, defnyddiwyd y systemau diagnosio cyflym hyn, mewn pryd ar gyfer tymor fflw y gaeaf, i'r holl labordai microbioleg yn Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n cefnogi safleoedd ysbyty aciwt (Caerdydd, Abertawe, Caerfyrddin, Aberystwyth, y Rhyl, Bangor a Wrecsam) a hefyd i'r labordai microbioleg sy'n cefnogi Ysbyty Aciwt Brenhinol Gwent ac Ysbyty Aciwt Brenhinol Morgannwg.

Canlyniadau a gyflawnwyd:

- ✓ Rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Ebrill 2019, dadansoddwyd bron 3,000 o brofion cleifion ar draws Cymru drwy ddefnyddio'r dull cyflym newydd hwn
- ✓ Gostyngodd y prawf cyflym newydd hwn amser cwblhau canlyniadau samplau o 1-5 diwrnod i bedair awr
- ✓ Defnyddiwyd y systemau i gadarnhau haint yn gyflym er mwyn gweithredu dull rheoli heintiau yn briodol a defnyddio cyffuriau gwrthfeirysol yn rhesymegol, gan gyfrannu at well gofal i gleifion, rheoli heintiau'n well a rheoli gwelyau ysbyty a llif cleifion yn well
- ✓ Drwy sicrhau bod yr holl ddata profion System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru gyfan yn cael eu cofnodi, ychwanegodd y gwasanaeth 'agos at y claf' hwn hefyd at ddata goruchwylio'r gwasanaeth profi canolog a ddarperir gan Ganolfan Feiroleg Arbenigol Cymru yng Nghaerdydd ynghylch ymledu fflw a'i effaith drwy gydol y tymor ar draws Cymru
- ✓ Mae'r enghraifft hon yn cyfrannu at ffocws strategol 'Cymru Iachach' ar 'Atal'. Yn ystod 2019, mae'r cynnig hwn yn cael ei ymestyn i'r holl safleoedd ysbyty aciwt sy'n derbyn cleifion, gyda'r llwyfan profi ar gael mewn meysydd fel Unedau Asesu Meddygol ac Adrannau Brys, yn hytrach nag yn y labordai microbioleg yn unig

Blaenoriaeth Strategol 6

Cefnogi
datblygu
system
iechyd a gofal
gynaliadwy sy'n
canolbwyntio ar
atal ac ymyrryd
yn gynnar





Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'n partneriaid i helpu i ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy a hygyrch sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae'r flaenoriaeth hon yn cwmpasu amrywiaeth eang o'n gwaith a'n swyddogaethau.

Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar sgrinio cenedlaethol sy'n seiliedig ar boblogaeth a ni oedd y cyntaf yn y DU i weithredu'n llawn y prawf feirws papiloma dynol fel y prawf sylfaenol yn y rhaglen sgrinio serfigol. Hefyd, dechreuwyd ar y gwaith o gyflwyno'r profion imiwnocemegol ysgarthol gwell ar gyfer sgrinio coluddion. Mae llwybr newydd ar gyfer sgrinio syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau bellach yn cynnwys cynnig prawf cynenedigol anfewnwthiol i fenywod beichiog â chanlyniad sgrinio tebygolrwydd uwch sydd wedi ymgymryd â'r cynnig sgrinio.

Arweiniodd cynnydd parhaus i leihau amrywiad mewn gofal a niwed at gwblhau'r Strategaeth Gwaedu Obstetreg i Gymru yn llwyddiannus, sydd wedi safoni gofal a lleihau cyfraddau afiachedd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwaedu gormodol ar ôl geni plentyn. Gwnaethom lansio cydweithfa Laparotomi Brys Cymru sy'n ceisio gwella gofal cleifion sy'n cael llawdriniaeth frys ar y coluddyn. Rydym hefyd wedi parhau i gefnogi Rhwydwaith Canser Cymru, a oedd yn cynnwys lansio'r Un Llwybr Canser yng Nghymru eleni. Darparodd cefnogaeth well ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu ganllawiau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol, cynllun cenedlaethol ar gyfer darparu therapïau seicolegol a lansio'r Fframwaith Nysio Iechyd Meddwl i Gymru.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd ac Ymchwil Canser y DU wedi codi ymwybyddiaeth o sgrinio coluddion gydag ymgyrch 'Bod yn Glir am Ganser' wedi'i hariannu gan Ymchwil Canser y DU. Mae adnodd hyfforddi newydd wedi'i ddatblygu gyda phartneriaid ar gyfer tiwtoriaid 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol'.

Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar drawsnewid systemau, arweinyddiaeth, rhwydweithiau, a datblygu sgiliau, a darparu cynhyrchion gwybodaeth a deallusrwydd o safon.



Mae'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu yn offeryn a gynlluniwyd i alluogi gwasanaethau yn y GIG yng Nghymru i hunanasesu eu trefniadau diogelu. Mewn cynllun peilot llwyddiannus gwelwyd byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'n cwblhau eu hunanasesiadau cyn i broses adolygu cymheiriaid alluogi rhanddeiliaid i ystyried eu cynlluniau gwella mewn modd cydweithredol a thryloyw.

Rydym wedi datblygu dull ar y cyd o atal clefydau cronig. Mae 'fframwaith strategol ar gyfer atal mewn lleoliadau clinigol' wedi'i ddrafftio ar ffurf gysyniadol a chaiff ei brofi yn 2019/20.

Rydym wedi parhau i gydlynu'r gefnogaeth genedlaethol i fyrddau iechyd a chlystyrau wrth ddarparu ac aeddfedu gweithio mewn clystyrau ledled Cymru. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar drawsnewid systemau, arweinyddiaeth, rhwydweithiau, a datblygu sgiliau, a darparu cynhyrchion gwybodaeth a deallusrwydd o safon.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda swyddfa'r Prif Swyddog Deintyddol a byrddau iechyd i ddarparu'r Rhaglen Diwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol i Gymru. Erbyn mis Ebrill 2019, bydd 94 o ddeintyddfeydd wedi'u cofrestru.



ASTUDIAETH ACHOS:

Gweithredu'r profion feirws papiloma dynol fel y prawf sgrinio sylfaenol yn y Rhaglen Sgrinio Serfigol yng Nghymru

CEFNDIR

Mae Sgrinio Serfigol Cymru yn un o'r saith rhaglen sgrinio sy'n seiliedig ar boblogaeth rydym yn eu darparu. Nod sgrinio serfigol yw lleihau nifer yr achosion a marwolaethau o ganser ceg y groth. Gwahoddir menywod 25-49 oed bob tair blynedd a gwahoddir menywod 50-64 bob pum mlynedd. Yn 2017-18, gwahoddodd Sgrinio Serfigol Cymru 210,800 o fenywod i'w sgrinio a sgriniwyd 140,100 o samplau.

Yn 2016, argymhellodd Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU brofi ar gyfer Feirws Papiloma Dynol (HPV) risg uchel fel y prawf sylfaenol. Dangosodd tystiolaeth fod y prawf hwn yn fwy sensitif wrth ganfod newidiadau mewn celloedd a bod prawf HPV negyddol yn fwy cywir.

Cefnogodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, a dechreuodd ar y gwaith cynllunio i gyflwyno Sgrinio Sylfaenol HPV yn llawn yng Nghymru. Ym mis Mawrth 2017, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyflwyno Sgrinio Sylfaenol HPV risg uchel yn llawn o fis Hydref 2018.

PROSIECT

Mae Sgrinio Serfigol Cymru wedi arwain y prosiect i weithredu sgrinio HPV sylfaenol a chafwyd gweithio agos ac effeithiol gyda labordai'r byrddau iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol yn cynnal profion sgrinio serfigol.

Cerrig milltir allweddol:

- Gweithredwyd prawf gwella a brysennu'r feirws papiloma dynol (HPV) yn llawn erbyn 2016
- Anfonwyd llythyr datganiadau o ddiddordeb i drafod a oedd unrhyw un o'r labordai am gynnal y profion HPV. Gan na ddatganodd labordai'r byrddau iechyd ddiddordeb, enwebwyd labordy Iechyd Cyhoeddus Cymru, a rhoddodd y tri labordy arall y gorau i'w gwasanaethau sytoleg o fis Hydref 2018
- Dechreuodd astudiaeth weithredu o sgrinio HPV sylfaenol ym mis Ebrill 2017 gydag 20 y cant o'r cyfranogwyr sgrinio'n cael prawf sgrinio sylfaenol HPV. Daeth y gwerthusiad ffurfiol o'r astudiaeth i ben ym mis Mai 2018 i alluogi'r gwersi i gael eu gweithredu. Roedd y gwerthusiad cadarn yn

ansoddol ac yn feintiol, ac roedd yn cynnwys perfformiad y prawf ac adborth gan y menywod a'r staff

- Cafodd practisau meddygon teulu eu trosi i sgrinio sylfaenol HPV rhwng mis Mai a mis Awst 2018 i liniaru effaith colli staff sgrinio'r byrddau iechyd yn trosglwyddo i rolau eraill

GWEITHREDU

Cyflwynwyd Sgrinio Sylfaenol HPV yn llawn ar 17 Medi 2018 a chafodd y gwaith ei weithredu'n ddidrafferth. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i weithredu HPV fel y prawf sgrinio sylfaenol ar gyfer sgrinio serfigol.

Mae amseroedd aros am ganlyniadau o fewn pedair wythnos wedi parhau i fod ymhell uwchben y targed ers cyflwyno'r prawf yn llawn. Roedd perfformiad amseroedd aros yn heriol iawn gyda'r prawf blaenorol oherwydd capasiti staff arbenigol.

Lansiwyd ymgyrch #caragegdygroth ar 12 Mawrth 2019 i hyrwyddo ymwybyddiaeth ac annog menywod i gael prawf sgrinio serfigol. Roedd yr ymgyrch hon ar y cyfryngau

cymdeithasol yn canolbwyntio ar fenywod iau i'w hannog i fynd i gael prawf sgrinio a mynd i'r afael â rhwystrau.



16

**Nifer y Cartrefi Gofal
a recriwtiwyd i gyfnod
peilot Rhwydwaith Gwella
Cartrefi Gofal Cymru**

Blaenoriaeth Strategol 7

Adeiladu a symud gwybodaeth a sgiliau i wella iechyd a llesiant ar draws Cymru

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau, polisi, gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'n helpu ni a'n partneriaid i wella iechyd a llesiant. Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i ni.

Yn 2018, dynodwyd ein Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol yn Ganolfan Gydweithredol swyddogol ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant gan Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r dynodiad yn cydnabod ein rôl rhyngwladol wrth gefnogi buddsoddiad mewn iechyd a llesiant pobl a sbarduno datblygu cynaliadwy. Wrth gyflawni hyn, gwnaethom ddatblygu ein cynnyrch cyntaf gan Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd – Sut i Gyflwyno'r Achos dros Fuddsoddi Cynaliadwy mewn Cydraddoldeb Llesiant ac Iechyd: Canllaw Ymarferol.

Dechreuodd gwaith ar raglen waith draws-sefydliadol – y Fantolen Estynedig – i gofnodi gwerth cymdeithasol a budd ar fuddsoddiad ein gwasanaethau a'n hymyriadau. Aethom ati hefyd i gynnal arfarniad gwerthuso traws-sefydliadol a datblygu Fframwaith Gwerthuso'r Hyb Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Gwnaethom waith ymgysylltu helaeth wrth adnewyddu ein Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso ac wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Iechyd Rhyngwladol ar gyfer 2018/22.

Sicrhodd ein Tîm Ymchwil a Gwerthuso nifer o grantiau, gan gynnwys Cronfa Bontio Ewropeaidd, mewn cydweithrediad â'r Sefydliad Iechyd Meddwl, i ddatblygu fframwaith wedi'i lywio gan dystiolaeth i gefnogi llesiant meddyliol ffermwyr yng nghyd-destun Brexit. Sicrhawyd cyllid hefyd gan y Sefydliad Iechyd i dreialu'r prosiect 'Asedau Cymunedol, Cyfranogi, Integreiddio: Gweithredu'n Lleol' fel dull o feithrin cyfalaf cymdeithasol ac integreiddio mewn cymunedau na chlywir ganddynt yn aml.

Cynhaliwyd dau arolwg poblogaeth yn ystod y flwyddyn: Arolwg Iechyd a Llesiant Nyrsys, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd i Gymru, mewn cydweithrediad â'r Coleg Nyrsio Brenhinol a Choleg Brenhinol y Bydwragedd; a Thechnoleg Ddigidol ac Iechyd. Lanswyd ein hadroddiad Profiadau Iechyd Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid – yr astudiaeth fwyaf cynhwysfawr hyd yn hyn ar y pwnc hwn yng Nghymru.

Cyhoeddwyd nifer o bapurau academaidd, gan gynnwys Gwneud Gwahaniaeth: Gall buddsoddi mewn atebion cynaliadwy wneud gwahaniaeth i'r perygl o lygredd aer; a Byw yn dda yn hirach: Y ddadl economaidd dros fuddsoddi yn iechyd a llesiant pobl hyn yng Nghymru (Prifysgol Bangor).

Ar draws y sefydliad, gwnaethom arwain a chreu amrywiaeth o ddigwyddiadau ar y cyd, gan gynnwys Ffurio ein Dyfodol yng Nghymru; a Chynhadledd Flynyddol Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica.

Rydym yn parhau i gefnogi cydweithwyr yn y sefydliad, ac ar draws GIG Cymru, gyda chyfleoedd dysgu a datblygu. Arweiniodd cyflwyno cwrs cyntaf Cynghorwyr Gwella'r Sefydliad Gwella Gofal Iechyd yn GIG Cymru at 22 o brosiectau arbenigol gyda chanlyniadau amlwg. Mae 1000 o Fwydau - Gwasanaeth Gwella hefyd wedi ffurfio partneriaeth â'r Sefydliad Iechyd i recriwtio 200 o bobl i Gymuned Q Cymru, sy'n darparu rhwydwaith dysgu i arbenigwyr gwella byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau.



700

nifer yr erthyglau a
sgriniwyd i lywio'r adolygiad
tystiolaeth o'r hyn sy'n
gweithio wrth ledaenu a
defnyddio gwybodaeth



ASTUDIAETH ACHOS:

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant



Ym mis Mehefin 2018, dynodwyd ein Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol yn Ganolfan Gydweithredol swyddogol gan Sefydliad Iechyd y Byd. Y Ganolfan Gydweithredol yw'r gyntaf a'r unig un ym maes 'buddsoddi ar gyfer iechyd a llesiant' yn y byd ac mae'n ymuno â rhwydwaith o fwy nag 800 o ganolfannau cydweithredol mewn mwy nag 80 o wledydd yn fyd-eang.

Mae'r cyflawniad nodedig hwn yn golygu bod ein sefydliad yn awdurdod sy'n arwain y byd ar gefnogi buddsoddi yn iechyd a llesiant pobl, gan sbarduno datblygu cynaliadwy a hyrwyddo ffyniant i bawb. Mae hefyd yn llwyddiant gwlad, a gydnabuwyd yn "garreg filltir ar gyfer Cymru gyfan" gan Vaughan Gething AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Ganolfan Gydweithredol yn datblygu, yn casglu ac yn rhannu dealltwriaeth, gwybodaeth ac offer ymarferol am y ffordd orau o fuddsoddi er mwyn gwella iechyd a llesiant, lleihau anghydraddoldebau, adeiladu cymunedau cryfach a systemau cydnerth o fewn ffiniau Cymru a thu hwnt.

Meddai'r Athro Mark Bellis, Cyfarwyddwr y Ganolfan Gydweithredol:

"Bydd gweithio gydag arbenigwyr blaenllaw'r byd yn Sefydliad Iechyd y Byd yn ein helpu i ddeall pa bolisiau ac ymyriadau iechyd cyhoeddus sy'n gweithio orau i bobl Cymru, a sut i wneud Cymru yn lle hyd yn oed yn well i fyw, gweithio a magu teulu."

Mae dod yn Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd yn dod â nifer o fuddion i'r sefydliad a Chymru, gan gynnwys gwella ein gwelededd rhyngwladol, ein henw da a'n heffaith; datblygu a defnyddio dulliau arloesol ym maes polisi, ymchwil ac arfer iechyd y cyhoedd; a chreu cyfleoedd i greu incwm a datblygu staff. Mae hyn yn arbennig o werthfawr yn hinsawdd bresennol Brexit, gan gryfhau ein partneriaethau Ewropeaidd.

Mae'r dynodiad yn dangos ein cyfrifoldeb ac ymrwymiad byd-eang a chenedlaethol i gyflawni gwell iechyd, llesiant a ffyniant i bawb yng Nghymru, Ewrop a ledled y byd, gan alluogi a sbarduno economi a chymdeithas gynaliadwy a theg, a phlaned a phobl iachach.

EIN GALLUOGI I FOD CYSTAL AG Y GALLWN FOD

Mae ein swyddogaethau galluogi'n canolbwyntio ar y cyfarwyddiaethau Gweithrediadau a Chyllid, Pobl a Datblygu Sefydliadol, ac Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Rhyngddynt, maent yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i'r sefydliad sy'n ein galluogi i gyflawni ein hamcanion strategol.

Mae 2018-19 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus ar gyfer y swyddogaethau galluogi. Oherwydd ymdrechion ein Tîm Cynllunio a Pherfformiad, cymeradwywyd ein Cynllun Strategol – yn cynrychioli tair blynedd nesaf ein strategaeth 10 mlynedd – gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2019.

Hefyd, gweithiodd y tîm cynllunio'n agos gyda swyddogaeth alluogi arall – y Tîm Cyfathrebu – i lansio ein Strategaeth Hirdymor, a fydd yn helpu ein holl gyflogeion ymroddedig i dynnu i'r un cyfeiriad er mwyn gwella iechyd a llesiant yng Nghymru.

Mae ein swyddogaethau galluogi wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod

ein staff yn iach ac yn hapus hefyd. Mae'r tîm yn yr Adran Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi bod yn parhau i ddefnyddio Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru fel fframwaith datblygu, ar y cyd â'n gweledigaeth barhaus ar gyfer llesiant cyflogeion. Mae'r dull gweithredu hwn wedi ein galluogi i gyflawni camau gweithredu cynlluniedig yn llwyddiannus ac arwain ein gwaith i gyflawni lefel Arian y wobr ym mis Gorffennaf 2018.

Cawsom asesiad ffug ar gyfer lefel Aur y wobr ym mis Mawrth 2019 a rhoddwyd adborth cadarnhaol iawn i ni. Mae hyn yn ein gadael mewn sefyllfa ardderchog pan gawn asesiad ar gyfer y lefel Aur, y trefnir, ar hyn o bryd, iddo gael ei gynnal ddechrau mis Gorffennaf, ar draws tri rhanbarth Cymru.

Helpodd ein swyddogaethau galluogi i ni ennill mathau eraill o gydnabyddiaeth yn 2018 – y tro hwn yn ymarfer meincnodi Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall. Y mynegai yw'r offeryn meincnodi diffiniol i gyflogwyr fesur eu cynnydd ar gynhwysiant

pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol yn y gweithle.

Roedd yn bleser gennym gael gwybod i ni gael ein gosod yn safle 173 o 445 o sefydliadau a gymerodd ran – naid o 165 o safleoedd ers y llynedd, arwydd clir o'r ffordd y mae'r sefydliad yn gwella ac yn dod yn fwy cynhwysol. Mae gwaith yn parhau ar yr agenda hon wrth i'n rhwydwaith staff a Chynghreiriaid barhau i gynyddu a datblygu.

Gan gefnogi amrywiaeth, gwnaethom hefyd gynnal ein 'Hwythnos Amrywiaeth a Chynhwysiant' gyntaf erioed rhwng 7 ac 11 Ionawr. Nod yr wythnos oedd codi ymwybyddiaeth a dathlu ein gweithlu amrywiol, a hefyd y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Yn ychwanegol at amrywiaeth o ddigwyddiadau siarad, gwnaethom gynnal digwyddiadau marchnad i godi ymwybyddiaeth o'n rhwydweithiau amrywiaeth staff, cynnal arwerthiannau teisennau yng Nghaerdydd a Bangor, a gododd dros £230 i'r elusen Gymreig 'Llinell Gymorth LGBT Cymru' a dosbarthu cortynnau gwddf a chareiau enfys i staff yn ein holl leoliadau ar draws Cymru.

Cyflawnodd yr wythnos ei nod, sef annog pobl i siarad a chodi ymwybyddiaeth. Gwnaeth llawer o aelodau o staff sylwadau ar faint roeddent wedi dysgu a mwynhau'r digwyddiadau, a'u bod yn gweld ein gwerthoedd sefydliadol ar waith. Caiff mwy o ddigwyddiadau eu cynnal drwy gydol y flwyddyn, gyda'r Wythnos Amrywiaeth a Chynhwysiant yn dod yn ddigwyddiad blynyddol.

Mae ein swyddogaethau galluogi wedi bod yn gweithio'n galed i ymgysylltu â'n holl gymunedau. Yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2018, adeiladodd ein tîm Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau ar lwyddiant Uwchgynhadledd Ieuenctid 2017 gyda dwy Uwchgynhadledd Ieuenctid Iechyd Cyhoeddus yng Ngogledd a De Cymru mewn cydweithrediad â Plant yng Nghymru. Denodd y digwyddiadau dros 160 o bobl ifanc 11-24 oed o gefndiroedd daearyddol ac economaidd-gymdeithasol amrywiol. Mae gweithio gyda phlant a phobl ifanc a chasglu eu safbwyntiau'n hynod bwysig gan mai nhw yw cenedlaethau'r dyfodol sydd â'r mwyaf i'w ennill o wella iechyd y genedl.

Planed Iach, Cymru Iach Healthy Planet, Healthy Wales

Cynhadledd Iechyd Cyhoeddus Cymru 2018
Welsh Public Health Conference 2018

#CICC18
#WPHC18



Hefyd, datblygodd y Tîm Cyfathrebu wefan newydd sbon Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy gydol y flwyddyn, yn dilyn ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau. Y wefan fydd y brif sianel i gyhoeddi cyngor a gwybodaeth iechyd y cyhoedd i'r cyhoedd, gyda help ein presenoldeb cynyddol ar y cyfryngau cymdeithasol.

Gweithiodd y tîm gyda chydweithwyr yn y sector gwirfoddol i rymuso a chefnogi pobl ifanc o grwpiau na chlywir ganddynt yn aml i fynd i'r digwyddiad ac roedd y rhain yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal, gofalwyr ifanc, ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Hefyd, cynhaliwyd nifer o ddiwrnodau datblygu preswyl pobl ifanc i ategu'r Datganiad Ansawdd Blynyddol Pobl Ifanc, Uwchgynadleddau Ieuenctid Iechyd Cyhoeddus a'n gwaith ehangach.

Hefyd, trefnodd a chyflwynodd ein Tîm Cyfathrebu ddigwyddiad allweddol yn 2018 - Cynhadledd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rhannodd 800 o gynrychiolwyr a oedd yn cynrychioli rhanddeiliaid o bob rhan

o Gymru wersi am wella iechyd a llesiant y boblogaeth, yn ogystal â hyrwyddo rheoli digwyddiad cynaliadwy yn ystod y digwyddiad dau ddiwrnod.

Parhaodd y tîm cyfathrebu hefyd i ymgysylltu â rhanddeiliad allweddol arall yn 2018 - cyfryngau Cymru a'r DU. Ym mis Awst, gweithiom gyda phartneriaid y cyfryngau a sicrhau sylw tudalen flaen ar gyfer adroddiad yr Is-adran Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol, sef 'Dyfodol i Gymru', gan ddefnyddio'r cyfryngau i gyfleu i lunwyr polisi allweddol ar draws Cymru yr angen am waith blaengynllunio gwell i fynd i'r afael â heriau hirdymor i iechyd a llesiant. Yn yr un modd, helpodd y tîm i greu dros 500,000 o gyfleoedd i'r cyhoedd weld negeseuon sy'n ymwneud â'r gostyngiad a groesewir mewn cyfraddau rhagnodi gwrthfacterol yng Nghymru, gan gynnwys ar raglenni newyddion teledu ar y BBC ac ITV Cymru, a BBC Radio Wales.

Mae ein tîm Technoleg Gwybodaeth yn swyddogaeth galluogi bwysig yn y sefydliad, ac roedd yn brysur yn 2017-18 hefyd. Am y tro cyntaf erioed, mae rhieni babanod yng Nghymru yn cael canlyniadau profion smotyn gwaed yn uniongyrchol oherwydd newidiadau i'r system TG smotyn gwaed a arloeswyd gan ein tîm Technoleg Gwybodaeth. Hefyd, cyflawnodd y tîm welliannau sylweddol i'n hamddiffyniadau seiber,

gan roi waliau tân newydd ar waith i fynd ati i atal bygythiadau allanol.

Mae ein Tîm Cyfleusterau hefyd wedi gwneud cyfraniad enfawr fel un o'n swyddogaethau galluogi yn 2017-18, a gallwch gael gwybod am ei waith gwyb wrth ein helpu i fod yn sefydliad cynaliadwy yn ein Hadroddiad Cynaliadwyedd ar dudalen XX. Gwnaeth y tîm gyfraniad sylweddol i sicrhau ein bod yn parhau ac yn tyfu fel sefydliad cynaliadwy gyda nifer o weithgareddau pwysig yn 2017-18. Cyflawnodd ostyngiad clir yn y defnydd o blastig ar draws y sefydliad, a gosodwyd rheseli beiciau hefyd yn safle Cwr y Ddinas yng Nghaerdydd mewn ymateb i fwy o alw am fannau parcio beiciau. Hefyd, cyflwynodd y tîm ailgylchu bwyd yng Nghwr y Ddinas, gan barhau â'n gwaith i leihau ein gwastraff, ac i alluogi'r staff i leihau eu gwastraff bwyd eu hunain.

Mae ein Tîm Cyllid yn swyddogaeth alluogi allweddol, a gallwch ddarllen ein Datganiadau Ariannol ar dudalen XX o'r Adroddiad Blynyddol hwn. Gweithiodd y tîm yn galed yn ystod 2017-18 i sicrhau y gwnaethom gyflawni ein targedau ariannol statudol allweddol, ond aeth gam ymhellach hefyd i sicrhau cyllid cyfalaf ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer gwaith awtomeiddio microbiolog.



EIN GWOBRAU

Cafodd llawer o'n cyflogeion gwych eu cydnabod drwy gydol y flwyddyn gyda gwobrau ac achrediau. Dyma flas yn unig o sut y cafodd rhai o'n pobl ddawnus eu cydnabod am eu talent a'u gwaith caled.

Ym mis Mai 2018, enwyd ein Dirprwy Brif Weithredwr, Huw George, yn rownd derfynol Gwobrau Cyfarwyddwr y Flwyddyn Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IoD) Cymru.

Mae'r gwobrau'n dathlu cyflawniadau busnes ac arweinwyr ysbrydoledig ledled Cymru, gan ddod â phob sector o'r gymuned fusnes at ei gilydd. Cafodd Huw ei gynnwys ar y rhestr fer yng nghategori Cyfarwyddwr y Flwyddyn y Sector Cyhoeddus / Trydydd Sector.

Ym mis Mehefin, gwnaeth y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN) - partneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymchwil Canser y DU - ennill Gwobr Arloesedd mewn Gofal Iechyd yng

Ngwobrau Arloesedd ac Effaith Prifysgol Caerdydd eleni. Roedd yr enillwyr gwobrau yn cynnwys Cyfarwyddwr Gwella Iechyd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, Julie Bishop, a gafodd ei chynabod ochr yn ochr â chydweithwyr o Brifysgol Caerdydd a Llywodraeth Cymru.

Enillodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y Wobr Gwerth Cyfnodolyn y Gwasanaeth Iechyd arobryn am 'Wella gwerth drwy reolaeth ariannol neu gaffael arloesol' ym mis Mehefin. Cydnabu'r wobwr ein ffordd arloesol o osod ein swyddfeydd newydd gan ddefnyddio dull 'economi gylchol' o ailweithgynhyrchu - hen ddodrefn a defnyddio menter gymdeithasol sy'n cynnig cyfleoedd swyddi i'r di-waith tymor hir.

Cafodd Nerys Edmonds, Uwchymarferydd Hybu Iechyd yn yr Is-adran Gwella Iechyd wobwr ym mis Mehefin hefyd. Cyflwynwyd gwobr "Ymddiriedola'r Flwyddyn" iddi gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn eu Gwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Blyneddol yng Nghaerdydd.

Enillodd Iechyd Cyhoeddus Cymru Wobr Cynllun Cydnabyddiaeth Cyflogwr Amddiffyn Lefel Efydd

Cyfamod y Lluoedd Arfog. Roedd y gydnabyddiaeth yn cydnabod y cymorth y mae'r sefydliad wedi'i roi i gymuned y lluoedd arfog drwy fynd y tu hwnt i'n haddewidion cyfamod.

Yn yr haf, gwnaeth y Gwyddonydd Biomeddygol Robert Barry ym maes Microbiolog raddio o Brifysgol Metropolitan Caerdydd gyda Gwobr Prif Brosiect y Gymdeithas Fioleg Frenhinol. Rhoddir y wobwr i'r myfyriwr Gwyddor Gofal Iechyd â'r marc uchaf ar gyfer ei brosiect blwyddyn olaf.

Enillodd Gail Lusardi, nyrs ymgynghorol sy'n gweithio i Iechyd Cyhoeddus Cymru, Wobr Seren Cavell ym mis Tachwedd. Cafodd Gail ei henwebu gan gydweithiwr am fynd y filltir ychwanegol ar gyfer ei chleifion. Gwnaeth un o'n Sgrinwyr Diabetig, Sharon Davis, hefyd ennill Wobr Seren Cavell am ei gwybodaeth am ddiogelu a gweithredu cyflym i reoli mater diogelu. Ac enillodd ein Cyfarwyddwr Pontio Sian Bolton Wobr Seren Cavell hefyd am ddangos gofal eithriadol tuag at ei chydweithwyr.

Cafodd Dr Stephanie Perrett, Nyrs Arweiniol Diogelu Iechyd ar gyfer Iechyd a Chyfiawnder yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, wobwr



nodedig Nyrs y Flwyddyn RCN mewn seremoni fawreddog yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd. Cyflwynwyd y wobr i Stephanie am Wella Iechyd Unigolion a'r Boblogaeth.

Cafodd ymdrechion cydweithwyr a oedd yn gyfrifol am yr ymgyrch brechu rhag y fflw eu cydnabod drwy wobr cyflawniad arbennig yng Ngwobrau Curwch Ffliw 2018-19. Mae'r Wobr Cyflawniad Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd Curwch Ffliw yn cael ei dyfarnu'n seiliedig ar ddata nifer y rhai sy'n cael brechlyn fflw cenedlaethol yn staff holl sefydliadau GIG Cymru.

Ym mis Rhagfyr, enillodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Cydwasanaethau) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru y categori 'Cydweithio' yng Ngwobrau Staff y Cydwasanaethau. Roedd y wobr yn gydnabyddiaeth am waith partneriaeth Cath Thomas, y Rheolwr Cyfleusterau, gyda Tîm Ystadau'r Cydwasanaethau wrth reoli mater anodd yn ymwneud ag ystadau.

Roedd y wobr yn cydnabod unigolyn neu dîm a allai ddangos ymrwymiad eithriadol i weithio mewn partneriaeth, yn fewnol neu'n allanol i'r sefydliad.

Cawsom ein cynnwys yn llwyddiannus ar y rhestr fer ar gyfer dwy wobr yn rowndiau terfynol Gwobrau Cenedlaethol Rhwydwaith Profiad Cleifion (PENNA) ym mis Mawrth 2019. Cafodd Sarah Morgan, Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant, ei henwebu am y gwaith a wnaed ar Ymgysylltu â Staff a Gwella Profiad y Staff. Cafodd ein Harweinydd ar gyfer Profiad Defnyddiwr Gwasanaethau, Junaid Iqbal, ei enwebu mewn partneriaeth â Grŵp Pobl a thrigolion Parc Penrhiw am waith yn ymwneud â gwella iechyd a llesiant. PENNA yw'r rhaglen wobrau gyntaf a'r unig raglen wobrau i gydnabod arfer gorau o ran profiad cleifion ar draws pob agwedd ar iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU.



Diolch!

Gwobrau

Cafodd enillwyr ein gwobrau staff cyntaf yn Iechyd Cyhoeddus Cymru eu cyhoeddi yn ein cynhadledd staff ar 21 Mehefin. Ar draws dri categori, cafwyd bron 70 o enwebiadau gan gydweithwyr sy'n gweithio ar draws ein cyfarwyddiaethau.

Yr enillwyr oedd:

Gwobr Gweithio Gyda'n Gilydd:

Mary Wilson, Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol

Gwobr Tîm Gwneud Gwahaniaeth:

Tîm Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) yn nhîm lleol Aneurin Bevan

Gwobr Unigol Gwneud Gwahaniaeth:

Radiograffydd Bron Brawf Cymru, Alison Sweeney, a'r Uwch-ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Kathryn Cross o dîm lleol Aneurin Bevan

Gwobr Byw'r Gwerthoedd:

Anne Thomas, Rheolwr Ansawdd o Ficrobiolog

Gwobr y Cadeirydd a'r Prif

Weithredwr: Zoe Couzens o Sgrinio Serfigol Cymru

DADANSODDIAD PERFFORMIAD

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru drefniadau rheoli perfformiad ffurfiol ar waith er mwyn monitro a mesur ein perfformiad yn erbyn ein cynllun strategol a'r gwasanaethau allweddol a ddarparwn.

Mae hyn yn rhoi darlun cynhwysfawr o berfformiad ein sefydliad i'n Bwrdd. Mae hefyd yn amlygu unrhyw faterion a risgiau sy'n dod i'r amlwg y gall fod angen camau unioni arnynt, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud popeth y gallwn i sicrhau dyfodol iachach i Gymru.

Gwnaethom gyflawni ein holl ddyletswyddau statudol yn 2018/19, gan gynnwys mantoli'r cyfrifon, a chael Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy. Yn ogystal, er mwyn parhau i ddatblygu fel sefydliad a meithrin cydnherthedd ar draws ein swyddogaethau, unwaith eto llwyddom i greu cronfa fuddsoddi fewnol i ysgogi gwelliannau ym mhopeth a wnawn.

Cafodd y llwyddiannau allweddol hyn, ymhlith sawl llwyddiant arall, eu hamlygu'n ddiweddar yn ein hadolygiad perfformiad dwywaith y flwyddyn o'n Tîm Gweithredol ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru, sy'n rhan o'n trefniadau atebolrwydd ffurfiol.

Gwnaethom barhau i aeddfedu ein trefniadau rheoli perfformiad ac adrodd yn ystod 2018/19 fel ein bod mewn sefyllfa well i fonitro ein cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau strategol a'n mesurau perfformiad allweddol. Cofnodwyd cynnydd yn erbyn trefniadau cyflawni ein cynllun fel rhan o'n camau yn ein cynllun blynyddol, a chafodd ei adrodd i'n Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn chwarterol. Ar ddiwedd 2018/19, gwnaed cynnydd da yn erbyn ein cynllun blynyddol, gydag thros 79% o'r camau gweithredu (275 o gamau gweithredu) yn cael eu cwblhau. Roedd 15 y cant o'r camau gweithredu (52) y tu ôl i'r amserlen a heb eu cwblhau o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, ac roedd 6% o'r camau gweithredu (22) wedi'u hoedi oherwydd rhesymau y tu hwnt i reolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gwnaed y cynnydd mwyaf yn erbyn *Cefnogi datblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar* (blaenoriaeth 6), gydag 87% o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt (66 o'r 76 o gamau gweithredu). Gwnaeth y blaenoriaethau strategol *Sicrhau dyfodol iach i'r genhedlaeth nesaf* (blaenoriaeth 4), *Diogelu'r cyhoedd rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol i iechyd* (blaenoriaeth 5) ac *Adeiladu a symud gwybodaeth a sgiliau i wella iechyd a llesiant ar draws Cymru* (blaenoriaeth 7) i gyd gwblhau o leiaf 80% o'u camau gweithredu. Gwnaed llai o gynnydd yn erbyn *Hyrwyddo ymddygiad iach* (blaenoriaeth 3) gyda thros draean o gamau gweithredu (39%) heb eu cwblhau o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Roedd cyfran sylweddol o'r rhain yn sgil oedi mewn perthynas â diffyg capasiti a methu recriwtio i rolau allweddol. Mae cynlluniau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith i hyrwyddo'r materion hyn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a chaiff perfformiad ei fonitro fel rhan o'n trefniadau atebolrwydd parhaus.

Mae adroddiad cynnydd llawn ar ddiwedd 2018/19 gan gynnwys rhagor o wybodaeth am gamau gweithredu heb eu cwblhau wedi'u cynnwys yn **Adroddiad Perfformiad Integredig Mawrth 2019** (tt. 22-53). (saesneg yn unig)



Blaenoriaethau Strategol 2018/19

1

Dylanwadu ar benderfyniaddion ehangach iechyd

2

Gwella llesiant meddyliol a chydnerthedd

3

Hyrwyddo ymddygiad iach

4

Sicrhau dyfodol iach i'r genhedlaeth nesaf

5

Diogelu'r cyhoedd rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol i iechyd

6


Cefnogi datblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar

7


Adeiladu a symud gwybodaeth a sgiliau i wella iechyd a llesiant ar draws Cymru

Ffigur 1: Cynnydd cyffredinol ar draws bob cynllun

Y tu ôl i'r amserlen a heb eu cwblhau o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt (52 o gamau gweithredu)



Ffigur 2: Cynnydd yn erbyn Blaenoriaethau Strategol



Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg yn erbyn detholiad o'n mesurau perfformiad allweddol. Er mwyn helpu i gefnogi gwelliannau ym mhob un o'n gwasanaethau, pennwyd nifer o dargedau uchelgeisiol yn ein Cynllun Strategol i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon y gallwn. Adroddwyd am y mesurau hyn fel rhan o adroddiad perfformiad integredig sy'n darparu gwybodaeth allweddol am ein perfformiad gweithredol, pobl, ansawdd a pherfformiad ariannol i amlygu gwelliannau o ran perfformiad yn ogystal â meysydd lle mae angen i ni wella. Mae ein Tîm Gweithredol yn craffu ar y wybodaeth hon yn fisol ac mae ein Bwrdd yn craffu arni bob yn ail fis ym mhob cyfarfod Bwrdd ffurfiol.

Rhoddir trosolwg naratif ar gyfer pob maes, sy'n tynnu sylw at ein perfformiad diweddaraf ac unrhyw gyflawniadau a heriau allweddol a brofwyd gennym ym mhob maes. Ategir hyn gan dablau data atodol sy'n crynhoi ein perfformiad yn 2018/19, ynghyd â data cymharol ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol (lle maent ar gael).

Mae ein ffigurau diweddaraf yn amlygu darlun cymysg o berfformiad o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Er y gwnaed gwelliannau mewn nifer o feysydd, mae heriau o hyd o ran cyflawni neu gynnal targedau a safonau cenedlaethol y cytunwyd arnynt Iechyd Cyhoeddus Cymru ar draws nifer o'n gwasanaethau.



Rhoi'r gorau i smygu

Tybaco yw'r ffactor risg uchaf unigol uchaf ar gyfer marwolaeth cynamserol ac anabledd yn y DU. Mae'n achosi bron un o bob pump o'r holl farwolaethau a thua thraean o'r anghydraddoldeb mewn marwolaethau rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Mae helpu i leihau nifer y bobl sy'n smygu yng Nghymru yn parhau i fod yn elfen allweddol o'n gwaith ochr yn ochr â'n partneriaid, wrth i ni geisio cyrraedd targed Llywodraeth Cymru, sef lleihau cyfraddau smygu i 16% erbyn 2020.

Mae ein gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn rhoi mynediad i smygwyr i holl wasanaethau rhoi'r gorau i smygu y GIG yng Nghymru, gan ei gwneud yn haws i smygwyr ddewis y cymorth rhoi'r gorau i smygu gan y GIG sy'n fwyaf addas iddyn nhw yn eu hardal leol. Roedd y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y ganran o oedolion sy'n smygu a wnaeth ymgais i roi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i smygu yn 2.2% ar ddiwedd chwarter 3 yn 2018/19, yn erbyn targed blynyddol o 5%. Er nad yw'r system yn cyflawni'r targed ar hyn o bryd, ceir tystiolaeth o gynnydd amlwg mewn smygwyr sy'n cysylltu â Helpa Fi i Stopio, ac sy'n derbyn cymorth.

O gymharu â 2018, roedd canran y cysylltiadau wedi cynyddu 20.5% (cyfanswm o 4,455 o smygwyr) yn chwarter 4.

Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer Dim Smygu Cymru yn dangos bod canran carbon monocsid smygwyr a ddilyswyd yn llwyddiannus wedi rhagori ar y targed o 40% ac roedd yn 46.8% yn 2018/19. At hynny, roedd canran y smygwyr a gafodd driniaeth a roddodd y gorau i smygu ar ôl 4 wythnos (hunangofnodwyd) wedi cynyddu o 64% i 66.5% dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n parhau i fod yn uwch na'r lefelau targed. Er bod yr amser aros cyfartalog am apwyntiad wedi cynyddu ychydig bach o wyth i naw diwrnod dros yr un cyfnod, mae'n parhau'n sylweddol o fewn y targed (14 diwrnod). Gostyngodd canran y smygwyr sydd wedi'u trin sydd â darlenniad carbon monocsid ar ôl 4 wythnos yn 2018/19 (i lawr 3.6% i 70.3%) ac mae'n dal o dan y targed, sef 80%. Mae'r perfformiad yn parhau i fod yn unol â disgwyliadau'r gwasanaeth drwy gyflwyno Helpa Fi i Stopio, a dylid hefyd ei ystyried yn erbyn gostyngiad cefndir o ran presenoldeb mewn gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu ar draws y Deyrnas Unedig.

		Perfformiad		
Dangosydd	Safon/ Targed	16/17	17/18	18/19
Helpa Fi i Stopio *				
Canran yr oedolion sy'n smygu sy'n ceisio rhoi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i smygu:	5% (Targed blynyddol)	Data ddim ar gael	Data ddim ar gael	2.2% (yn Chwarter 3)
Canran y smygwyr lle dilyswyd iddynt roi'r gorau iddi'n llwyddiannus yn ôl lefelau CO	40%	42.1%	48.9%	47%
Dim Smygu Cymru				
Canran y smygwyr gyda lefelau carbon monocsid a ddilyswyd fel rhai llwyddiannus	40%	48.9%	47%	46.8%
Amser aros ar gyfartaledd am apwyntiad yn y mis hwn (diwrnodau)	14 diwrnod	7	8	9
% y smygwyr wedi'u trin sydd wedi cael darlenniad carbon monocsid ar ôl 4 wythnos	80%	80.5%	73.9%	70.3%
% y smygwyr wedi'u trin a roddodd y gorau i smygu ar ôl 4 wythnos (hunangofnodedig)	50%	61.9%	64%	66.5%
Rhaglen Atal Smygu				
Nifer yr ysgolion uwchradd a dargedwyd	60	67	57	58

* Mae Helpa Fi i Stopio yn fodel newydd ar gyfer gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu yng Nghymru, ac mae'n canolbwyntio ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir a chanlyniadau yn hytrach na chyfaint. Felly nid oes modd cymharu data ar gyfer blynyddoedd blaenorol



Gorbwysedd a gordewdra plant

Mae Rhaglen Mesur Plant Cymru yn rhaglen oruchwylio a sefydlwyd fel y gallwn ddeall yn well sut y mae plant yng Nghymru yn tyfu. Bydd y wybodaeth a gesglir yn helpu pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill y sector cyhoeddus i ddeall patrymau twf plant fel y gallant gynllunio gwasanaethau yn unol â hynny.

Yn genedlaethol, cafwyd gwelliant o 0.7% o ran canran y plant 4/5 oed sy'n cael eu categorioedd fel rhai dros bwysau neu ordew dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda mwy na chwarter y plant (26.4%) yn y dosbarth derbyn wedi'u dosbarthu fel rhai dros eu pwysau neu'n ordew (i lawr o 27.1% yn ystod y flwyddyn flaenorol).

		Perfformiad		
Dangosydd	Safon/ Targed	16/17	17/18	18/19
Plant dros eu pwysau neu'n ordew ²				
Canran y plant dosbarth derbyn (4/5 oed) y dosbarthwyd eu bod dros eu pwysau neu'n ordew *	Gostyngiad	27.1%	26.4%	Data ddim ar gael

* Mae datganiad 2019 ar gyfer Rhaglen Mesur Plant Cymru yn ymwneud â'r canfyddiadau o fesuriadau plant pedair i bump oed yn y dosbarth derbyn yn ystod blwyddyn academaidd 2017-2018



Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff

Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff yn gynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'i ddatblygu i safoni cyfleoedd i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff ar draws pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae'r cynllun yn targedu cleientiaid sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd cronig drwy roi cyfle iddynt gael mynediad at raglen ymarfer corff o

safon, wedi'i goruchwylio i wella eu hiechyd a'u llesiant.

Yn 2018/19, gwnaed dros 32,600 o atgyfeiriadau i'r cynllun, gan ragori ar ein targed o ychydig dros 23,000 o atgyfeiriadau am y tair blynedd diwethaf. O'r rhain, cafodd dros 19,300 o unigolion ymgynghoriad cyntaf a chwblhaodd dros 10,200 ohonynt yr ymgynghoriad 16 wythnos, a ragorodd ar y priod dargedau unwaith eto.

		Perfformiad		
Dangosydd	Safon/ Targed	16/17	17/18	18/19
Rhaglenni Gwella Iechyd				
Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff – Nifer yr atgyfeiriadau	23,184	30,919	32,775	32,691
Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff – nifer yr ymgynghoriadau 1af	16,228	18,307	19,694	19,312
Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff – nifer yr ymgynghoriadau 16 wythnos	6,492	8,927	9,509	10,284

Cymru Iach ar Waith

Mae Cymru Iach ar Waith yn cefnogi pobl yng Nghymru i ddychwelyd i'r gwaith ac aros yn y gwaith yn hwy drwy hybu iechyd a llesiant, cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith a ffyrdd iach o fyw i helpu i leihau salwch ac absenoldeb. Cyflwynir y rhaglen mewn partneriaeth gan Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Sicrhodd Cymru Iach ar Waith fod 38 o sefydliadau wedi cwblhau asesiad llawn, yn erbyn targed diwygiedig o 25 (20 yn flaenorol).

Er bod nifer y sefydliadau a gyflawnodd wobwr gweithle bach wedi cynyddu o 60 i 78, roedd yn fyr o gyflawni'r targed diwygiedig, sef 100 o sefydliadau (80 yn flaenorol). Rhagwelir y bydd gweithredu model cyflawni newydd Cymru Iach ar Waith a fydd yn cynnwys ffyrdd newydd o weithio yn helpu i wella cyrhaeddiad i sefydliadau bach a chanolig yn ystod 2019/20.

		Perfformiad		
Dangosydd	Safon/ Targed	16/17	17/18	18/19
Rhaglenni Gwella Iechyd				
Cymru Iach ar Waith - sefydliadau a gwblhaodd asesiad llawn Safon Iechyd Corfforaethol *	25	25	38	38
Cymru Iach ar Waith - sefydliadau a gyflawnodd Wobr Iechyd y Gweithle Bach *	100	57	60	78
Cymru Iach ar Waith - Sefydliadau a gwblhaodd ffug asesiad Safon Iechyd Corfforaethol	25	21	25	30
Cymru Iach ar Waith - Sefydliadau'r sector preifat a gwblhaodd ffug asesiad	15	8	12	15
Cymru Iach ar Waith - Sefydliadau sector preifat a gwblhaodd asesiad llawn	25	25	39	38

* Cafodd targedau ar gyfer rhaglen ddethol Cymru Iach ar Waith eu diwygio yn dilyn cytundeb â Llywodraeth Cymru yn 2018/19

Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Mae Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru yn annog datblygu cynlluniau ysgolion iach lleol o fewn fframwaith cenedlaethol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn cydnabod bod y rhwydwaith yn chwarae rôl allweddol o ran hybu iechyd plant a phobl ifanc, ac mae'r cynllun wedi'i gyflwyno ledled Cymru ers 2000. Mae pob cynllun lleol yn gyfrifol am gynorthwyo datblygu ysgolion sy'n hybu iechyd yn ei ardal.

Yn ystod 2018/19, cyflawnodd 218 o ysgolion y wobwr 1-5, yn erbyn targed o 180 o ysgolion. Fodd bynnag, gostyngodd nifer yr ysgolion a oedd yn ymgymryd â'r Wobwr Ansawdd Genedlaethol o 29 i 21 dros y flwyddyn ddiwethaf, yn erbyn targed o 35 o ysgolion.

		Perfformiad		
Dangosydd	Safon/ Targed	16/17	17/18	18/19
Rhaglenni Gwella Iechyd ³				
Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru - Ysgolion a gyflawnodd wobwr lefel 1-5	180	228	225	218
Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru - Ysgolion a wnaeth ymgymryd â'r Wobwr Ansawdd Genedlaethol	35	34	29	21

Gwasanaeth Diogelu Iechyd Cenedlaethol

Un o'n swyddogaethau statudol allweddol yw paratoi ar gyfer bygythiadau heintus ac amgylcheddol presennol a newydd i iechyd ac ymateb iddynt a'u rheoli'n effeithiol. Mae ein timau diogelu iechyd a microbioleg wedi cael blwyddyn eithriadol o brysur yn ymateb i achosion (gan gynnwys Twbercwlosis, E-coli a Hepatitis A) a digwyddiadau fel rhan o'u busnes gweithredol craidd wrth fabwysiadu technolegau newydd i ymateb yn well i fygythiadau o'r fath.

Ochr yn ochr â'n labordai Microbioleg yn cyflawni ailachrediad UKAS, rydym yn parhau i ddarparu gwasanaeth 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn i ymateb i fygythiadau clefydau heintus i boblogaeth Cymru. Mae hyn yn golygu bod angen perthynas waith agos rhwng ein gwasanaethau Diogelu Iechyd a Microbioleg.

Gwnaethom hefyd sefydlu trefniadau cynllunio at argyfwng ac adnewyddu ein cynllun argyfwng, wrth arwain gwaith paratoi Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer effaith y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Er mwyn cydnabod heriau'r bygythiadau hyn i iechyd, mae'n hanfodol ein bod yn cryfhau cadernid gwasanaethau Diogelu Iechyd yng Nghymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cydnabod bod angen iddo foderneiddio, trawsnewid ei wasanaeth heintiau, ac ailddiffinio model Gwasanaeth Diogelu Iechyd Cenedlaethol (NHPS), i Gymru. Mae'r cyflymdra cywir o ran dyrannu egni ochr yn ochr ag adnoddau newydd a phresennol yn hanfodol er mwyn sicrhau newid heb ansefydlogi'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd.

Fel rhan o'r broses hon, bydd angen i ni adolygu ein mesurau perfformiad allweddol yn y meysydd hyn er mwyn sicrhau ein bod yn gallu monitro ein cynnydd wrth dynnu sylw at unrhyw broblemau posibl.

		Perfformiad		
Dangosydd	Safon/Targed	16/17	17/18	18/19
Microbioleg *				
Statws achrediad UKAS i ISO 15189:2012 ar gyfer Microbioleg ac ISO 17025:2005 ar gyfer labordai Bwyd, Dŵr ac Amgylcheddol ar gyfer cwmpas diffiniedig	Achrededig	Achrededig	Achrededig	Achrededig

* Labordai microbioleg wedi'u hachredu gan Achrediad Patholeg Clinigol (DU) yn 2016/17

Brechu ac Imiwneiddio

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i gefnogi byrddau iechyd, drwy ddatblygu polisiâu, hyfforddiant a rhoi gwybodaeth, er mwyn cyflawni targedau mewn perthynas â nifer o ddangosyddion brechu ac imiwneiddio allweddol. Ers y llynedd, rydym wedi gweld darlun amrywiol ar draws nifer o'n mesurau perfformiad allweddol.

Gwelwyd y gwelliant mwyaf yng nghanran y plant a gafodd ddau ddos o'r brechlyn MMR erbyn 5 oed (gwelliant o 2.7%), a chanran y rhai a gafodd yr holl frechiadau arferol yn ystod plentyndod yn 4 oed (gwelliant o 2.3%).

Er bod gostyngiad bach o ran canran y plant a gafodd 3 dos o'r brechlyn '6 mewn 1' erbyn 1 oed o gymharu â'r llynedd (gostyngiad o 0.5%), mae'n dal yn uwch na'r lefelau targed cenedlaethol. Er y gwelwyd gwelliannau o ran brechu rhag y ffliw ymhlith menywod beichiog (gwelliant o 1.5%), roedd perfformiad ar draws y grwpiau targed eraill wedi gostwng yn 2018/19.

Ceir gwybodaeth fanylach am bob bwrdd iechyd yn:
<https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau>

		Perfformiad		
Dangosydd	Safon/ Targed	16/17	17/18	18/19
Brechu ac Imiwneiddio				
Derbyn yr holl frechiadau plentyndod arfaethedig yn 4 oed	95%	84.6%	84.9%	87.2%
Canran y plant a gafodd 3 dos o'r brechlyn '6 mewn 1' erbyn 1 oed	95%	96.3%	95.9%	95.4%
Canran y plant a gafodd ddau ddos o'r brechlyn MMR erbyn 5 oed	95%	90.3%	89.5%	92.2%
Canran y rhai a gafodd eu brechu rhag y ffliw ymhlith y rhai 65 oed a hŷn	75%	66.7%	68.8%	68.3%
Canran y rhai a gafodd eu brechu rhag y ffliw ymhlith y rhai o dan 65 oed mewn grwpiau risg uchel	55%	46.9%	48.5%	44.1%
Canran y rhai a gafodd eu brechu rhag y ffliw ymhlith menywod beichiog*	75%	76.8%	72.7%	74.2%
Canran y rhai a gafodd eu brechu rhag y ffliw ymhlith gweithwyr gofal iechyd rheng flaen	60%	51.5%	57.9%	55.5%

* Mae'r data diweddaraf ar gyfer canran y rhai a gafodd eu brechu rhag y ffliw ymhlith menywod beichiog yn unig yn cynnwys data am y rhifiadur (h.y. nifer y menywod beichiog sydd wedi cael eu brechu) ac mae'n eithrio data enwadur oherwydd y gallai fod yn gamarweiniol

Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd

Mae heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn heintiau sy'n datblygu o ganlyniad uniongyrchol i driniaeth feddygol neu lawfeddygol neu gyswllt mewn lleoliad gofal iechyd. Gellir eu dal mewn ysbytai, lleoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol yn y gymuned a gallant effeithio ar gleifion a gweithwyr gofal iechyd. Mae Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd cyffredin yn cynnwys Clostridiwm difficile (C.difficile), Staffylococws awrëws (Staff. awrëws), a bacteremia E.coli (E.coli).

Yn 2018/19 gwnaethom fonitro nifer yr heintiau hyn yn fisol ar gyfer holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG sy'n trin cleifion mewnol yng Nghymru.

Gwnaethom barhau i ddarparu arweinyddiaeth strategol i'r GIG mewn ymateb i heriau Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd. Ymhlith yr enghreifftiau o'r ffordd rydym wedi cefnogi'r GIG mae sefydlu Cydweithrediaeth genedlaethol ar gyfer Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd, dan arweiniad ar y cyd ein Gwasanaeth Gwellla 1,000 o Fywydau a'n Tîm Diogelu Iechyd, a'n cefnogaeth i'r Prif Swyddog Meddygol wrth ddatblygu cynllun cenedlaethol i fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i ddarparu cefnogaeth a chynghor arbenigol i leihau cyfraddau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yng Nghymru.

Mae ffigurau diweddaraf Cymru wedi dangos gostyngiadau yng nghyfraddau C.difficile, Staff awrëws ac E.coli o'u cymharu â'r llynedd, er eu bod yn parhau i fod yn uwch na'r disgwyliadau o ran gostyngiadau cenedlaethol ar gyfer Cymru. Roedd y gwelliannau'n arbennig o amlwg ar gyfer cyfraddau C.difficile, sydd wedi gostwng o 36.8 i 26.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth rhwng 2017/18 a 2018/19. Gwelwyd gostyngiadau yn y cyfraddau E.coli hefyd, o 83.3 i 79.5 fesul 100,000 rhwng 2017/18 a 2018/19. Mae cyfraddau staffylococws awrëws wedi parhau'n fwy cyson dros yr un cyfnod (o 29.9 i 29.5 fesul 100,000).

Ceir gwybodaeth fanylach am bob bwrdd iechyd yn:

<https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/rhaglen-heintiau-cysylltiedig-a-gofal-iechyd-ymwrthedd-i-wrthfotigau-a-rhagnodi-harp>

		Perfformiad		
Dangosydd	Safon/ Targed	16/17	17/18	18/19
Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd				
Cyfradd clostridiwm difficile (fesul 100,000 o'r boblogaeth)	≤26	33.6	36.8	26.6
Cyfradd staffylococws awrëws (fesul 100,000 o'r boblogaeth)	≤20	27.1	29.9	29.5
Cyfradd bacteremia E.Coli (fesul 100,000 o'r boblogaeth)	≤67	81.9	83.3	79.5



Sgrinio

Un o'n swyddogaethau statudol yw darparu rhaglenni sgrinio sy'n seiliedig ar boblogaeth. Rydym yn darparu saith rhaglen sgrinio genedlaethol ac yn cydlynu rhwydwaith clinigol a reolir Cymru gyfan ar gyfer sgrinio cynnedigol. Mae ein rhaglenni naill ai'n gymorth ataliol sylfaenol i geisio lleihau achosion o glefydau (e.e. Sgrinio Serfigol) neu'n gymorth ataliol eilaidd i geisio diagnosis cynnar i leihau effaith y clefyd (e.e. Sgrinio'r Fron).

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud cynnydd o ran llwyddo i weithredu profion Feirws Papiloma Dynol fel y profion sylfaenol ar gyfer y rhaglen Sgrinio Serfigol – y wlad gyntaf yn y DU i weithredu argymhelliad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ar gyfer y prawf mwy cywir a sensitif. Gwnaethom hefyd gyflwyno'r prawf newydd fesul cam ar gyfer Sgrinio Coluddion Cymru ym mis Ionawr 2019, ac rydym wedi cwblhau gwaith sicrhau ansawdd yn llwyddiannus ar gyfer rhaglenni Sgrinio'r Fron a Sgrinio Coluddion a phrin iawn oedd y pryderon a nodwyd.

Blaenoriaeth allweddol i ni dros y blynyddoedd diwethaf fu cynnal neu wella ein perfformiad ym mhob un o'n rhaglenni. Nodir hyn yn ein Cynllun Strategol ac mae'n seiliedig ar gyfres o fesurau perfformiad, a adnewyddwyd gennym yn 2017/18, er

mwyn mynd ati i fonitro cynnydd pob rhaglen. Yn dilyn y cynnydd a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod cynnal neu wella perfformiad ar draws ein gwasanaethau sgrinio'n cyflwyno heriau o hyd. Gellir gweld gwelliannau cymedrol ers y llynedd ar gyfer Bron Brawf Cymru o ran anfonir canlyniadau normal o fewn pythefnos i'r prawf sgrinio, Sgrinio Serfigol o ran aros am ganlyniadau o fewn 4 wythnos, cwmpas Sgrinio Coluddion, ac ar gyfer dangosyddion sgrinio Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen a Sgrinio Clyw Babanod.

Rydym yn parhau i weld heriau yn ein rhaglen Sgrinio Coluddion o ran amseroedd aros ar gyfer colonosgopi, gyda gostyngiad o 9% mewn perfformiad o gymharu â'r llynedd, a gostyngiad o 47.2% yn erbyn ffigurau 2016/17. Mae lefelau staffio meddygol isel mewn rhai ardaloedd byrddau iechyd yn parhau i fod yn broblem sylweddol i'r gwasanaeth, gydag ymdrechion cadarn yn cael eu gwneud i ystyried hyfforddi staff meddygol ychwanegol a mentoriaeth. Ochr yn ochr â chyflwyno'r prawf FIT (profion imiwnocemegol ysgarthol) newydd ar ddechrau 2019, mae ymgysylltu parhaus â Byrddau Iechyd ar golonosgopi wedi dechrau esgor ar ganlyniadau cadarnhaol o ran prydlondeb a oedd yn arbennig o amlwg tuag at ddiwedd 2018/19.



Yn dilyn gwelliant o ran y gyfradd ailadrodd y gellir eu hosgoi sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig a welwyd y llynedd (4.8%), mae'r data diweddaraf ar gyfer 2018/19 yn dangos dirywiad mewn perfformiad ar 7.3% yn 2018/19, yn erbyn safon o $\leq 2\%$. Mae tanberfformiad parhaus oherwydd materion yn ymwneud â chael samplau smotyn gwaed o ansawdd da, cwblhau gwybodaeth ar y cerdyn yn gywir a sicrhau nad yw'r cerdyn wedi dod i ben. Mae lleihau cyfraddau ailadrodd y gellir eu hosgoi yn parhau'n ffocws i'r rhaglen, ac rydym yn cynnal sesiynau hyfforddi ar ansawdd samplau mewn byrddau iechyd er mwyn ysgogi gwelliannau yn y maes hwn.

Cyflwynwyd adroddiad ar berfformiad ein rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru i'n Bwrdd am y tro cyntaf yn

2018/19, ar ôl ei throsglwyddo i ni o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Er ein bod yn cydnabod y bu heriau, yn enwedig o ran llythyrau a argraffwyd o fewn 3 wythnos i'r dyddiad sgrinio (35.2%), bydd gwaith penodol yn cael ei wneud i wella ein perfformiad yn 2019/20, ar ôl gweithredu proses o ailstrwythuro rheolaeth.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwelliannau a gafwyd tra'n cefnogi meysydd lle mae heriau o hyd er mwyn gwella canlyniadau i'n defnyddwyr gwasanaethau. Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad pob rhaglen yn: www.screeningforlife.wales.nhs.uk

		Perfformiad		
Dangosydd	Safon/Targed	16/17	17/18	18/19
Sgrinio*				
Sgrinio'r fron: anfonwyd canlyniadau normal o fewn pythefnos i'r prawf sgrinio	90%	98.0%	91.4%	92.3%
Sgrinio'r fron: apwyntiadau asesu o fewn tair wythnos i'r prawf sgrinio	90%	69.2%	65.1%	65.5%
Sgrinio'r fron: canran y menywod a wahoddwyd o fewn 36 mis i'r sgrinio blaenorol	90%	84.7%	88.6%	86.5%
Cwmpas sgrinio serfigol	80%	77.1%	76.3%	75.5%
Amseroedd aros sgrinio serfigol ar gyfer canlyniadau: o fewn pedair wythnos	95%	94.8%	93.3%	93.9%
Cwmpas sgrinio coluddion	60%	52.0%	52.2%	53.6%
Amser aros sgrinio coluddion ar gyfer colonosgopi	90%	85.7%	47.5%	38.5%
Canran a gafodd oruchwyliaeth ymlediad aortaidd yn yr abdomen: bach	90%	92.6%	91.0%	91.4%
Canran a gafodd oruchwyliaeth ymlediad aortaidd yn yr abdomen: canolig	90%	94.2%	90.9%	94.2%
Canran sgrinio clyw babanod sy'n cwblhau'r rhaglen o fewn pedair wythnos	90%	98.7%	98.4%	98.6%
Canran sgrinio clyw babanod sy'n cwblhau'r weithdrefn asesu erbyn tri mis oed	85%	92.7%	89.8%	92.6%
Cwmpas sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig	95%	94.2%	94.4%	93.2%
Cyfradd ailadrodd y gellir ei osgoi sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig	≤2%	5.6%	4.8%	7.3%
Cwmpas Sgrinio Llygaid Diabetig - canlyniad a nodwyd yn y 12 mis diwethaf	80%	Data ddim ar gael	Data ddim ar gael	67.5%
Llythyrau Canlyniadau Sgrinio Llygaid Diabetig wedi'u hargraffu o fewn 3 wythnos i'r dyddiad sgrinio	85%	Data ddim ar gael	Data ddim ar gael	35.2%

* Mae ffigurau'r rhaglen sgrinio a gyflwynwyd ar gyfer 2018/19 yn ymwneud â pherfformiad gweithredol y rhaglenni hyn yn ystod y flwyddyn a nodwyd. Maent yn cynrychioli carfan wahanol i'r cyfranogwyr a wahoddwyd yn ystod y flwyddyn honno, y mae angen amser arnynt er mwyn cwblhau unrhyw weithgarwch cysylltiedig cyn y gellir cyhoeddi'r Ystadegau Swyddogol

Ein staff a'n hadnoddau

Yn ystod 2018/19, gwnaethom barhau i ddatblygu ein dull o ran rheoli data perfformiad gweithlu allweddol ar draws ein sefydliad, gan gynnwys adroddiadau gwirfoddol ar ein 'bwlch cyflog rhwng y rhywiau' cyn y gofyniad ehangach i wneud hynny yng Nghymru yn 2019. Cyflwynwyd adroddiad ar y wybodaeth hon, ochr yn ochr â dangosyddion perfformiad ar salwch, hyfforddiant statudol a gorfodol, trosiant ac arfarniadau, i'r Bwrdd yn fisol a'u cynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig.

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos ein bod wedi gweld gwelliant ar draws y rhan fwyaf o'n ffigurau gweithlu. Mae ein cyfradd absenoldeb oherwydd salwch dreigl wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf ac, ar hyn o bryd, mae'n 3.87% (i lawr o 4.01% y llynedd), sy'n uwch na'r targed cenedlaethol, sef 3.25%. Gyda straen, gorbryder ac iselder yn ffactor sylweddol o ran cyfradd absenoldeb y sefydliad, mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu gyda'r nod o edrych ar hyfforddiant a chefnogaeth i reolwyr llinell a staff.

Mae ein tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol yn blaenoriaethu gwaith yn y maes hwn a bydd yn sail i weithgarwch parhaus i reoli cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch byrdymor a hirdymor.

Mae ymdrech ar y cyd i wella ein cydymffurfiaeth hyfforddiant Statudol a Gorfodol i staff wedi arwain at gynnydd o ran cyfraddau cydymffurfio am y drydedd flwyddyn yn olynol, ac mae bellach yn uwch na'r targed ar gyfer Cymru gyfan, sef 91.8%. Yn yr un modd, rhoddir mwy o sylw yn 2019/20 i wella'r gwaith o gofnodi arfarniadau staff ar-lein oherwydd bod y ffigurau diweddaraf yn gyson is na'r targed ar 55.8%. Gwnaeth canran y staff meddygol sydd wedi cael arfarniad ailddilysu yn y 15 mis diwethaf barhau ar 100% ar gyfer 2018/19.

		Perfformiad		
Dangosydd*	Safon/ Targed	16/17	17/18	18/19
Staff ac Adnoddau*				
Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch (cyfradd dreigl flynyddol)	≤3.25%	3.64%	4.01%	3.87%
Canran cydymffurfio ar gyfer yr holl gymwyseddau Lefel 1 a gwblhawyd o fewn y Fframwaith Sgiliau a Hyfforddiant Craidd	85%	64.8%	86.4%	91.8%
Cydymffurfio ag arfarniad Fy Nghyfraniad – wedi'i gofnodi ar y Cofnod Staff Electronig	90%	Data ddim ar gael	55.8%	55.8%
Canran y staff meddygol sydd wedi cael arfarniad ailddilysu yn y 15 mis diwethaf	100%	100%	100%	100%
Canran y staff a gafodd arfarniad perfformiad sy'n cytuno ei fod yn eu helpu i wella'r ffordd y maent yn gwneud eu gwaith	Gwelliant	54%	58%	55%
Sgôr gyffredinol ymgysylltu â staff	Gwelliant	3.70	3.73	3.86
Canran y staff a fyddai'n fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan eu sefydliad pe bai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas	Gwelliant	60%	71%	76%

* Mae data'r gweithlu wedi'i adrodd gan ddefnyddio cyfuniad o wybodaeth o'n Cofnod Staff Electronig ac Arolwg Staff GIG Cymru ar gyfer 2013, 2016 a 2018

Pryderon a chwynion

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn ymrwymedig i wrando’n astud ac ymateb yn briodol i brofiad defnyddwyr gwasanaethau, cwynion, achosion a honiadau. Mae hyn yn sicrhau bod gwersi’n cael eu dysgu a bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn well. Mae Canllawiau Gweithio i Wella a Pholisïau a Gweithdrefnau Gweithredol yn nodi’r trefniadau a ddefnyddir gan lechyd Cyhoeddus Cymru i reoli pryderon (cwynion, honiadau a digwyddiadau) ac ymateb iddynt. Mae’r Polisiâu a’r Gweithdrefnau’n sicrhau ein bod yn cydymffurfio â **Rheoliadau’r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn (Cymru) 2011**, ac yn gwneud iawn pan fo’n briodol, fel y gall y cyhoedd fod yn glir ynghylch sut i godi pryder neu gŵyn.

Mae pryderon yn rhoi adborth gwerthfawr y mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn awyddus i ddysgu ohono ac ystyfir eu bod yn gyfrwng newid

cadarnhaol. Mae’r Tîm Gweithredol a’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn adolygu adroddiad chwarterol Gweithio i Wella. Diben yr adroddiad hwn yw nodi materion a thriongli themâu i gefnogi dysgu ar draws y sefydliad. Y Panel Profiad a Dysgu Defnyddwyr Gwasanaethau yw’r fforwm ar gyfer sicrhau bod gwersi’n cael eu rhannu ac y creffir arnynt ar draws y sefydliad. Felly, mae’r gwersi a gaiff eu dysgu’n cael eu coladu’n chwarterol a’u cyflwyno i’r Panel. Mae hyn yn galluogi trafod camau gweithredu a chraffu arnynt er mwyn penderfynu a ydynt yn briodol, yn ogystal â rhannu’r gwersi a ddysgwyd yn ehangach.

Yn ystod 2018/19, cafodd lechyd Cyhoeddus Cymru 59 o gwynion, y cafodd 89% ohonynt eu cydnabod o fewn dau ddiwrnod gwaith ac ymatebwyd i 59% ohonynt o fewn yr amserlenni targed, sef 30 diwrnod.

Gwelwyd cynnydd bach yn nifer y cwynion o’r 52 a gafwyd y llynedd. Nododd archwiliad diweddar nifer o resymau sy’n cyfrannu at yr oedi a wynebwyd, gan gynnwys:

- Adolygiadau cancer cyfnod clinigol yn cymryd mwy na 30 diwrnod gwaith
- Y gwaith gwella a wnaed o fewn rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru ac, yn arbennig, y broses ar gyfer ymdrin â chwynion (e.e. ymchwilio i gŵyn ac ymateb yn ffurfiol iddi pan ymdriniwyd â’r gŵyn yn y lle cyntaf fel un ‘yn y fan a’r lle’)
- Roedd sicrhau ansawdd y llythyr ymateb yn cymryd mwy na 5 diwrnod gwaith

Ar ôl gweithredu argymhellion yr archwiliad a monitro ymatebion yn wythnosol, roedd yr amserlenni wedi gwella yn ystod ail hanner 2018/19 gydag 8% (5) o’r pryderon a gafwyd yn torri’r targed ymateb 30 diwrnod gwaith, o gymharu ag 18 o bryderon yn hanner cyntaf y flwyddyn.

Rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru am saith digwyddiad difrifol yn 2018/19. Oherwydd cymhlethdod yr ymchwiliadau, gan gynnwys gwaith adolygu a sicrhau ansawdd helaeth o’n cronfeydd data, a’r angen i gyfeirio at gofnodion a archifwyd, cwblhawyd 57% o’r ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol o fewn yr amserlenni targed. Mae’r gwaith hwn yn parhau i gael ei gymryd o ddifrif ac mae wedi cael ei wneud yn brydlon iawn gan roi’r wybodaeth lawn i Lywodraeth Cymru am yr amgylchiadau’n ymwneud â phob ymchwiliad.

		Perfformiad		
Dangosydd	Safon/Targed	16/17	17/18	18/19
Ansawdd				
Nifer y pryderon/cwynion ysgrifenedig a gafwyd	Dd/B	43	52	59
Nifer y pryderon/cwynion ysgrifenedig yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlenni targed	75%	72%	73%	59%
Nifer y digwyddiadau anffafriol difrifol (SUIs) y rhoddwyd gwybod amdanynt	Dd/B	3	2	7
Ymchwiliadau i ddigwyddiadau anffafriol difrifol a gwblhawyd o fewn yr amserlenni targed	90%	100%	0%	57%

Ansawdd ac Effaith

Yn ystod 2018/19, gwnaethom gyflwyno adroddiadau, am y tro cyntaf, ar nifer o ddangosyddion ansawdd ac effaith, gan gwmpasu'r pum maes a nodwyd yn ein Fframwaith Ansawdd ac Effaith. Mae'r dangosyddion wedi'u datblygu mewn partneriaeth â'n timau a byddant yn ein helpu i fonitro ansawdd ac effaith ein gwaith. Caiff y dangosyddion eu hadolygu'n flynyddol, gan eu bod yn sylfeini pwysig i'r sefydliad wrth newid y diwylliant a chynyddu'r ffocws ar ansawdd ac effaith. Drwy'r roi'r Fframwaith Ansawdd ac Effaith ar waith byddwn yn sicrhau bod y gwaith rydym yn ei wneud o ansawdd uchel, yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd, llesiant ac amddiffyn pobl Cymru, a'i fod yn ddiogel ac yn ddibynadwy.

Rheoli ein risg

Mae rheoli risg yn sylfaenol i redeg sefydliad llwyddiannus sy'n perfformio'n dda. Dylai fod wrth wraidd prosesau penderfynu a dyrannu adnoddau'n weithredol ac yn strategol. Dylai geisio nodi cyfleoedd i arloesi a buddsoddi, ochr yn ochr â'r angen i leddfu risgiau.

Rydym yn parhau i ddatblygu a chryfhau ein trefniadau rheoli risg ar lefel strategol a gweithredol. Yn ystod 2018/19, cyhoeddwyd ein Datganiad Blynyddol cyntaf o Archwaeth Risg.

Mae gwaith wedi'i wneud i sefydlu trefniadau rheoli risg ar bob lefel o'r sefydliad, sy'n cynnwys hyfforddiant parhaus i bob perchennog risg. Mae hyn wedi galluogi'r sefydliad i fesur perfformiad risgiau strategol allweddol, sefydlu ei broffil risg a symbylu dadansoddiad thematig drwy ddefnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a chofrestrau risg lleol.

Datblygu ein trefniadau rheoli perfformiad

Bydd ein Strategaeth newydd yn cynnwys newid sylweddol i'r ffordd rydym yn gweithio, yr hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn dyrannu adnoddau. Er mwyn cefnogi cyflawni ein blaenoriaethau hirdymor newydd, rydym wedi datblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd. Mae hyn yn amlinellu ein huchelgais i weithredu trefniadau rheoli perfformiad effeithiol er mwyn helpu i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau gweithredol a strategol drwy reoli a monitro gwybodaeth am berfformiad mewn modd amserol. Mae'n disgrifio ymrwymiad y Bwrdd i greu system effeithiol o gyflawni a rheoli perfformiad, gyda llinellau clir o adrodd ac atebolrwydd. Mae hyn yn cynnwys y bwriad y bydd pwyllgorau yn darparu sicrwydd allweddol i'r Bwrdd ar dargedau cyflawni. Mae'r Fframwaith wedi'i gynllunio i fod yn sail i'r gwaith parhaus o ddatblygu nodau canlyniadau iechyd ar gyfer y sefydliad, wrth gynorthwyo'r newid diwylliannol sy'n ofynnol i gyflawni ein blaenoriaethau hirdymor.

Er bod y strwythurau a'r prosesau sydd eisoes wedi'u sefydlu ar gyfer rheoli perfformiad yn sylfaen gadarn i ni farnu llwyddiant ein gweithgareddau, bydd cryfhau ein rheoli perfformiad a'n hadrodd yn ein galluogi i reoli perfformiad ein gwasanaethau a'n rhaglenni yn well, a gwella'r perfformiad hwn. Mae hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad tuag at ddull gweithredu adroddiadau perfformiad integredig ar draws y sefydliad cyfan, gan ddefnyddio datblygiadau technolegol, ein ffocws cynyddol ar ddangos gwerth ac effaith ein gwaith, a'n haddewid i ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y gwaith a wnawn.



SUT GWNAETHOM GYFLAWNI EIN HAMCANION LLESIANT

Diben

Rhoi diweddariad diwedd blwyddyn ar ymateb Iechyd Cyhoeddus Cymru i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r cynnydd sefydliadol yn erbyn amcanion llesiant.

Cefndir

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i rym ar 1 Ebrill 2016. Ym mis Mawrth 2018, cyfunodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei flaenoriaethau strategol a'i amcanion llesiant sefydliadol yng nghyd-destun y Strategaeth Hirdymor newydd ac ochr yn ochr â datganiad llesiant wedi'i ddiweddarau¹, y tynnwyd sylw ato wedyn fel arfer gorau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yr Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd

Mae'r Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd yn cefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau yn y Ddeddf ac i achub ar y cyfleoedd a gynigir gan y Ddeddf.

Cefnogi ymateb sefydliadol Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

Mae'r Hyb yn ymgysylltu'n sylweddol â staff i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf, er enghraifft drwy 75 o 'ymgysylltiadau' yn 2018-19 ar draws yr holl gyfarwyddiaethau; drwy weithio'n agos gyda'r arweinyddwyr corfforaethol ar gyfer swyddogaethau cymorth; drwy gyflwyno yn y digwyddiadau 'Croesawu, Ymgysylltu, Rhwydweithio, Datblygu'; a thrwy beilotu dau ddigwyddiad 'marchnad fach iechyd a chynaliadwyedd' i ymgysylltu â chydweithwyr mewn Labordai Microbioleg (Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Singleton). Mae rhagor o sesiynau yn yr arfaeth ar draws Cymru ar ôl myfyrio ar adborth.

Gwella cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae'r Hyb yn helpu i gyflawni rhaglen cynaliadwyedd amgylcheddol Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys cadeirio'r gweithgor 'Arwain, Ymgysylltu a Dysgu' (un o'r pum gweithgor i weithredu'r rhaglen). Wrth symud ymlaen, bydd y rhaglen cynaliadwyedd amgylcheddol yn elwa ar y cymorth sydd ar gael i'r sector cyhoeddus a amlinellwyd yng nghynllun cyflawni carbon isel Llywodraeth Cymru ('Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019), gan gynnwys dangosfwrdd a phecyn cymorth datgarboneiddio. Mae Cymru Carbon Isel yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau weithio tuag at amrywiaeth o gynigion, gan gynnwys newid cerbydau fflyd i rai allyriadau isel iawn a gwahanu gwastraff ailgylchadwy i gydymffurfio â rheoliadau a gyflwynir maes o law.

Sbotolau ar ein cynaliadwyedd amgylcheddol yn 2018-19

- Creu gweithgor 'monitro a gwerthuso' i adrodd ar ddata gwaelodlin a chynnydd drwy fentrau
- Cysoni cyflenwyr ynni o bum cwmni i un darparwr, a fydd yn gwella trefniadau casglu data ac adrodd
- Prynodd 26 o aelodau o staff feiciau drwy'r Cynllun Beicio i'r Gwaith (heb ei newid o 2017-18)

Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o enghreifftiau o weithgarwch sy'n cael ei ddatblygu drwy'r rhaglen.

Datganiad llesiant Iechyd
Cyhoeddus Cymru



¹ Datganiad Llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018): www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/89665

Cynllun Bioamrywiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r Hyb wedi drafftio a chydlynu Cynllun Bioamrywiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru (*'Creu Lle ar gyfer Natur'*) i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthed ecosystemau, a gymeradwywyd gan yr Uwch Dîm Arwain ym mis Mawrth 2019. Mae'r cynllun yn ofyniad statudol yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a bydd yr Hyb hefyd yn helpu gyda'i drefniadau cyflawni ac adrodd (mae angen yr adroddiad cyntaf erbyn diwedd 2019).

Galluogi dull ar y cyd

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddatblygu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i alluogi mwy o gydweithio ac ychwanegu gwerth at ffyrdd presennol o weithio, i gefnogi dull cydweithredol o gyflawni amcanion llesiant. Yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd ym mis Mawrth 2019, mae cynllun gwaith yn cael ei ddatblygu gan grŵp llywio dwyochrog.

Participating in wider networks

Mae'r Hyb yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o rwydweithiau i nodi cyfleoedd i gydweithio er mwyn cyflawni canlyniadau a rennir, gan gynnwys Cydgysylltwyr Datblygu

Cynaliadwy Cymru, Rhwydwaith Cyrff Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, a Cynnal Cymru.

Cydweithiodd yr Hyb â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar raglen waith 'Labordy Byw' i drafod goblygiadau ymarferol y Ddeddf a chefnogi arloesedd, trawsnewid, a newid diwylliannol sefydliadol. Mae'r cydweithrediad 'Labordy Byw' bellach yn canolbwyntio ar thema gordewdra ymhlith plant, gyda mewnbwn gan amrywiaeth o gydweithwyr o gyfarwyddiaethau gwahanol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Sut mae'r Ddeddf wedi gwneud gwahaniaeth?

The Health and Sustainability Hub supports Public Health Wales to meet its duties in the Act and to maximise opportunities afforded by the Act.

Mesur ein cynnydd hyd yma

Mae cryfhau trefniadau rheoli ac adrodd perfformiad wedi'i nodi fel un o'r meysydd allweddol i'w datblygu i helpu i gyflawni ein blaenoriaethau hirdymor. Mae'r penderfyniad i gysoni'r amcanion llesiant â'n blaenoriaethau strategol yn cynrychioli ein datganiad o fwriad o sut y mae ein sefydliad yn ymateb i'r heriau a chyfleoedd iechyd cyhoeddus rydym yn eu hwynebu.

Mae'r cysondeb cryfach yn galluogi ein trefniadau monitro ac adrodd parhaus o'r amcanion llesiant i ddangos cysylltiad clir â sut y mae ein sefydliad yn adlewyrchu ei gyfraniad unigryw i'r saith nod llesiant.

Mae Ffigur 1 yn dangos y perfformiad diweddaraf yn erbyn pob un o'r amcanion llesiant/blaenoriaethau strategol ar ddiwedd 2018/19. Cwblhawyd o leiaf 80 y cant o'r camau gweithredu ar gyfer yr amcanion llesiant canlynol: *Sicrhau dyfodol iach; Diogelu'r cyhoedd; System iechyd a gofal sy'n canolbwyntio ar atal; a Meithrin a defnyddio gwybodaeth a sgiliau*. Roedd canran y camau gweithredu a gwblhawyd yn amrywio o 86 y cant (*System iechyd a gofal sy'n canolbwyntio ar atal*) i 61 y cant (*Hyrwyddo ymddygiad iach*).

Byddwn yn parhau i asesu ein cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion llesiant/blaenoriaethau strategol, yn ogystal ag adeiladu ar brosesau sefydliadol sefydledig i gryfhau ein gallu i adlewyrchu ein cyfraniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Drwy ein trefniadau adolygu perfformiad mewnol, mae pwyslais yn parhau i gael ei roi ar sut y mae cyfarwyddiaethau'n sefydlu'r 'pum ffordd o weithio' yn Neddf

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym hefyd yn tynnu sylw at y cynnydd rydym yn ei wneud yn ein cyfarfodydd atebolrwydd Tîm Gweithredol ar y Cyd â Llywodraeth Cymru a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.


Er mwyn cryfhau ein gallu i adrodd ar gynnydd yn erbyn Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd gwaith yn cael ei ddatblygu drwy ein Fframwaith Rheoli Perfformiad wedi'i ddiweddarau. Mae hwn yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer cyflawni perfformiad, yn ogystal â'n gweledigaeth ar gyfer rheoli perfformiad ac adrodd arno wedi'i gysoni â'n blaenoriaethau hirdymor.

Astudiaethau achos

Mae adolygiadau perfformiad diwedd blwyddyn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi casglu nifer o astudiaethau achos sy'n rhoi enghreifftiau o weithgareddau sy'n cyfrannu at sefydlu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Tynnir sylw at yr astudiaethau achos hyn yn Atodiad 2, yn ogystal â dwy enghraifft fanylach (datblygu 'Gwasanaeth Heintiau Cenedlaethol Cymru' a llunio 'Asesiad o Effaith Brexit' ar Iechyd).


Ffigur 1: Perfformiad yn erbyn amcanion llesiant, 2018/19

Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd




76% 14% 11%
37 o gamau gweithredu

Gwella llesiant meddyliol a chydnerthedd




71% 21% 7%
14 o gamau gweithredu

Hyrwyddo ymddygiad iach




61% 35% 3%
31 o gamau gweithredu

Sicrhau dyfodol iach




81% 13% 6%
16 o gamau gweithredu

Diogelu'r cyhoedd




84% 12% 4%
25 o gamau gweithredu

System iechyd a gofal sy'n canolbwyntio ar atal



86% 7% 7%
73 o gamau gweithredu

Adeiladu a symud gwybodaeth a sgiliau



81% 9% 9%
54 o gamau gweithredu

Cwblhawyd
 Heb ei gwblhau o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt
 Asiantaeth allanol sy'n gyfrifol bellach

Edrych ymlaen – Sefydlu datblygu cynaliadwy: o bwys i bawb

Yn ychwanegol at waith cyfathrebu, cydweithredu ac ymgysylltu parhaus ar draws y sefydliad i godi ymwybyddiaeth ymhellach o'r Ddeddf a gwella dealltwriaeth ohoni, mae enghreifftiau o waith ehangach sydd ar droed neu yn yr arfaeth i sefydlu datblygu cynaliadwy'n cynnwys y canlynol:

Mudiad/ymgyrch 'Byddwch y Newid'



Mae e-ganllawiau ac e-bosteri 'Byddwch y Newid' yn cynnig camau cynaliadwy i herio staff i leihau eu heffeithiau negyddol a sicrhau'r effeithiau cadarnhaol gorau posibl ar draws y nodau llesiant, a chysylltu â gwasanaethau a pholisïau ategol y

sefydliad. Mae'r themâu'n cefnogi pedair colofn datblygu cynaliadwy, ac yn cynnwys amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â Chymru ac yn fyd-eang, gyda'r cynhyrchion presennol yn cynnwys y canlynol:

e-ganllawiau

- **'Cerdded ein sgwrs'** – teithio llesol a chynaliadwy
- **'Lleihau ein mesuriadau gwastraff'** – lleihau'r defnydd o ynni a gwastraff
- **'Creu gweithleoedd cynhwysol'** – cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant
- **'Cynaliadwyedd ar yr agenda'** – cyflawni cyfarfodydd a digwyddiadau cynaliadwy
- **'Treftadaeth iach'** – rhoi bywiogrwydd i iechyd a llesiant drwy'r celfyddydau, diwylliant a'r Gymraeg
- **'Cerdyn awgrymu'** ar y pum ffordd gynaliadwy o weithio

e-bosteri

- Caffael te a choffi Masnach Deg
- Yfed o gwpanau coffi y gellir eu hailddefnyddio
- 'Hanfodion' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Lleihau/dileu eitemau plastig yn y gweithle

Bydd rhagor o adnoddau'n cael eu paratoi yn 2019-20, gan gynnwys e-ganllaw i annog yr holl staff i helpu i gyflawni cynllun bioamrywiaeth y sefydliad.

Detholiad o e-ganllawiau 'Byddwch y Newid'



Hefyd, mae'r Hyb wedi cyd-drefnu rhai digwyddiadau 'Gweithredu' i gynnig cyfleoedd unigryw i staff fodelu ymddygiad penodol yn yr e-ganllawiau. Mae gweithgareddau blaenorol wedi cwmpasu ymweliadau aml-ffydd, sesiynau cyflwyno laith Arwyddion Prydain, a chodi sbwriel mewn grŵp ar gyfer y fenter gweithgarwch corfforol 'Amser i Symud'.

Mae'r tîm hefyd wedi creu'r 'Her Nodau Llesiant', sy'n herio staff i saith diwrnod o fodelu ymddygiad cynaliadwy, o fwydlen sy'n cynnwys deiet carbon isel, lleihau gwastraff, teithio gwyrdd, a defnydd moesegol. Bydd rhagor o ddigwyddiadau a heriau'n cael eu trefnu, yn dilyn eu poblogrwydd ymhlith timau ar draws y sefydliad.

Yng ngoleuni'r potensial i gyrraedd y gweithle sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, mae'r Hyb yn ymgysylltu â chyrrff/sefydliadau cyhoeddus eraill yn y mudiad hwn ar gyfer newid ymddygiad ar lefel unigol. Mae cydweithrediad cyntaf 'Byddwch y Newid' wedi'i ffurfio gyda Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i gydlynio e-ganllaw ar fioamrywiaeth, y gall dros 200 o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru fod yn gynulleidfa iddo drwy Ddeddf yr Amgylchedd.

Offeryn SIFT



Mae'r Hyb yn parhau i ddatblygu'r offeryn 'Gwelliannau Cynaliadwyedd i Dimau' (SIFT) yn dilyn naw prawf hyd yn hyn yn lechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd lechyd Prifysgol Bae Abertawe. Cyflwynodd un prawf, gyda Chwaraeon Cymru, gyfle i drafod a yw'r offeryn yn effeithiol wrth hwyluso newid mewn sector arall. Cyflwynwyd yr offeryn yn nigwyddiad cynllunio hirdymor GIG Cymru ym mis Mawrth. Hefyd, cynhaliwyd sesiwn ym mis Ebrill 2019 gyda'r Fforwm Dyfodol Rhyngwladol i dreialu set o gardiau awgrymu a fydd yn rhoi estyniad ychwanegol i dimau, yn enwedig ar gyfer mynd i'r afael â chymhlethdod.

Amgylcheddau cynaliadwy

Ym mis Ionawr, gan weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, cyflwynodd yr Hyb seminar yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau ynghylch y cyfleoedd i gynyddu mynediad at fannau gwyrdd ar dir GIG Cymru neu'n agos ato, i Gyfarwyddwyr Cynllunio GIG Cymru, Cyfarwyddwyr lechyd y Cyhoedd a Chyfarwyddwyr Ystadau, yn ogystal â rhanddeiliaid ehangach. Mae e-ganllaw wedi'i lunio hefyd i helpu

byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG Cymru i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth yn Neddf yr Amgylchedd.

Cefnogi 'meddwl a gweithio hirdymor'

Cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol, sef 'Ffurio ein Dyfodol yng Nghymru' ym mis Mawrth 2019, ar y cyd â Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru. Aeth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y sector cyhoeddus i'r digwyddiad, gyda chyflwyniadau gan gynnwys Sefydliad Cenedlaethol yr Iseldiroedd ar gyfer lechyd Cyhoeddus a'r Amgylchedd, ac Ysgol Dyfodol Rhyngwladol, yn ogystal â chyfres o weithdai.

Cyfrannu at dreftadaeth iach

Ynghyd â Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, mae nifer o ddigwyddiadau'n cael eu trefnu er mwyn i sefydliadau celfyddydol a diwylliannol arddangos eu gwaith datblygu cynaliadwy a'r cysylltiadau â sicrhau'r iechyd meddwl a llesiant mwyaf posibl (i'w cynnal yn ystod Chwarter 1 2019-20).

Adolygiad llenyddiaeth

Mae adolygiad llenyddiaeth wedi'i gomisiynu i roi crynodeb

o'r dystiolaeth a chanllaw i'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac unrhyw sefydliad yn rhyngwladol, gan geisio ymateb i'r her o wireddu'r pum ffordd gynaliadwy o weithio. Disgwylir cyhoeddi'r adroddiad yn ystod Chwarter 1 2018-19.

Cydlynu ymatebion i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Gweithiodd yr Hyb gyda'r Tîm Strategaeth a Chynllunio i gwblhau'r 'Offeryn Hunanfyfyrion' i roi cynnydd y sefydliad i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol tuag at gyflawni ei amcanion llesiant, yn seiliedig ar Adroddiad Blynyddol 2017-18.

Mae rhaglen 'Y Gallu i Greu' Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddull gweithredu partneriaeth i daflu goleuni ar waith sy'n gwella llesiant mewn cymunedau ledled Cymru, ac sy'n cael ei rannu'n ddwy brif ran:

- **'Newidiadau syml'** sy'n cynnwys 80 o gamau cychwynnol y dylai sefydliadau eu gweithredu
- **'Diogelwyr taith'** sy'n nodi'r camau y dylai cyrrff cyhoeddus eu cymryd wrth symud ymlaen ar eu taith o'r 'newidiadau syml' uchod i 'fod yn fwy anturus' i 'arwain y ffordd' (newid trawsnewidiol), sy'n berthnasol i bob un o'r saith nod llesiant a ffordd 'cynnwys' o weithio



Mae'r Hyb wedi cydlynu ymateb iechyd Cyhoeddus Cymru i'r ymgynghoriad ar y 'diogelwyr taith', yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae'r sefydliad yn mabwysiadu'r 'newidiadau syml'. Bydd y tîm yn parhau i gefnogi Arweinwyr Busnes Cyfarwyddiaethau a'r timau Strategaeth a Chynllunio a Chyfathrebu ar 'Y Gallu i Greu'. Rydym o'r farn bod ein helpu e-adnoddau 'Byddwch y Newid' yn cyd-fynd ag adnoddau 'Y Gallu i Greu' mewn llawer o ffyrdd ac yn croesawu'r alwad am weithredu ar nifer o lefelau, gyda pherthynas gyfatebol glir â'n rhaglen cynaliadwyedd amgylcheddol fewnol.

Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru ac Ewrop

Mae'r Hyb yn gweithio gyda nifer o dimau yn Llywodraeth Cymru i rannu gwersi ac adnoddau wrth ymateb i'r Ddeddf, gan gynnwys argymhell bod cynulleidfau ehangach yn mabwysiadu Offeryn SIFT a 'Byddwch y Newid'. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cynnwys cyfrannu at yr adolygiad cenedlaethol gwirfoddol ar weithredu Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Rhaglen Gweithredu ar y Cyd ar Degwch Iechyd Ewrop 2018-21

Mae Cymru wedi ymrwmo i gymryd rhan yn y Rhaglen Gweithredu ar y Cyd ar Degwch Iechyd Ewrop dros y tair blynedd nesaf fel rhan o'i

hymrwymiad parhaus i'r agenda anghydraddoldebau iechyd. Cymru yw'r unig wlad yn y DU sy'n cymryd rhan, gyda Llywodraeth Cymru yn arwain ar fewnbwn Cymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfrannu at ddau becyn gwaith, ar 'Lywodraethu' (dan arweiniad yr Hyb) ac 'Iechyd a Mudo'.

Mae 25 o wledydd yn cymryd rhan mewn Gweithredu ar y Cyd ar Degwch Iechyd Ewrop, sy'n gyfle pwysig i wledydd weithio ar y cyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a phenderfynyddion iechyd ehangach sylfaenol. Amcan cyffredinol y prosiect yw gwella iechyd a llesiant dinasyddion yr UE a chyflawni mwy o degwch mewn canlyniadau iechyd ar draws pob grŵp mewn cymdeithas. .

Ymgynghoriad Cerrig Milltir Cenedlaethol

Ar ddechrau'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru yn pennu dangosyddion cenedlaethol i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Rhaid i'r Gweinidogion hefyd bennu cerrig milltir cenedlaethol i ddangos disgwyliadau o'r hyn y dylai'r dangosyddion ei ddangos ar adegau penodol yn y dyfodol. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar bennu'r cerrig milltir hyn, a ddaeth i ben ym mis Ebrill. Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru a gydlynodd ymateb y sefydliad.



Atodiad 1: Enghreifftiau o waith yn rhaglen cynaliadwyedd amgylcheddol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae gweithgorau'n ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys y canlynol:

'Monitro a Gwerthuso'

Gwaith cwmpasu i adrodd ar dri mesur Iechyd Cyhoeddus Cymru (milltiroedd busnes, defnydd o ynni a gwastraff) mewn fformat hawdd ei ddefnyddio i staff. Mae'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth i gyfleu diweddariadau rheolaidd (er enghraifft, Microsoft Surface Hubs) yn cael ei drafod.

'Arwain, Ymgysylltu a Dysgu'

Cyfleu adnoddau 'Byddwch y Newid' i dimau ar draws y sefydliad, gan gynnwys timau iechyd cyhoeddus lleol. Cymerodd dros 30 o staff ran yn yr 'Her Nodau Llesiant' gyntaf.

'Teithio Gwyrdd'

Datblygwyd tudalennau teithio gwyrdd ar y Fewnrwyd sy'n cynnwys cyfleu polisiau/gwasanaethau ategol i staff: cynllun beicio i'r gwaith, ad-daliadau 20c i feicwyr a 5c i deithwyr car ar gyfer milltiroedd busnes, a benthyciadau di-log i brynu tocynnau bws/trên blynyddol.

'Lleihau plastigion'

Gweithio i leihau plastigion untro yn Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy fentrau caffael a chanolbwyntio ar leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu.

'Adeiladau, Ynni a Gwastraff'

Adolygu a gwella systemau presennol, gan gynnwys darparwyr ynni, cynhyrchu a gwaredu gwastraff a sbwriel, a chynllunio ar gyfer ystadau yn y dyfodol.

Yn ogystal, mae gwaith caffael cynaliadwy'n cael ei ddatblygu drwy'r grŵp mewnol 'Hyrwyddwyr Caffael'. Bydd y cynllun gwaith yn cynnwys cynaliadwyedd cyfarfodydd a digwyddiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Atodiad 2: Astudiaethau achos

1. Gwasanaeth Heintiau Cenedlaethol Cymru (Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd)



Hirdymor

Mae'r gwaith i sefydlogi a thrawsnewid gwasanaethau microbioleg yn cydbwysu'r anghenion tymor byr i gynnal y gwasanaeth ag anghenion hirdymor poblogaeth Cymru. Bydd Gwasanaeth Heintiau Cenedlaethol newydd Cymru yn mynd i'r afael â'r heriau heintiau a logistaidd a nodwyd ar gyfer y degawd nesaf, ac yn darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf, enghreifftiol a chenedlaethol ar gyfer atal a rheoli heintiau ar lefel y claf unigol, y gymuned leol a Chymru gyfan.



Atal

Yr egwyddorion allweddol ar gyfer Gwasanaeth Heintiau Cenedlaethol effeithiol fydd ei fod yn cefnogi'r canlynol yn gynnar ac yn effeithiol:

- Atal haint (ac ymyrryd yn gynnar)
- Diagnosis o haint
- Trin haint
- Rheoli lledaeniad haint (gan gynnwys ymateb i beryglon iechyd cyhoeddus amgylcheddol)



Integreiddio

Bydd y gwasanaeth newydd yn sefydlu Rhwydwaith Rheoli Heintiau cenedlaethol sy'n integreiddio diogelwch iechyd a gwasanaethau microbioleg clinigol i gyflwyno cymorth canolog a lleol i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Bydd hyn yn gwella'r systemau ar draws gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer rhoi gwybod am haint a'i reoli. Hefyd, bydd y gwasanaeth yn datblygu timau integredig sy'n gyfrifol am atal haint, rheoli haint a goruchwyllo haint.



Cydweithredu

Bydd y trawsnewid yn ceisio atgyfnerthu cydweithredu a chydweithio ledled Cymru, yn enwedig gyda diogelwch cyhoeddus, addysg a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Bydd y rhaglen, a'i ffrydiau gwaith, yn gydweithredol yn ei dull gweithredu. Wrth iddi ddatblygu, bydd y Bwrdd Trawsnewid hefyd yn cynnwys rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr Undeb Llafur a chynrychiolydd Llywodraeth Cymru.



Cyfranogiad

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ffrwd waith ddiffiniedig yn y rhaglen. Mae gwaith mapio rhanddeiliaid eisoes ar droed a bydd cynllun ymgysylltu'n cael ei ddatblygu.

2. Asesiad o Effaith Brexit ar Iechyd (Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol)



Hirdymor

Nododd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd feysydd y bydd hyn yn effeithio arnynt yn y tymor byr a'r hirdymor.



Atal

Nod yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yw helpu i liniaru effeithiau negyddol 'Brexit' (yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd).



Integreiddio

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ystyried 'iechyd' yn yr ystyr ehangaf, sy'n cynnwys yr holl agweddau ar saith nod llesiant Cymru.



Cydweithredu


Datblygwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd drwy gydweithio ar draws y sefydliad. Cynullwyd Grŵp Llywio gydag aelodau o nifer o sefydliadau rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.



Cyfranogiad

Roedd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn gyfranogol ac yn cynnwys cyfweiliadau ag unigolion, ynghyd â gweithdy i gael mewnbwn gan amrywiaeth o randdeiliaid ehangach.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/93597



3. Crynodeb o astudiaethau achos traws-sefydliadol, o adolygiadau perfformiad diwedd blwyddyn gyda Chyfarwyddiaethau

Mae ein cyfarwyddiaethau wedi rhoi astudiaethau achos byr ar sefydlu'r pum ffordd o weithio yn eu hadolygiadau perfformiad diwedd blwyddyn. Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at rai o'r enghreifftiau hyn o waith sy'n defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol..

Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus

1. Prosiect Ailymgysylltu Hepatitis C
2. Gweithredu Gwasanaeth Diagnostig Anadolol Cyflym ar gyfer Gwasanaethau Microbioleg
3. Datblygu gweithlu Gwasanaeth Diogelu Iechyd Cenedlaethol sy'n addas at y diben ar gyfer y dyfodol

Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol

1. Adnewyddu'r Strategaeth Ymchwil
2. Datblygu cynnig ymchwil sy'n trafod llesiant ymhlith nyrsys a bydwagedd sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd
3. Iechyd a Thai

Gwella Ansawdd y GIG, Diogelwch Cleifion a 1000 o Fywydau a Mwy

1. Rhaglen Hunanreoli
2. Strategaeth Gwaedu Obstetreg i Gymru
3. Grŵp Cydweithredol Laparotomi Brys

Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

1. Uwchgynadleddau Ieuenctid a Chwrs Preswyl Ieuenctid
2. Datblygu Matrics Aeddfedwydd Risg
3. Treialu Cwrs Iaith Arwyddion Prydain Lefel 1 i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru

Iechyd a Llesiant

1. Rheoli Tybaco – Helpa Fi i Stopio
2. Gofal Sylfaenol – Asesiad Anghenion Gofal Sylfaenol Cymru Gyfan Integredig
3. 1000 Diwrnod Cyntaf

Pobl a Datblygu Sefydliadol

1. Safon Iechyd Corfforaethol
2. Stonewall
3. Safonau'r Gymraeg

Gweithrediadau a Chyllid

1. Gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru
2. Cynllun Gweithredu Arolwg Staff
3. Canlyniadau profion Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-annedig – Newidiadau TG

A young girl with blonde hair is smiling and holding a dandelion seed head. She is wearing a white t-shirt. The background is a lush green field.

EIN HADRODDIAD CYNALIADWYEDD

Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Cynaliadwyedd yn rhoi crynodeb o berfformiad y sefydliad ar gyfer 2018/19, gan gynnwys gwybodaeth am ein cyflawniadau allweddol. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i sefydlu datblygu cynaliadwy a chyflawni gwelliannau perfformiad go iawn yn y maes hwn.

Cyd-destun Polisi

Rydym wedi llunio'r adroddiad hwn ar gyfer 2018/19 i gydymffurfio â gofynion y sector cyhoeddus a nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i endidau sy'n dod dan gwmpas adrodd ymrwymiadau Materion Gwyrdd y Llywodraeth ac nad ydynt wedi'u heithrio gan gyfyngiad de-minimis nac eithriad arall o dan Faterion Gwyrdd y Llywodraeth (neu bolisiau olynol eraill), lunio adroddiad cynaliadwyedd i'w gynnwys yn y Sylwadaeth Rheoli yn unol â chanllawiau Adrodd ar Gynaliadwyedd yn y Sector Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Cefndir a Phroffil

Sefydlwyd Iechyd Cyhoeddus Cymru fel un o ymddiriedolaethau'r GIG ar 1 Hydref 2009, fel un o gyrff annibynnol y GIG gyda ffocws iechyd clir a phenodol, a chylch gwaith i weithredu ar draws pob maes ymarfer iechyd cyhoeddus.

Rydym yn ddarparwr gwasanaeth pwysig gyda chyrhaeddiad Cymru gyfan. Yn ystod 2018/19, roedd gennym gyllideb flynyddol o £135m, ac rydym yn gyflogwr sylweddol yn y sector cyhoeddus gyda 1,651 o gyflogeion cyfwerth ag amser cyflawn. Rydym yn bodoli er mwyn diogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldeb iechyd i bobl yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gyda'n partneriaid a'n cymunedau, yn y meysydd canlynol:

- Gwella Iechyd
- Gwybodaeth Iechyd
- Diogelu Iechyd
- Microbioleg
- Gwella ansawdd y GIG a diogelwch cleifion
- Gofal sylfaenol, cymunedol ac integredig
- Diogelu
- Gwasanaethau Sgrinio
- Polisi, ymchwil a datblygu rhyngwladol

Mae ystad Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i lleoli ar draws Cymru ac, ar hyn o bryd, mae'n cynnwys 59 o eiddo:

- 23 o eiddo yn Ne-ddwyrain Cymru
- 21 o eiddo yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru
- 15 o eiddo yng Ngogledd Cymru

Defnyddir yr eiddo hyn i gefnogi'r sefydliad fel:

- 26 o Ganolfannau Sgrinio
- 8 Labordy
- 22 o Swyddfeydd
- 1 cyfleuster storio cofnodion
- 2 garej

Mae'r portffolio presennol yn cynnwys eiddo sydd dan berchnogaeth (1), dan brydles (19) neu'n cael eu darparu gan sefydliadau eraill y GIG neu eu rhannu â nhw (39). Mae hyn yn creu her o ran cyflwyno adroddiadau cywir a'r data cynaliadwyedd sydd ar gael. O ganlyniad i'r strwythur presennol, dim ond mewn 23 o eiddo y mae gwybodaeth ariannol ac anariannol ar gael. Yn ogystal, mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fwy o ddata ar gael ar draws y safle y mae'r sefydliad wedi adrodd arno yn flaenorol, yn sgil gwell cofnodi a chasglu data, sydd wedi'i adlewyrchu yn y wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn.

Mae'r Llywodraethu Rheoli Amgylcheddol yn cael ei gefnogi gan y canlynol:

- Caiff data perfformiad Ynni, Gwastraff a Dŵr eu casglu gan y Swyddog Cydymffurfiaeth a'u hadrodd drwy'r System Rheoli Cyfleusterau
- Mae'r Swyddog Cydymffurfiaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch am Reoli'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd ac yn rheoli'r meysydd hyn o ddydd i ddydd
- Mae'r Grŵp Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn rhoi'r diweddaraf i'r Uwch Dîm Arwain ar ei Gynllun Gweithredu Cynaliadwyedd Amgylcheddol er mwyn ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol ar draws y sefydliad
- Y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid yw'r arweinydd ar gyfer holl faterion rheoli'r amgylchedd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyflwynir y wybodaeth a'r materion diweddaraf i'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol drwy adroddiad chwarterol

Crynodeb o'r Perfformiad

Dull Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Yn 2018, creodd yr Uwch Dîm Arwain ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru y Grŵp Cynaliadwyedd Amgylcheddol gyda'r nod o ddarparu cynllun manwl sy'n ceisio gweithredu'r Dull Cynaliadwyedd Amgylcheddol a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2017. Nod y grŵp yw datblygu'r camau cynllunio ac uniongyrchol sy'n ofynnol i wireddu gweledigaeth y sefydliad i 'ddod yn sefydliad lle mae cynaliadwyedd amgylcheddol wedi'i wreiddio'n wirioneddol drwy wybodaeth, cydweithio, ymgysylltu ac arloesi. Bydd ein staff yn deall egwyddorion cynaliadwyedd amgylcheddol; a fydd yn rhan annatod o sut y mae'r sefydliad yn gweithredu a bydd yn sicrhau newid cadarnhaol, cynaliadwy ar gyfer y dyfodol'.

Er mwyn symud hyn yn ei flaen, nododd y Dull Cynaliadwyedd Amgylcheddol dair thema allweddol:

Sefydlu cynaliadwyedd amgylcheddol drwy gydweithio a bod yn bartner cadarnhaol

Meithrin gwybodaeth a chapasiti am gynaliadwyedd amgylcheddol

Manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau.

O ganlyniad i hyn, nodwyd chwe ffrwd waith ac wedyn crëwyd gweithgorau i ddatblygu cynlluniau gweithredu unigol a oedd yn cydfynd â nodau'r Dull Cynaliadwyedd Amgylcheddol. Roedd y gweithgorau hyn fel a ganlyn:

- Adeiladau, Ynni a Gwastraff
- Teithio Gwyrdd
- Defnydd/Caffael
- Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu
- Monitro a Gwerthuso
- Lleihau Plastigion

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae pob un o'r gweithgorau hyn wedi datblygu cynlluniau gweithredu er mwyn helpu i gyflawni'r nod cyffredinol o ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol ar draws y sefydliad.





Adeiladau, ynni a gwastraff

Un o nodau'r grŵp hwn oedd gwella'r defnydd o ynni a chasglu data drwy ystad lechyd Cyhoeddus Cymru drwy barhau i archwilio ffyrdd o wneud y mwyaf o gyfleoedd i wella rheoli ynni ar draws portffolio'r ystad a thrwy weithredu System Rheoli Amgylcheddol sy'n cydymffurfio â BS EN ISO 14001:2015.

Gyda'r cylch gwaith hwn mewn golwg, cynhaliodd y gweithgor a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ymarfer cwmpasu ar draws yr ystad i ganfod yr arbedion hirdymor posibl a'r gostyngiad yn y defnydd o ynni o newid ein goleuadau presennol i Ddeudau Allyrru Golau (LED).

Ym mis Chwefror 2019, cynhaliwyd ymweliadau safle yn yr adeiladau a feddiannir gan lechyd Cyhoeddus Cymru gyda'r defnydd mwyaf o ynni. Cafodd y ffitiadau goleuadau presennol eu harolygu ac aseswyd cyfleoedd ar gyfer rhoi technoleg goleuadau LED yn lle'r rhain.

Cafodd pedwar safle eu nodi ar unwaith fel rhai â'r potensial nid yn unig i ddarparu tua £9,000 o arbedion, ond hefyd i sicrhau gostyngiadau o tua 22 tunnell o allyriadau Carbon Deuocsid gydag ad-daliad ariannol o chwe blynedd. Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar ein defnydd presennol a'r newidiadau a ragwelir o ran prisiau'r farchnad.

Bydd y grŵp Adeiladau, Ynni a Gwastraff yn ceisio symud hyn yn ei flaen yn ystod 2019/20.

Un o amcanion eraill y grŵp Adeiladau, Ynni a Gwastraff oedd cydgrynhoi darparwyr ynni i alluogi darparu data cyson wrth sicrhau gwerth am arian a lleihau'r defnydd o danwyddau ffosil. Ym mis Ebrill 2018, roedd gan lechyd Cyhoeddus Cymru bedwar darparwr ynni a oedd yn cyflenwi trydan a nwy i'r ystad. Cytunwyd y byddai'r safleoedd a gyflenwir ar draws y darparwyr hyn yn cael eu hychwanegu at bortffolio Nwy Prydain, fel rhan o'r Contract Ynni Cymru Gyfan, a fyddai'n helpu i gynyddu pŵer prynu'r sefydliad fel rhan o'r grŵp hwn.

Yn ogystal â'r uchod, fel rhan o'r contract gyda Nwy Prydain, mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwmo i'w cynnyrch Ynni Adnewyddadwy ar gyfer Busnesau, fel rhan o gynllun Gwarant Ynni Adnewyddadwy (REGO) y Llywodraeth sy'n rhoi tryloywder i ddefnyddwyr ynghylch y gyfran o drydan y mae cyflenwyr yn ei phrynu o gynhyrchu adnewyddadwy.

Sefydlwyd y grŵp Teithio Gwyrdd gyda'r nod o hyrwyddo dewisiadau teithio mwy cynaliadwy a lleihau teithio unigol mewn car ar draws y sefydliad.

O 1 Ebrill 2018, mae hyn yn galluogi pob safle o dan contract Trydan GIG Cymru i roi gwybod am allyriadau di-garbon o'r defnydd o drydan o dan ganllawiau Protocol Nwyon Tŷ Gwydr Cwmpas 2. Mae hyn wedi'i ategu gan dystysgrifau Gwarant Tarddiad (GoO) ar gyfer pob megawat yr awr o ddefnydd, a fydd yn rhoi tystiolaeth o nodweddion gwyrdd ynni'r sefydliad.

Mae'r grŵp Adeiladau, Ynni a Gwastraff hefyd yn cynnal adolygiad o'r defnydd presennol a wneir o gerbydau sy'n eiddo i'r sefydliad, lle y caiff y ffyrdd a ddefnyddir a milltiroedd cerbydau eu hadolygu er mwyn penderfynu ar hyfywedd defnyddio cerbydau trydan ar gyfer trafniadaeth canol dinasoedd a darparu gwasanaethau. Mewn cydweithrediad â Renault mae'r sefydliad wedi benthycu dau gerbyd trydan, sef Renault Kangoo Z.E. a Renault Zoe i'w defnyddio gan staff a gwasanaethau. Ym mis Hydref 2018, cafodd staff yn Rhif 2 Cwr y Ddinas y cyfle i ddefnyddio'r Zoe ar gyfer teithio i gyfarfodydd neu roi cynnig ar yrru'r cerbyd dros gyfnod o wythnos. Ym mis Ionawr 2019, cafodd y Kangoo Z.E. ei ddarparu i Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru i'w ddefnyddio yn ystod ei ymweliadau gwasanaeth dros gyfnod o wythnos.

Roedd yr adborth gan yrwyr y ddau gerbyd yn hynod gadarnhaol, a lleddfwyd unrhyw negyddoldeb ynghylch gallu'r cerbydau i ddarparu digon o filltiroedd ar gyfer eu teithiau. O ganlyniad, mae'r gweithgor yn bwriadu ymchwilio ymhellach i'r potensial o ychwanegu cerbydau trydan i'w gerbydlu ar gyfer ei wasanaethau ac fel car cronfa posibl ar gyfer cyfarfodydd canol dinas.

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac adeiladu ar y gwelliannau a gyflawnwyd hyd yma, mae lechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n datblygu ei Strategaeth Ystadau Gwybodaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Bydd y strategaeth yn helpu'r sefydliad i gynllunio a gweithredu fframwaith rheoli amgylcheddol achrededig, yn benodol BS EN ISO 14001:2015, sy'n safon a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Ar ôl cynnal ymarfer pen bwrdd yn ystod 2018/19, ceir nifer o feysydd yr ydym wedi'u nodi ar gyfer gwella a byddwn yn ceisio gweithredu'n rhain yn y flwyddyn ariannol nesaf. Yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 bwriedir defnyddio dull fesul cam tuag at weithredu'r safon ISO ac edrych ar gyflawni Gwobr y Ddraig Werdd i ddechrau, bydd hyn yn sicrhau bod gan lechyd Cyhoeddus Cymru y sylfeini i symud ymlaen tuag at BS EN ISO 14001:2015.

Teithio gwyrdd

Sefydlwyd y grŵp Teithio Gwyrdd gyda'r nod o hyrwyddo dewisiadau teithio mwy cynaliadwy a lleihau teithio unigol mewn car ar draws y sefydliad. Gyda hyn mewn cof, dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r grŵp wedi creu tudalen Teithio Gwyrdd ar y fewnrwyd ar gyfer staff ar draws y sefydliad. Mae'r staff yn gallu defnyddio cyfathrebiadau er mwyn helpu i gefnogi eu trefniadau teithio. Darperir gwybodaeth am Gynllun Beicio i'r Gwaith y sefydliad, ad-daliadau 20c y filltir beicio a 5c y filltir teithiwr mewn car ar gyfer milltiroedd busnes, a benthyciadau di-log i brynu tocynnau tymor bws/trên blynyddol. Yn ogystal â hyn, gall staff hefyd gael mynediad i wybodaeth am y cyfleusterau sydd ar gael ym mhob un o'n safleoedd ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau trafniadaeth gyhoeddus, rheseli beiciau a ddarperir, cawodydd/ystafelloedd newid a chyfleusterau tele/fideo gynadledda.

O ganlyniad i'r cynnydd yn y defnydd o feiciau yng Nghaerdydd, gosododd y sefydliad loc beiciau diogel gyda 48 o reseli beiciau ar ddechrau mis Tachwedd 2018 yn y tangrofft yn Rhif 2 Cwr y Ddinas. Darparwyd y rhain ar gyfer cyflogeion lechyd Cyhoeddus Cymru yn ogystal â'r 19 o leoedd beicio yn y tangrofft a 22 yn y maes parcio aml-lawr.

At hynny, mae staff wedi cael loceri ychwanegol yn y tangrofft er mwyn storio eu hoffer beicio i'w gwneud mor hawdd â phosibl i staff gymudo drwy'r dull hwn.

Defnydd/caffael

Cafodd y grŵp Defnydd/Caffael ei greu gyda'r nod o nodi meysydd lle gellir cyflawni caffael cynaliadwy a datblygu strategaeth caffael cynaliadwy hirdymor i sicrhau bod cynaliadwyedd amgylcheddol yn cael ei ymgorffori yn y broses gaffael. I ddechrau roedd y grŵp hwn yn bwriadu nodi enillion cyflym, er mwyn helpu i hyrwyddo agenda'r sefydliad ymhellach. Hyd yma mae'r grŵp wedi gallu cytuno ar feini prawf cynaliadwyedd i'w cynnwys mewn dau dendr argraffu (gan gwmpasu deunyddiau argraffu, lleihau milltiroedd ffordd, a dod o hyd i gyfleoedd cyrchu lleol).



O ganlyniad i'r cynnydd yn y defnydd o feiciau yng Nghaerdydd, gosododd y sefydliad loc beiciau diogel gyda 48 o reseli beiciau ar ddechrau mis Tachwedd 2018 yn y tangrofft yn Rhif 2 Cwr y Ddinas.

Arweinyddiaeth ac ymgysylltu

Mae'r grŵp Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu yn ceisio cyflawni newid ymddygiad llwyddiannus ar draws y sefydliad drwy ddatblygu dull cyfathrebu, lle mae gan y sefydliad frand clir ac y gall gyflwyno negeseuon allweddol i staff ar ddull cynaliadwyedd amgylcheddol y sefydliad a gwaith y gweithgorau unigol.

Mae'r gweithgor wedi datblygu adnoddau 'Byddwch y Newid'. Mae'r rhain wedi'u cyfleu i dimau ar draws y sefydliad, gan gynnwys timau iechyd cyhoeddus lleol. Mae'r grŵp hefyd wedi cyflwyno 'Her Nodau Llesiant', gyda thros 30 o staff yn cymryd rhan yn yr her gychwynnol. Yn ogystal, cynhaliwyd nifer o farchnadleoedd cynaliadwyedd yn ystod 2018/19, gan wahodd staff i ddysgu mwy am y gwaith sy'n mynd rhagddo ar draws y sefydliad i greu gweithle iach a chynaliadwy. Roedd hefyd yn gyfle i'r staff ddysgu sut y gallant gymryd rhan yn agenda lechyd Cyhoeddus Cymru, a rhannu eu syniadau.

Monitro a gwerthuso

Mae'r Grŵp Monitro a Gwerthuso wrthi ar hyn o bryd yn casglu gwybodaeth ynghylch pa ddangosyddion cynaliadwyedd y gellid eu mesur ar lefel sefydliadol lechyd Cyhoeddus Cymru.

Yn y lle cyntaf, trafodir dangosyddion allyriadau carbon fel y defnydd o ynni a dŵr, maint gwastraff a'i ddidoli, a milltiroedd busnes.

Ar gyfer pob un o'r dangosyddion uchod, caiff y ffactorau canlynol eu hystyried: cywirdeb data, argaeledd data, cwmipas, amllder adrodd, ac a oes unrhyw fylchau o ran adrodd. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau yn ystod Chwarter 1 2019/20.

Unwaith yr ymchwilir i bob un o'r ffactorau, bydd y grŵp yn ceisio sefydlu ffigur sylfaenol ar gyfer pob dangosydd a mynd ati i fonitro newid ac effaith mentrau dros amser. Bydd y gwaith a wneir gan y Grŵp Monitro a Gwerthuso yn llywio ac yn rhoi mewnwelediad i elfennau eraill o'r Grŵp Cynaliadwyedd Amgylcheddol, gan eu galluogi i symud eu gwaith yn ei flaen ar sail gwybodaeth.

Lleihau plastigion

Crëwyd y grŵp hwn gyda'r prif nod o leihau'r defnydd o blastig ar draws yr ystad. Yn y lle cyntaf, mae'r grŵp yn canolbwyntio ar y plastig mae staff lechyd Cyhoeddus Cymru yn ei ddefnyddio yn y swyddfa, yn hytrach na'r hyn y mae staff yn dod ag ef i'r swyddfa. Hyd yma, llwyddwyd i roi terfyn ar yr holl archebion am ysbodolau a chwpanau plastig drwy system brynu Oracle.

Mae deunydd ysgrifennu arall wedi'i gyrchu ar gyfer eitemau plastig trwm (h.y. ffolderi, pocedi plastig, amlenni ffenestri). Mae'r sefydliad bellach yn cyflwyno bathodynau staff/ymwelwyr mewn dalwyr bathodynau plastig bioddiraddiadwy. Mae'r grŵp hefyd wedi llwyddo i leihau'r defnydd o blastig hylif golchi llestri a sebon dwylo, drwy brynu poteli mawr a'u hail-lenwi. Mae hyn yn cael ei wneud ar waith ar hyn o bryd yn Rhif 2 Cwr y Ddinas a Thŷ Matrics, a byddwn yn cyflwyno hyn ar draws pob eiddo a feddiannir gan staff lechyd Cyhoeddus Cymru.

Wrth symud ymlaen, mae'r grŵp yn gweithio gyda Gwasanaeth Caffael Cydwasanaethau GIG Cymru i gyrchu cynhyrchion ac atebion amgen ar gyfer eitemau sy'n cynnwys plastigion. Mae'r grŵp hefyd yn gweithio ar ddatblygu Addewid lechyd Cyhoeddus Cymru i Leihau Plastig 2019-2021, gyda'r nod o wneud y sefydliad yn rhydd o blastig erbyn 2021. Bydd hyn yn cynnwys yr hyn a ddefnyddiwn yn lechyd Cyhoeddus Cymru yn ogystal â'r hyn y mae staff yn ei waredu fel sbwriel.





Archwilio Mewnol

Cynhaliodd Archwilio Mewnol adolygiad o'r Adroddiad Cynaliadwyedd ym mis Mai 2018 yn seiliedig ar yr adroddiad a luniwyd ar gyfer 2017/18. Amcan yr archwiliad oedd gwerthuso a phennu digonolrwydd trefniadau rheoli ar gyfer llunio Adroddiad Cynaliadwyedd 2017/18 yn yr Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon, er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol i Bwyllgor Archwilio'r sefydliad bod risgiau sy'n berthnasol i gyflawni amcanion y system yn cael eu rheoli'n briodol.

Rhoddwyd sicrwydd sylweddol o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol sydd ar waith i reoli'r risg sy'n gysylltiedig â llunio'r Adroddiad Cynaliadwyedd. Cafodd un cam gweithredu ei argymhell yn yr adroddiad, sydd wedi'i amlygu yn Nhabl 1, ynghyd â'r cynnydd ar y cam gweithredu hwn.

Tabl 1

Cam Gweithredu	Cynnydd
Rhaid i'r rheolwyr sicrhau bod y naratif a'r ffigurau sy'n cael eu colau a'u cofnodi yn cael eu hadolygu'n gynhwysfawr gan ail swyddog. Efallai y bydd y rheolwyr hefyd am ystyried cyflwyno gwiriadau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ariannol ar y data a gesglir.	Gweithdrefn newydd ar gyfer 2018/19 ymlaen, gyda'r Dirprwy Swyddog Cyfleusterau'n coladu'r data a'r swyddog cydymffurfio yn adolygu'r data felly, gan gyflwyno ail linell o ddadansoddi data. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwiriadau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Cafodd hyn ei weithredu o fis Mehefin 2018.

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu perfformiad y sefydliad ar gyfer allyriadau, defnydd ynni a dangosyddion ariannol ar gyfer ynni a theithio busnes ar gyfer 2018/19.

Tabl 2: Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

		2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Dangosyddion Anariannol (1000 Tunnell CO₂e)	Cyfanswm Allyriadau Gros	0.396	1.371	1.307	2.424	1.061
	Allyriadau Gros Cwmpas 1 (uniongyrchol)	Gwybodaeth ddim ar gael ar gyfer 2014-15	0.224	0.184	1.218	0.370
	Allyriadau Gros Cwmpas 2 a 3 (anuniongyrchol)		1.149	1.123	1.206	0.691
Defnydd Ynni Cysylltiedig (KWh)	Trydan: Na ellir ei adnewyddu	968,353	1,107,061	1,239,031	1,426,314	417,201
	Trydan: Adnewyddadwy	0	0	0	0	793,931
	Nwy	704,317	1,218,114	997,706	711,235	451,880
Dangosyddion Ariannol (£)	Gwariant ar Ynni	209,851	209,634	215,229	234,767	233,495
	Gwariant ar deithio busnes swyddogol	681,475	670,982	627,549	554,525	529,737

Perfformiad

Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Yn 2018/19, mae'r sefydliad wedi gweld gostyngiad mawr yng Nghyfanswm yr Allyriadau Gros a nodwyd o gymharu â 2017/18, gan weld gostyngiad o 56.22 y cant yn erbyn y ffigurau a gofnodwyd yn y flwyddyn honno. Mae'r gostyngiad sylweddol hwn wedi'i amlygu ar draws ein Hallyriadau Cwmpas 1, 2 a 3. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi addo lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr dri y cant o un flwyddyn i'r llall, yn unol â'r strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi'i gyflawni yn ystod 2018/19.

O dan Gwmpas 1, mae'r sefydliad wedi gweld gostyngiad o 69.63 y cant mewn allyriadau o gymharu â 2017/18. Mae manteision rhaglen Ein Gofod bellach yn cael eu teimlo drwy ein gostyngiad mewn eiddo a oedd yn defnyddio nwy naturiol. Adlewyrchir hyn yn y gostyngiad o 24.56 y cant mewn allyriadau tanwydd. Oherwydd y problemau a gafwyd gyda'r system aerdymheru yn Rhif 2 Cwr y Ddinas, nododd y sefydliad allyriadau uchel yn 2017/18 ar gyfer rhewyddion. Gan fod y materion hyn wedi gostegu, mae'r allyriadau hyn wedi gostwng yn sylweddol, a gall y sefydliad bellach nodi gostyngiad o 99.46 y cant yn yr allyriadau hyn o gymharu â 2017/18.

O dan Gwmpas 2, sy'n cwmpasu cynhyrchu trydan ar gyfer ein heiddo, mae'r sefydliad wedi gweld gostyngiad o 76.45 y cant mewn allyriadau o gymharu â 2017/18. Mae hyn o ganlyniad i lechyd Cyhoeddus Cymru yn cofrestru ar gyfer cynnyrch Ynni Adnewyddadwy ar gyfer Busnes Nwy Prydain ar 1 Ebrill 2018, gyda'r holl eiddo o dan y contract yn gallu nodi allyriadau di-garbon o'r defnydd o drydan o dan ganllawiau Cwmpas 2 y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr.

O dan Gwmpas 3, mae'r sefydliad wedi gweld gostyngiad o 18.62 y cant mewn allyriadau o gymharu â 2017/18. Er nad yw'n ostyngiad mor sylweddol â Chwmpas 1 a 2, mae'r sefydliad wedi gweld gostyngiadau mawr ar draws is-grwpiau Cwmpas 3. Mae allyriadau o'r Ffynnon i'r Tanc (78.34 y cant) a Throsglwyddo a Dosbarthu (37.73 y cant) o gyflenwad trydan wedi lleihau'n sylweddol. Mae hyn yn bennaf yn sgil y newid i'r cynnyrch Ynni Adnewyddadwy ar gyfer Busnes, a gostyngiad cyffredinol mewn defnydd, a amlygir yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi cyflawni gostyngiad o 11.22 y cant mewn allyriadau gwaredu gwastraff, oherwydd gostyngiad yn y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Mae mwy o wastraff wedi'i anfon i'w ailgylchu yn ystod 2018/19, ond oherwydd bod y dull hwn o waredu gwastraff yn creu llai o allyriadau, rydym wedi gweld gwelliannau sylweddol yn y maes hwn. Wrth symud ymlaen, nod y sefydliad yw lleihau allyriadau o bob ffrwd wastraff.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweld cynnydd o 102 y cant mewn allyriadau cyflenwad dŵr yn ystod 2018/19. Fodd bynnag, mae hyn o ganlyniad i'r sefydliad yn nodi defnydd dŵr o fwy o safleoedd nag yn y blynyddoedd blaenorol. Yn arwyddocaol, mae'r sefydliad yn nodi defnydd o ddŵr o Rif 2 Cwr y Ddinas am y tro cyntaf, sef safle mwyaf y sefydliad, sy'n gartref i bron 600 o staff.

Oherwydd bod y llinell sylfaen ar gyfer Allyriadau Carbon wedi'i gosod yn 2016/17, mae'n angenrheidiol felly cynnal dadansoddiad cymharu uniongyrchol o'r data a oedd ar gael yn 2016/17. Bydd hyn yn galluogi gwneud cymhariaeth yn erbyn targed Llywodraeth Cymru o ostyngiad o 40 y cant mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2020, fel rhan o'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd.

Bydd hyn yn rhoi adlewyrchiad cywir i ni o'n perfformiad yn erbyn ein llinell sylfaen. Cynrychiolir hyn yn y tabl isod.

Cyfrifwyd allyriadau gros drwy ddefnyddio'r canllawiau ar fesur allyriadau nwyon tŷ gwydr ac adrodd arnynt ac Adroddiad Ffactorau Trosi Nwyon Tŷ Gwydr Llywodraeth y DU ar gyfer Cwmnïau.

Fel y gellir gweld uchod, o gymharu â'n llinell sylfaen yn 2016/17, rydym wedi llwyddo i leihau cyfanswm yr allyriadau 54.17 y cant. O ganlyniad, rydym wedi rhagori ar ein targed o leihau allyriadau carbon 40 y cant erbyn 2020, yn unol â Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod, er ei fod wedi cyflawni'n targed gostyngiad 40 y cant, mae llawer mwy o waith i'w gwneud o hyd a gwelliannau i'w gwneud. Ein nod yw gwella ymhellach ein proses o gasglu Allyriadau Cwmpas 3 ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol, yn ogystal â sicrhau bod cynaliadwyedd yn parhau i gael ei ymgorffori yn niwylliant y sefydliad, er mwyn helpu i leihau'r allyriadau a gynhyrchir gan ein gwaith ymhellach.



Tabl 3: Canlyniadau Cymhariaeth Uniongyrchol

Ffactorau Cwmpas	Cyfanswm Allyriadau 2016/17 (tCO ₂ e)	Cyfanswm Allyriadau 2017/18 (tCO ₂ e)	Cyfanswm Allyriadau 2018/19 (tCO ₂ e)	% Newid – 16/17 i 18/19
Cwmpas 1 - Tanwyddau	183.6	131.0	83.1	-54.74
Cwmpas 2 - Trydan y DU	510.5	501.4	118.1	-76.87
Cwmpas 3 – Cerbydau Asedau a Reolir	471.9	351.7	318.0	-32.61
Cwmpas 3 – Hyfforddi a Datblygu	46.2	46.9	29.2	-36.80
Cwmpas 3 – Cyflenwi Dŵr	1.3	1.3	2.7	107.69
Cwmpas 3 – Trin Dŵr	2.7	2.6	5.3	96.30
Cwmpas 3 – Gwaredu Gwastraff	90.5	48.5	43.1	-52.38
Ffactorau Cwmpas	Cyfanswm Allyriadau 2016/17 (tCO ₂ e)	Cyfanswm Allyriadau 2017/18 (tCO ₂ e)	Cyfanswm Allyriadau 2018/19 (tCO ₂ e)	% Newid – 16/17 i 18/19
Cwmpas 1	183.6	131.0	83.1	-54.74
Cwmpas 2 a 3	1123.2	952.4	516.4	-54.02
Cyfanswm cyfunol	1,306.7	1,083.4	599.5	-54.12

Y defnydd o drydan a nwy

Fel y dangoswyd yn nhabl 2 uchod, rydym wedi gweld gostyngiad cyffredinol o ran y defnydd o drydan (15.1 y cant) ar draws yr ystad. Yn fwy perthnasol, mae 65.55 y cant o'r trydan a ddefnyddir ar draws yr ystad yn cael ei gyflenwi drwy ein contract Ynni Adnewyddadwy i Fusnesau gyda Nwy Prydain, gan sicrhau ein bod yn defnyddio ynni gwyrdd lle y bo'n bosibl. Rydym hefyd wedi gweld gostyngiad sylweddol arall yn y defnydd o nwy (36.47 y cant) ar draws yr ystad.

Mae'r gostyngiadau hyn mewn defnydd o ganlyniad i gyfuno ein hystad drwy'r rhaglen *Ein Gofod*. Yn 2018/19 rydym yn gweld manteision y rhaglen yn llawn ar draws ein defnydd o ynni. Mae gwaredu'r Deml Heddwch ac Iechyd, Caerdydd, symud i Dŷ Matrics, Abertawe a chyfuno lle yn Ystad Parc Mamheilad, Mamheilad, wedi galluogi i ni leihau ein defnydd ymhellach, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yng nghyfanswm y defnydd yn 2018/19.

Am y tro cyntaf ers 2015/16, rydym yn gallu nodi gostyngiad yng nghyfanswm y gwariant ar ynni. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r gwaith a wneir gan y Grŵp Rheoli Risg Pris Ynni ar gyfer GIG Cymru, o ran sicrhau bod Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cael y pris gorau am yr ynni a ddefnyddiant. Byddwn yn parhau i archwilio opsiynau amrywiol i wneud y defnydd gorau posibl o'r defnydd a gwariant ynni drwy'r Grŵp Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Strategaeth Ystadau Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rydym yn ymwybodol bod yr ystad yn dal i fod yn hynod amrywiol o ran oed, lleoliad a math o adeiladwaith. Mae'r rhain i gyd yn ffactorau a fydd yn effeithio ar gynaliadwyedd a pherfformiad effeithlonrwydd ynni. Mae'r gwaith a wnaed gan y sefydliad drwy raglen *Ein Gofod* wedi ceisio gwella cyflwr yr ystad swyddfeydd, sydd wedi arwain at amgylcheddau gwaith mwy cynaliadwy, defnyddio llai o ynni a darparu data mwy cywir. Gan symud ymlaen, bydd yr egwyddorion hyn yn parhau i gael eu hymgorffori yn y gwaith a ddatblygir gan y Grŵp Cynaliadwyedd Amgylcheddol ac i mewn i'n Strategaeth Ystadau Gwybodaeth.

Teithio busnes

Fel y gwelir yn Ffigur 3, am y bumed flwyddyn yn olynol rydym wedi gweld gostyngiad mewn gwariant ar deithio busnes, er bod gan y sefydliad bellach fynediad i fwy o wybodaeth sy'n ymwneud â theithio mewn tacsï yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan weld gostyngiad o 4.47 y cant o gymharu â 2017/18. Ymhlith y ffactorau arwyddocaol sy'n cyfrannu at y gostyngiad hwn mae'r defnydd o'n cyfleusterau fideo gynadledda 'Surface Hub' ledled Cymru, yn ogystal â'r gwaith a wneir gan y Grŵp Teithio Gwyrdd i annog staff i ddefnyddio mathau mwy cynaliadwy o gludiant pan fydd angen iddynt wneud hynny at ddibenion gwaith.

Yn y dyfodol, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ymgysylltu â staff er mwyn lleihau milltiroedd busnes. Mae gwaith pellach i ganfod ymarferoldeb ychwanegu cerbydau trydan at ein cerbydlu hefyd yn mynd rhagddo, tra'n sicrhau bod y strwythur cywir yn ei le i gefnogi hyn.

Camau i wella'r trefniadau casglu data ar gyfer 2018/19

- Rhagor o ymgysylltu â landlordiaid o ran y posibilrwydd o ddarparu costau defnydd ac ynni cyfatebol neu osod is-fesuryddion yn y mannau sydd wedi'u meddiannu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i roi data cywir
- Ymgysylltu â landlordiaid i asesu'r posibilrwydd y gallant ymrwmo i gynllun Gwarant Ynni Adnewyddadwy (REGO)
- Rhagor o adolygiadau o ddarparwyr ynni i alluogi darparu data cyson wrth sicrhau gwerth am arian
- Ymgysylltu â chyflenwyr ynni i wella trefniadau casglu data a chyflwyno Mesuryddion CLYFAR lle y bônt ar gael
- Cynyddu'r defnydd o bortffolio ystad Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy'r Strategaeth Ystadau
- Sicrhau y bydd opsiynau fel gosod mesuryddion ar wahân neu is-fesuryddion yn cael eu trafod mewn unrhyw brydlesi newydd a gaiff eu llofnodi gan y sefydliad lle gellir rhannu safle

Rheoli Gwastraff

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu perfformiad rheoli gwastraff y sefydliad ar gyfer 2018/19.

Tabl 4

Gwastraff

		2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Dangosyddion Anariannol (tunelli)	Cyfanswm y Gwastraff	4.64	652.05	538.55	585.79	629.69
	Tirlenwi		642.58	445.15	457.54	377.68
	Ailddefnyddiwyd/Ailgylchwyd		9.47	92.46	120.25	224.65
	Compostio	Data ddim ar gael	Dd/B	0.13	4.16	Dd/B
	Treulio anaerobig		Dd/B	Dd/B	Dd/B	9.12
	Llosgi ac adfer ynni		Data ddim ar gael	0.81	3.83	18.24
	Llosgi heb adfer ynni			0	0	0
Dangosyddion Ariannol (£)	Cyfanswm y Gost Waredu	12,429	35,078	46,342	48,907	53,597
	Tirlenwi		13,994	18,395	20,890	17,725
	Ailddefnyddiwyd/Ailgylchwyd		11,649	19,034	17,632	21,811
	Compostio	Data ddim ar gael	Dd/B	Dd/B	259	Dd/B
	Treulio anaerobig		Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B
	Llosgi ac adfer ynni			8,913	10,125	13,483
	Llosgi heb adfer ynni		9,435	0	0	0

Perfformiad

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau o ran rheoli gwastraff yn effeithiol, ac rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran casglu data. Adlewyrchir hyn yn y ffigurau perfformiad ar gyfer 2018/19. Mae data bellach ar gael ar gyfer mwy o safleoedd, a chymerwyd camau i wella'r broses o adrodd data ariannol ac anariannol ar gyfer tirlenwi, ailgylchu, bwyd a ffrydiau gwastraff peryglus. Mae hyn wedi cyfrannu at y sefydliad yn nodi cynnydd o 44 tunnell o wastraff (7.5 y cant) o gymharu â 2017/18. Fodd bynnag, eleni rydym yn adrodd ar wastraff tirlenwi ac ailgylchu o Rif 2 Cwr y Ddinas am y tro cyntaf. Mae'r safle hwn yn cynhyrchu 158 tunnell o wastraff, sy'n cyfateb i 25 y cant o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchir gan y sefydliad. Heb gynnwys hyn yng nghyfanswm y gwastraff, byddem wedi gweld gostyngiad o 115 tunnell o wastraff o gymharu â 2017/18.

Er gwaethaf y cynnydd yn y gwastraff a gofnodwyd, rydym wedi gweld gostyngiad mawr yn y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Gwelwyd gostyngiad o 80 tunnell (17.5 y cant) o wastraff drwy'r dull gwaredu hwn. Cyflawnwyd hyn drwy sicrhau arferion rheoli gwastraff gwell ar draws ein sefydliad, gyda staff yn cael mwy o fynediad i ddulliau gwaredu eraill.

O ganlyniad, mae cyfanswm y gwastraff sy'n cael ei anfon i'w ailgylchu wedi cynyddu, gan waredu 224 tunnell o wastraff drwy'r dull hwn, sef cynnydd o 86 y cant o gymharu â'r hyn a nodwyd yn 2017/18. Gan ystyried ein bod wedi adrodd am 72 tunnell ychwanegol o wastraff ailgylchu drwy waredu yn Rhif 2 Cwr y Ddinas, na chafodd ei nodi'n flaenorol. Mae'r staff yn cael eu hannog i sicrhau eu bod yn defnyddio'r dulliau gwaredu cywir, gyda disgwyl i bob aelod o staff ailgylchu lle y bo'n bosibl. Mae'r dull hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio gyda'n gwastraff papur, gan sicrhau y caiff cymaint â phosibl ei anfon i'w ailgylchu wrth sicrhau cydymffurfiaeth lawn â deddfwriaeth berthnasol a'i ddyletswydd gofal.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn parhau i gyflwyno Meddalwedd SafeQ ar gyfer yr holl gontractau llungopïo newydd, sy'n galluogi'r sefydliad i fonitro'r defnydd o argraffyddion. Mae adroddiadau defnydd yn cael eu hanfon i bob eiddo lle mae gan ddyfeisiau Feddalwedd SafeQ, gan annog staff i leihau eu gwastraff papur.

Mae gwaredu gwastraff drwy dreulio anaerobig yn cael ei nodi am y tro cyntaf. Mae gan Rif 2 Cwr y Ddinas a Thŷ'r Afon gytundebau gwaredu

gwastraff bwyd gyda Chyngor Caerdydd, gyda thros naw tunnell o wastraff wedi'i waredu drwy'r dull hwn. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn disgwyl i hyn gynyddu mewn blynyddoedd i ddod, wrth i fwy o safleoedd gyflwyno mesurau gwaredu gwastraff bwyd yn unol â pholisi eu cyngor lleol.

Mae gwelliannau pellach wedi'u gwneud hefyd ar adroddiadau gwastraff wedi'i losgi'r sefydliad. Mae gennym bellach 12 o safleoedd lle mae gwastraff wedi'i losgi wedi'i waredu, sy'n gynyddu pellach ar y blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau gwell ar wastraff clinigol a gwastraff glanweithiol. Mae hyn wedi arwain at gynydd o 14.41 tunnell (376 y cant) mewn gwastraff a adroddwyd. Disgwylir i'r ffigur hwn barhau i fod yn gyson o amgylch y lefel hon oherwydd y galwadau ar ein Gwasanaethau Sgrinio, y mae'n ofynnol iddynt waredu eu gwastraff clinigol drwy'r dull hwn.

Mae'r sefydliad yn cydnabod, er gwaethaf gwario £4,690 ychwanegol ar gyfanswm y gwastraff a gaiff ei waredu o gymharu â 2017/18, mae hyn yn sgil gwell adrodd ar waredu gwastraff a'r galwadau cynyddol ar ein gwasanaethau. Rydym wedi gweld gostyngiad yng nghyfanswm cost y gwastraff a anfonir i safleoedd

tirlenwi, a byddwn yn parhau i ymchwilio i opsiynau i leihau'r costau hyn ymhellach ac rydym yn gobeithio adlewyrchu hyn yn ystod 2019/20.

Camau i wella trefniadau casglu data ar gyfer 2018/19

Rhagor o waith ymgysylltu â darparwyr cyfrinachol, ailgylchu a thirlenwi i sicrhau bod gwybodaeth gywirach am bwysau gwastraff yn cael ei darparu.

Defnyddio adnoddau

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu ein perfformiad adnoddau cyfyngedig ar gyfer 2018/19.

Tabl 5

Defnydd Adnoddau Cyfyngedig

			2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Dangosyddion Anariannol (000m³)	Defnydd Dŵr (Ystad Swyddfeydd)	Cyflenwyd	3.599	2.111	2.052	1.675	5.922
	Defnydd Dŵr (Ystad Di-swyddfa)	Cyflenwyd	casglwyd fel rhan o Ddata Ystad Swyddfeydd	2.281	1.791	2.207	1.921
	Defnydd Dŵr (Cyfanswm yr Ystad)	Cyflenwyd	3.599	4.392	3.843	3.882	7.843
Dangosyddion Ariannol (£)	Costau Cyflenwi Dŵr (Ystad Swyddfeydd)			8,526	7,453	6,079	9,735
	Costau Cyflenwi Dŵr (Ystad Di-swyddfa)		12,726	6,804	5,699	7,247	5,650
	Cyfanswm Costau Cyflenwi Dŵr		12,726	15,330	13,152	13,326	15,385



Perfformiad

Rydym yn nodi cynnydd yn y defnydd cyffredinol o ddŵr, sef 102 y cant o gymharu â 2018/19. Mae hyn oherwydd swyddogaethau adrodd gwell, sy'n ein galluogi i adrodd ar fwy o safleoedd ac adrodd data mwy cywir. Rydym hefyd yn adrodd ar fwy o safleoedd, gan ein bod yn amcangyfrif defnydd lle nad oes data ar gael, yn seiliedig ar y metr ciwbig a ddefnyddir ar gyfartaledd fesul aelod o staff yn yr eiddo lle mae data ar gael. Ar hyn o bryd mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn creu 6.9 metr ciwbig fesul aelod o staff y flwyddyn. Bydd y sefydliad yn defnyddio'r ffigur hwn fel meincnod wrth symud ymlaen gyda'r nod o annog staff i leihau swm y dŵr a ddefnyddir ar draws yr ystad. Mae'r sefydliad hefyd yn deall y bydd gweithlu cynyddol yn anochel yn arwain at gynydd yn y dŵr a ddefnyddir. Wrth i'n hystad dyfu, bydd cydymffurfiaeth diogelwch dŵr hefyd yn cael effaith ar ddefnydd, gan fod angen cyfundrefnau tynnu dŵr rheolaidd ar draws yr ystad ar gyfer safleoedd defnydd isel.

Mae'r sefydliad yn ymwybodol nad yw oed a chyflwr presennol y rhan fwyaf o'n hystad yn hwyluso defnydd effeithlon o'n cyflenwadau dŵr a byddwn yn mynd ati i wella ein hystad a lleihau gwastraff ymhellach drwy'r Strategaeth Ystadau, yn ogystal â gweithio gyda staff i nodi ffyrdd o arbed defnydd dŵr, drwy ein Grŵp Cynaliadwyedd Amgylcheddol. Byddwn hefyd yn ceisio cynnal adolygiad o'n mesuryddion dŵr i sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian drwy daliadau sefydlog y sefydliad.

Yn ôl y disgwyl wrth adrodd ar fwy o safleoedd, rydym hefyd wedi gweld cynnydd mewn costau dŵr o gymharu â 2017/18, gan weld cynnydd o £2,059 eleni. Bydd lechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal adolygiad o'n mesuryddion dŵr i sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian drwy daliadau sefydlog y sefydliad.

Camau i wella trefniadau casglu data ar gyfer 2018/19

Ymgysylltu â pherchnogion eiddo i drafod y posibilrwydd o ddarparu amcangyfrif o'r dŵr a ddefnyddir yn seiliedig ar nifer y staff sydd yno.

Cyfyngiadau casglu data

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn wynebu nifer o heriau wrth gael gafael ar ddata cywir, y tynnir sylw at bob un ohonynt isod:

- Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn dal i ddefnyddio nifer o ddarparwyr ynni a dŵr gwahanol. Er y gall hyn wneud synnwyr busnes da, mae'n arwain at anawsterau wrth gael gafael ar ddata cynaliadwyedd a'u coladu
- Dim ond lle mae mesuryddion cywir a chadarn ar gyfer y cyfleustodau a gyflenwir y gellir rhoi data cynaliadwyedd
- Gall mesuryddion a ddarperir gan y cwmnïau cyfleustodau fod mewn mannau nad ydynt yn hygyrch i aelodau o staff lechyd Cyhoeddus Cymru na thrwy holi'r System Rheoli Peirianeg Adeiladu (BEMS)
- Lle cynhelir lechyd Cyhoeddus Cymru mewn adeiladau a rennir, nid oes mesuryddion (is-fesuryddion) mewn lleoliadau lle mae staff lechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio, sy'n golygu nad oes data cywir ar gael. Nid yw rhai landlordiaid wedi gallu rhoi costau defnydd a chyfleustodau cyfatebol hyd yn hyn. Codir tâl ar lechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer ei ddefnydd nwy, trydan, dŵr a gwastraff drwy dâl gwasanaeth, na chaiff ei ddadansoddi yn ôl gwasanaeth, ac felly ni ellir ei gofnodi.
- Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn aml yn meddiannu rhannau bach iawn o safleoedd a rennir lle mae'r defnydd yn isel ac nid yw bob amser yn hyfyw gosod mesuryddion ychwanegol (is-fesuryddion)
- Bu'n rhaid amcangyfrif rhai data pedwerydd chwarter oherwydd nad oedd anfonebau ar gael
- Lle rhoddwyd data ar gyfer gwastraff i safle tirlenwi ac ailddefnyddio/ailgylchu, amcangyfrifwyd y tunelli ar sail cynwysyddion/biniau/sachau hollol lawn pan gânt eu gwagio am nad oes mesurau ar waith i gofnodi pwysau gwastraff yn gywir
- Lle mae data ar gyfer gwastraff i safle tirlenwi ac ailddefnyddio/ailgylchu yn cael eu darparu mewn litrau, defnyddiwyd Ffactor Trosi Pwysau Gwastraff Asiantaeth yr Amgylchedd i'w drosi'n dunelli
- Lle nad oes data ar gael, caiff hyn ei amlygu yn Atodiad A



Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tueddiadau Gwariant Tymor Hir

Mae'r tabl canlynol yn dangos gwariant yr Ymddiriedolaeth rhwng 2014/15 a 2018/19. Daw'r ffigurau gwariant o'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr a nodiadau 3 (Refeniw o Weithgaredd Gofal Cleifion), 4 (Refeniw Gweithredu Arall) a 5 (Treuliau Gweithredu) o fewn y datganiadau ariannol.

Fel y dangosir gan y tabl uchod, mae gwariant yr Ymddiriedolaeth wedi cynyddu o £107.676m yn 2014/15 i £136.287m yn 2018/19: cynnydd o bron 27% dros 5 mlynedd, a chynnydd o bron 6% dros y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r swyddogaethau, rhaglenni a gwasanaethau ychwanegol a drosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth; o gyrff eraill y GIG ac o Lywodraeth Cymru.

Mae'r rhain yn cynnwys nifer o Raglenni Gwella Iechyd, Sgrinio Smotyn Gwaed Babanod Newydd-anedig, Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol a Labordy Microbioleg Wrecsam Yn ychwanegol, mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru a rhwydweithiau clinigol, a drosglwyddwyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2016/17, a'r Uned Cyflawni Cyllid a drosglwyddwyd yn 2017/18. Mae blwyddyn lawn gyntaf yr incwm a gwariant o'r Uned Cyflawni Cyllid wedi'i hadlewyrchu yn 2018/19. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni gwarged bob blwyddyn ar gyfer y cyfnod 2014/15 i 2018/19, gyda gwarged cronol o £137k dros y pum mlynedd.

Tabl 1: Tuedd Gwariant Hirdymor yn ôl Math o Wariant

	£000oedd 2014/15	£000oedd 2015/16	£000oedd 2016/17	£000oedd 2017/18	£000oedd 2018/19	Cyfanswm 12 mis % Cynnydd	% Cynnydd
Gwariant							
Llywodraeth Cymru/Byrddau Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth/Awdurdodau Lleol	18,968	18,390	20,717	23,149	22,291	17.52%	(3.71)%
Gwariant Cyflog	63,980	65,070	72,370	77,194	82,821	29.45%	7.29%
Arall heblaw am Gyflog	21,947	22,036	24,641	25,064	27,223	24.04%	8.61%
Dibrisio a Lleihad	2,781	3,276	3,462	3,528	3,206	15.28%	(9.13)%
Gwariant Gros	107,676	108,772	121,190	128,935	135,541	25.88%	5.12%
Refeniw							
Refeniw o Weithgarwch Gofal Cleifion	(84,843)	(85,975)	(92,376)	(91,925)	(94,334)	11.19%	2.62%
Refeniw Gweithredu Arall	(22,894)	(22,836)	(28,861)	(37,062)	(41,186)	79.90%	11.13%
Incwm gros	(107,737)	(108,811)	(121,237)	(128,987)	(135,519)	25.79%	5.06%
Refeniw Buddsoddi, Costau Cyllid ac Enillion a Cholledion Eraill	26	22	31	24	(48)		
(Gwarged) / Diffyg a Gadwyd	(35)	(17)	(16)	(28)	(26)		
(Gwarged) / Diffyg Cronnol	(50)	(67)	(83)	(111)	(137)		

Enillydd y Gystadleuaeth
Ffotograffiaeth: James Allen

EIN HADRODDIAD ATEBOLRWYDD

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr 2018/19

Yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, rhaid i Adroddiad y Cyfarwyddwyr gynnwys y wybodaeth ganlynol, oni chaiff ei datgan rywle arall yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Os yw hynny'n digwydd, rhoddir croesgyfeiriad:

Gofyniad

1. Enwau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, ac enw unrhyw unigolyn a oedd yn gyfarwyddwr yr endid ar unrhyw adeg yn y flwyddyn ariannol a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol.	Gweler Atodiad 1 yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
2. Cyfansoddiad y bwrdd rheoli (gan gynnwys aelodau cynghori ac anweithredol) ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo neu reoli prif weithgarwch yr endid yn ystod y flwyddyn.	Gweler Atodiad 1 yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
3. Enwau'r cyfarwyddwyr sy'n ffurfio pwyllgor neu bwyllgorau archwilio.	Gweler Atodiad 1 yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
4. Manylion swyddi cyfarwyddwyr a buddiannau arwyddocaol eraill aelodau'r bwrdd rheoli a all wrthdaro â'u cyfrifoldebau rheoli. Lle mae Cofrestr Buddiannau ar gael ar-lein, gellir darparu dolen ar y we yn lle datgeliad manwl yn yr adroddiad blynyddol.	Gweler Cofrestr Buddiannau 2018/19 .
5. Gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol lle adroddwyd amdanynt yn ffurfiol i swyddfa'r comisiynydd gwybodaeth. Adrodd am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol gan gynnwys "digwyddiadau anffafriol difrifol" sy'n cynnwys colli data neu doriadau cyfrinachedd a manylion am sut mae'r risgiau i wybodaeth yn cael eu rheoli.	Gweler yr adran ar Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
6. Gwybodaeth am faterion amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol.	Gweler Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol 2018/19 i gael gwybodaeth am faterion amgylcheddol. Gweler yr Adroddiad Blynyddol ac adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol i gael gwybodaeth am faterion Cymdeithasol a Chymunedol.
7. Fel deiliad gwybodaeth sector cyhoeddus, mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu costau a chodi ffioedd a bennwyd yng nghanllawiau Trysorlys EM.	

Croesgyfeiriad

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo y dylai'r Prif Weithredwr fod yn Swyddog Atebol i'r Ymddiriedolaeth. Nodir cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y maent yn atebol drosto, ac am gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm y Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a nodwyd yn fy llythyr penodi fel Swyddog Atebol.

Fel Swyddog Atebol rwy'n cadarnhau, hyd y gwyddwn nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilyr yr endid yn ymwybodol ohoni, ac rwyf wedi cymryd wedi cymryd yr holl gamau y dylid bod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a bod archwilyr yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Fel Swyddog Atebol, rwy'n cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon yn ei gyfarwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r farn sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Llofnod:



Prif Weithredwr
Tracey Cooper
30 Mai 2019

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn Perthynas â'r Cyfrifon y Grŵp

O dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr baratoi cyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cyfarwyddo bod y cyfrifon hyn yn rhoi barn gywir a theg o sefyllfa'r Ymddiriedolaeth ac incwm a gwariant yr Ymddiriedolaeth am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr:

- gymhwyso'n gyson egwyddorion cyfrifyddu a osodir gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ddoeth;

- nodi a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, ar yr amod bod unrhyw wyriadau perthnasol wedi'u datgelu a'u hesbonio yn y cyfrif.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon. Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion a amlinellwyd yn y cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru a nodwyd uchod.

Drwy Orchymyn y Bwrdd



Cadeirydd
Jan Williams
30 Mai 2019



Prif Weithredwr
Tracey Cooper
30 Mai 2019



Cyfarwyddwr Cyllid
Huw George
30 Mai 2019

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Diben a Chrynodeb o'r Ddogfen:

Mae'n ofynnol i lechyd Cyhoeddus Cymru ddarparu Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd, sy'n rhan o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018/19. Mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad hwn wedi'i llunio gan ddefnyddio gwybodaeth a dogfennaeth sicrwydd a goladwyd drwy gydol y flwyddyn ariannol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn y Llawlyfr Cyfrifon. Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM), a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, hefyd wedi'i ddefnyddio er mwyn helpu i lunio'r Datganiad terfynol.

Cafodd y fersiwn ddrafft ei chymeradwyo i'w chyflwyno gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol (yn amodol ar newidiadau y cytunwyd arnynt) yn ei gyfarfod ar 1 Mai 2019.

Cafodd y fersiwn derfynol hon ei chyflwyno i'r Pwyllgor i'w hargymhell i'r Bwrdd ar gyfer ei chymeradwyo ar 30 Mai 2019. Cymeradwyodd y Bwrdd y Datganiad hwn i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru mewn cyfarfod o'r Bwrdd ar 31 Mai 2019.

Cwmpas Cyfrifoldeb

Fel y Sefydliad Iechyd Cyhoeddus cenedlaethol yng Nghymru, ein gweledigaeth yw *Gweithio i gyflawni dyfodol iachach i Gymru*. Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol hwn yn adlewyrchu blwyddyn gyntaf lawn gweithredu ein Strategaeth Hirdymor newydd a gymeradwywyd yn 2017/18.

Mae'r Bwrdd yn atebol am bennu'r cyfeiriad strategol, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheoli risg effeithiol ar waith a dwyn y Gweithrediaethau i gyfrif o ran cyflwyno cynllun strategol y sefydliad yn effeithiol. Fel Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae gennyf gyfrifoldeb am sicrhau bod gennym drefniadau llywodraeth effeithiol a chadarn ar waith yn ogystal â system reolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi cyflawni diben a blaenoriaethau strategol y sefydliad, wrth ddiogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad. Cyflawnir y rhain yn unol â'm

cyfrifoldebau fel Swyddog Atebol a ddyrannwyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol personol am reoli a staffio'r sefydliad. Mae'n ofynnol i mi sicrhau fy hun, ac felly'r Bwrdd, fod trefniadau rheoli gweithredol y sefydliad yn addas at y diben ac yn galluogi arweinyddiaeth effeithiol. Mae'r datganiad canlynol yn dangos y mecanweithiau a'r dulliau a ddefnyddir i'm galluogi i gael y sicrwydd hwnnw.

Fframwaith Llywodraethu

Rydym wedi parhau i ddatblygu ac aeddfedu ein trefniadau llywodraethu ar draws y sefydliad.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff penderfynu corfforaethol, gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol a Chyfarwyddwyr Anweithredol yn aelodau llawn a chyfartal ac yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am holl benderfyniadau'r Bwrdd.

Yn benodol, mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb am bennu'r cyfeiriad strategol, fframwaith llywodraethu, diwylliant a datblygiad sefydliadol, datblygu perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid, a chyflawni nodau ac amcanion Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llwyddiannus. Yn ychwanegol, mae gan Gyfarwyddwyr Gweithredol gyfrifoldeb lefel bwrdd ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau'n effeithiol. Cefnogir y Bwrdd gan Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd.

Cynhaliwyd adolygiad o'r strwythur sefydliadol fel rhan o weithredu'r Strategaeth Hirdymor newydd. Mae hyn wedi arwain at sefydlu Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd, y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth newydd a'r newid i fodel llywodraethu mwy integredig sy'n cynnwys llywodraethu clinigol, corfforaethol a gwybodaeth sy'n cael ei arwain a'i alluogi drwy'r Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd i ddechrau yn 2019/20.

Cafodd strwythur y pwyllgor sefydliadol ei ddiwygio yn 2018/19 hefyd i adlewyrchu Strategaeth Hirdymor newydd 2018-2030. Sicrhodd yr adolygiad bod y Rheolau Sefydlog yn cael eu hadlewyrchu'n briodol. Gwnaeth hefyd gryfhau aliniad priod gyfrifoldebau craffu pob pwyllgor â'r blaenoriaethau strategol, yr amcanion strategol a'r risgiau strategol o fewn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Ers ei gyflwyno yn 2016, mae datblygu Fframwaith Rheoli Risg integredig a Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (BAF) hefyd yn sicrhau manteision i'r Bwrdd a'i bwyllgorau, gan gynnwys rheoli a goruchwyllo risgiau strategol. Cynhaliwyd adolygiad llawn o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn dilyn cymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig 2018/19 – 2020/21 a chytuno ar y blaenoriaethau strategol. Cafodd yr adolygiad ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd drwy Sesiynau Datblygu'r Bwrdd. Ystyriodd y Tîm Gweithredol y BAF diwygiedig yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol. Rhoddodd Arweinwyr Gweithredol pob blaenoriaeth fewnbwn i'r BAF hefyd.

Rydym wedi mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog a Chadw a Dirprwyo Pwerau enghreifftiol ar gyfer rheoleiddio gweithrediadau a busnes.² Maent wedi'u cynllunio i drosi'r gofynion statudol a bennwyd yn Rheoliadau Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009 (fel y'u diwygiwyd) yn arfer gweithredu o ddydd i ddydd. Ynghyd â mabwysiadu cynllun penderfyniadau a gedwir i'r Bwrdd, cynllun dirprwyo i swyddogion ac eraill, maent yn darparu'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer cynnal busnes y sefydliad. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'r ystod o bolisiâu corfforaethol a bennwyd gan y Bwrdd, yn cyfrannu at y Fframwaith Llywodraethu.

² Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog enghreifftiol yn llawn, gydag un diwygiad i Adran 6.4.3: newid dosbarthu agendâu a phapurau ategol i aelodau Bwrdd/Pwyllgor o 10 i 7 diwrnod calendr cyn cyfarfod.



Gwelliannau i'r Fframwaith Llywodraethu

Yn ystod y flwyddyn, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo er mwyn atgyfnerthu fframwaith llywodraethu'r sefydliad ymhellach a phrofi ei gadernid. Roedd hyn yn cynnwys y prif feysydd canlynol:

Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog a Chynllun Dirprwy

Yn dilyn yr adolygiad llawn o'r Cynllun Cadw Pwerau yn ôl a'r Cynllun Dirprwy yn 2017/18 cafodd rhai meysydd pellach eu nodi ar gyfer gwella. Gwnaed diwygiadau yn ystod 2018/19 a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ym mis Ionawr 2019, yn unol â'r awdurdod dirprwyedig a roddwyd gan y Bwrdd. Cyflwynwyd y penderfyniad wedyn i'r Bwrdd yn adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor ym mis Mawrth 2019. Arweiniodd yr adolygiad yn 2017/18 at sicrhau bod cynllun rhyngweithiol, mwy hygyrch ar gael i staff. Mae hwn wedi bod yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y flwyddyn a chafwyd adborth cadarnhaol arno. Bydd y Cynllun yn parhau i gael ei fonitro a'i adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n gywir ac yn adlewyrchu dirprwyaethau sy'n newid wrth i'r sefydliad symud yn ei flaen.


Adolygiad o Strwythur Pwyllgor y Bwrdd

Cafodd strwythur Pwyllgor y Bwrdd ei adolygu a'i ddiwygio yn 2018/19 er mwyn adlewyrchu Strategaeth newydd 2018-2030. Yn sgil y Strategaeth Hirdymor newydd, 2018-2030, ystyriodd y Bwrdd beth fyddai'r ffordd orau o sicrhau ei hun bod y strategaeth a'i blaenoriaethau newydd cysylltiedig yn cael eu darparu'n effeithiol. Ystyriodd hefyd a oedd unrhyw fylchau ym mecanwaith y Bwrdd a allai ei alluogi i fod yn fwy addas i'r diben o ran ei benderfyniadau strategol mewn perthynas â chroesawu arloesedd a thechnolegau newydd. O ganlyniad nododd yr angen i sefydlu Pwyllgor Bwrdd newydd i ganolbwyntio ar Wybodaeth, Ymchwil a Gwybodaeth a Fforwm Ymgynghorol i'r Bwrdd yn canolbwyntio ar Dechnoleg ac Arloesi mewn lechyd a Llesiant. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r gofyniad i'r bwrdd gael pwyllgor llywodraethu gwybodaeth yn cael ei gyflawni gan y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Gwybodaeth newydd yn lle'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella. Roedd y Pwyllgor newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2019 a daw'r Fforwm Cynghori yn weithredol yn ystod 2019/20.

Mae Ffigur 1.1 yn dangos strwythur y Bwrdd a Phwyllgorau a oedd yn weithredol yn ystod 2018/19 ac mae'n rhoi manylion am y berthynas rhwng y Bwrdd a'i bwyllgorau, ynghyd â'r Tîm Gweithredol. Mae Ffigur 1.2 yn dangos y strwythur y Bwrdd a Phwyllgorau diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018 ac yn weithredol o 1 Ebrill 2019.

Mae Ffigur 1.1 yn dangos strwythur y Bwrdd a Phwyllgorau a oedd yn weithredol yn ystod 2018/19 ac mae'n rhoi manylion am y berthynas rhwng y Bwrdd a'i bwyllgorau, ynghyd â'r Tîm Gweithredol.

Ffigur 1.1: Strwythur y Bwrdd a Phwyllgorau yn weithredol yn ystod 2018/19



Bydd rhai themâu yn rhedeg drwy'r holl Bwyllgorau, er enghraifft:

Rheoli Perfformiad

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Safonau Iechyd a Gofal (gyda'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn ystyried yr adroddiad blyneddol)

Strwythur y Tîm Gweithredol a'r Cyfarwyddiaethau

Mae'r Tîm Gweithredol, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr (y mae rhai ohonynt yn Gyfarwyddwyr Gweithredol) yn gyfrifol am arweinyddiaeth a rheoli'r sefydliad yn weithredol. Mae Ffigur 2.1 yn dangos Strwythur y Tîm Gweithredol a'r Gyfarwyddiaeth a oedd yn weithredol yn ystod 2018/19 ac mae ffigur 2.2 yn dangos y strwythur a oedd yn weithredol o 1 Ebrill 2019 yn dilyn y newidiadau sefydliadol.

Creffir ar berfformiad ariannol, rheoli ansawdd a risg, gwybodaeth am y gweithlu a chyflwyno yn erbyn cynlluniau strategol a gweithredol y sefydliad yng nghyfarfodydd y Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd, cyfarfodydd y Tîm Gweithredol ac mewn cyfarfodydd tîm gweithredol amrywiol ar draws y sefydliad. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad, er bod y wybodaeth a gawsant yn dderbyniol, ceir potensial i wella rhywfaint. Yn enwedig, awgrymodd y Bwrdd y byddai'r adroddiad perfformiad integredig yn cael budd o fwy o werthuso, effaith a mesur. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach yn ystod sesiynau datblygu'r Bwrdd yn 2019/20.

Mae'r Bwrdd wedi ystyried ei effeithiolrwydd a'i ddatblygiad parhaus drwy gydol 2018/19. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Bwrdd nifer o sesiynau datblygu gan gwmpasu pynciau fel rheoli risg ac archwaeth risg, llywodraethu cydweithredol a datblygu fframwaith penderfynu. Roedd y Bwrdd hefyd yn ganolog i'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth Hirdymor Newydd a risgiau strategol cysylltiedig y sefydliad yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd wedi ceisio cynyddu ei welededd a hyrwyddo hyd yn oed mwy o dryloywder yn ystod y flwyddyn, gyda'r holl gyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu ffrydio'n fyw drwy'r cyfryngau cymdeithasol a sesiwn holi ac ateb lle gall aelodau o'r cyhoedd gyflwyno cwestiynau i'r Bwrdd eu hateb. Byddwn yn parhau i ddatblygu a hyrwyddo hyn yn ystod 2019/20.

Materion allweddol a ystyrir gan y Bwrdd

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi ystyried nifer o faterion allweddol a gweithredu lle y bo'n briodol. Manylir ar y rhain isod.

Fframwaith gwneud penderfyniadau

Cymeradwyodd y Bwrdd fframwaith gwneud penderfyniadau ym mis Mai 2018. Mae'r fframwaith yn rhoi canllawiau i'r rhai sy'n datblygu cynigion gwneud penderfyniadau ac i nodi'r amrywiaeth eang o dystiolaeth y dylid ei hystyried wrth dderbyn penderfyniad i'w gymeradwyo. Cafodd y fframwaith ei ddatblygu mewn ymgynghoriad rhwng y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd drwy sesiynau datblygu'r Bwrdd.

Adolygiad Cymheiriaid y Gymdeithas Ryngwladol o Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol

Cafodd y Bwrdd adroddiad ac argymhellion gan yr adolygiad cymheiriaid o Iechyd Cyhoeddus Cymru a gynhaliwyd gan yr IANPHI. Galluogodd yr adolygiad i Iechyd Cyhoeddus Cymru arddangos Cymru fel cenedl ac agweddau ar waith Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nododd yr adroddiad bum thema allweddol yn sail i gynllun gweithredu ffurfiol: y rhain oedd:

- egluro arweinyddiaeth systemau Iechyd Cyhoeddus Cymru; rôl
- manteisio ar dechnoleg;

- cynaliadwyedd partneriaethau traws-sectoraidd;
- dull strategol a chynhwysfawr o ymchwilio;
- sicrhau bod adnoddau'n gyson â meysydd penodol.


Yn dilyn yr adroddiad daeth yn amlwg mai Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r Sefydliad Iechyd Cyhoeddus i Gymru gyda chyfleoedd sylweddol i leoli'r sefydliad fel ffynhonnell allweddol o gyngor a chymorth arbenigol ar draws y sbectrwm polisi cyhoeddus. Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau rheolaidd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y meysydd a nodwyd ar gyfer gweithredu.

Cadeiriodd y Prif Weithredwr y panel ar gyfer yr adolygiad cymheiriaid o Santé Publique Ffrainc (Iechyd Cyhoeddus Ffrainc), gan weithio gyda Brif Weithredwyr eraill (ac uwch-Gyfarwyddwyr eraill) o Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn Québec, Lloegr, Gwlad Pwyl, Canolfan yr Unol Daleithiau ar gyfer Rheoli ac Atal Clefydau a'r Eidal. Rhoddodd yr adolygiad cymheiriaid gyfle gwyb i Iechyd Cyhoeddus Cymru ddysgu o waith cryf Santé Publique France ac ystyried sut y gallwn gymhwyso'r hyn a ddysgwyd i'n gwaith.

Datganiad Sefyllfa ar gyfyngiadau cyflymder

Mabwysiadodd y Bwrdd y safbwynt bod Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r farn y gallai gostwng y terfyn cyflymder rhagosodedig i 20 mya sicrhau budd sylweddol i Iechyd y cyhoedd.

Ffigur 2.1: Strwythur y Tîm Gweithredol a'r Gyfarwyddiaeth a oedd yn weithredol yn ystod 2018/19





Effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd

Cafodd y Bwrdd sicrwydd rheolaidd ar y gwaith sy'n ei gwblhau fel rhan o barodrwydd y sefydliad ar gyfer y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Cafodd y rhaglen ei chyflwyno drwy bedair ffrwd waith gan gynnwys parhad busnes, effeithiau ehangach ar iechyd y cyhoedd, diogelwch iechyd a phobl ac adnoddau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Wrth baratoi ar gyfer y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru, y GIG, fforymau cydnherthedd lleol, cydweithwyr o'r Pum Gwlad, a phartneriaid rhyngwladol i sicrhau bod trefniadau trawsffiniol yn eu lle.

Cynllunio Strategol

Mae'r Bwrdd wedi chwarae rhan ganolog a gweithredol wrth ddatblygu Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda chyfrifoldeb am bennu'r cyfeiriad strategol. Cynhaliwyd trafodaethau Bwrdd manwl i gefnogi datblygiad fel rhan o'n proses strategol 'edrych yn ôl ac ymlaen', rydym yn ei chynnal yn flynyddol. Archwiliodd hyn y ffactorau strategol a gweithredol a all effeithio ar ein blaenoriaethau, yn ogystal ag adolygu cynnydd a pherfformiad. Gweler yr adran ar y Strategaeth Hirdymor i gael rhagor o fanylion.

Mae ein cynllun strategol (Cynllun Tymor Canolig Integredig) (CTCI) yn rhoi manylion am y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros ail flwyddyn y Strategaeth Hirdymor tair blynedd. Cymeradwywyd hwn gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2019. Ochr yn ochr â'r CTCI a gymeradwywyd gan y Bwrdd cafodd cynllun gweithredol un flwyddyn ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2019.

Llywodraethu Cydweithredol

Parhaodd y Bwrdd i gynorthwyo a hyrwyddo cydweithio mewn partneriaeth yn ystod y flwyddyn, gan gael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd gan y Prif Weithredwr o ran Partneriaeth Cymru Well Wales. Mae Cymru Well Wales yn fforwm aelodaeth gyda phob aelod yn gyfartal.

Ym mis Mai 2018, cymeradwyodd y Bwrdd ddull o gydweithio â Chwaraeon Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni lefelau uwch o weithgaredd corfforol. Cafodd hyn ei ffurfioli ymhellach drwy gymeradwyo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Mawrth 2019.

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

Daeth Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gyfraith ar 3 Gorffennaf 2017.

Cafodd y Bwrdd sicrwydd ar ymateb Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r Ddeddf.

Mae trafodaethau a gwaith gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Ddeddf wedi parhau gan gynnwys:

- Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru (ac yn fwy penodol Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU)) wrth gefnogi datblygu rheoliadau Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) statudol.
- Cymorth iechyd cyhoeddus arbenigol sy'n ofynnol ar gyfer Strategaeth Atal a Lleihau Gordewdra.
- Cefnogi gwaith ar ymgysylltu â rhanddeiliaid gydag ymarferwyr yn cynnal gweithdrefnau arbennig; cyngor arbenigol ar feirysau a gludir yn y gwaed; adolygu canllawiau presennol y diwydiant; a rhannu dysgu.
- Cynorthwyo Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol.
- Cynorthwyo'r gwaith o weithredu darpariaeth i ailddatgan ac ymestyn cyfyngiadau ar reoli tybaco.

Gweithio'n genedlaethol ac yn rhyngwladol

Fel Sefydliad Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae ymgysylltu â phartneriaid rhyngwladol, a dysgu ganddynt, wedi parhau i gael ei gryfhau gan alluogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael rôl arweiniol yn yr agenda iechyd datblygu a cynaliadwy fyd-eang. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- Mae Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant yn gam mawr mewn partneriaeth hirdymor barhaus gyda Sefydliad Iechyd y Byd
- Parhaodd y Tîm Gweithredol i gynnal cyfarfodydd Gweithrediaeth i Weithrediaeth ddwywaith y flwyddyn gydag Iechyd Cyhoeddus Lloegr, gan feithrin perthynas waith agos rhwng y ddau sefydliad.
- Cynhaliwyd Modiwl Brechu Rhaglen Ewrop ar gyfer Hyfforddiant Ymyrryd Epidemioleg (EPITET) sy'n rhwydwaith o epidemiolegwyr maes tra hyfforddedig yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r rhwydwaith yn ceisio cryfhau'r ymateb i glefydau heintus mewn gwledydd ac ar draws ffiniau.
- Aeth y Prif Weithredwr i is-grŵp y Cyngor Rhyngweithio ar Gydweithredu, sef grŵp o gyn-benaethiaid Llywodraeth o bob rhan o'r byd sy'n ystyried materion byd-eang ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu. Mae hyn yn cynrychioli perthynas agos barhaus o ran cymryd rhan mewn cydweithredu byd-eang ac arddangos yr arloesedd sy'n digwydd yng Nghymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Aelodaeth y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol

Cyfansoddwyd y Bwrdd i gydymffurfio â *Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009 (fel y'u diwygiwyd)*. Yn ychwanegol at gyfrifoldebau a rhwymedigaethau a bennwyd yn y telerau ac amodau penodi, mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn ymgymryd â nifer o rolau Hyrwyddwr lle maent yn gweithredu fel llysgenhadon (gweler Atodiad 1). Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Bwrdd yn cynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol a Gweithredol.

Yn ychwanegol at y Cyfarwyddwyr Gweithredol a benodwyd yn unol â'r *Rheoliadau*, mae unigolion wedi'u penodi hefyd i swyddi cyfarwyddwr eraill. Maent, ynghyd â chyfarwyddwyr gweithredol, yn aelodau'r Tîm Gweithredol. Mae ganddynt wahoddiad sefydlog i gyfarfodydd Bwrdd lle gallant gyfrannu at drafodaethau, ond nid oes ganddynt hawliau pleidleisio.

Ymadawiad a phenodiad Cyfarwyddwyr Anweithredol

Cwblhaodd Terence Rose CBE, Cyfarwyddwr Anweithredol ei dymor olaf yn y swydd ar 31 Hydref 2018. Cynhaliwyd proses recriwtio yn ystod haf 2018 i lenwi'r swydd a adawyd yn wag gan yr Athro Simon Smail ym mis Hydref 2017 ac i lenwi swydd wag Terence Rose. Ar ôl adolygu

cymysgedd sgiliau'r Bwrdd cytunwyd y dylai'r swyddi hyn fod yn benodol i'r rôl a nodwyd bylchau mewn gwyddorau bywyd a chyllid.

Yn anffodus, ar ôl dwy rownd aflwyddiannus o recriwtio, mae'r swyddi'n dal yn wag. Cafodd ateb interim ei roi ar waith lle cytunodd Dyfed Edwards, a benodwyd i rannu swydd rôl awdurdod lleol gydag Alison Ward, i ymgymryd â'r swydd annibynnol amser llawn ar sail interim o 1 Gorffennaf 2018. Mae'r Athro Stephen Palmer wedi'i benodi hefyd ar sail interim o 1 Tachwedd 2018. Bydd y trefniadau interim hyn yn parhau yn eu lle hyd nes y gellir penodi'n llwyddiannus i'r ddwy swydd wag. Gyda Dyfed wedi ymgymryd â'r rôl amser llawn, mae swydd wag rhannu swydd ar hyn bryd ar gyfer y rôl awdurdod lleol.

Cynllunio Olyniaeth ar gyfer 2018-19

Cafodd Kate Eden (Is-gadeirydd) ei hailbenodi am 4 blynedd arall ar 31 Rhagfyr 2018 gan estyn ei thymor yn y swydd tan 31 Mawrth 2023

Penodiadau ac Ymadawiadau Uwch-staff

Mae strwythur y Tîm Gweithredol presennol wedi bod ar waith ers 1 Ebrill 2015. Cafwyd y newidiadau canlynol o ran y deiliaid swyddi yn ystod y flwyddyn:

Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Sîan Bolton oedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn ystod 2018/19 gan gwmpasu seconddiad Rhiannon Beaumont-Wood i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ac yn fwy diweddar i Sefydliad Iechyd y Byd yn ystod y flwyddyn. Dychwelodd Rhiannon i'w swydd barhaol ar 4 Chwefror 2019.

Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant

Ymddeolodd Dr Christine o'i rôl fel Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant ar 24 Chwefror 2019. Penodwyd Jyoti Atri yn Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant interim o 25 Chwefror 2019 am gyfnod o 6 mis tra'n aros i Gyfarwyddwr Gweithredol parhaol newydd gael ei benodi ar gyfer y swydd hon. Fodd bynnag, yn sgil absenoldeb wedi'i gynllunio Christine ar ddechrau'r flwyddyn, dechreuodd Jyoti yn y swydd o 1 Ionawr 2019.

Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd y GIG a Diogelwch Cleifion/ Cyfarwyddwr Gwasanaeth 1000 o Fywydau a Mwy

Gadawodd Dr Aidan Fowler ei rôl fel Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd y GIG a Diogelwch Cleifion/Cyfarwyddwr Gwasanaeth 1000 o Fywydau a Mwy ar 15 Gorffennaf 2018. Cymerodd Dr John Boulton y swydd ar sail interim ar seconddiad 12 mis o 1 Awst 2018.

Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Llywodraethu Corfforaethol

Gadawodd Melanie Westlake ei rôl fel Ysgrifennydd Bwrdd a Phennaeth Llywodraethu Corfforaethol ar 11 Gorffennaf 2018. Cymerodd Catherine Steele y swydd fel Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro o 12 Gorffennaf 2018 tan 31 Ionawr 2019. Eleanor Higgins oedd Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Llywodraethu Corfforaethol dros dro o 1 Chwefror 2019 tan 10 Mawrth 2019. Cwblhawyd ymarfer recriwtio yn ystod 2018/19 i benodi i swydd Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd (teitl swydd diwygiedig). Dechreuodd Helen Bushell y swydd hon ar 11 Mawrth 2019 yn barhaol.



Ailgynllunio sefydliadol

Pan gymeradwydd y Bwrdd y Strategaeth Hirdymor nododd saith blaenoriaeth strategol sy'n canolbwyntio'n gwaith yn graffach i gyflawni ein gweledigaeth, sef Gweithio i Gyflawni Dyfodol Iachach i Gymru. Yn ogystal, cafodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y dynodiad fel Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar fuddsoddi ar gyfer iechyd a llesiant. Er mwyn sicrhau bod y sefydliad wedi'i alinio i gyflawni'r strategaeth, cytunwyd ar y newidiadau canlynol gan y Bwrdd a byddant yn weithredol ar 1 Ebrill 2019:

- Mae Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant wedi'i sefydlu fel endid penodol yn y sefydliad, gyda'r Tîm Polisi ac Iechyd Rhyngwladol yn ffurfio'r Ganolfan Gydweithredol.
- Mae Cyfarwyddiaeth Gwybodaeth newydd wedi'i ffurfio a bydd yn cynnwys yr holl swyddogaethau deallusrwydd, ymchwil a gwerthuso iechyd ar draws y sefydliad. Mae Siân Bolton wedi cael ei phenodi yn Gyfarwyddwr Pontio i sefydlu ac arwain y Gyfarwyddiaeth cyn penodi Cyfarwyddwr Gwybodaeth parhaol.



- Caiff model llywodraethu integredig newydd ei ddatblygu a'i sefydlu yn y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Caiff swydd newydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu ei sefydlu gyda Swyddog Cymorth Llywodraethu ychwanegol yn cael ei sefydlu yn yr Is-adran. Bydd swyddogaethau llywodraethu corfforaethol ehangach Ysgrifennydd y Bwrdd hefyd yn trosglwyddo i'r Gyfarwyddiaeth
- Cafodd rôl yr Ysgrifennydd y Bwrdd a'r Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol eu newid i ddod yn Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Undeb Busnes y Bwrdd gydag Uned Busnes y Bwrdd i'w cynorthwyo.

Cynrychiolaeth Staff ar Gyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor

Mae Stephanie Wilkins, prif Gynrychiolydd UNITE ac Ysgrifennydd Ochr Staff Iechyd Cyhoeddus Cymru; Claire Lewis, Stiward, Coleg Brenhinol y Nyrsys; a Roger Richards, Is-gadeirydd, Pwyllgor Ochr y Staff wedi mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau a chyfrannu atynt fel aelod heb hawliau pleidleisio drwy gydol 2018/19. Bu hyn yn eu rhinwedd fel cynrychiolwyr o'r Fforwm Partneriaeth Lleol. Bydd Dr Michael Thomas, cynrychiolydd Cymdeithas Feddygol Prydain yn dechrau mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn ystod 2019/20.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu ag undebau a chynrychiolwyr ar y Fforwm Partneriaeth Staff i annog mwy o gynrychiolaeth staff mewn cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor.

Amrywiaeth y Bwrdd

Ar 31 Mawrth 2019, mae 70 y cant o aelodau'r Bwrdd yn fenywod (gyda dwy swydd wag), gydag 20 y cant o gefndir Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae un aelod o'r Bwrdd yn siarad Cymraeg yn rhugl ac mae un arall yn ddysgwr uwch. Mae'r Bwrdd wedi cynnal sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac wedi cael cynnig cymorth fel dysgwyr Cymraeg.

Pwyllgorau Bwrdd

Yn ystod 2018/19 roedd pedwar Pwyllgor Bwrdd sefydlog yn gweithredu, wedi'u cadeirio gan Gyfarwyddwyr Anweithredol, y mae ganddynt rolau allweddol mewn perthynas â'r system llywodraethu a sicrwydd, gwneud penderfyniadau, craffu, trafodaethau datblygu, asesiad o'r risgiau presennol a monitro perfformiad.

Sefydlwyd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Gwybodaeth gan y Bwrdd yn ystod 2018/19 ond ni chafodd gyfarfod tan chwarter cyntaf 2019/20. Ac eithrio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth, cafodd papurau a chofnodion pob cyfarfod eu cyhoeddi ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynhelir sesiynau preifat Pwyllgorau fel sy'n ofynnol i gael a thrafod gwybodaeth sensitif neu warchodedig. Mae Cadeiryddion Pwyllgorau'n darparu adroddiadau i gyfarfod y Bwrdd yn dilyn pob cyfarfod Pwyllgor. Hefyd, cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y pwyllgor perthnasol. Mae pob Pwyllgor hefyd yn llunio adroddiad blynyddol, sy'n rhoi crynodeb o'r busnes a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r adroddiadau blynyddol pwyllgor yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd eu bod yn gweithio'n effeithiol ac yn cyfrannu at yr asesiad cyffredinol o effeithiolrwydd y Bwrdd. Maent hefyd yn cynnig cyfle ychwanegol i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw feysydd sydd angen sylw.

Yn ystod y flwyddyn dechreuodd cadeiryddion y Pwyllgorau gyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd drwy adroddiad cyfansawdd y Cadeirydd, gan roi trosolwg o eitemau a ystyriwyd gan y Pwyllgor a thynnu sylw at unrhyw faterion / themâu traws-bwyllgor neu eitemau y mae angen tynnu sylw'r Bwrdd atynt.

Mae Cadeiryddion pob Pwyllgor, ynghyd â'r Arweinwyr Gweithredol wedi cwblhau cyfres o sesiynau datblygu. Mae hyn wedi rhoi cyfle i fyfyrion ar sut y mae'r Pwyllgorau'n gweithio yn ymarferol a sut y gallwn ddatblygu eu heffeithiolrwydd yn barhaus. Ymhlith yr agweddau allweddol ar y drafodaeth fu'r cydbwysedd rhwng agendâu'r pwyllgorau a'r rôl o ran rhoi sicrwydd i'r Bwrdd, ac mae'r ddau yn credu amser i'r Bwrdd dreulio mwy o amser ar feysydd gwaith strategol a materion pwysig eraill.

Mae aelodaeth gyffredin rhwng y Pwyllgorau i sicrhau integreiddio â'i gilydd mewn meysydd perthnasol. Fel y nodwyd yn flaenorol, arweiniodd yr adolygiad a diwygio'r strwythur pwyllgorau yn 2018/19 yn dilyn hynny at gyflwyno cylch gorchwyl newydd.

Nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu Pwyllgor Cronfeydd Elusennol gan nad oes ganddo ei elusen ei hun. Mae ganddo fynediad at gronfa a weinyddir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac mae gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol, yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, awdurdod dirprwyedig i reoli'r gronfa hon.

Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi uchafbwyntiau adroddiadau a gafwyd gan Bwyllgorau trwy gydol y flwyddyn. Mae'r uchafbwyntiau hyn yn rhoi tystiolaeth o'r fframwaith llywodraethu ar waith.

Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol bum gwaith yn ystod 2018/19 a chafwyd cworwm ar bob un o'r pum achlysur. Mae'r Pwyllgor yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd ar yr holl systemau rheolaeth fewnol, llywodraethu a defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol drwy oruchwylio a monitro rhaglen o archwilio mewnol ac allanol.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Pwyllgor nifer o adroddiadau a luniwyd gan yr Archwiliad Mewnol a thrafodwyd yr adroddiadau hyn. Rhestrir y rhain yn Ffigur 3 isod, ynghyd â'r sgôr sicrwydd a roddwyd:

Ffigur 3: Sgoriau Sicrwydd Adroddiadau Archwilio Mewnol 2018/19

Adroddiad

Lefel y sicrwydd a roddir

	Dim sicrwydd	Sicrwydd cyfyngedig	Sicrwydd rhesymol	Sicrwydd sylweddol
Datganiad Ansawdd Blyneddol				✓
Cyflwyno adroddiadau ar Gynaliadwyedd Amgylcheddol				✓
Seiberddiogelwch (Gwaith dilynol)			✓	
Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data			✓	
Codi Pryderon (Gwaith dilynol)			✓	
Honiadau am Gronfa Risg Cymru				✓
Llywodraethu Rhwydweithiau Clinigol (Gwaith dilynol)			✓	
Llywodraethu Clinigol			✓	
Adolygiad y Gyfarwyddiaeth			✓	
Rheoli Risgiau			✓	
Rheoli Absenoldeb			✓	
Strategaeth Hirdymor - Ymgysylltu â Rhanddeiliaid				✓
Systemau ariannol craidd			✓	
Safonau Iechyd a Gofal				✓

Yn 2017/18 cafwyd tri adroddiad sicrwydd cyfyngedig ar gyfer Codi Pryderon (Chwythu'r Chwiban), Seiberddiogelwch a Llywodraethu Rhwydweithiau Clinigol. Bu'r Pwyllgor yn olrhain y cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu rheoli y cytunwyd arnynt yn ystod 2018/19. Gwnaeth archwiliadau mewnol dilynol o'r gwahanol feysydd yn ystod 2018/19 arwain at sgoriau sicrwydd rhesymol. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro camau gweithredu heb eu cymryd mewn perthynas â'r archwiliadau hyn yn ystod 2019/20.

Rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r Pwyllgor ar archwiliadau allanol a monitro cynnydd yn erbyn argymhellion.

Parhaodd y Pwyllgor i fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwaith dilynol ar Contract Ymgynghorwyr y GIG, ac adolygiad Swyddfa Archwilio o Drefniadau Cydweithredol ar gyfer Rheoli Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Lleol a gafwyd yn 2017/18. Er bod y camau rheoli wedi cael eu cau ym mis Medi 2018/19, cafodd y gwaith o oruchwylio materion yn ymwneud â staff ar draws y sefydliad ei gyfeirio i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol er mwyn parhau i'w adolygu.

Ym mis Mawrth 2019, cynhaliodd y Pwyllgor yr hunanasesiad ar gyfer 2018/19. Datblygwyd holiadur ar-lein yn seiliedig ar arweiniad yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio GIG Cymru, a chafodd ei gylchredeg i aelodau pwyllgor a mynychwyr. Roedd ymatebwyr yn cynnwys ymatebion cynrychiadol gan Wasanaethau Archwilio a Sicrwydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r GIG (Mewnol). Bydd y Pwyllgor yn ystyried y canlyniadau a'r adroddiad mewn gweithdy anffurfiol yn Chwarter 1, 2019/20. Os bydd angen, caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu.

Cynhaliodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru nifer o swyddogaethau ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cafodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol adroddiadau gan y swyddogaeth archwilio mewnol sy'n rhoi sicrwydd iddo fod y swyddogaethau hyn yn effeithlon ac yn gost-effeithiol. Hefyd, mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gynrychiolaeth ar Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru lle mae unrhyw fater a nodwyd yn cael ei rannu a'i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Cafodd y Pwyllgor yr Asesiad Ansoddol yr Awdurdod Atal Twyll 2017/18, ac ystyriodd ganlyniadau arolwg ymwybyddiaeth o dwyll y sefydliad ar gyfer 2018. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd y byddai bylchau o ran ymwybyddiaeth staff yn cael eu codi drwy broses sefydlu a gloywi'r sefydliad. Cymeradwyodd y Pwyllgor y polisi a'r weithdrefn Gwrth-dwyll a Llygredd.

Cymeradwyodd y Pwyllgor hefyd y polisi a'r weithdrefn Adennill Cyflogau, Gordaliadau a Thandaliadau; y gweithdrefnau ar gyfer Gwaredu offer a defnyddiau traul sydd wedi dar fod a thros ben; a mabwysiadu polisi Cymru Gyfan ar Yswiriant, Indemniad y GIG a rheoli risg cysylltiedig ar gyfer colledion posibl a pholisi taliadau arbennig.

Derbyniodd y Pwyllgor y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (BAF) ym mhob cyfarfod ac mae'n goruchwylio elfennau'r BAF sy'n berthnasol i'r risgiau sy'n dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor. Derbyniodd hefyd y BAF a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn eu cyfanrwydd er mwyn ceisio sicrwydd bod y risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod y mesurau rheoli sydd ar waith yn ddigonol ac yn addas at y diben.

Cyflawnodd y Pwyllgor ei rôl i herio'r Weithrediaeth ar reoli'r risgiau, yn benodol i brofi effeithiolrwydd y mesurau rheoli ac i wneud argymhellion i atgyfnerthu'r amgylchedd rheoli lle y bo angen.

Cafodd y Pwyllgor sesiwn briffio ar effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar y sefydliad, a'r gwaith paratoi i liniaru digwyddiadau posibl o ran parhad busnes a/neu ddigwyddiadau cynllunio at argyfwng a allai ddigwydd. Adolygodd y Pwyllgor y meysydd gwaith â blaenoriaeth, a chafodd sicrwydd y byddai risgiau unigol yn cael eu rheoli drwy gofrestr risg y sefydliad.

Q Collaborating with 1000 Lives Improvement

Amy Boyle,

Senior Improvement Communications Manager

9th November 2018



Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella

Cyfarfu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella bedair gwaith yn ystod 2018/19 a chafwyd cworwm ar bob un o'r pedwar achlysur.

Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella'n cynorthwyo'r Bwrdd wrth gyflawni ei swyddogaethau i ymgymryd â'i gyfrifoldebau o ran ansawdd a diogelwch. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am geisio sicrwydd ar bob agwedd ar ansawdd gwasanaethau a gofal clinigol, systemau llywodraethu gan gynnwys risgiau ar gyfer safonau clinigol, corfforaethol a rheoleiddiol ar gyfer ansawdd a diogelwch.

Ar ddechrau pob cyfarfod, cafodd y Pwyllgor stori o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau neu aelod o staff. Roedd y straeon yn cynnwys gwersi a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i negeseuon allweddol y stori. Sicrhodd hyn fod y Pwyllgor yn dod â chraffu a phwyslais ar roi defnyddwyr gwasanaethau yn ganolog o ran gwella, datblygu a chynllunio gwasanaethau.

Ym mis Gorffennaf 2019, cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun Ansawdd ac Archwilio Clinigol 2018/19. Byddai archwiliadau unigol yn destun 'adroddiadau manwl' yn ôl yr angen. Cafodd y cynllun hwn ei dderbyn gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol er gwybodaeth.

Cafwyd diweddariad i'r cynllun ym mis Ionawr 2019 lle nodwyd bod Archwiliad Mewnol o Lywodraethu Clinigol wedi cael sicrwydd rhesymol.

Cynhaliodd y Pwyllgor waith craffu pellach ar y meysydd canlynol yn ystod 2018/19:

- Trosolwg o Raglen Gwella 1000 o Fwyddau. Roedd hwn yn cynnwys manylion am gylch bywyd y rhaglenni, sut roedd ansawdd ac effaith yn cael eu hadrodd a'u mesur.
- Adroddiad trylwyr a'r diweddaraaf ar gynnydd ar Gynllun Gweithredu'r Fframwaith Ansawdd ac Effaith.
- Adroddiad trylwyr ar wasanaethau Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a Bron Brawf Cymru, a ganolbwyntiodd ar eu llwyddiannau allweddol, heriau a dilyniant yn y dyfodol.
- Y cynllun sefydlogi Microbioleg Sefydlogi, asesu risg ac adroddiadau ar fodel gweithredol yn y dyfodol.
- Adroddiad sy'n amlinellu trefniadau sefydlu a llywodraethu Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant.
- Crynodeb o'r arfarniad o sut y mae gwaith gwerthuso'n cael ei wneud ar draws y sefydliad

- Y diweddaraaf ar gynnydd ar weithredu system rheoli heintiau ICNet ar draws byrddau iechyd y GIG yng Nghymru.
- Y fframwaith ar gyfer sicrhau profiad y defnyddiwr gwasanaethau, gan nodi yn dilyn diwygio'r cwestiynau craidd a amlinellwyd mewn Cylchlythyr Iechyd Cymru, y byddai fersiwn newydd o'r adroddiad yn dechrau ym mis Ebrill 2019.
- Cefndir a diben yr is-grŵp ffurfiol Ystadegau Swyddogol. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp a nododd y byddai trefniadau llywodraethu'n trosglwyddo i'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Gwybodaeth.

Derbyniodd y Pwyllgor yr eitemau sefydlog canlynol yn chwarterol hefyd:

- Adroddiad Gweithio i Wella - dadansoddiad o ddigwyddiadau, cynwion, hawliadau a chanmoliaethau i nodi tueddiadau, themâu a gwersi a ddysgwyd. Cafwyd diweddariad ar hawliadau yn sesiynau preifat y Pwyllgor oherwydd sensitifrwyd y wybodaeth.





- Adroddiad Perfformiad wedi'i Gydgrynhoi Llywodraethu Gwybodaeth – barn wedi'i chydgrynhoi ar berfformiad y System Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth. Gwnaeth yr adroddiad hefyd roi crynodeb o'r risgiau Llywodraethu Gwybodaeth uchel ac eithafol ar draws y sefydliad. Galluogodd yr adroddiad y Pwyllgor i gryfhau ei ddulliau o graffu ar faterion llywodraethu gwybodaeth. Cafwyd adroddiad diwygiedig ym mis Ionawr 2019 i adlewyrchu ehangder a dyfnder materion llywodraethu gwybodaeth ar draws y sefydliad. Cytunwyd y byddai adroddiadau yn y dyfodol yn cael eu hailgyfeirio i'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Gwybodaeth.

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau blynyddol yn ymdrin â'r meysydd canlynol: Diogelu Corfforaethol; Ymchwil a Datblygu; Gweithio i Wella, Heintiau, Atal a Rheoli. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd dderbyn adroddiad blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, gan gyfeirio at yr adran benodol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cafodd yr holl ddigwyddiadau difrifol a nodwyd o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru eu hadolygu gan y Pwyllgor. Ar gyfer pob digwyddiad difrifol, holodd y Pwyllgor pa wersi a oedd wedi'u dysgu ac adolygodd y cynllun gweithredu a oedd yn manylu ar y gwelliannau a wnaed o ganlyniad. Rhoddir manylion am ddigwyddiadau difrifol yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y polisïau canlynol: Polisi a gweithdrefn Gweithio i Wella, polisi a gweithdrefnau Diogelu, Rhybuddion, Hysbysiadau Diogelwch a pholisi a gweithdrefn canllawiau NICE, Rheoli Dyfeisiau ac Offer Meddygol a'r polisïau TG Cymru Gyfan a fabwysiadwyd.

Derbyniodd y Pwyllgor y darn perthnasol o'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (BAF) ym mhob cyfarfod yn ogystal â darn perthnasol y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a oedd yn cynnwys risgiau Llywodraethu Gwybodaeth. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd y BAF a chytunodd y byddai'n cael ei adolygu ar ddechrau pob cyfarfod er mwyn i aelodau allu amlygu unrhyw feysydd y mae angen gwybodaeth ychwanegol arnynt er mwyn cael sicrwydd priodol.

Rhoddir rhagor o wybodaeth am gydraddoldeb yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.



13

conceptual frameworks informed the evidence review findings of what works in dissemination and use of knowledge

Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol

Cyfarfu'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol bedair gwaith yn ystod 2018/19 a chafwyd cworwm ar bob un o'r pedwar achlysur.

Ar ddechrau pob cyfarfod, cafodd y Pwyllgor stori o safbwynt aelod o staff. Roedd y straeon yn cynnwys gwersi a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i negeseuon allweddol y stori. Sicrhaodd hyn fod y Pwyllgor yn ymgysylltu'n llawn â staff ac yn dod â chraffu a phwyslais ar roi staff yn ganolog o ran gwella, datblygu a chynllunio'r gweithlu.

Roedd rhai o'r eitemau allweddol a dderbyniwyd gan y Pwyllgor yn 2018/19 yn cynnwys:

- Y diweddaraf am gynnydd o ran ymgysylltu â staff a chynllun gweithredu o feysydd blaenoriaeth mewn ymateb i Arolwg Staff 2016 a 2018.
- Y diweddaraf am gynnydd ar ddull lechyd Cyhoeddus Cymru o ymgysylltu allanol, gan gynnwys cymeradwyo 'Ein Dull Ymgysylltu: Canllawiau Ategol'.
- Adroddiadau trylwyr ar reoli absenoldeb oherwydd salwch a chyfraddau trosiant. Cafodd y Pwyllgor hefyd y diweddaraf am gynllunio'r gweithlu'n strategol a datblygu pecyn cymorth cynllunio'r gweithlu er mwyn helpu rheolwyr i gyflawni'r cynlluniau sy'n cyflawni

yn erbyn cynllun blynyddol y gyfarwyddiaeth a nodau strategol hirdymor.

- Cymorth ar gyfer dysgu lefel uwch a'r Fframwaith Ansawdd a Gyrfa ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch yr amrywiaeth o opsiynau hyfforddi ar gyfer staff newydd a phresennol a bod dysgu a datblygu staff yn flaenorol.
- Dyfarnu'r Safon Iechyd, Llesiant ac Iechyd Corfforaethol arian a chynnydd yn erbyn y camau gweithredu a ddatblygwyd i gyflawni'r Safon Iechyd Corfforaethol Aur.
- Y diweddaraf am y fenter Amser i Symud.
- Y diweddaraf am y cynllun sefydlogi Microbioleg, a ganolbwyntiodd ar recriwtio i rolau sy'n anodd eu llenwi.

Yn ystod 2017/18, penderfynwyd y byddai'r Pwyllgor yn derbyn diweddariadau Pobl a Datblygu Sefydliadol eang gan bob cyfarwyddiaeth. Rhoddodd y gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthynol y diweddaraf i'r staff o'r diwrnod cwrdd i ffwrdd, a ganolbwyntiodd ar ganlyniadau'r arolwg staff. Cyhoeddodd y Gyfarwyddiaeth 1000 o Fywydau eu ffocws ar adeiladu tîm a datblygu staff mewn ymateb i'r arolwg staff.

Ar gais y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ym mis Medi 2018, penderfynodd y Pwyllgor fabwysiadu goruchwyliaeth yn y dyfodol o weithgarwch sy'n ymwneud â phobl o adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru i'r Trefniadau Cydweithredol ar gyfer Rheoli Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Lleol. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno hefyd i ystyried y materion sy'n gysylltiedig â'r gweithlu a nodwyd yn adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Contractau Ymgynghorwyr, a'r adolygiad o'r Gyfarwyddiaeth Archwilio Mewnol yn y drefn honno.

Derbyniodd y Pwyllgor yr eitemau sefydlog canlynol yn chwarterol hefyd:

- Adroddiad Diweddarau Iechyd a Diogelwch – derbyniodd y Pwyllgor y diweddaraf yn rheolaidd gan y Grŵp Iechyd a Diogelwch a chafodd sicrwydd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Gweithrediaeth y GIG. Mae'r adroddiad wedi'i ategu gan y Gofrestr Risg Iechyd a Diogelwch. Cafodd y Pwyllgor adroddiad blynyddol lechyd a Diogelwch 2017/18.
- Y diweddaraf am Safonau'r Gymraeg (Gofal Iechyd) – canolbwyntiodd y diweddariad hwn ar weithredu cynnydd yn erbyn y safonau (gweler yr adran ar y Gymraeg yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn).

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Adolygodd y Pwyllgor gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru (a gymeradwywyd gan y Pwyllgor, Gorffennaf 2017) a chymeradwyodd adroddiad blynyddol Cydraddoldeb Strategol 2017-18. Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried gwelliannau i Fynegai Cydraddoldeb Stonewall Iechyd Cyhoeddus Cymru. Adroddiad trylwyr ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob cyfarfod, gan gwmpasu ehangder amrywiaeth a chydbwysedd rhwng y rhywiau, ac yn amlinellu'r gwaith ymgysylltu, hyfforddi a mentora sy'n digwydd yn y sefydliad. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cafwyd straeon profiad staff gan aelod LGBT ar amrywiaeth a chynwysoldeb mewn cyflogaeth a chafodd y Pwyllgor hefyd gan gadeiryddion y rhwydweithiau amrywiaeth ar gyflwyniad gan Gadeiryddion y rhwydweithiau amrywiaeth ar gyfer: menywod; LGBT+, gofalmwr a rhieni sengl.
- Cyflwyniad gan Dr Justin Varney, Ymgynghorydd mewn Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Lloegr a fyfyrdd ar ei brofiad o gynhwysiant ac amrywiaeth yn y GIG, gan argymhell meysydd ffocws ar gyfer y sefydliad.

Rhoddir rhagor o wybodaeth am gydraddoldeb yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Cymeradwyodd y Pwyllgor y polisiau a'r gweithdrefnau canlynol yn ystod 2018/19, neu fe'u mabwysiadwyd: Recriwtio; Fy Nghyfraniad; Atal Straen a Rheoli Llesiant Meddyliol; Gallu, Mamolaeth, Mabwysiadu, Cymorth i Rien i ac Absenoldeb Rhiant a Rennir ac IVF; Cymorth ar gyfer Dysgu a Datblygu; Ymbelydredd, Cofrestru a Dilysu Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol a Rheoli presenoldeb yn y gwaith.

Ar ôl i'w Polisi Disgyblu gael ei gymeradwyo yn 2017/18, cafodd y Pwyllgor y diweddaraf am achosion disgyblu a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod sesiynau preifat y Pwyllgor.

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau blynyddol yn ymdrin â'r canlynol: Cofrestru Nyrsys Iechyd Cyhoeddus Cymru; ac Ailddilysu Meddygol o'r Arfarniad o Iechyd Cyhoeddus Cymru; a Heintiau, Atal a Rheoli.

Derbyniodd y Pwyllgor y darn perthnasol o'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (BAF) ym mhob cyfarfod yn ogystal â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Sefydlu Pwyllgor Bwrdd Gwybodaeth, Ymchwil a Gwybodaeth newydd a Fforwm Cynghori ar Dechnoleg ac Arloesi mewn Iechyd a Llesiant

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol wrth oruchwyllo gweithredu'r Strategaeth Hirdymor newydd, 2018 – 2030 (a blaenoriaethau strategol newydd cysylltiedig), cytunodd y Bwrdd i sefydlu Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Gwybodaeth newydd. Sefydlwyd y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth newydd o 1 Ebrill 2019, felly cytunodd y Bwrdd y byddai'r Pwyllgor newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2019.

Pwyllgor Deallusrwydd, Ymchwil a Gwybodaeth y Bwrdd

Bydd y Pwyllgor hwn yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas ag ansawdd ac effaith ein gwybodaeth, deallusrwydd iechyd a gweithgareddau ymchwil a hefyd y trefniadau ansawdd data a llywodraethu gwybodaeth yn y sefydliad. Bydd hyn, felly, yn cymryd drosodd gwaith craffu a sicrwydd yr agweddau llywodraethu gwybodaeth sydd wedi'u derbyn yn flaenorol yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

Fforwm Cynghori Technoleg ac Arloesi mewn Iechyd a Llesiant i'r Bwrdd.

Sefydlwyd y Fforwm Cynghori Technoleg ac Arloesi mewn Iechyd a Llesiant gyda'r diben o ganolbwyntio ar ffyrdd newydd o feddwl a ffyrdd newydd o wneud pethau sy'n canolbwyntio ar fanteisio ar dechnoleg newydd a phresennol a'i mabwysiadu gan ganolbwyntio'n bennaf ar arloesi. Bydd yn gwneud hyn drwy ffocws strategol a sganio'r gorwel er mwyn ystyried arloesi a thechnolegau newydd a phresennol, yng Nghymru ac yn fyd-eang, sydd â'r potensial i wella iechyd a llesiant yn sylweddol drwy eu hystyried, eu mabwysiadu a manteisio arnynt.

Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth wyth gwaith yn ystod 2018/19 a chafwyd cworwm ar bob achlysur.

Cafodd y materion a gymeradwywyd gan y Pwyllgor eu cadarnhau gan y Bwrdd llawn. Mae'r Adroddiad Taliad Cydnabyddiaeth yn rhoi rhagor o wybodaeth am y materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor ystod 2018/19.

Cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor a gynhaliwyd yn ystod 2018/19

Mae Ffigur 4 yn amlinellu dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor a gynhaliwyd yn ystod 2018/19.

Cafwyd cworwm yn holl gyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor Iechyd Cyhoeddus Cymru a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn. Os na fydd cworwm ar gyfer cyfarfod pwyllgor, mae trefniadau uwchgyfeirio ar waith i sicrhau y byddai sylw Cadeirydd y Bwrdd yn cael ei ddwyn i unrhyw fater o bryder sylweddol.

Ffigur 4: Cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor 2018/19

Bwrdd/Phwyllgor		2017/2018							
Bwrdd		30 Mai	31 Mai*	26 Gorff	27 Med	29 Tach	31 Ion	28 Maw	
Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol		2 Mai	30 Mai	6 Med	23 Ion	14 Maw			
Ansawdd, Diogelwch a Gwella		10 Ebr	10 Gorff	4 Hyd	15 Ion				
Pobl a Datblygu Sefydliadol		24 Ebr	23 Gorff	24 Hyd	10 Ion				
Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth		26 Gorff	6 Awst	28 Awst	18 Med	25 Hyd	29 Tach	24 Ion	28 Maw

* Cynhaliwyd cyfarfod eithriadol i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.



Diben y System Reolaeth Fewnol

Nod y system reolaeth fewnol yw rheoli risgiau i lefel resymol yn hytrach na gwaredu'r holl risgiau. Felly, gall roi sicrwydd effeithiolrwydd rhesymol yn unig, nid sicrwydd effeithiolrwydd llwyr.

Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni'r polisiau, y nodau a'r amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y byddai'r risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith os cânt eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system reolaeth fewnol wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a chyfrifon blyneddol.

Rydym yn defnyddio system a phroses Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (BAF) i fonitro, ceisio sicrwydd a sicrhau yr eir i'r afael â diffygion trwy waith craffu'r Bwrdd a'i Bwyllgorau.


Dangosir hyn yn Ffigur 5.

Diffinnir y mesurau rheoli allweddol fel y mesurau rheoli a'r systemau sydd ar waith wrth sicrhau bod amcanion strategol y Bwrdd yn cael eu cyflawni. Mae enghreifftiau o fesurau rheoli allweddol yn cynnwys:

- Cynlluniau dirprwyo
- Polisiau a gweithdrefnau
- Data perfformiad
- Gwybodaeth rheoli ariannol
- Prosesau Ansawdd a Diogelwch

Mae effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol yn cael ei asesu gan archwilydwr mewnol ac allanol.

Ffigur 5: System Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd



Y Gallu i Ymdrin â Risg

Fel rhan o'r broses cynllunio a datblygu'r Strategaeth Hirdymor, a oedd yn cynnwys ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid, nodwyd saith o risgiau strategol. Bydd rhanddeiliaid yn parhau i gael eu cynnwys wrth reoli'r risgiau hyn drwy gyfarfodydd adolygu perfformiad gyda Llywodraeth Cymru a chyfarfodydd Gweithrediaeth i Weithrediaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau Iechyd. Ym mis Mawrth 2017, cymeradwyodd y Bwrdd y risgiau strategol a oedd yn wynebu'r sefydliad ar gyfer 2018/19.

Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Rheoli Risg ym mis Mehefin 2017 a Gweithdrefn Rheoli Risg ategol ym mis Mawrth 2018, sy'n cynnwys y gofyniad am Ddatganiad Blynyddol o Archwaeth Risg. Cafodd y Datganiad o Archwaeth Risg ei gynnwys yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2018/19.

Mae Ffigur 6 yn amlinellu'r risgiau strategol allweddol ynghyd â'r sgoriau risg a aseswyd (pan fydd mesurau rheoli risg presennol wedi'u hystyried).

Ffigur 6: Risgiau Strategol Allweddol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2018/19

Risg Strategol

Sgôr Risg*

Mae risg y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru heb y gweithlu sydd ei angen arno i gyflawni ei flaenoriaethau strategol.	8
Mae risg y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n methu ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau Llywodraeth newydd ac sy'n dod i'r amlwg yn sgil agenda wleidyddol ddynamig sy'n datblygu.	8
Mae risg y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn methu cyflawni enillion Iechyd poblogaeth drwy arweinyddiaeth sefydliadol a system aneffeithiol (gan gynnwys aliniad gwael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).	12
Mae risg y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn methu cyflawni ei swyddogaethau statudol fel y'u nodir yng Ngorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009, i'w safonau ansawdd, perfformiad a chydymffurfio gofynnol.	10
Mae risg na fydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau statudol a rheolaethol i'r graddau ei fod yn methu cyflawni ei flaenoriaethau strategol.	16
Mae risg y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn methu dylanwadu ar bartneriaid allweddol i'r dyfnder sy'n ofynnol i'w alluogi i ddarparu'r arweinyddiaeth ofynnol i ddatblygu gwaith traws-sector hanfodol.	8
Mae risg y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru heb yr adnoddau ariannol sydd eu hangen arno i gyflawni ei flaenoriaethau strategol.	5

* Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn defnyddio matrices 5 x 5 i gyfrifo'r sgôr risg. Mae'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n eang yn y GIG. Mae tebygolrwydd ac effaith y bydd y risg yn digwydd yn cael eu hasesu ar raddfa o 1 i 5, ac yna mae'r ddwy sgôr yn cael eu lluosio i gyrraedd y sgôr risg derfynol (rhwng 1 a 25 ac 1 yw'r isaf). Ceir rhagor o wybodaeth yng **Ngweithdrefn Rheoli Risg** Iechyd Cyhoeddus Cymru.



Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau ar bob risg a'r priod gamau mewn cyfarfodydd Bwrdd drwy gydol y flwyddyn ar ffurf Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF). Cymeradwyodd unrhyw ddiwygiad i'r BAF, gan gynnwys estyn y dyddiadau gweithredu unigol.

Erbyn hyn mae dros 100 o Draffodwyr Risg wedi'u hyfforddi ar draws y sefydliad a'u rôl yw cefnogi cyfarwyddwyr a Pherchnogion Risg eraill, ac mae hyfforddiant yn cael ei gynnig i'r holl uwch-reolwr y mae disgwyl iddynt dderbyn cyfrifoldebau perchnogion risg. Roedd dogfennau arweiniad, trinwyr risg a enwebwyd, a ffurflen gyflwyno ar gael ar y feddalwedd rhoi gwybod am ddigwyddiadau a rheoli risg ar y we, Datix, i gyd yn rhoi cymorth i staff ar gyfer rhoi gwybod am risgiau ar draws y sefydliad. Mae hyn yn gwneud nodi, adrodd a rheoli risgiau'n symlach ac yn fwy effeithiol.

Ar lefel weithredol, mae cyfarwyddwyr Gweithredol/Is-adrannol yn gyfrifol am adolygu Cofrestrau Risg eu Cyfarwyddiaeth/Is-adran yn rheolaidd, ac am sicrhau bod mesurau rheoli a chynlluniau gweithredu effeithiol ar waith a monitro cynnydd. Mae Cofrestrau Risg Cyfarwyddiaeth yn derbyn craffu yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth bob mis.

Mae'r Tîm Gweithredol yn adolygu'r **Gofrestr Risgiau Corfforaethol** yn ei gyfarfod busnes rheolaidd, a chaiff y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd ei adolygu bob yn ail fis hefyd yn barod i'w ystyried mewn cyfarfodydd Bwrdd ffurfiol.

Cyhoeddir y BAF ar **wefan** Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda phapurau'r Bwrdd ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r BAF wedi'i gyflwyno yn holl gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd ers ei fabwysiadu ym mis Mehefin 2016.

Ym mis Ionawr 2019 cafodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad sicrwydd rhesymol gan yr archwilyr mewnol yn dilyn archwiliad o'r system rheoli risg.

Trefniadau Llywodraethu Ansawdd

Mae'r trefniadau canlynol ar waith ar gyfer asesu ansawdd gwaith lechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd

Mae'r Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd (AHP), yn gyfrifol am y swyddogaethau canlynol:

- Ansawdd a Safonau
- Rheoli Risg a Llywodraethu Gwybodaeth
- Gweithio i Wella (digwyddiadau, cwynion a hawliadau)
- Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth
- Heintiau, Atal a Rheoli (mewnol)
- Diogelu (mewnol)
- Tîm Diogelu Cenedlaethol (allanol)
- Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol GIG Cymru
- Goruchwyliaeth Broffesiynol i Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd (gan gynnwys Gwyddonwyr Biomeddygol).

Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol dros Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd ag atebolrwydd cyffredinol ar gyfer

ansawdd ar draws y sefydliad ac mae'n broffesiynol atebol i nyrsys a bydwagedd yn ychwanegol at Weithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd sy'n cynnwys gwyddonwyr biomeddygol. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn aelod o'r Tîm Gweithredol sy'n gydatebol am reoli'r sefydliad yn weithredol a chyflawni'r amcanion corfforaethol.

Mae gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd gyfrifoldeb a rennir gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau lechyd Cyhoeddus/Cyfarwyddwr Meddygol ar gyfer llywodraethu clinigol ar draws y sefydliad.

Rydym yn parhau i sefydlu dulliau gwella ansawdd yn ychwanegol at ddulliau eraill, i gefnogi gwireddu ein nodau strategol a sicrhau ansawdd gorau posibl ein dulliau cyflwyno gwasanaethau a rhaglenni.

Ym mis Tachwedd 2016, cymeradwyodd y Bwrdd y Fframwaith Ansawdd ac Effaith. Mae'r Fframwaith yn pennu'r weledigaeth i fod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar ansawdd ac effaith, gan gynnwys yr elfennau amrywiol y byddwn yn eu defnyddio i ddangos a mesur yn eu herbyn. Yn ystod 2018/19, mae pob cyfarwyddiaeth wedi cyflwyno



adroddiad ar eu dangosyddion ansawdd ac effaith penodol a gafodd eu monitro gan Bwyllgorau'r Bwrdd fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad.

Mae nifer o grwpiau corfforaethol presennol sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella sy'n cynorthwyo'r Bwrdd wrth gyflawni ei swyddogaethau a bodloni ei gyfrifoldebau ynghylch ansawdd a diogelwch. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Panel Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau a Dysgu
- Grŵp Diogelu
- Gweithgor Llywodraethu Gwybodaeth
- Grŵp Heintiau, Atal a Rheoli

Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol (DAB) yn cael ei lunio i'r cyhoedd ac yn rhoi gwybodaeth am waith, swyddogaeth a chynnydd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n cael ei ddatblygu trwy gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a'r rhwydweithiau trydydd sector presennol sy'n cynrychioli'r cyhoedd. Caiff Datganiad Ansawdd Blynyddol 2018/19 ei gyhoeddi ar **wefan** Iechyd Cyhoeddus Cymru erbyn 31 Mai 2019 fan bellaf.

Am yr ail flwyddyn yn olynol rydym wedi cefnogi cyhoeddi Datganiad Ansawdd Blynyddol person ifanc a arweiniodd at y sefydliad yn cynnal nifer o ddiwyddiadau preswyl i bobl ifanc.

Gwnaeth y sefydliad hefyd ymestyn ei gefnogaeth i'r Uwchgynhadledd Ieuenctid drwy gyflwyno digwyddiad yng ngogledd Cymru.

Cynhaliwyd Uwchgynadledau Gogledd a De Cymru ar 24 Tachwedd ac 1 Rhagfyr gan ddenu dros 160 o bobl ifanc rhwng 11 a 23 oed. Roedd y gynrychiolaeth ddaearyddol y cynnwys yr ardaloedd canlynol, Caerdydd, Bro Morgannwg, Casnewydd, Merthyr Tudful, Caerffili, Castell-nedd a Phort Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Powys, Wrecsam, Conwy a Sir y Fflint. Gwnaed gwaith pellach i gynorthwyo pobl ifanc nas clywir yn aml i fynychu ac roedd y gynrychiolaeth yn cynnwys pobl ifanc o'r grwpiau canlynol, Pobl Lesbïaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, gofawyr ifanc, anabledd Dysgu, plant sy'n derbyn gofal a cheiswyr lloches a ffoaduriaid.

Rhoddodd yr Uwchgynhadledd Ieuenctid gyfle i'r bobl ifanc gefnogi datblygiadau gyda ACE (cadernid) a Chymru Well Wales. Gwnaethant hefyd, mewn partneriaeth, ddechrau gwaith datblygu o amgylch rhaglen llysgennad Ifanc Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd i'w lansio yn 2019/20.

Rydym hefyd yn cydnabod bod yr agenda ansawdd yn rhyngddibynnol â'n trefniadau llywodraethu corfforaethol, llywodraethu gwybodaeth a rheoli risg.

Llywodraethu Gwybodaeth

Mae gennym drefniadau sefydledig ar gyfer llywodraethu gwybodaeth i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rheoli'n unol â chyfraith llywodraethu gwybodaeth berthnasol, rheoliadau ac arweiniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn ystod 2018/19, fe wnaeth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella oruchwyllo'r Bwrdd mewn perthynas â materion llywodraethu gwybodaeth a rhoi cyngor a sicrwydd iddo. O 1 Ebrill 2019, bydd y Pwyllgor Deallusrwydd, Ymchwil a Gwybodaeth yn gyfrifol am oruchwyllo materion llywodraethu gwybodaeth.

Y Gwarcheidwad Caldicott yw'r sawl sy'n gyfrifol am ddiogelu cyfrinachedd gwybodaeth cleifion a defnyddwyr gwasanaethau a galluogi dulliau rhannu gwybodaeth priodol. Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus/Cyfarwyddwr Meddygol sy'n cyflawni'r rôl hon.

Yr Uwch-swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO) yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Rôl y SIRO yw eirioli risg gwybodaeth ar y Bwrdd. Mae'r SIRO yn gyfrifol am sefydlu fframwaith atebolrwydd yn y sefydliad i gyflawni dull cyson a chynhwysfawr at asesu risg gwybodaeth.

Y Prif Swyddog Risg yw'r Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth hefyd ac mae ganddo swydd ffurfiol yn Swyddog Diogelu Data fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 (GDPR). Mae'n gyfrifol am weithredu'r system reoli sy'n cyflawni ein gofynion Llywodraethu Gwybodaeth, ac am sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol.

Oherwydd cylch gwaith Cymru gyfan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â'r gwasanaethau amrywiol mae'n eu darparu, cydnabyddir bod angen cefnogaeth dirprwyon priodol ar Warcheidwad Caldicott i alluogi cyflawni dyletswyddau'r rôl fel y nodwyd uchod. Mae dirprwyon Caldicott wedi'u nodi ac mae'n ofynnol iddynt, yn ogystal â'r Gwarcheidwad Caldicott a'r SIRO, ymgymryd â hyfforddiant Gwarcheidwad Caldicott/SIRO y cytunwyd arno yn flynyddol fel un o ofynion y rôl.

Rydym wedi cymryd camau breision tuag at gydymffurfio â gofynion y GDPR, a ddaeth i rym yn y DU ym mis Mai 2018 ynghyd â'r Ddeddf Diogelu Data newydd 2018. Ym mis Ionawr 2018, cafodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad sicrwydd sylweddol gan yr archwilydwr mewnol yn dilyn archwiliad o'n System Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth a'n cydymffurfiaeth â'r GDPR.

Safonau Iechyd a Gofal Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal yn pennu gofynion cyflwyno gofal iechyd yng Nghymru ar bob lefel ac ym mhob lleoliad.

Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am ddangos bod y safonau'n cael eu defnyddio a'u bod yn cael eu cyrraedd yn barhaus. Er mwyn cyflawni hyn, mae cyfarwyddiaethau ac is-adrannau'n cynnal hunanasesiad yn erbyn pob un o'r safonau i bennu pa feysydd sy'n gwneud yn dda a nodi meysydd lle gall fod angen gwelliannau. Mae'r broses adolygu cymheiriaid yn galluogi craffu ar hunanasesiadau is-adrannol/cyfarwyddiaeth. Aeth cynrychiolwyr Archwilio Mewnol i'r digwyddiad hwn i arsylwi ar y broses yn cael ei dilyn fel rhan o'u harchwiliad o'r trefniadau Safonau Gofal Iechyd.

Cyflwynwyd adroddiad hunanasesu sefydliadol ar y cyd sy'n seiliedig ar ffurflenni o'r saith cyfarwyddiaeth ynghyd â'u hadroddiadau hunanasesu i'r Tîm Gweithredol. Ar y cyfan, mae'r sefyllfa sefydliadol ar gyfer 2018/19 wedi aros yr un fath ag yn y flwyddyn flaenorol.

Er bod cyfanswm y sgoriau cydymffurfio wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol mewn gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus, Ymchwil Polisi a Datblygu Rhyngwladol a Phobl a Datblygu Sefydliadol. Penderfynodd yr archwiliad mewnol ar ddigonolrwydd y systemau a'r mesurau rheoli sydd ar waith ar gyfer cwblhau'r hunanasesiadau a chafwyd sicrwydd sylweddol.

Mae'r camau gweithredu gwella a nodwyd gan gyfarwyddiaethau fel rhan o'r broses hunanasesu wedi'u hymgorffori yn y fframwaith monitro perfformiad sy'n cael ei gwblhau'n chwarterol, a'u monitro gan y Tîm Gweithredol.





Iechyd a Diogelwch

Mae'r Grwp Iechyd a Diogelwch yn is-grŵp o'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol. Mae'r grŵp wedi adolygu ei gylch gorchwyl a symud i un adroddiad ystadau ac iechyd a diogelwch, gydag adrannau'n cyflwyno adroddiadau ar sail eithriadau. Felly mae hyn yn galluogi'r grŵp i ganolbwyntio ar faterion neu heriau allweddol a nodi unrhyw risgiau sefydliadol y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

Er mwyn cryfhau trefniadau llywodraethu materion iechyd a diogelwch, cymerwyd y camau gweithredu canlynol:

- Mae'r cyfrifoldeb am oruchwylio iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal gan y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Mae un Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch yn ei le ac mae'n cael ei adolygu'n rheolaidd gan y grŵp Iechyd a Diogelwch a'r rannu â'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol, roedd gan y Cynllun gysylltiadau clir â Safonau Iechyd a Gofal, blaenoriaethu priodol, amserlenni ac atebolrwydd, a dulliau adrodd ffurfiol rhwng y cyfarwyddiaethau a'r Grŵp. Mae cynnydd ar y cynllun yn cael ei adolygu'n chwarterol.

- Mae'r Gofrestr Risg Iechyd a Diogelwch wedi'i monitro'n barhaus er mwyn sicrhau bod yr holl risgiau ar y gofrestr yn cael eu hadolygu a'u diweddarau.
- Mae cofrestr cydymffurfio ystadau wedi'i sefydlu sy'n rhoi manylion am y gydymffurfiaeth allweddol ar gyfer; asbestos; diogelwch Nwy; clefyd y llengfilwyr; tân a gwifrau sefydlog (tystysgrif 5 mlynedd).
- Mae catalog rhybuddion wedi'i sefydlu er mwyn cofnodi rhybuddion a hysbysiadau sy'n ymwneud ag ystadau, diogelwch a chyfleusterau er mwyn galluogi monitro camau gweithredu gofynnol lle y bo'n briodol.
- Cafodd cyllid cyfalaf ei sicrhau er mwyn gwella amgylcheddau labordai microbiolog, gan ddarparu gwell cyfleusterau lles i'r staff.

Y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gweithrediadau sy'n gyfrifol am oruchwylio'r weithrediaeth. Ar lefel weithredol, mae'r Pennaeth Ystadau (Cyfleusterau) ac Iechyd a Diogelwch yn parhau i adeiladu fframwaith a diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.

Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig ym mis Mawrth 2018. Mae is-bolisïau a chyfres o ddogfennau gweithdrefnau a rheoli manwl yn ategu'r polisi.

Strategaeth Hirdymor

Yn haf 2018 gwnaethom lansio ein Strategaeth Hirdymor, *Gweithio i Gyflawni Dyfodol Iachach* i Gymru. Gwnaed gwaith sylweddol yn ystod 2017/18, i ddatblygu ein strategaeth hirdymor newydd sy'n cwmpasu'r blynyddoedd 2018 - 2030, i'n galluogi i ganolbwyntio ar y ffordd orau o weithio gyda'n partneriaid i gael yr effaith fwyaf ar wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

Er mwyn cyflawni'r mathau o welliannau trawsnewidiol o ran iechyd y boblogaeth a llesiant sydd eu hangen arnom yng Nghymru, gwnaethom gydnabod bod angen i ni symud i ffwrdd o feddwl tymor byr a chael dull strategol tymor hwy o ran sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r materion iechyd cyhoeddus yn effeithiol.

Bydd ein dull tymor hwy yn ein helpu i:

- Gyflawni'r mwyaf y gallwn ar gyfer pobl Cymru
- Bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a rhagori ar y gofynion hyn
- Cydweithio â'n partneriaid yn y meysydd o angen mwyaf (meysydd pwnc)
- Deall yr heriau sy'n ein hwynebu ni wrth i ni symud tuag at boblogaeth sy'n heneiddio a heriau iechyd mwy cymhleth

Defnyddiwyd ffynonellau amrywiol o wybodaeth i ddatblygu'r strategaeth, gan gynnwys mwy na 1,000 awr o adborth gan staff a rhanddeiliaid ac arolwg cyhoeddus 'Cadw'n Iach yng Nghymru', a gynhyrchodd wybodaeth ddefnyddiol iawn. Dylanwadodd cyfraith, rheoliadau, ymchwil ac adroddiadau perthnasol ar ein dull hefyd.

Yn ystod 2018, rydym wedi dechrau gwaith i gyflawni ar y saith blaenoriaeth a ddeilliodd o'r adborth a'r arolwg. Mae'r blaenoriaethau hyn yn darparu'r sail ar gyfer ein Cynllun Strategol. Mae pob blaenoriaeth yn cael ei chefnogi gan nifer o amcanion a nododd yr hyn y bydd yn ei wneud dros y tair blynedd nesaf. Mae pob un o'r amcanion hyn yn ei dro yn cael ei ategu gan gynlluniau manwl, yr ydym yn eu monitro drwy ein Cynllun Blynyddol. I gefnogi datblygiad y cynlluniau hyn, mabwysiadwyd dull newydd o gynllunio, gan gynnwys staff o bob rhan o'r sefydliad drwy eu hannog i gyfrannu at ein cynlluniau. Cynhaliwyd sesiwn gynllunio ar gyfer pob blaenoriaeth er mwyn i'r staff allu cymryd rhan, a gwnaeth hyn hefyd gynorthwyo i lunio ein hamcanion ymhellach.

Yn dilyn lansio ein strategaeth hirdymor, gwnaethom hefyd roi trefniadau newydd ar waith ar gyfer rheoli ein blaenoriaethau. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ac maent yn adeiladu ar ein cynllunio blaenorol, ac yn sicrhau bod y blaenoriaethau'n cael eu hyrwyddo o bob rhan berthnasol o'r sefydliad. Mae'r trefniadau newydd yn cynnwys cyfrifoldeb am lywodraethu, a dirprwyo ein prif flaenoriaethau o'n Tîm Gweithredol i'r grwpiau blaenoriaeth strategol, er mwyn sicrhau ein bod yn cadw ar y trywydd iawn i gyflawni'r strategaeth hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar y **wefan** ac yn **Gymraeg**.

Ein Cynllun Strategol (Cynllun Tymor Canolig Integredig)

Cafodd ein Cynllun Strategol (a elwir hefyd yn Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI)) ei gymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mehefin 2018. Rhoddodd y cynllun hwn fanylion am y camau gweithredu y byddem yn eu cymryd dros dair blynedd gyntaf ein Strategaeth Hirdymor newydd.

Ym mis Ionawr 2019, cymeradwyodd y Bwrdd ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2019/22. Yn dilyn hynny, cymeradwywyd y Cynllun gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth 2019, gan fodloni'r ddyletswydd statudol i lechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau bod cynllun cymeradwy ar waith. Ein cynllun diwygiedig yw'r ail gynllun tair blynedd i gyflawni ein Strategaeth Hirdymor gyntaf, sy'n rhychwantu 2018 tan 2030. Gan adeiladu ar flwyddyn gyntaf lwyddiannus, mae'n rhoi manylion am y camau y byddwn yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf i barhau ein gwaith tuag at gyflawni ein Strategaeth Hirdymor newydd a sut rydym yn bwriadu cyflawni ein diben o "Weithio i gyflawni dyfodol iachach i Gymru". Mae'n dangos sut y byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion, drwy gyflawni ein saith blaenoriaethau strategol, ar wneud y gwahaniaeth mwyaf posibl i iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Roedd perfformiad ariannol yn unol â'r CTCI a gymeradwywyd ac mae Ymddiriedolaeth GIG lechyd Cyhoeddus Cymru wedi parhau i fodloni ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli'r gyllideb dros y tair blynedd 2016/17 i 2018/19.

Caiff ein Cynllun Strategol ei adnewyddu'n flynyddol yn unol â'n prosesau busnes a chynllunio strategol. Yn dilyn lansio ein Strategaeth Hirdymor, mae trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer rheoli ein blaenoriaethau strategol wedi cael eu sefydlu. Mae hyn yn cynnwys dirprwyo'r cyfrifoldeb am lywodraethu ac arwain blaenoriaethau o'r Tîm Gweithredol i sicrhau ein bod yn parhau ar y trywydd iawn o ran cyflawni ein Strategaeth Hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae cylch gorchwyl ar gyfer pob grŵp blaenoriaeth wedi'u datblygu ac maent yn cael eu mireinio ar hyn bryd wrth i rôl a chylch gwaith pob grŵp aeddfedu.

Trafodwyd fersiynau drafft o'r Cynllun Strategol tair blyneddol â'r Tîm Gweithredol fel rhan o'r broses ddatblygu. Cynhaliodd y Tîm Gweithredol a'r grwpiau Blaenoriaeth Strategol ymarferion edrych yn ôl, edrych ymlaen. Archwiliodd hyn y ffactorau strategol a gweithredol a all effeithio ar ein blaenoriaethau, yn ogystal ag adolygu cynnydd a pherfformiad. Ystyriodd y Bwrdd hefyd y sefyllfa ariannol a strategaeth y gyllideb ac adolygodd risgiau strategol y sefydliad mewn un o sesiynau datblygu'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2019. Cafodd y Cynllun Strategol ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd Mis Ionawr 2019.

Aeth y Bwrdd ati i reoli ein cynnydd wrth gyflwyno ein cynlluniau fel rhan o'n trefniadau rheoli perfformiad. Yn ystod y 2018/19, gwnaethom barhau i ddatblygu ein hadroddiad perfformiad integredig sy'n darparu gwybodaeth allweddol am ein perfformiad gweithredol, pobl, ansawdd ac ariannol. Mae ein hadroddiad perfformiad integredig yn destun craffu gan ein tîm Gweithredol bob mis a chan y Bwrdd bob yn ail fis ym mhob cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hyn yn galluogi ein Bwrdd i dderbyn sicrwydd ar y gwasanaethau a ddarparwn a bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn camau gweithredu a gynhwysir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Cafwyd rhagor o sicrwydd trwy gyfarfod y Tîm Gweithredol ar y Cyd rhwng lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru a chyfarfodydd Ansawdd a Chyflawni chwarterol.

Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a chaiff ei weithredu yn ystod 2019/20, sy'n ceisio cryfhau ymhellach ein trefniadau rheoli perfformiad ac adrodd. Bydd hyn yn canolbwyntio ar gysoni perfformiad presennol â mesurau canlyniad y cytunwyd arnynt a hefyd i ddatblygu rôl Pwyllgorau o ran rheoli perfformiad.

Nodau a diben ein trefniadau perfformiad hyn yw sicrhau bod:

- Mae diwylliant o wella perfformiad wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad
- Llinellau atebolrwydd clir ar waith fel rhan o'n fframwaith llywodraethu a sicrwydd
- Rhoddir gwybodaeth mewn modd amserol sy'n hyrwyddo ac yn llywio camau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd tanberfformiad
- Gwybodaeth berthnasol am ein gwasanaethau a swyddogaethau allweddol yn cael ei darparu i gefnogi'r broses benderfynu
- Rhoddir gwybodaeth fel rhan o ddull integredig i roi trosolwg cynhwysfawr o berfformiad y sefydliad
- Nodir a rheolir risgiau sylweddol i gyflwyno targedau y cytunwyd arnynt yn rhagweithiol ac yn effeithiol
- Dyrennir adnoddau'n effeithiol yn unol â'n strategaeth a'n blaenoriaethau.

Fel rhan o ddatblygu ein strategaeth nodwyd nifer o feysydd gan gynnwys llywodraethu, cynllunio, rheoli perfformiad, cyfathrebu ac ymgysylltu a chynllunio sefydliadol. Yn seiliedig ar y gwaith cynnar i ddatblygu'r themâu hyn, roeddem yn cydnabod bod y flwyddyn 'bontio' hon yn ein symud tuag at raglen o drawsnewid. Bydd hyn elfen allweddol o'n gwaith ar gyfer 2019/20.

Gwelliant Parhaus ac Adolygiadau Strategol

Rydym yn ymdrechu'n gyson i wella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd yr adolygiadau canlynol:

Sefydlogi a moderneiddio microbioleg

Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau wedi cymryd diddordeb arbennig yn y rhaglen sefydlogi a moderneiddio Microbiolleg yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2018 yn amlinellu'r anawsterau sy'n wynebu'r gwasanaeth microbiolleg yn lechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd themâu'r rhain yn seiliedig ar bedwar maes:

- Gweithlu – niferoedd, proffil, hyfforddi a datblygu
- Diwallu anghenion y byrddau iechyd yng Nghymru
- Amgylchedd ac ystadau – gofod, cynllun a ffabrig nad ydynt yn cyrraedd y safonau gorau posibl
- Gwasanaethau cymorth – ymgysylltu a cwantwm.

Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi craffu ymhellach ar y gwaith i sefydlogi a thrawsnewid y Gwasanaethau Microbiolleg yn ystod y flwyddyn a chafodd y Bwrdd ddiweddariad pellach ar y cynnydd hyd yma yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2019.

Cytunwyd y bydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn cadw trefniadau goruchwyllo ar gyfer y gwasanaethau microbiolleg gyda phwyllgorau eraill yn cadw'r hawl i gynnal ymchwiliad trylwyr os bydd angen.

Ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y Trefniadau Cydweithredol ar gyfer rheoli Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Lleol

Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei adolygiad o'r 'Trefniadau Cydweithredol ar gyfer Rheoli Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Lleol' ym mis Hydref 2017. Cafodd ymateb y rheolwyr yn cynnwys 15 o gamau gweithredu ei ddatblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn cydweithrediad â Chyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus (DsPH) y Byrddau Iechyd. Roedd yn ei gwneud yn ofynnol creu nifer o gyflawniadau allweddol, cytuno arnynt a'u cymeradwyo ar bwyntiau amrywiol rhwng mis Rhagfyr 2017 a diwedd mis Ebrill 2018. Roedd modd priodoli'r gwaith o gyflawni'r camau i Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r DsPH. Canolbwyntiodd y camau ar y meysydd canlynol:

- Egluro'r trefniadau arweinyddiaeth systemau Iechyd Cyhoeddus yng ac Nghymru
- Gwella'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd rhwng Iechyd

Cyhoeddus Cymru ar gyfer yr adnodd iechyd cyhoeddus lleol

- Nodi blaenoriaethau ar y cyd ar gyfer Gwella Iechyd rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd Lleol ac egluro'r rolau a chyfrifoldebau ar gyfer Gwella Iechyd rhwng timau Iechyd cyhoeddus canolog a lleol Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cysoni'r blaenoriaethau ar y cyd â strategaeth hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Dod i gytundeb ynghylch yr hyn sy'n cyfateb i Iechyd Cyhoeddus Gofal Iechyd a sut y gellir mabwysiadu hyn yn llawnach yng Nghymru
- Gwella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth y timau canolog a lleol
- Creu system fwy tryloyw a thecach ar gyfer dosbarthu adnoddau Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r timau Iechyd cyhoeddus lleol
- Sefydlu dull cydgysylltiedig o gynllunio'r gweithlu a datblygu sgiliau

Sefydlwyd trefniant rheoli rhaglen i gynllunio, monitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu a gynhwyswyd yn ymateb y rheolwyr. Cafodd y rhaglen ei rhannu yn 3 ffrwd waith a oedd yn canolbwyntio ar y:

- rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd
- perthnasoedd
- capasiti a gallu'r system.





Darparwyd nawdd lefel weithredol ar gyfer darparu'r rhaglen a'r allbynnau allweddol wedi'u cydlyn gan Reolwr Rhaglen a gefnogwyd gan Arweinwyr Prosiect ar gyfer pob un o'r ffrydiau gwaith.

Gan gydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru a'r DsPH, cafodd yr allbynnau canlynol eu cyflawni yn ystod y rhaglen:

- Eglurder gan Lywodraeth Cymru ar arweinyddiaeth systemau lechyd Cyhoeddus yng Nghymru
- Synergedd rhwng Gwella lechyd a Strategaeth Hirdymor lechyd Cyhoeddus Cymru
- Cytunwyd ar flaenoriaethau ar y cyd rhwng lechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau lechyd ar gyfer Gwella lechyd
- Yn amodol ar fireinio pellach, Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd newydd i'w fewnosod mewn memorandwm cyd-ddealltwriaeth
- Cytuno ar ddyraniad tecach o adnodd y Tîm lechyd Cyhoeddus Lleol (LPHT) rhwng Byrddau lechyd a chynllun gweithredu fesul cam
- Cytunwyd ar gyfarfodydd dwywaith y flwyddyn rhwng lechyd Cyhoeddus Cymru a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol lechyd Cyhoeddus (DsPH)
- Ymrwymiad ar y cyd i wella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth

- Cynnig ar ffordd ymlaen ar gyfer adolygiad Gwerth am Arian ar gyfer trafodaeth bellach rhwng lechyd Cyhoeddus Cymru a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol lechyd Cyhoeddus (DsPH)
- Cytundeb i ddefnyddio Fframwaith Cynllunio Gweithlu'r GIG a chysoni amserlenni
- Cynyddu ymwybyddiaeth staff o'r pecyn datblygu personol a phroffesiynol
- Cafodd Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol lechyd Cyhoeddus Cymru gyfarfodydd gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol lechyd Cyhoeddus (DsPH) a staff LPHT ar faterion y gweithlu

Mae'r **adroddiad** ar gau'r rhaglen yn rhoi trosolwg o sut y gweithredodd y rhaglen, y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r camau gweithredu yn yr ymateb gan y rheolwyr a pha newidiadau sydd wedi'u gwneud ers i Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno adroddiad ym mis Hydref 2017. Cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol a phriod Bwyllgorau Archwilio'r Byrddau lechyd.

Datgeliadau Gorfodol

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gwbl ymroddedig i gyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol a bennwyd yn Nyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (2011). Mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r sefydliad dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i fodloni'r amcanion cydraddoldeb a bennwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 - 2020 diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016. Fel sefydliad, rydym hefyd yn arbennig o awyddus i hyrwyddo cydraddoldeb trwy weithredu'n gadarnhaol, gan sicrhau bod yr hyn rydym yn ei wneud yn ein busnes bob dydd yn deg, yn gwbl hygyrch ac yn gynhwysol i'r holl boblogaethau ac unigolion, gan gynnwys y rhai a ddiogelir rhag gwahaniaethu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Gan gefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig, datblygwyd cynllun gweithredu i ddatblygu'r ffrwd waith cydraddoldeb. Er bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer cydraddoldeb yn cael eu rheoli'n gorfforaethol trwy'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol, mae angen rhagor o waith er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu ar waith

i fesur cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu cydraddoldeb.

Mae cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn chwarterol. Wrth gyflwyno yn erbyn y cynllun hwn, mae ymrwymiad cadarn wedi'i wneud gan bob rhan a lefel o'r sefydliad i ystyried cydraddoldeb fel rhan o'r gwaith maent yn ei wneud. Yn unol â dyletswyddau adrodd y sector cyhoeddus, cyhoeddodd y sefydliad ei adroddiad 2017/18 sy'n amlygu'r cynnydd hyd yn hyn. Roedd hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ein Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau, sydd hefyd wedi'i nodi ar borth y Llywodraeth. Rydym hefyd wedi adrodd ar ein data cyflogaeth, hyfforddiant a chydraddoldeb.

Gwnaed rhagor o waith i weithredu ymrwymiad cadarn y sefydliad i ymgymryd ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb Iechyd (EHIA). Mae'r holl bolisiau a strategaethau newydd a diwygiedig yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Iechyd fel y mae agweddau eraill ar y gwaith a wneir gan y sefydliad. Mae cynlluniau hyfforddiant ac adnoddau ategol yn cael eu cwblhau fel bod staff sy'n rhan o gynnal EHIA yn deall sut mae cynnal asesiadau o effaith o ansawdd uchel.

Mae trefniadau llywodraethu a chraffu ar gyfer EHIAs bellach wedi'u hymgorffori yn y templed ar gyfer cyflwyno papurau i'r Tîm Gweithredol, y Bwrdd a'r Pwyllgorau, gyda'r gofyniad i atodi'r EHIA i'r papur, neu i gyfiawnhau pam nad yw hyn wedi'i gwblhau.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cydnabod bod angen gwneud mwy i sicrhau bod y gwasanaethau rydym yn eu darparu'n gynhwysol a bod y gweithlu sydd gennym yn amrywiol. Gan fod cydraddoldeb yn annatod i bob rhan o'n busnes, mae meysydd gwasanaeth, adrannau a thimau'n cael eu hannog i ystyried effeithiau'r hyn maent yn ei wneud o ran cydraddoldeb. Mae mwy o waith yn angenrheidiol hefyd i leihau anghydraddoldebau. Maent yn ymgysylltu â mwy o bobl o gymunedau gwarchodedig i lywio'u gwaith. Wrth fabwysiadu'r arfer hwn, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu partneriaethau cryf â phobl o gymunedau gwarchodedig ac yn dysgu ganddynt a chyda nhw.

Mae'r sefydliad yn ymroddedig i nifer o fentrau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu, er enghraifft, Hyderus o ran Anabledd, Amser am Newid a'r addewid Gweithio Blaengar i gefnogi cyflogeion beichiog a rhieni newydd yn y gweithle. Mae'r sefydliad hefyd wedi dod yn aelod o Gynllun Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall, ac roedd yn safle 173 o blith 445 o sefydliadau a gymerodd ran yn y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle; cynnydd o 165 o leoedd o gymharu â'n safle y llynedd. Mae hyn wedi dangos gwelliant sylweddol, gyda rhagor o waith wedi'i gynllunio i barhau ar ein taith o gynwysoldeb. Bydd cefnogi'r fath fentrau'n ein symud ymlaen fel sefydliad o ran amrywiaeth y gweithlu.

Fodd bynnag, trwy roi ein camau gweithredu ar waith yn unol â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, bydd y gwaith hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol i Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth gyflwyno ei weledigaeth ar gyfer Cymru.



Y Gymraeg

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru'n cydnabod bod darpariaeth gofal ac iaith yn mynd law yn llaw. Mae ansawdd darpariaeth gofal, diogelwch cleifion, urddas a pharch yn gallu cael ei gyfaddawdu trwy fethu cyfathrebu â chleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf. Dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg y gall llawer o bobl gyfathrebu a chyfranogi yn eu gofal fel partneriaid cyfartal yn effeithiol. Rydym yn ymroddedig i ddiwallu anghenion y Gymraeg a dewisiadau ein defnyddwyr gwasanaethau.

Ers 2010, mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg ac, yn ddiweddarach, fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau'r Gymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol: 'Mwy na Geiriau'. Gwnaed gwaith i wella argaeledd, hygyrchedd, ansawdd a chydaddoldeb ein gwasanaethau Cymraeg. Fodd bynnag, mae gweithgareddau monitro wedi arwain at y casgliad bod llawer i'w wneud o hyd i sicrhau y gall defnyddwyr gwasanaethau gyrchu ystod lawn o wasanaethau Cymraeg yn ddi-oed lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

Mae Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol y Bwrdd yn cael adroddiadau rheolaidd ar faterion y Gymraeg. Mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg, mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn paratoi adroddiad blynyddol yn unol â fframwaith adrodd Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn ystyried yr adroddiad ac yn cymeradwyo ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

O ran gweithredu Mwy na Geiriau, mae'r Tîm Gweithredol ac Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn cael adroddiad blynyddol. Yn ogystal, fel rhan o Fframwaith Cyflawni'r GIG, rhaid i lechyd Cyhoeddus Cymru gyflwyno adroddiadau ar gynnydd yn erbyn Mwy na Geiriau i Lywodraeth Cymru ddwywaith y flwyddyn.

Mae Grŵp y Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth, yn cyfarfod yn chwarterol. Yn bennaf, mae gan y cyfarfodydd ffocws strategol. Yn ogystal, mae gan gyfarwyddiaethau 'Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg' enwebedig i gydlynu a datblygu materion Cymraeg yn eu hardaloedd.

Bydd lechyd Cyhoeddus Cymru yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) p o 30 Mai 2019.

Mae'r safonau'n disodli'r Cynllun Iaith Gymraeg. Mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu datblygu i'w gweithredu gan y sefydliad cyfan. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd ffocws a momentwm parhaol o ran cyflawni ein rhwymedigaethau Cymraeg, a bydd Grŵp y Gymraeg, y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd. Bydd adroddiadau monitro blynyddol yn parhau i gael eu cyflwyno i'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol a byddant ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Trin Cwynion a Phryderon

Mae gan lechyd Cyhoeddus Cymru drefniadau ar waith i'w sgluogi i reoli cwynion a phryderon ac ymateb iddynt er mwyn bodloni gofynion **Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011** ac **Arweiniad Polisi Cymru Gyfan ar gyfer Gweithio i Wella**. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn goruchwyllo cwynion a phryderon.

Yn 2018/19, rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru am gyfanswm o 7 Digwyddiad Difrifol, 6 ym maes sgrinio ac 1 ym maes Microbioleg. Yn ychwanegol, cafwyd 59 o gwynion ffurfiol ar gyfer y cyfnod.

Cynhaliwyd adolygiad o'r broses ad-dalu hawliadau yn lechyd Cyhoeddus Cymru gan yr Archwiliad Mewnol yn unol â Chynllun Archwilio Mewnol 2018-19, a rhoddwyd gradd sicrwydd sylweddol am hyn. Gweler tudalen 21 am ragor o fanylion.

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl mynediad i'r cyhoedd i amrywiaeth o gofnodion a gwybodaeth a gedwir gan gyrff cyhoeddus ac mae'n rhoi ymrwymiad i'r sector cyhoeddus fod yn fwy agored a thryloyw. Yn 2018/19, cafodd Iechyd Cyhoeddus Cymru 94 o geisiadau am wybodaeth erbyn diwedd mis Mawrth 2019.

Atebwyd 87 o'r rhain o fewn y targed, sef 20 diwrnod, gan ymateb i 3 yn unig y tu allan i'r terfyn amser. Roedd hyn yn sgil oedi o ran derbyn y wybodaeth gan y gwasanaeth/adran a oedd yn ei chadw.

Mae 5 cais rhyddid gwybodaeth ar agor o hyd ers 2018/19 a gaiff eu hateb yn ystod mis Ebrill.

Cais Gwrthrych am Wybodaeth

Yn 2018/19, cafodd Iechyd Cyhoeddus Cymru 14 o geisiadau am wybodaeth erbyn diwedd mis Mawrth 2019. Mae 1 ohonynt ar agor o hyd.

Atebwyd 10 o'r rhain o fewn y targed, sef 20 diwrnod, gan ymateb i 3 yn unig y tu allan i'r terfyn amser. Roedd hyn am nad oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael y wybodaeth y gofynnwyd amdani o fewn y terfyn amser gofynnol.

Cynaliadwyedd a Chynllun Cyflenwi Lleihau Carbon

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi'n llawn y cynigion a nodwyd mewn dogfennau ymgynghori amrywiol Llywodraeth Cymru i ymgorffori datblygu cynaliadwy fel egwyddor drefnu ganolog cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru drwy sicrhau ffocws clir ar ganlyniadau a bod penderfyniadau strategol yn cael eu llywio drwy ystyried penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cydnabod bod datblygiad cynaliadwy ac iechyd y cyhoedd wedi'u cysylltu'n gynhenid a bod angen camau gweithredu cyfatebol a chydlynol er mwyn wynebu heriau allweddol o ran y ddau yng Nghymru.

Mae'r sefydliad wedi cynnal asesiadau risg ac mae Cynlluniau Cyflenwi Lleihau Carbon ar waith yn unol â gofynion parodrwydd am argyfyngau ac argyfyngau sifil posibl yn seiliedig ar ragolygon tywydd Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU 2009 i sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaeth y sefydliad dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 a'r gofynion Adrodd Addasiadau.

Mae yna nifer o ysgogwyr deddfwriaethol ar gyfer datgarboneiddio yn y DU a'r UE. Yn gyntaf yn eu mysg roedd Deddf Newid yn yr Hinsawdd y DU 2008, ac yn 2010 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned', ei strategaeth newydd ar newid yn yr hinsawdd. Yng Nghymru defnyddir dau ddarn o ddeddfwriaeth i ysgogi gweithgarwch datgarboneiddio; 'Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016' a 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon Cymru o leiaf 80% erbyn 2050, yn erbyn llinell sylfaen 1990. Rydym yn monitro ôl troed carbon y sefydliad gan ddefnyddio 2016/17 fel ffigur gwaelodlin ac rydym wedi mabwysiadu menter Llywodraeth Cymru o sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei sefydlu ym mhopeth rydym yn ei wneud.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i gyfateb y targedau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd, sydd wedi pennu targed 3% o ostyngiad o un flwyddyn i'r llall mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a tharged allyriadau cyffredinol o 40% erbyn 2020. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni hyn ar ôl lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 5% yn 2016/17 a 17.14% pellach yn 2017/18.

Cynhaliwyd yr adolygiad archwilio mewnol blynyddol o'r Adroddiad Cynaliadwyedd Amgylcheddol ar gyfer 2017/18 yn unol â'r Cynllun Archwilio Mewnol, a rhoddwyd graddfa sicrwydd sylweddol ar gyfer hyn.

Cynllunio at Argyfwng/Argyfyngau Sifil Posibl

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gyfrifol am ddarparu parodrwydd am argyfyngau iechyd y cyhoedd, gwydnwch ac arweinyddiaeth ymateb, a chynghor gwyddonol a thechnegol ar bob lefel sefydliadol, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Mae *Deddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004)* yn gosod nifer o ddyletswyddau diogelu sifil ar Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran:

- Asesu risg
- Cynlluniau argyfwng
- Rhybuddio a Hysbysu
- Rhannu gwybodaeth
- Cydweithredu ag ymatebwyr lleol

Er mwyn cyflwyno'r dyletswyddau'n effeithiol (y mae angen eu datblygu mewn amgylchedd amlasiantaeth), mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gynrychiolaeth ar y pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth. Mae hyn yn galluogi sefydlu a chynnal trefniadau amlasiantaeth i ymateb i argyfyngau mawr.



Mae'r sefydliad yn cydweithredu'n rheolaidd ag asiantaethau partner i ddatblygu cynlluniau hyblyg i alluogi ymateb effeithiol ar y cyd i ddigwyddiad er mwyn sefydlu gwydnwch yn wyneb ystod eang o heriau aflonyddgar.

Fel ymatebwr Categori 1, mae'n ofynnol i lechyd Cyhoeddus Cymru, dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) gynnal a datblygu cynlluniau i sicrhau y gall y sefydliad gyflawni ei swyddogaethau os yw argyfwng yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd, cyn belled ag y bo'n angenrheidiol neu'n ddymunol at ddiben atal yr argyfwng, lleihau, rheoli neu leddfu ei effeithiau, neu gymryd camau eraill mewn cysylltiad ag ef. Adolygwyd a chytunwyd ar y Cynllun Ymateb Brys gan y Bwrdd ym mis Medi 2018.

Mae Cynllun Ymateb i Argyfwng Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi manylion am drefniadau ymateb y sefydliad i unrhyw argyfwng neu ddigwyddiad sy'n effeithio ar adnoddau a galluoedd iechyd cyhoeddus y tu hwnt i weithrediadau arferol neu'n ei gwneud yn ofynnol paratoi'r adnoddau a'r galluoedd hynny.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n parhau i gyfranogi mewn hyfforddiant ac ymarferion mewnol ac allanol. Mae'r sefydliad yn parhau i gynnal ymarfer byw bob tair blynedd, ymarfer pen bord a sefydlu'r ganolfan reolaeth yn ffisegol yn flynyddol ac mae prawf cyfathrebu'n rhaeadr bob chwe mis yn unol â gofynion *Arweiniad Craidd Cyhoeddus Cynllunio at Argyfwng GIG Cymru*.

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru Grŵp Cynllunio ar Argyfwng a Pharhad Busnes i gydlyn gweithgarwch cynllunio argyfwng yn y sefydliad.

Mae gwaith i gryfhau swyddogaeth Cynllunio at Argyfwng y sefydliad yn mynd rhagddo ac mae cynllun gwaith Cynllunio ar Argyfwng a Pharhad Busnes wedi'i ddatblygu. Mae hyn ceisio ysgogi gwelliannau pellach ar gyfer cynllunio sy'n canolbwyntio ar asesu risg a'r gwersi a nodwyd. Caiff y cynllun ei gyflwyno i'r Grŵp Cynllunio ar Argyfwng a Pharhad Busnes ym mis Gorffennaf 2019.

Mae copi o Gynllun Argyfwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol am Gynllunio at Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb i'w gweld ar **ein wefan**.

Parhad Busnes

Mae angen i'r GIG allu cynllunio at amrywiaeth eang o ddigwyddiadau ac argyfyngau ac ymateb iddynt. Felly mae angen i lechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau bod gwasanaethau allweddol yn cael eu cynnal wrth wynebu aflonyddwch.

Mae Fframwaith Parhad Busnes Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu'r egwyddorion, y dull a'r rhagdybiaethau sy'n ysgogi datblygu, gweithredu a chynnal parhaus trefniadau parhad busnes yn y sefydliad. Mae'r fframwaith hwn yn pennu amcanion parhad busnes y sefydliad ac mae'n ymrwymiad ffurfiol i gyflawni'r rhaglen rheoli parhad busnes a gwelliant parhaus.

Mae'r Fframwaith Parhad Busnes yn eistedd ochr yn ochr â Phroses Rheoli Digwyddiadau Parhad Busnes ac mae cynlluniau parhad busnes unigol Cyfarwyddiaeth/Adrannol yn sail i hyn. Mae'r rhain yn amlinellu'r camau gweithredu a phrosesau penodol ar gyfer defnyddio cynlluniau, rolau a chyfrifoldebau a sut y caiff effaith y risgiau ei rheoli. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall gweithgareddau hanfodol gael eu hadfer o fewn amserlenni priodol. Mae'r cynlluniau'n cael eu cyfeirio gan asesiad risg i nodi peryglon a bygythiadau lle mae angen i'r sefydliad gynllunio, yng nghydestun gweithgareddau allweddol.

Mae llawer o risgiau sy'n gallu bygwth gweithrediad arferol swyddogaethau hanfodol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, gall yr effeithiau o bob risg gael eu categorio i un o dair effaith generig wahanol gan gynnwys: gwrthod mynediad, tarfu ar wasanaeth(au) allweddol a phersonél ddim ar gael. Mae'r broses cynllunio parhad busnes wedi'i strwythuro i adlewyrchu'r effeithiau cyffredinol hyn a chymerir camau gweithredu i liniaru'r effeithiau hyn yn unol â hynny.

Yn ystod 2018/19, cynhaliwyd ymarferion pen bwrdd a hyfforddiant arweiniol tactegol i brofi cynlluniau parhad busnes adrannol a nodi meysydd i'w datblygu a'u hatgyfnerthu ymhellach.

Mae'r Cynllun Rheoli Digwyddiad yn amlinellu ac yn diffinio'n glir gynllun gweithredu wedi'i ddogfennu ar gyfer ei ddefnyddio ar adeg y digwyddiad. Drwy gydol 2018/2019 cafodd y cynllun ei roi ar waith nifer o weithiau, yn enwedig mewn ymateb i gyfnod diffodd TG a thywydd garw yn effeithio ar nifer o wasanaethau.

Er mwyn datblygu a chryfhau ein trefniadau parhad busnes ymhellach, mae cynllun gwaith Cynllunio at Argyfwng a Pharhad Busnes yn parhau i gael ei weithredu a'i ddatblygu. Mae'r cynllun gwaith yn cynnwys camau gweithredu a gwersi a nodwyd drwy brofi a dysgu o ddigwyddiadau.

Mae gweithredu'r cynllun gwaith yn cael ei oruchwylio gan y Grŵp Cynllunio ar Argyfwng a Pharhad Busnes, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob gwasanaeth yn lechyd Cyhoeddus Cymru.

Achosion o Dor-rheol Data

Adroddir digwyddiadau llywodraethu gwybodaeth 'achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd' trwy system rheoli digwyddiadau'r sefydliad. Ers mis Mai 2018, mae'n ofynnol i achosion o dorri data personol (fel y'u diffinnir yn y GDPR) fod yn destun asesu risg ac yn yr achosion mwyaf difrifol rhoddwyd gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth amdanynt. Rhoddwyd gwybod am achosion o dorri data bob chwarter i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn ystod 2018/19 a rhoddir gwybod amdanynt i'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil ac Arloesi o 1 Ebrill 2019. Lle y bo'n briodol rhoddir gwybod i Lywodraeth Cymru amdanynt a chynhelir ymchwiliadau llawn i ddigwyddiadau.

Yn ystod 2018/19, cofnododd lechyd Cyhoeddus Cymru gyfanswm o 1 achos o dorri data, gydag un yn ei gwneud yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Llywodraeth Cymru.

Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU

Mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â *Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU: llywodraethu corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog: cod ymarfer da 2017*. Mae'r wybodaeth a roddir yn y datganiad llywodraethu hwn yn rhoi asesiad o sut rydym yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod gan eu bod yn ymwneud â sefydliad sector cyhoeddus GIG yng Nghymru. Llywiwyd yr asesiad hwn gan hunanasesiad y sefydliad yn erbyn y Safon Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd (fel rhan o'r Safonau lechyd a Gofal), a'i ategu gan dystiolaeth o archwiliadau mewnol ac allanol. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru'n dilyn ysbryd y Cod yn effeithiol ac yn cynnal ei fusnes yn agored ac yn unol â'r Cod. Mae'r Bwrdd yn cydnabod nad yw holl elfennau adrodd y Cod wedi'u hamlinellu yn y datganiad llywodraethu hwn, ond maent wedi'u hadrodd yn fanylach yn Adroddiad Blynyddol ehangach y sefydliad. Nid adroddwyd ymadawiadau â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

Cynllun Pensiwn y GIG

Fel cyflogwr â staff, y mae ganddynt hawl i Gynllun Pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli ar waith er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r holl rwymedigaethau cyflogwr a gynhwysir yn rheoliadau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau o gyflog, cyfraniadau cyflogwr a thaliadau i mewn i'r Cynllun yn gyson â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion aelodau'r Cynllun Pensiwn yn cael eu diweddarau'n gywir yn unol â'r amserlenni a nodwyd yn y Rheoliadau. Mae nodyn 11 i'r cyfrifon yn rhoi manylion am y cynllun, sut mae'n gweithredu a hawl gweithwyr.

Cyfarwyddiadau Gweinidogol

Er y ceir Cyfarwyddiadau Gweinidogol gan sefydliadau GIG Cymru, nid yw'r rhain bob amser yn berthnasol i lechyd Cyhoeddus Cymru. Rhestrir yr holl Gyfarwyddiadau Gweinidogol a gyhoeddir trwy gydol y flwyddyn ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2018/19, cyhoeddwyd chwe Chyfarwyddyd Gweinidogol (Offerynnau Anstatudol) gan Lywodraeth Cymru ond roeddent wedi'u hanelu'n benodol at wasanaethau a ddarperir gan Fyrddau lechyd Lleol (BILLau), felly nid oedd angen i lechyd Cyhoeddus Cymru gymryd unrhyw gamau gweithredu.

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithredu ar yr holl [Gylchlythyrau lechyd Cymru](#), ac ymateb iddynt, a gyhoeddwyd yn ystod 2018/19 ac a oedd yn berthnasol i lechyd Cyhoeddus Cymru. O'r 45 a gyhoeddwyd, roedd 26 o'r rhain yn gymwys i lechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd angen gweithredu ar gyfer 17 ohonynt.

Cyrff a Gynhelir

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal dau gorff yn ystod 2018/19:

Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru

Sefydlwyd Cydweithrediaeth GIG Cymru yn 2015 ar gais Prif Weithredwyr GIG Cymru i wella lefel y cydweithio rhwng cyrff GIG Cymru, GIG Cymru a'i randdeiliaid. Mae gwaith y Gydweithrediaeth yn cynorthwyo gwella ansawdd gofal i gleifion ac, yn y pen draw, yn gwella gwasanaethau'r GIG ledled Cymru.

Dyma swyddogaethau craidd y Gydweithrediaeth:

- Cynllunio gwasanaethau ar draws ffiniau sefydliadol i gynorthwyo nodau strategol
- Rheoli rhwydweithiau clinigol, rhaglenni strategol a phrosiectau ar draws ffiniau sefydliadol
- Cydlynio gweithgareddau a thimau ar draws GIG Cymru er mwyn symleiddio prosesau presennol.

Mae'r Gydweithrediaeth yn cael ei chynnal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar ran GIG Cymru, o dan gytundeb cynnal ffurfiol, sy'n cael ei lofnodi gan ddeg Prif Weithredwr GIG Cymru ar gyfer byrddau Iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG a Chyfarwyddiaeth y Gydweithrediaeth. Mae gan y Gydweithrediaeth linell adrodd glir i fyny at Grŵp Gweithredol y Gydweithrediaeth (mae'r Prif Weithredwyr yn cyfarfod bob mis) ac, yn y pen draw, i Fforwm Arweinyddiaeth y Gydweithrediaeth (Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr yn cyfarfod oddeutu bob chwarter). Mae Grŵp Gweithredol y Gydweithrediaeth a Fforwm Arwain y Gydweithrediaeth yn llofnodi cynllun gwaith y Gydweithrediaeth yn flynyddol.

Daeth y cytundeb cynnal cychwynnol am flwyddyn i ben ar 31 Mawrth 2016. Cymeradwywyd cytundeb cynnal diwygiedig ar gyfer 2016-19 gan Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Ebrill 2016. Cymeradwyodd y Bwrdd estyniad pellach o flwyddyn i'r cytundeb cynnal ar 28 Mawrth 2019. Mae'n rhoi manylion am gyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r corff a gynhelir. Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd ar gydymffurfio â thelerau'r cytundeb trwy lunio Datganiad ac Adroddiad Cydymffurfio Blynnyddol gan y gydweithrediaeth. Cafodd yr Adroddiad ar gyfer 2018/19 ei

dderbyn gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a'r Bwrdd ym mis Mawrth 2019.

Mae gan y Gydweithrediaeth ei phroses rheoli risg ei hun (sy'n cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau perthnasol Iechyd Cyhoeddus Cymru) a chaiff risgiau o'u Cofrestr Risg Corfforaethol eu trosglwyddo i'r Bwrdd hwn fel y bo'n briodol.

Ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac fel rhan o'r rhaglen archwilio reolaidd, cynhaliodd Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd (archwilio mewnol) Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru archwiliad o Lywodraethu Rhwydweithiau Clinigol yn Nhîm y Gydweithrediaeth. Cynhaliwyd yr archwiliad ar ddiwedd 2017 a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2018, a oedd yn cynnwys ymateb y rheolwyr gan Dîm y Gydweithrediaeth i bob un o'r argymhellion. Lefel y sicrwydd a roddwyd o ran effeithiolrwydd rheolaeth fewnol sydd yn ei lle i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhwydweithiau oedd sicrwydd cyfyngedig. Cyflwynwyd adroddiad ar hyn i Grŵp Gweithredol y Gyfarwyddiaeth ym mis Ebrill 2018 ac mae gwaith wedi'i wneud ers hynny i fynd i'r afael â'r cynllun gweithredu.

Mae Archwilio Mewnol bellach wedi cynnal adolygiad dilynol yn unol â Chynllun Archwilio Mewnol 2018/19. Mae eu hadroddiad terfynol yn nodi bod y Gydweithrediaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn yr argymhellion gwreiddiol ac y gall Bwrdd Ymddiriedolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru gael **sicrwydd rhesymol** bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol.

Uned Cyflawni Cyllid

Cafodd yr Uned Cyflawni Cyllid (yr Uned) ei sefydlu'n ffurfiol ym mis Ionawr 2018, yn dilyn cyhoeddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Diben yr Uned hon oedd gwella'r gallu i:

- Fonitro a rheoli risg ariannol yn GIG Cymru ac ymateb yn ddi-oed lle mae sefydliadau'n dangos tystiolaeth o fethiant ariannol posibl; a
- Chyflymu nifer y rhai sy'n defnyddio arfer gorau rheolaeth ariannol ac effeithlonrwydd technegol a dyrannol ledled Cymru.

Mae'r Uned yn cael ei chynnal gan lechyd Cyhoeddus Cymru o dan gytundeb cynnal ffurfiol wedi'i lofnodi gan lechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfarwyddwr yr Uned Cyflawni Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid, y Grŵp lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru. Mae'r Uned yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cyllid, y Grŵp lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru ac mae'r rhaglen waith flynyddol yn cael ei chytuno a'i monitro drwy gyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd ar gydymffurfio â thelerau'r cytundeb cynnal drwy lunio Datganiad Sicrwydd Blynyddol ac Adroddiad gan yr Uned. Cafodd yr Adroddiad ar gyfer 2018/19 ei dderbyn gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a'r Bwrdd ym mis Mawrth 2019.

Staff ac Ymgysylltu â Staff

Rydym yn ymgysylltu â'n staff mewn nifer o ffyrdd sy'n rhan o'r gwiriadau a'r cydbwysedd rydym yn eu cynnal er mwyn galluogi llywodraethu da.

Wrth gefnogi'r Bwrdd a'r Weithrediaeth, mae gennym un grŵp cynghori ffurfiol - y Fforwm Partneriaeth Lleol, y Cydbwyllgor Trafod Telerau (JNC). Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y Fforwm Partneriaeth Lleol yn cael eu hadolygu a chaiff ei gyflwyno i'r ar gyfer ei gymeradwyo yn 2018/19. Cyfarfu'r JNC dair gwaith yn ystod 2017/18 hyd nes iddo gael ei ailgyfansoddi fel y Fforwm Partneriaeth Lleol o fis Ionawr 2018.

Mae gennym hefyd Grŵp Trafod Meddygol a Deintyddol ar y cyd wedi'i hen sefydlu. Mae Senedd Nyrsio'r sefydliad yn cynghori ac yn rhoi diweddariadau ar faterion proffesiynol ynglŷn â gweithwyr proffesiynol Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r fforymau hyn yn rhoi mecanweithiau sy'n galluogi adborth i uwch-reolwyr ar berfformiad sefydliadol neu faterion eraill yr hoffai staff eu codi, sy'n cynorthwyo tryloywder.

Yn ychwanegol at y mecanweithiau ffurfiol hyn, mae gennym broses ymgynghori sy'n agored i'r holl staff ar gyfer yr holl bolisiau sefydliadol newydd a diwygiedig, cynhadledd staff, digwyddiadau ymgysylltu â staff, y manteisir arnynt i gyd er mwyn cymryd rhan mewn sgysiau â staff ar lefelau unigol a grŵp. Mae'r mecanweithiau hyn yn cael eu defnyddio'n gyfochrog â blog agored, fforwm ar y we a ffyrdd rithwir eraill i staff rannu eu gwaith a'u barn. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal digwyddiadau ymgysylltu gyda staff i rannu'r CTCl a chreu trafodaeth am y gwerthoedd a'u hystyr i'r holl staff ar draws y sefydliad.

Rhoddodd arolwg staff GIG Cymru 2018 ddadansoddiad llawn o ymgysylltu â'r gweithlu a hinsawdd sefydliadol. Ein cyfradd ymateb i'r arolwg oedd 56%. Ers cyhoeddi'r canlyniadau, mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal grwpiau ffocws ledled Cymru, gan roi cyfle i bobl egluro unrhyw ganlyniadau amwys, dathlu canlyniadau cadarnhaol, rhoi enghreifftiau penodol o bryderon, yn ogystal ag arfer da ac awgrymu argymhellion ar gyfer newid a gwella a gaiff yr effaith fwyaf. Mae allbynnau'r grwpiau ffocws wedi arwain at ddatblygu cyfres o gamau gweithredu sefydliadol.

Adolygiad o Effeithiolrwydd

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Atebol, mae gennyf gyfrifoldeb am adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad o'r system reolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, y swyddogion Gweithredol yn y sefydliad y mae ganddynt gyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgorau wedi adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol ynghylch y sicrwydd a gafwyd. Y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd yw'r mecanwaith ar gyfer monitro risgiau strategol yn agos a chreffir arno ym mhob cyfarfod Bwrdd a Phwyllgor. Ar ôl adolygu'r system reolaeth fewnol, gallaf gadarnhau ei bod yn effeithiol wrth roi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau.

Cynhaliodd bob Pwyllgor hunanasesiad yn ystod 2018/19. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi ystyried canlyniadau o'u hunanasesiadau a chytunwyd ar gynlluniau gweithredu ar gyfer 2019/20. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol wedi llenwi holiadur hunanasesu a bydd yn ystyried y canfyddiadau ymhellach mewn gweithdy a drefnwyd ar gyfer mis Mai 2019, lle bydd y Pwyllgor hefyd yn adolygu ei rôl a diben y Pwyllgor ochr yn ochr â'r Blaenoriaethau Strategol.

O fis Tachwedd 2017, cyflwynwyd arolygon ôl-gyfarfod i alluogi'r Bwrdd i hunanasesu effeithiolrwydd yn barhaus. Cafodd canlyniadau pob arolwg eu hystyried gan Gadeirydd a Phrif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru a'u defnyddio i lywio gwelliannau i'r broses o weinyddu cyfarfodydd a chynllunio agenda. Bydd y Bwrdd yn parhau i ystyried sut y mae'n asesu ei effeithiolrwydd yn 2019/20.

Archwilio Mewnol

Mae archwilio mewnol yn rhoi llif sicrwydd i'r Swyddog Atebol, a'r Bwrdd trwy'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, ar y system reolaeth fewnol. Fel Prif Weithredwr, rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio sydd wedi cael ei wneud yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus trwy Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn â'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg penodol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn swyddogaeth o'r rhaglen archwilio ar sail risg hon ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch ar gyfer gwelliant parhaus

Gradd Sicrwydd



"Gall y Bwrdd gael **sicrwydd rhesymol** bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd sy'n cael eu hadolygu, wedi'u cynllunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae angen sylw rheolwr ar rai materion wrth gynllunio rheolaeth neu gydymffurfio ag effaith isel i gymedrol ar fod yn agored i risg weddilliol nes iddynt gael eu datrys."

Mae'r sail dystiolaeth ar gyfer ffurfio'r farn gyffredinol fel a ganlyn:

- Asesiad o'r amrywiaeth o opsiynau unigol sy'n codi o aseiniadau archwilio seiliedig ar risg a gynhwysir yn y cynllun Archwilio Mewnol sydd a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r asesiad hwn wedi ystyried perthnasedd cymharol y meysydd hyn a chanlyniadau unrhyw archwiliadau dilynol wrth ddatblygu gwelliannau rheoli.
- Canlyniadau unrhyw waith archwilio sy'n gysylltiedig â'r Safonau Iechyd a Gofal gan gynnwys, os yw'n briodol, y dystiolaeth sydd ar gael a ddefnyddiwyd gan y Bwrdd i gyrraedd ei ddatganiad mewn perthynas â'r hunanasesiad ar gyfer y modiwl Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd.
- Adolygiadau sicrwydd eraill sy'n effeithiol ar farn y Pennaeth Archwilio Mewnol gan gynnwys gwaith archwilio a gyflawnwyd mewn sefydliadau eraill.

Fel y nodwyd uchod, mae'r canlyniadau manwl hyn wedi'u crynhoi i greu darlun o sicrwydd ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Yn ogystal, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried amlygiad i risg weddilliol ar draws yr aseiniadau hynny lle adroddwyd sicrwydd cyfyngedig. Lle y gwneir newidiadau i'r cynllun archwilio yna caiff y rhesymau eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer eu hystyried a'u cymeradwyo. Ac eithrio lle mae'r farn wedi'i chyfyngu i'r meysydd hynny a oedd yn destun yr adolygiad archwilio, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn ystyried effaith newidiadau a wnaed i'r cynllun wrth ffurfio eu barn gyffredinol.

Wrth gyrraedd y farn hon, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi nodi bod yr holl adolygiadau yn ystod y flwyddyn wedi casglu'n gadarnhaol gyda threfniadau rheoli cadarn ar waith mewn rhai meysydd. Cwblhawyd adolygiad dilynol yn ystod y flwyddyn ar adroddiad a gafodd sicrwydd cyfyngedig yn ystod 2017/18. Ar gyfer pob un o'r meysydd hyn: codi pryderon, seiberddiogelwch a llywodraethu Rhwydweithiau Clinigol; daeth yr adroddiadau dilynol i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r camau wedi'u cwblhau ran roi sicrwydd rhesymol ym mhob un o'r meysydd hyn. Mae camau gweithredu sy'n weddill yn parhau i gael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.

Mae Cynlluniau Gweithredu wedi'u rhoi ar waith mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad ar gyfer pob adroddiad. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn olrhain yr holl argymhellion a wnaed gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ac yn sicrhau yr eir i'r afael â hwy yn y sefydliad.

I gael rhagor o fanylion am yr adroddiadau a gafwyd gweler yr adran ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Atal Twyll

Mae Gwasanaeth Atal Twyll Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro'n darparu gwasanaeth i lechyd Cyhoeddus Cymru. Cwblhawyd ei gynllun gwaith ar gyfer 2018/19 ac roedd yn cwmpasu'r holl ofynion dan gyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru. Mae'r Gwasanaeth Atal Twyll yn rhoi adroddiadau a diweddariadau rheolaidd i aelodau'r Tîm gweithredol ac yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yr Adroddiad Blynyddol Atal Twyll a Llygredd ar gyfer 2018/19. Cynhaliwyd Hunanasesiad Risg yn erbyn Safonau Gwarchod y GIG i Ddarparwyr – Twyll, Llwgrobwro y Llygredd/Contract Safonol y GIG. Cyflawnodd Iechyd Cyhoeddus Cymru radd 'werdd' ar gyfer tri o'r safonau a gradd 'goch' ar gyfer un o'r safonau, gan ddarparu gradd 'ambr' gyffredinol. Roedd y safon 'goch' yn ymwneud â 'hysbysu a chynnwys (datblygu diwylliant gwrth-dwyll) ac roedd o ganlyniad i'r tîm gwrth-dwyll yn methu cynnal rhaglen lawn o sesiynau ymwybyddiaeth twyll yn ystod y flwyddyn ariannol yn sgil newidiadau staff ac absenoldeb oherwydd salwch. Mae trefniadau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod y sesiynau ymwybyddiaeth hyn yn cael eu cwblhau yn ystod 2019/20.

Archwilio Allanol – Swyddfa Archwilio Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r archwilydd allanol statudol i'r GIG yng Nghymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgymryd â rôl archwilydd allanol iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru yr Asesiad Strwythuredig ar gyfer 2018 a daeth i'r casgliad cyffredinol bod y sefydliad ar y cyfan yn cael ei arwain a'i lywodraethu'n dda ond gallai wella ehangder y wybodaeth a gyflwynwyd i'r Bwrdd; Nodwyd bod fframwaith cynllunio cydlynus sydd wedi'i alinio'n dda gyda newidiadau o ran cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn mynd rhagddynt er mwyn asesu cynnydd yn well yn erbyn blaenoriaethau strategol a'r gwerth a'r effaith a gyflawnir; ac mae'r sefydliad yn gyffredinol yn rheoli ei weithlu, ei gyllid a'i asedau ffisegol yn dda o ddydd i ddydd gyda chymorth da ar gael i reolwyr a deiliaid cyllidebau, ond gallai wella agweddau ar gaffael, adroddiadau ariannol a pherfformiad y gweithlu.

Yn benodol, daeth yr adroddiad i'r casgliad bod:

- Y Bwrdd yn parhau i weithredu'n effeithiol, er bod heriau parhaus o ran recriwtio cyfarwyddwyr anweithredol

- Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith sicrwydd bwrdd sydd wedi'i ddatblygu'n dda a ategir gan y system rheoli risg effeithiol
- Ar y cyfan, mae system sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn gadarn. Serch hynny, mae lle o hyd i wella'r wybodaeth a adroddir i'r Bwrdd ar ehangder busnes yr Ymddiriedolaeth
- Mae dull yr Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion mewnol ac allanol yn parhau i weithio'n dda
- Mae strwythurau sefydliadol a phwyllgor yn newid er mwyn gwella ymhellach y gwaith o oruchwylio swyddogaethau statudol a chraffu arnynt a chyflawni blaenoriaethau strategol
- Ceir fframwaith cynllunio cydlynus sydd wedi'i alinio'n dda gyda newidiadau o ran cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn mynd rhagddynt er mwyn asesu cynnydd yn well yn erbyn blaenoriaethau strategol a'r gwerth a'r effaith a gyflawnir
- Ceir dull cydlynus o ran cynllunio strategol ac mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i gysoni cynlluniau gweithlu yn fwy effeithiol
- Nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro'r cynllun blyneddol ac adrodd arno wedi newid llawer, ac mae'r cynnydd bellach yn cael ei adrodd yn amlach
- Ar y cyfan, mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ei weithlu, ei gyllid a'i asedau ffisegol yn dda o ddydd i ddydd gyda chymorth da ar gael i reolwyr a deiliaid cyllidebau, ond gallai wella agweddau ar gaffael, adroddiadau ariannol a pherfformiad y gweithlu
- Mae trefniadau a chymorth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli a datblygu'r gweithlu yn parhau i wella gyda gwelliannau wedi'u hadlewyrchu mewn rhai mesurau perfformiad allweddol
- Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheolaeth ariannol yn parhau i weithio'n dda gyda chymorth da i deiliaid cyllidebau ond mae lle i wella agweddau ar adrodd ariannol a chydymffurfiaeth â phrosesau caffael.

Roedd yr adroddiad hefyd yn argymhell y canlynol:

Caffael

Mae'n ymddangos bod nifer y camau tendr unigol a'r camau dyfynbris unigol yn tyfu ac mae'r naratif a nodwyd mewn adroddiadau caffael yn nodi y gellid cryfhau'r rheolaethau ymhellach. Dylai'r Ymddiriedolaeth:

- sefydlu system i fonitro ac adrodd ar dueddiadau mewn Cytundebau Tendr Sengl (STA) a Chytundebau Dyfynbris Sengl (SQA)
- ystyried ailgyflwyno gwybodaeth am gyfanswm nifer a gwerth tendrau cystadleuol a dyfynbrisiau i ddarparu cyd-destun ar gyfer asesu nifer a gwerth yr STA ac SQA
- darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol am effeithiolrwydd camau gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth â polisiau a gweithdrefnau caffael.

Ansawdd Data

Roedd y Bwrdd yn teimlo bod y wybodaeth roedd y Bwrdd a'i bwyllgorau allweddol wedi derbyn ystod 2018/19 yn cefnogi craffu a sicrwydd effeithiol ar y cyfan, er bod bylchau mewn rhai meysydd. Er enghraifft:

- Gofynnodd y Bwrdd i'r adroddiad perfformiad gynnwys mwy o werthuso, effaith a mesur ac y byddai'r adroddiad perfformiad yn cael budd o hyn. Mae hyn wedi cael ei weithredu a'i gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2019. Croesawodd y Bwrdd y cynnydd a wnaed
- Cwblhaodd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol hunanasesiad yn ystod y flwyddyn, lle nododd aelodau'r Pwyllgor fod rhywfaint o'r data a gafwyd gan y Pwyllgor yn codi mwy o gwestiynau ac arweiniodd at geisiadau am ragor o wybodaeth. Nododd y Pwyllgor fod yr ansawdd wedi gwella yn ystod y flwyddyn ac mae ganddo gynllun gweithredu yn ei le i sicrhau bod y gwelliant hwn yn parhau.

Casgliad

Fel Swyddog Atebol, mae gennyf gyfrifoldeb am adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o'r system reolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, a'r swyddogion Gweithredol yn y sefydliad y mae ganddynt gyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac adroddiadau eraill.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol yn cadarnhau bod lechyd Cyhoeddus Cymru wedi parhau i

Llofnod:



Tracey Cooper
Prif Weithredwr a
Swyddog Atebol
30 Mai 2019

aeddfedu fel sefydliad ac ni nodwyd materion rheolaeth fewnol na llywodraethu arwyddocaol. Bydd y sefydliad yn parhau i fynd i'r afael â risgiau allweddol a sefydlu trefniadau llywodraethu da a rheolaethau priodol trwy gydol y sefydliad.

Gallaf gadarnhau bod system reolaeth fewnol gadarn ac effeithiol wedi bod ar waith gan y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol sy'n rhoi sicrwydd rheolaidd yn gyson ag amcanion strategol a risgiau strategol y sefydliad.

Atodiad 1: Aelodaeth/Presenoldeb Bwrdd a Phwyllgorau 2018/19

Enw	Swydd	Aelodaeth Pwyllgor Bwrdd	Presenoldeb Mewn Cyfarfodydd 2018/19***	Rolau Hyrwyddo +
Jan Williams OBE	Cadeirydd	(Cadeirydd) Bwrdd (Cadeirydd) Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth	6/6 5/7	Cyn-filwyr
Tracey Cooper	Prif Weithredwr	- Bwrdd - Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth** - Audit and Corporate Governance Committee** Noder: mae gan y Prif Weithredwr wahoddiad sefydlog i holl gyfarfodydd Pwyllgor y Bwrdd, ond dim ond cyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth mae'n mynd iddynt yn rheolaidd. Rhaid i'r Prif Weithredwr fynd i un cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol y flwyddyn.	6/6 5/7 2/5	Cyn-filwyr
Jyoti Atri	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd a Llesiant (Wedi derbyn rôl uwch dros dro ers 1 Ionawr 2019)	- Bwrdd - Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**	2/2 1/1	
Rhiannon Beaumont-Wood	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (ar secondiad tan 4 Chwefror 2019)	- Bwrdd* - Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella** - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol** - Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol**	1/1 0/0 0/1 0/0	
Yr Athro Mark Bellis OBE	Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol	- Bwrdd* - Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**	3/6 0/4	
Sian Bolton	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (tan 31 Ionawr 2019) Cyfarwyddwr Interim Gwybodaeth (o 1 Chwefror 2019)	- Bwrdd* - Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella** - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**	5/6 3/4 4/4	
Dr John Boulton	Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwella 1000 o Fwyddau (O Awst 2018)	Bwrdd*	2/4	
Philip Bushby	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	- Bwrdd* - Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth** - Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol**	6/6 7/7 4/4	Y Gymraeg
Helen Bushell	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd (o 11 Mawrth 2019)	- Bwrdd* - Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth** - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol - Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella** - Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol**	1/1 1/1 1/1 0/0 0/0	

Enw	Swydd	Board Committee Membership	Presenoldeb Mewn Cyfarfodydd 2018/19***	Rolau Hyrwyddo +
Kate Eden	Is-gadeirydd A Chyfarwyddwr Anweithredol	- Bwrdd - Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth (Cadeirydd) Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol (tan fis Medi 2018) (Cadeirydd o fis Hydref 2018) Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella	6/6 5/7 2/2 4/4	Iechyd meddwl
Dyfed Edwards	Cyfarwyddwr Anweithredol	- Bwrdd - Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth (Cadeirydd o fis Hydref 2018) Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol	6/6 4/7 5/5	
Dr Aidan Fowler	Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwella 1000 o Fywydau (tan Awst 2018)	- Bwrdd* - Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**	1/1 0/2	
Huw George	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid/Dirprwy Brif Weithredwr	- Bwrdd - Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth** - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol** - Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol**	6/6 6/7 5/5 2/4	Diogelwch Tân
Eleanor Higgins	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Llywodraethu Corfforaethol dros dro (o 1 Chwefror 2019 tan 10 Mawrth 2019)	- Bwrdd** - Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth** - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol** - Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella** - Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol**	0/0 0/0 0/0 0/0 0/0	
Yr Athro Shantini Paranjothy	Cyfarwyddwr Anweithredol	- Bwrdd - Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth - Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella - Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol	6/6 5/7 3/4 4/4	Profiad defnyddwyr gwasanaethau
Stephen Palmer	Cyfarwyddwr Anweithredol (o 1 Medi 2018)	- Bwrdd - Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth - Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella - Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol	3/3 2/2 1/1 1/1	
Dr Chrissie Pickin	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant (Ar wyliau blynyddol a gynlluniwyd o 1 Ionawr 2019, a gadawodd y sefydliad ar 24 Chwefror 2019)	- Bwrdd - Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**	4/4 3/3	
Judith Rhys	Cyfarwyddwr Anweithredol	- Bwrdd - Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol - Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol	6/6 7/7 5/5 4/4	Cydraddoldeb Pobl hŷn Codi pryderon (staff) (o fis Hydref 2018)

Enw	Swydd	Aelodaeth Pwyllgor Bwrdd	Presenoldeb Mewn Cyfarfodydd 2018/19***	Rolau Hyrwyddo +
Terence Rose CBE	Cyfarwyddwr Anweithredol (tan 30 Hydref 2018)	• Bwrdd • Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth • Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella • (Cadeirydd) Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol • Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol	3/3 4/4 2/2 3/3 3/3	Codi pryderon (staff) (tan fis Hydref 2018)
Dr Quentin Sandifer	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus	• Bwrdd • Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella** • Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol	6/6 3/4 2/4	<i>Gwarcheidwad Caldicott Cynllunio at argyfwng</i>
Catherine Steele	Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd (o 12 Gorffennaf 2018 tan 31 Ionawr 2019)	• Bwrdd* • Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**	1/1 0/2	
Alison Ward	Cyfarwyddwr Anweithredol (o 1 Ebrill 2018)	• Bwrdd • Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth • Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella	4/6 3/7 3/4	
Melanie Westlake	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Llywodraethu Corfforaethol (tan 11 Gorffennaf 2018)	• Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol** • Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella** • Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol**	2/2 1/2 1/1	

* Yn mynd i gyfarfodydd Bwrdd, ond nid ydynt yn aelodau o'r Bwrdd, felly nid oes ganddynt hawliau pleidleisio.

** Yn mynd i gyfarfodydd Pwyllgor, ond nid ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor, felly nid oes ganddynt hawliau pleidleisio.

*** Nifer gwirioneddol y cyfarfodydd yr aethpwyd iddynt/nifer y cyfarfodydd yr oedd modd mynd iddynt. Mae hyn yn amrywio o unigolyn i unigolyn gan i rai ymuno â'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

+ Mae dyrannu rolau hyrwyddwyr yn cael ei adolygu, ac yn aros am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru.

Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â chydabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr a gyflogir gan lechyd Cyhoeddus Cymru a materion eraill sy'n ymwneud â phobl. Mae'r wybodaeth yn yr atodiadau a'r tablau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn cael ei harchwilio, gyda'r archwilydwr yn gwirio'r cynnwys sy'n weddill er mwyn sicrhau cysondeb.

Mae'r Datganiad Polisi Tâl (Atodiad 3) yn ymwneud â safbwynt strategol lechyd Cyhoeddus Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol i uwch-reolwyr a rhoi datganiad clir o'r egwyddorion sy'n sail i'r penderfyniadau ar ddefnyddio arian cyhoeddus.

Diffiniad o "Uwch-reolwr": 'y bobl mewn uwch-swyddi y mae ganddynt awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo neu reoli prif weithgarwch corff y GIG. Mae hyn yn golygu'r rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r endid yn ei gyfarwydd yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiaethau neu adrannau unigol.'

Ar gyfer lechyd Cyhoeddus Cymru, ystyrir mai'r uwch-reolwyr yw'r rhai sy'n mynd i gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn rheolaidd, h.y. y cyfarwyddwyr gweithredol, y cyfarwyddwyr anweithredol a gweddill y cyfarwyddwyr lefel bwrdd. Gyda'i gilydd, mae'r cyfarwyddwyr gweithredol a lefel bwrdd yn cael eu hadnabod fel y Tîm Gweithredol

Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth lechyd Cyhoeddus Cymru'n ystyried ac yn cymeradwyo cyflogau, dyfarniadau cyflog a thelerau ac amodau cyflogaeth y Tîm Gweithredol ac uwch-staff allweddol eraill.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth hefyd yn ystyried ac yn cymeradwyo ceisiadau sy'n ymwneud â'r Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd, taliadau colli swydd ac ymddeoliadau cynnar.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth wedi pennu cyflogau a thelerau ac amodau'r holl Gyfarwyddwyr Gweithredol yn y Fframwaith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a bydd hyn yn parhau.

Yn ystod 2018/19, roedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth lechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnwys yr Aelodau canlynol:

- Jan Williams (Cadeirydd)
- Judith Rhys (Cyfarwyddwr Anweithredol)
- Professor Shantini Paranjothy (Cyfarwyddwr Anweithredol)
- Kate Eden (Is-gadeirydd a Chyfarwyddwr Anweithredol)
- Alison Ward (Cyfarwyddwr Anweithredol)

- Dyfed Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol)
- Terence Rose (Cyfarwyddwr Anweithredol) (tan 31 Hydref 2018)
- Professor Stephen Palmer (Cyfarwyddwr Anweithredol) (o 1 Tachwedd 2018)

Asesir perfformiad Cyfarwyddwyr Gweithredol yn erbyn amcanion unigol a pherfformiad cyffredinol lechyd Cyhoeddus Cymru. Nid yw lechyd Cyhoeddus Cymru'n gwneud unrhyw fath o daliadau bonws.

Mae'r holl daliadau yn erbyn yr amlen gyflog yn y llythyr blynyddol gan Brif Weithredwr GIG Cymru ar y mater hwn. Yr uwch-reolwyr i gael dyfarniadau cyflog fu'r rhai a delir ar raddfeydd cyflog meddygol a deintyddol neu Agenda ar gyfer Newid a'r rhai mewn Swyddi Gweithredol ac Uwch.

Yn ystod 2018/19, cymeradwyodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth y canlynol (mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru lle y bo'n briodol):

- 26 Gorffennaf 2018 – cymeradwywyd penodi Dr John Boulton fel Cyfarwyddwr Interim Gwella Ansawdd Diogelwch Cleifion/Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwella 1,000 o Fwydau am secondiad 12 mis

- 25 Hydref 2018 – cymeradwywyd penodi Jyoti Atri yn Gyfarwyddwr Gweithredol Interim Iechyd a Llesiant o 1 Ionawr – 1 Mehefin 2019, neu hyd nes y gwneir penodiad parhaol. Ymddeolodd Dr Christine o'i rôl fel Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant ar 24 Chwefror 2019. Penodwyd Jyoti Atri yn Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant interim o 25 Chwefror 2019 am gyfnod o 6 mis tra'n aros i Gyfarwyddwr Gweithredol parhaol newydd gael ei benodi ar gyfer y swydd hon. Fodd bynnag, yn sgil absenoldeb wedi'i gynllunio Christine ar ddechrau'r flwyddyn, dechreuodd Jyoti yn y swydd o 1 Ionawr 2019
- 24 Ionawr 2019– cymeradwywyd penodi Sian Bolton yn Gyfarwyddwr Pontio Interim, y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth o 4 Chwefror 2019 am gyfnod cychwynnol o 6 mis
- Ystyriwyd un mater mewn cyfarfodydd ar 6 Awst, 28 Awst ac 18 Medi, lle argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd gymryd camau i gymeradwyo taliad diswyddo arbennig o £65,651

- Mae'r swydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn cynorthwyo gwaith y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd ond nid yw'n aelod ffurfio o'r Tîm Gweithredol. Mae sawl newid wedi bod o ran y person sydd wedi llenwi'r swydd hon yn ystod y flwyddyn ac er na chafodd y newidiadau hyn eu hystyried gan y Pwyllgor, maent yn cael eu hamlygu yn y tabl yn Atodiad 1a.

Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd a chytundebau Setlo:

- Cymeradwyo un cais, cyfanswm o £43,772 o dan y Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd
- Cymeradwyo pedwar setliad arall sy'n werth £10,878
- Cymeradwyo un taliad diswyddo arbennig o £4,489.



Datgeliadau Cyflog a Phensiwn

Nodir manylion am gyflogau a buddiannau pensiwn uwch-reolwyr yn yr adroddiad hwn yn Atodiadau 1 a 2.

Nod yr un ffigur cydnabyddiaeth ariannol (Atodiad 1) yw bod yn ffigur cynhwysfawr sy'n cynnwys pob math o daliad a gaiff uwch-reolwyr yn ystod y cyfnod yr adroddir arno, gan gynnwys elfennau sefydlog ac amrywiol yn ogystal â darpariaeth pensiwn.

Mae'r un ffigur yn cynnwys y canlynol:

- Cyflog a ffioedd, elfennau pensiynadwy ac amhensiynadwy
- Buddiannau mewn nwyddau (trethadwy) (cyfanswm i'r £100 agosaf)
- Buddiannau cysylltiedig â phensiwn - y buddiannau sy'n cronni i uwch-reolwyr o aelodaeth cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig cyfranogol.

Nid oes bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad blynyddol neu dymor hir.

Dangosir ffigurau cyflog blynyddol cyn gostyngiad o ganlyniad i unrhyw gynllun aberthu cyflog.

Cyfrifir gwerth buddiannau sy'n gysylltiedig â phensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi gan 20 llai y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Cyfrifir y ffigur buddiannau dal pensiwn ar sail cynnydd yn y gwerth dros y flwyddyn ariannol Pan fo staff wedi ymuno â'r sefydliad neu'r Bwrdd yn ystod y cyfnod nid oes gwybodaeth gymaradwy ar gyfer y flwyddyn flaenorol ar gael. Gall hyn olygu bod y cynnydd yn y ffigur buddiannau a gyfrifwyd yn artiffisial o uchel. Lle mae hyn yn wir nid yw'r ffigur hwn yn cael ei adrodd yn Atodiad 1a (Un Ffigur Cydnabyddiaeth Ariannol) nac yn Atodiad 2 (Buddiannau Pensiwn) o 2018/19. Lle cafodd y ffigurau hyn eu hadrodd mewn blynyddoedd blaenorol gall hyn arwain at werth negyddol yn 2018/19.

Mae Atodiad 2 yn nodi'r cyfanswm buddiannau pensiwn ar gyfer pob uwch-reolwr. Y gyfradd chwyddiannol a gymhwyswyd i ffigur 2017/18 yw 3% fel a bennwyd gan ganllawiau Greenbury 2018/19.

Perthynas Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae'n ofynnol i gyrff y GIG yng Nghymru ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn y sefydliad a chydnabyddiaeth ariannol canolrif gweithlu'r sefydliad. Rhoddir y wybodaeth hon yn nodyn 10.6 y Datganiadau Ariannol.

Adroddiad Staff 2018/19

Nifer yr uwch-staff

Ar 31 Mawrth 2019, roedd naw o uwch-staff yn y Tîm Gweithredol; roeddent hefyd yn aelodau Bwrdd neu'n mynd i'w gyfarfodydd yn rheolaidd. Dangosir crynodeb o'u bandiau cyflog isod:

Band cyflog

Nifer yn y swydd ar 31 Mawrth

Ymgynghorydd (Meddygol a Deintyddol):	1
Graddfa Gyflog Gweithredwyr a Swyddi Uwch:	6
Band Agenda ar gyfer Newid Cymru 9	1
Band Agenda ar gyfer Newid Cymru 8D:	1

Niferoedd Staff

Mae’r tabl canlynol yn dangos nifer cyfartalog y staff a gyflogir gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ôl grŵp a ddiffinnir yn y cyfrifon blynyddol.

	Cyflogir yn Barhaol (gan gynnwys Cyfnod Penodol) WTE	Staff Asiantaeth WTE	Staff ar secondiad mewnol WTE	Cyfanswm 2018/19 WTE	Cyfanswm 2017/18 WTE
Aelodau gweinyddol, clercol a Bwrdd	875	26	39	940	900
Meddygol a deintyddol	75	0	30	105	100
Ar y gofrestr nyrsio, bydwreigiaeth	58	0	0	58	57
Staff proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	481	8	0	489	515
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	57	1	1	59	1 ¹
Cyfanswm	1,546	35	70	1,651	1,522

¹ Mae gwahaniaeth o 2018/19 i 2017/18 oherwydd cafwyd newid o ran dosbarthu a’r dull o adrodd.

Cyfansoddiad Staff

Roedd y dadansoddiad o’r Tîm Gweithredol a gweithwyr eraill yn ôl rhyw ar 31 Mawrth 2019 fel a ganlyn:

	Gwryw	Benyw
Uwch-staff (Tîm Gweithredol)	5	4
Gweithwyr eraill	404 (23%)	1367 (77%)

Daeth Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) 2017 i rym ar 6 Ebrill 2017, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr yn Lloegr sydd â 250 neu fwy o gyflogeion gyhoeddi cyfrifiadau statudol bob blwyddyn yn dangos y bwlch cyflog rhwng eu cyflogeion gwrywaidd a benywaidd.

- cymedr bwlch cyflog rhwng y rhywiau o ran cyflog fesul awr;
- cymedr blwch cyflog rhwng y rhywiau o ran cyflog fesul awr;
- cyfran y dynion a'r menywod ym mhob chwarter cyflog.

Ar 31 Mawrth 2018, mae'r gyfradd gymedr a chanolrif yr awr yn ôl Rhyw yn lechyd Cyhoeddus Cymru fel a ganlyn:

Mae'r ffigurau'n tynnu sylw at fwllch rhwng y cyflog ar gyfer dynion a menywod yn y sefydliad. Mae hyn i'w briodoli i'r gyfradd uchel o fenywod mewn rhai o'r graddau is, yn ogystal â chyfran uchel o ddynion mewn rhai graddau uwch, lle nad yw nifer y staff mor fawr. Byddwn yn adolygu proffil rhyw ein gweithlu ar draws meysydd gwasanaeth, gan nodi a oes unrhyw rwystrau i recriwtio a chynnydd a chymryd camau angenrheidiol i fynd i'r afael â hyn, gydag ymyriadau wedi'u targedu i gefnogi menywod sy'n cydbwysu ymrwymïadau domestig a gyrfa.

Rhyw	Cymedr Cyfradd fesul Awr (£)	Canolrif Cyfradd fesul Awr (£)
Gwryw	22.42	18.19
Benyw	17.52	14.70
Gwahaniaeth	4.90	3.49
Bwlch Cyflog	21.84	19.20

Data Absenoldeb oherwydd Salwch

Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth am nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch yn ystod 2017/18 a 2018/19:

	2018/19 Nifer	2017/18 Nifer
Diwrnodau a gollwyd (hirdymor)	15,469.86	15,039.98
Diwrnodau a gollwyd (tymor byr)	6,823.87	7,055.57
Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd	22,293.73	22,095.55
Cyfanswm blynyddoedd staff	1586.00	1,518.51
Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd	880.08	909.72
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn y cyfnod (nifer)	1,786.00	1,712.00
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn y cyfnod heb absenoldeb (nifer)	837.00	765.00
Canran y staff heb absenoldeb salwch	46.27%	44.68%

Mae absenoldeb oherwydd salwch wedi gwella ar draws lechyd Cyhoeddus Cymru dros 2018/19 a'r cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer mis Chwefror 2019 oedd yr isaf ar y cyfnod hwnnw mewn chwe blynedd. Er y bu ychydig o gynnydd yng nghyfanswm nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb oherwydd salwch, bu gostyngiad yn nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb tymor byr a chanran uwch o staff heb unrhyw absenoldeb oherwydd salwch.

Yn 2018/19 cynhaliodd yr adran Archwilio Mewnol archwiliad yn edrych ar absenoldeb oherwydd salwch ac absenoldeb arall. Rhoddodd canlyniadau'r archwiliad hwn 'sicrwydd rhesymol', gyda dim ond mân welliannau wedi'u nodi mewn perthynas â chywirdeb rheolwyr o ran dyddiad cofnodi a chwblhau dogfennaeth. Roedd cynllun gweithredu a ddatblygwyd o ganlyniad i hyn yn canolbwyntio ar gyfathrebu prosesau'n ychwanegol i reolwyr.

Cafodd polisi Rheoli Absenoldeb yn y Gwaith Cymru Gyfan ei gadarnhau ym mis Medi 2018 a'i fabwysiadu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Rhagfyr 2018. Mae'r polisi hwn yn canolbwyntio ar reolwyr yn adnabod eu staff ac yn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu hystyried i gynorthwyo staff yn y gweithle. Ar ôl cyflwyno'r polisi hwn, datblygwyd pecyn hyfforddi Cymru Gyfan a'i deilwra gan y tîm adnoddau dynol er sicrhau ei fod yn diwallu anghenion rheolwyr ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae angen i bob rheolwr ymgymryd â'r hyfforddiant o fewn dwy flynedd i gyflwyno'r polisi, ac mae amserlen hyfforddi wedi'i datblygu a'i hysbysebu ar y fewnwyd. Mae cyflwyno'r polisi newydd wedi cael adborth cadarnhaol, gyda rheolwyr yn falch o'r rheolaeth a'r grymuso a ddarperir gan y polisi wrth eu galluogi i gynorthwyo eu staff.

Polisiâu staff a gymhwyswyd yn ystod y flwyddyn ariannol

Mae polisiâu gweithlu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cwmpasu pob agwedd ar gyflogaeth, o recriwtio a dethol, hyfforddi a datblygu i delerau ac amodau gwasanaeth a therfynu cyflogaeth.

Maent hefyd yn pennu'r egwyddorion arweiniol sy'n dylanwadu ar y ffordd mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cynnal ei weithgarwch cyflogaeth staff a disgwyliadau'r holl staff. Cafodd rhai o'r polisiâu hyn eu datblygu gyda sefydliadau eraill y GIG ar sail "Cymru gyfan" ac roedd yn orfodol eu mabwysiadu. Yn ogystal, mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ystod o bolisiâu sy'n galluogi pobl â nodwedd warchodedig (gan gynnwys anabledd) i gael cyflogaeth gyda'r Ymddiriedolaeth, ac aros mewn cyflogaeth lle y bo'n briodol, os bydd y nodwedd warchodedig yn eu cwmpasu yn ystod eu cyflogaeth. Mae gennym drefniadau gweithio hyblyg i'r staff i'w galluogi i ddarparu ar gyfer eu sefyllfaoedd domestig a'u gofynion personol, yn ogystal ag Iechyd Galwedigaethol a all eu cynghori ar addasiadau rhesymol ar gyfer y rhai sydd eu hangen. Mae ein Polisi Recriwtio a'n gwybodaeth i ymgeiswyr wedi'u diweddarau er mwyn sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn gynhwysol ac yn groesawgar, ac i gynghori ymgeiswyr y byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol i'r broses yn ôl yr angen. Yn ogystal, mae gennym ganllawiau i staff sy'n trosglwyddo yn y gweithle, er mwyn helpu unigolion a rheolwyr drwy'r broses.

Mae Polisi Recriwtio Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cyfeirio at waredu pob ffurf ar wahaniaethu'n unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gweithredu safon "Tic Dwbl" ar gyfer recriwtio lle mae ymgeiswyr anabl yn sicr o gael cyfweliad os ydynt yn bodloni gofynion hanfodol manyleb person y swydd maent yn gwneud cais amdani. Pan gânt eu gwahodd i gyfweliad, gofynnir i'r holl ymgeiswyr a oes angen addasiadau arbennig arnynt i'w galluogi i ddod i'r cyfweliad.

Lle caiff ymgeisydd anabl ei benodi, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gyfrifol am wneud addasiadau rhesymol i'r gweithlu neu gyflenwi cyfarpar ychwanegol i gynorthwyo'r gweithiwr newydd yn ei rôl. Fel arfer, mae hyn fel arfer yn dilyn asesiad, cyngor a chefnogaeth gan Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol yr Ymddiriedolaeth.

Cafodd Polisi Absenoldeb Oherwydd Salwch Cymru Gyfan ei adolygu ar sail Cymru Gyfan a lluniwyd polisi newydd, sef Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith. Cafodd y polisi ei gadarnhau ar 28 Medi 2018 a'i fabwysiadu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 7 Rhagfyr 2018. Mae'r polisi newydd yn canolbwyntio ar reolwyr yn adnabod eu staff ac yn gweithio mewn partneriaeth i gynorthwyo unigolion yn y gweithle. Mae'r polisi

yn rhoi pwyslais ar lesiant yn hytrach na rheoli absenoldeb, mae wedi'i gynllunio i gynorthwyo unigolion i aros yn y gweithle.

Mae'r polisi yn cadw'r mecanweithiau ar gyfer dychwelyd i'r gwaith yn raddol, heb golli cyflog ac mae'n gwneud gwelliannau o ran cefnogaeth ar gyfer apwyntiadau sy'n gysylltiedig â phryderon iechyd sylfaenol ac anableddau. Ceir mwy o bwyslais ar fynediad i gyngor a chymorth (Iechyd Galwedigaethol, meddyg teulu, Ffisiotherapi, Cwnsela, ac ati.) i alluogi'r sefydliad i hwyluso dychwelyd yn gyflymach i'r gweithle ynghyd â mwy o gymorth i aros yn y gweithle. Lle na fydd yn bosibl dychwelyd i rôl unigolyn, mae'r polisi newydd yn dal i ddarparu ar gyfer adleoli i rôl amgen addas, ac mae'r ddarpariaeth hon wedi'i gwella gyda disgwyliad y bydd y broses adleoli yn cael ei chefnogi ar draws holl sefydliadau'r GIG, nid dim ond o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rhoddir pwyslais pellach hefyd ar adleoli dros dro i rôl amgen, sy'n helpu unigolyn i ddychwelyd i'r gweithlu yn gynharach, lle nad ydynt ar hyn o bryd yn ddigon iach i ddychwelyd i'w swydd barhaol.

Hefyd, mae nifer o bolisiau, gweithdrefnau a chanllawiau sy'n cefnogi iechyd a llesiant staff megis y Polisi a Phecyn Cymorth Gweithio Hyblyg, y Cynllun Seibiant Gyrfa, y Cynllun Prynu Gwyliau Blynnyddol, y Polisi Atal Straen a Rheoli Iechyd Meddwl a'r Polisi Llesiant.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n ymroddedig i sicrhau amgylchedd gwaith heb aflonyddu a bwllo a sicrhau bod yr holl staff yn cael eu trin, ac yn trin eraill, ag urddas a pharch. Mae ein Proses Urddas yn y Gweithle yn hyrwyddo urddas a pharch yn y gweithle ac yn cefnogi ac yn helpu gweithwyr a all fod yn profi bwllo, aflonyddu a/neu erledigaeth.

Mae gan yr holl staff fynediad cyfartal i arfarniad, trwy broses 'Fy Nghyfraniad i' Iechyd Cyhoeddus Cymru, cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa. Disgwylir iddynt ymgymryd â'r holl hyfforddiant statudol a gorfodol sy'n berthnasol i'w swydd.

Mae'r holl bolisiau gweithlu'n cael eu hadolygu a'u datblygu ar y cyd â'r undebau llafur cydnabyddedig, yn unol ag amserlen adolygu a datblygu y cytunwyd arni.

Caiff polisiau eu cyhoeddi ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/46724

Materion Eraill yn ymwneud â Chyflogaeth

Mae ein Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff yn parhau i dyfu a sefydlu eu hunain yn y sefydliad.

Mae gweithgareddau amrywiol i godi ymwybyddiaeth wedi'u cynnal drwy gydol y flwyddyn, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bresennol am y tro cyntaf yn Pride yng Nghaerdydd, ac yn cynnal "Wythnos Amrywiaeth a Chynhwysiant" ym mis Ionawr, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o siaradwyr, erthyglau ar y Ffynwys a chyfle i'r staff ddathlu gwahaniaeth.

Gwnaethom gymryd rhan hefyd ym Mynegai Cydraddoldeb y Gweithlu Stonewall am yr eildro, ac roeddem yn y 173ydd safle o blith 445 o sefydliadau. Mae hyn yn gynydd o 165 o safleoedd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae'n dangos yn glir y gwelliannau a wnaed tuag at greu diwylliant cynhwysol a dod â gwerthoedd ein sefydliad yn fyw.

Gwariant ar Ymgynghoriaeth

At ddibenion y cyfrifon statudol, diffinnir ymgynghoriaeth fel aseiniadau â therfyn amser/ad-hoc nad ystyrir eu bod yn ymwneud â gweithgarwch yr Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd. Gall hyn gynnwys gwariant ar wasanaethau megis:

- Ymgynghoriaeth Reoli Gyffredinol
- Cyfreithiol
- Adnoddau Dynol
- Ariannol
- Ymgynghoriaeth TG
- Gwasanaethau Eiddo/Ystadau
- Marchnata a Chyfathrebu
- Rheoli Rhaglen a Phrosiect

Yn ystod 2018/19, gwariant Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ymgynghoriaeth oedd £359k o gymharu â £322k yn 2017/18.

Sicrwydd Treth ar gyfer Ymrwymadau Oddi ar y Gyflogres

Mae'n ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ddatgelu trefniadau lle telir unigolion trwy eu cwmnïau eu hunain neu oddi ar y gyflogres. Lle gwneir taliadau oddi ar y gyflogres, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ceisio sicrwydd gan yr holl bartïon perthnasol bod y trefniadau treth priodol ar waith. Cyhoeddir yr holl fanylion am y trefniadau hyn ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/44934

Pecynnau Gadael

Mae'r ffigurau a ddatgelir yn y nodyn hwn yn ymwneud â phecynnau gadael y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn. Gallai'r dyddiad gadael gwirioneddol fod mewn cyfnod dilynol, a gallai'r traul sy'n ymwneud â'r costau gadael fod wedi'u cronni mewn cyfnod blaenorol. Felly, cyflwynir y data ar sail wahanol i nodiadau costau a threuliau staff eraill yn y cyfrifon.

Tabl 1: Pecynnau Gadael

	2018/19	2018/19	2018/19	2018/19	2017/18
Band cost pecynnau gadael (gan gynnwys unrhyw elfen o daliad arbennig)	Nifer yr achosion o ddileu swyddi yn orfodol	Nifer yr ymadawiadau eraill	Cyfanswm nifer y pecynnau gadael	Nifer yr ymadawiadau lle gwnaed taliadau arbennig	Cyfanswm nifer y pecynnau gadael
llai na £10,000	3	1	4	1	1
£10,000 i £25,000	0	0	0	0	0
£25,000 i £50,000	0	1	1	0	1
£50,000 i £100,000	0	1	1	1	2
£100,000 i £150,000	0	0	0	0	0
£150,000 i £200,000	0	0	0	0	0
mwy na £200,000	0	0	0	0	0
Cyfanswm	3	3	6	2	4
	2018/19	2018/19	2018/19	2018/19	2017/18
Band cost pecynnau gadael (gan gynnwys unrhyw elfen o daliad arbennig)	Cost yr achosion dileu swyddi gorfodol (£'oedd)	Cost yr ymadawiadau eraill (£'oedd)	Cyfanswm cost y pecynnau gadael (£'oedd)	Cost yr elfen arbennig mewn pecynnau gadael (£'oedd)	Cyfanswm cost y pecynnau gadael (£'oedd)
llai na £10,000	6,389	4,489	10,878	4,489	8,500
£10,000 i £25,000	0	0	0	0	0
£25,000 i £50,000	0	43,772	43,772	0	25,072
£50,000 i £100,000	0	65,651	65,651	65,651	154,800
£100,000 i £150,000	0	0	0	0	0
£150,000 i £200,000	0	0	0	0	0
mwy na £200,000	0	0	0	0	0
Cyfanswm	6,389	113,912	120,301	70,140	188,372

Datganiad Sicrwydd

Cadarnhaf nad oes gwybodaeth archwilio berthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol nad yw Swyddfa Archwilio Cymru'n ymwybodol ohoni. Fel Prif Weithredwr, rwyf wedi cymryd pob cam er mwyn gwneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol a sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru'n ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Llofnod:



Tracey Cooper
Prif Weithredwr a
Swyddog Atebol
30 Mai 2019



1. Symudodd Dr Quentin Sandifer a Philip Bushby fandiau cyflog oherwydd codiad cyflog (2%) a oedd yn berthnasol i'r holl gyfarwyddwyr yn weithredol o 01 Ebrill 2018
2. Dychwelodd Rhiannon Beaumont-Wood o secondiad ar 4 Chwefror 2019 o Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
3. Gadawodd Dr Christine Pickin y sefydliad ar 24 Chwefror 2019
4. Dechreuodd Jyoti Atri'r rôl interim ar 25 Chwefror 2019 fel Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant. Roedd wedi ymgymryd â dyletswyddau uwch o 1 Ionawr 2019 i gynnwys rhywfaint o wyliau blynyddol a gynlluniwyd ar ddechrau'r flwyddyn ar gyfer Dr Chrissie Pickin
5. Gadawodd Dr Aidan Fowler y sefydliad ar 15 Gorffennaf 2018
6. Dechreuodd Dr John Boulton ar secondiad ar 01 Awst 2018. Mae'r ad-dalu am yr holl gostau cyflogres i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Nid oes gwybodaeth am bensiwn ar gael
7. Gorffennodd Sian Bolton yn y rôl ar 4 Chwefror 2019 fel Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a chafodd ei phenodi yn Gyfarwyddwr Pontio ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth ar 5 Chwefror am gyfnod o 6 mis
8. Cafodd Helen Bushell ei phenodi ar 11 Mawrth 2019 fel Ysgrifennydd y Bwrdd
9. Derbyniodd Eleanor Higgins rôl uwch dros dro rhwng 1 Chwefror 2019 a 10 Mawrth 2019 fel Ysgrifennydd y Bwrdd
10. Cafodd Catherine Steele ei secondio o WHSCC o 12 Gorffennaf 2018 tan 31 Ionawr 2019 fel Ysgrifennydd y Bwrdd. Nid oes gwybodaeth am bensiwn ar gael
11. Cafodd Melanie Westlake ei secondio i Lywodraeth Cymru ar 11 Gorffennaf 2018
12. Gadawodd Terence Rose y sefydliad ar 31 Hydref 2018
13. Penodwyd Dyfed Edwards ar 1 Mai 2018
14. Penodwyd yr Athro Stephen Palmer ar 1 Medi 2018
15. Penodwyd Alison Ward ar 1 Ebrill 2018. Nid yw'n cael unrhyw fuddiannau uniongyrchol gan fod y costau uchod yn cael eu talu'n uniongyrchol i'w chyflogwr.

Atodiad 1a: Un Ffigur Cydnabyddiaeth Ariannol (2018/19)

Enw a Theitl	Cyflog (bandiau £5k)	Arall (bandiau o £5,000)	Buddiannau mewn nwyddau (trethadwy i'r £100 agosaf)	Buddiant pensiwn (i'r £1,000 agosaf)	Cyfanswm (i'r bandiau £5k agosaf)
Dr Tracey Cooper, Prif Weithredwr	150 - 155	-	-	37	190 – 195
Huw George, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid	125 - 130	-	-	25	150 – 155
Dr Quentin Sandifer, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus ¹	160 - 165	-	-	21	180 – 185
Rhiannon Beaumont-Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr ²	15 - 20	-	-	11	25 – 30
Dr Chrissie Pickin, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant ³	120 - 125	65 - 70	-	28	210 – 215
Jyoti Atri, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd a Llesiant ⁴	30 - 35	-	-	6	35 – 40
Dr Aidan Fowler, Cyfarwyddwr Ansawdd, Gwella a Diogelwch Cleifion y GIG/ Cyfarwyddwr 1000 o Fwydau ⁵	40 - 45	-	-	26	65 – 70
Yr Athro Mark Bellis, Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol	120 - 125	-	-	25	145 – 150
Dr John Boulton, Cyfarwyddwr Ansawdd, Gwella Diogelwch Cleifion y GIG/ Cyfarwyddwr 1000 o Fwydau ⁶	60 - 65	-	-	***	60 – 65
Philip Bushby, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliado ¹	100 - 105	-	-	25	125 – 130
Sian Bolton, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol ⁷	85 - 90	-	-	129	215 – 220
Sian Bolton, Cyfarwyddwr Pontio, y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth ⁷	15 - 20	-	-	25	40 - 45
Helen Bushell, Ysgrifennydd y Bwrdd ⁸	0 - 5	-	-	0	0 – 5
Eleanor Higgins, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd ⁹	0 - 5	-	-	2	5 – 10
Catherine Steele, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd ¹⁰	20 - 25	-	-	***	20 – 25
Melanie Westlake, Ysgrifennydd y Bwrdd ¹¹	20 - 25	-	-	10	30 – 35
Cyfarwyddwyr Anweithredol:	-				
Jan Williams	40 - 45	-	-	0	40 - 45
Terence Rose ¹²	5 - 10	-	-	0	5 - 10
Kate Eden	15 - 20	-	-	0	15 - 20
Judith Rhys	5 - 10	-	-	0	5 - 10
Yr Athro Shantini Paranjothy	5 - 10	-	-	0	5 - 10
Dyfed Edwards ¹³	5 – 10	-	-	0	5 – 10
Yr Athro Stephen Palmer ¹⁴	0 – 5	-	-	0	0 – 5
Alison Ward ¹⁵	0 - 5	-	-	0	0 - 5

Atodiad 1b: Cydnabyddiaeth Ariannol Un Ffigur (2017/18)

Enw a Theitl	Cyflog (bandiau £5k)	Buddiannau mewn nwyddau (trethadwy) i'r £100 agosaf		Buddiant pensiwn i'r £1,000 agosaf	Cyfanswm i'r bandiau £5k agosaf
Dr Tracey Cooper, Prif Weithredwr	150 - 155	-		33	180 - 185
Huw George, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid	125 - 130	-		30	150 - 155
Dr Quentin Sandifer, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus	155 - 160	-		22	180 - 185
Rhiannon Beaumont-Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ¹	85 - 90	-		21	105 -110
Dr Chrissie Pickin, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant	130 - 135	-		31	160 - 165
Dr Aidan Fowler, Cyfarwyddwr Diogelwch Cleifion ac Ansawdd Gofal Iechyd	140 - 145	-		(80)	60 - 65
Yr Athro Mark Bellis, Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol	120 - 125	-		24	140 - 145
Melanie Westlake, Ysgrifennydd y Bwrdd	75 - 80	-		(250)	(170) - (175)
Philip Bushby, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	95 - 100	-		24	120 - 125
Sian Bolton, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ²	15 - 20	-		***8	15 - 20
Cyfarwyddwyr Anweithredol:					
Yr Athro Syr Mansel Aylward ³	10 - 15	-	-	0	10 - 15
Jan Williams ⁴	20 - 25	-		0	20 - 25
Yr Athro Simon Smail ⁵	10 - 15	-	-	0	10 - 15
Terence Rose	5 - 10	-	-	0	5 - 10
Kate Eden ⁶	10 - 15	-		0	10 - 15
Jack Straw ⁷	0 - 5	-		0	0 - 5
Judith Rhys	5 - 10	-		0	5 - 10
Yr Athro Shantini Paranjothy	5 - 10	-		0	5 – 10

1. Gadawodd Rhiannon Beaumont-Wood Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 02 Chwefror 2018 am secondiad 12 mis i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys

2. Penodwyd Sian Bolton ar 05 Chwefror 2018 fel Cyfarwyddwr Gweithredol dros dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd am 12 mis

3. Gadawodd yr Athro Syr Mansel Aylward y Bwrdd ar 31 Gorffennaf 2017

4. Ymunodd Jan Williams â'r sefydliad fel Cadeirydd ar 05 Medi 2017

5. Gadawodd yr Athro Simon Smail y sefydliad ar 30 Medi 2017 ac roedd hefyd yn Gadeirydd dros dro rhwng 01 Awst 2017 a 04 Medi 2017

6. Kate Eden, cynyddwyd ei hamser i alluogi darparu cymorth ychwanegol yn sgil y swyddi gwaith ymhlith y Cyfarwyddwyr Anweithredol

7. Gadawodd Jack Straw y Bwrdd ar 31 Awst 2017

8. Nid yw'r wybodaeth ar gael

Cyfeiriwch at bwynt 3.6 am eglurhad o werth y pensiynau. Mae amcangyfrifon yn cael eu paratoi drwy ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG

Atodiad 2: Buddiannau Pensiwn

Enw a Theitl

	Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn ar oed pensiwn, (bandiau £2,500)	Cynnydd gwirioneddol yn y cyfandaliad pensiwn ar oed pensiwn, (bandiau £2,500)	Cyfanswm pensiwn a gronnydd ar oed pensiwn ar 31 Mawrth 2019 (bandiau £5,000)	Cyfandaliad ar oed pensiwn yn ymwneud â'r pensiwn a gronnydd ar 31 Mawrth 2019 (bandiau £5,000)	Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol ar 31 Mawrth 2019	Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol ar 31 Mawrth 2018	Cynnydd gwirioneddol yn y gwerth trosglwyddo arian parod cyfatebol	Cyfraniad cyflogwr at y pensiwn rhanddeiliaid
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Dr Tracey Cooper, Prif Weithredwr ¹	2.5 - 5	0 – 2.5	30 - 35	55 - 60	580	469	96	0
Huw George, Deputy Chief Executive and Executive Director of Operations and Finance	0 - 2.5	(2.5) - 0	40 - 45	105 - 110	866	731	112	0
Dr Quentin Sandifer, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus	0 - 2.5	5 – 7.5	55 - 60	170 - 175	1,384	1,190	158	0
Rhiannon Beaumont-Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthynol i Iechyd	0 - 2.5	2.5 - 5	25 - 30	75 - 80	562	472	75	0
Dr Christine Pickin, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant	0 - 2.5	0	5 - 10	0	129	83	44	0
JJyoti Atri, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd a Llesiant ²	0 – 2.5	(2.5) - 0	30 - 35	70 - 75	581	*** ⁴	*** ³	0
Dr Aidan Fowler, Cyfarwyddwr Ansawdd, Gwella a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr 1000 o Fywydau	0 - 2.5	2.5 – 5	50 - 55	120 - 125	982	833	124	0
Yr Athro Mark Bellis, Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol	0 – 2.5	0	10 - 15	0	179	128	48	0
Melanie Westlake, Ysgrifennydd y Bwrdd ²	0 – 2.5	0 – 2.5	30 - 35	85 - 90	656	537	104	0
Philip Bushby, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	0 - 2.5	0	5 - 10	0	65	34	30	0
Sian Bolton, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd tan 3 Chwerfor 2019 ²	5 – 7.5	20 – 22.5	40 - 45	120 - 125	844	601	225	0
Dr John Boulton, Cyfarwyddwr Interim Ansawdd, Gwella a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr 1000 o Fywydau ³	***	***	***	***	***	***	***	***
Catherine Steele	***	***	***	***	***	***	***	***
Helen Bushell	0	0	0	0	0	0	0	0
Eleanor Higgins ²	0 – 2.5	0	5 - 10	0	57	*** ⁴	*** ³	0

1. Cymaradwy wedi'i ailddatgan oherwydd camgymeriad gan Asiantaeth Pensiynau'r GIG

2. Cynnydd pensiwn pro rata i adlewyrchu cyfnod yr amser ar y Bwrdd

3. ***Nid oes gwybodaeth am bensiynau ar gael oherwydd bod y wybodaeth hon yn cael ei chadw gan y sefydliad cyflogi

4. **Nid yw datgeliad cymaradwy'n ofynnol am nad yw ar y Bwrdd.

Atodiad 3: Datganiad Polisi Cyflog 2018/19

Cyflwyniad a Diben

Diben y datganiad polisi hwn yw egluro safbwynt strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr a rhoi datganiad clir ar yr egwyddorion sy'n sail i benderfyniadau ar ddefnyddio arian cyhoeddus.

Mae'r Datganiad Polisi Cyflog blynyddol (y "datganiad") yn cael ei lunio ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol ag egwyddorion a safonau gofynnol Llywodraeth Cymru a bennwyd yn y ddogfen "Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru" sy'n cynnwys cyfres o egwyddorion lefel uwch ynghylch adrodd ar gyflog uwch-reolwyr. Mae'r ddogfen yn pennu trefniadau ac egwyddorion mewn cyfres o safonau a gofynion anstatudol ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Mae'n cynnwys gofyniad i gyhoeddi adroddiadau blynyddol, yn ogystal â datganiad polisi cyflog blynyddol

Diben y datganiad hwn yw rhoi tryloywder ynghylch dull Iechyd Cyhoeddus Cymru o bennu cyflog ei uwch-weithwyr (nid yw hyn yn cynnwys staff a gyflogir ar delerau ac amodau cyflogaeth a bennir yn genedlaethol) trwy nodi:

- a) diffiniad "swyddi uwch-reolwyr" a fabwysiadwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru at ddibenion y datganiad polisi cyflog,
- b) diffiniad "gweithwyr ar y cyflog isaf" a fabwysiadwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru at ddibenion y datganiad polisi cyflog,
- c) rhesymau Iechyd Cyhoeddus Cymru dros fabwysiadu'r diffiniadau hynny
- d) y berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol swyddi uwch-reolwyr a chydabyddiaeth ariannol y gweithwyr ar y cyflog isaf.

Fframwaith Deddfwriaethol

Wrth bennu cyflog a chydabyddiaeth ariannol ei holl weithwyr, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth cyflogaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Cyflogaeth Ran-amser (Atal Triniaeth Lai Ffaffriol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010 a, lle y bo'n berthnasol, Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth). O ran gofynion Cyflog Cyfartal y Ddeddf Cydraddoldeb, mae Ymddiriedolaeth y GIG yn sicrhau nad oes gwahaniaethu cyflog yn ei strwythurau cyflog i weithwyr a gwmpesir gan Delerau ac Amodau Cenedlaethol y GIG (Agenda ar gyfer Newid), Llawlyfr Staff Meddygol a Deintyddol (Cymru) a charfan y Weithrediaeth a Swyddi Uwch-reolwyr ac y gellir cyfiawnhau'r holl wahaniaethau cyflog yn wrthrychol trwy ddefnyddio mecanweithiau Gwerthuso Swyddi sy'n bodloni profion cydraddoldeb sy'n cysylltu cyflogau'n uniongyrchol â gofynion, galwadau a chyfrifoldebau'r rôl.





Strwythur Cyflogau

Diffiniad swyddi uwch-reolwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r holl staff nad ydynt wedi'u cwmpasu gan Agenda ar gyfer Newid na chontractau Meddygol a Deintyddol (ac eithrio ein Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus sydd hefyd â swydd Cyfarwyddwr Meddygol ac a gwmpesir gan Contract Meddygol a Deintyddol a'r Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd a Llesiant a delir ar raddfa gyflog Agenda ar gyfer Newid).

Cyfeirir at y garfan hon o staff fel "Swyddi Gweithredol ac Uwch-reolwyr (ESP)"

a) Mewn perthynas â'r datganiad hwn, y swyddi ESP yn Ymddiriedolaeth y GIG yw:

- Prif Weithredwr
- Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
- Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant
- Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus
- Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
- Cyfarwyddwr Ansawdd, Gwella a Diogelwch Cleifion y GIG

- Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol
- Cyfarwyddwr Pontio, y Cyfarwyddiaeth Wybodaeth

b) Telir y "gweithwyr ar y cyflog isaf" yn Iechyd Cyhoeddus Cymru £17,460 y flwyddyn (£8.95 yr awr) yn unol â'r Bandiau Cyflog a phwyntiau cyflog a bennir yn genedlaethol yng Nghymru.

c) Mae diffiniadau swyddi uwch-reolwyr a'r gweithwyr ar y cyflog isaf yn unol â'r darpariaethau cenedlaethol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru fel y nodwyd yn a) uchod.

d) Pennir cydnabyddiaeth ariannol swyddi uwch-reolwyr gan broses werthuso swyddi (Gwerthuso Swyddi Uwch-reolwyr (JESP)) a chytunir ar yr holl gyflogau gan Lywodraeth Cymru. Pennir cydnabyddiaeth ariannol y gweithwyr ar y cyflog isaf trwy gyfeirio at y system Gwerthuso Swyddi genedlaethol (Agenda ar gyfer Newid) a phennir cyflogau'r holl bwyntiau colofn gyflog Agenda ar gyfer Newid (gan gynnwys y rhai isaf) ar ôl cael argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau. O 1 Ionawr 2015, addaswyd y pwyntiau colofn gyflog is i ymgorffori'r Cyflog Byw.

e) Mae proses flynyddol cyflwyno tystiolaeth i'r cyrff adolygu cyflogau (Corff Adolygu Cyflogau'r GIG a'r Corff Adolygu ar Gydabyddiaeth Ariannol Meddygon a Deintyddion) yn galluogi asesiad annibynnol i gael ei gynnal ar gyflogau'r GIG. Mae'r cyrff adolygu cyflogau'n ystyried y canlynol wrth wneud eu hargymhellion:

- yr angen i recriwtio, cadw ac ysgogi staff galluog a chymwysedig addas;
- amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd gwaith a'u heffeithiau ar recriwtio a chadw staff;
- yr arian sydd ar gael i Adrannau Iechyd, fel a bennwyd yn Nherfynau Gwariant Adrannol y Llywodraeth;
- targed chwyddiant y Llywodraeth;
- egwyddor cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal yn y GIG;
- y strategaeth gyffredinol y dylai'r GIG wneud cleifion yn ganolog i'r cyfan mae'n ei wneud a'r mecanweithiau i gyflawni hynny.

f) Darperir gwybodaeth am gyflogau sy'n ymwneud ag uwch swyddi yn Atodiad 1a i'r adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff.

g) Dull Iechyd Cyhoeddus Cymru o reoli talent fewnol yw rhannu'r holl swyddi gwag a chyfleoedd yn fewnol er mwyn annog symudedd a datblygu gyrfa ein holl weithwyr. Yn ychwanegol, trwy ein proses cynllunio'r gweithlu, rydym yn cynnal dadansoddiad anghenion dysgu a phrosesau Cynllunio Olyniaeth i nodi anghenion datblygu'r holl staff. Cynllunio Olyniaeth yw'r broses o nodi swyddi hanfodol, asesu'r aelodau staff presennol a all lenwi'r swyddi hyn o fewn sawl amserlen (parod nawr; 1-2 flynedd a 2-5 mlynedd) a datblygu cynlluniau gweithredu i'r unigolion hyn ymgymryd â'r swyddi hynny.

h) Nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru'n defnyddio system o gyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer swyddi uwch-reolwyr.

i) Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ddull cynhwysfawr o ran perfformiad, datblygu ac adolygu a'r polisiâu/prosesau i gefnogi hyn yw:

- Pecyn Cymorth Cynllunio'r Gweithlu Strategol
- Fy Nghyfraniad i (Arfarniad Perfformiad)
- Fframwaith Sgiliau Craidd a Hyfforddiant
- Rhaglen Dysgu a Datblygu

- Rhaglen Datblygu Sgiliau Rheoli ac Arwain
- Polisi a Phroses Sefydlu

j) Pwyntiau cyflog uchaf ac isaf yr Agenda ar gyfer Newid a bennwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yw:

Pwynt uchaf - £102,506

Pwynt isaf - £17,460

k) Y polisiâu taliad diswyddo a weithredir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yw;

- yr hyn a nodir yn Adran 16 Llawlyfr Telerau ac Amodau Gwasanaeth y cytunwyd arno'n genedlaethol ar gyfer dileu swydd a dim ond trwy gytundeb cenedlaethol rhwng llywodraeth, cyflogwyr ac undebau llafur y gellir amrywio'r amodau hyn;
- y cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd sy'n ei gwneud yn ofynnol cael caniatâd Llywodraeth Cymru i unrhyw daliad gael ei wneud;
- Polisi Newid Sefydliadol GIG Cymru sy'n darparu ar gyfer ymagwedd gyson at reoli newid sefydliadol ac mae'n darparu ar gyfer adleoli a diogelu cyflog;
- Polisi Dileu Swydd Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n nodi dull sefydliadol at reoli sefyllfaoedd lle mae achosion o ddileu swyddi (neu berygl o ddileu swyddi) yn codi.

Pecyn Taliadau a Chydnabyddiaeth Ariannol Ehangach

l) Buddiannau ychwanegol a gynigir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yw;

Gwyliau blynyddol

Caiff staff lwfans 27 diwrnod y flwyddyn o wyliau blynyddol ynghyd â gwyliau banc, gan godi i 29 diwrnod ar ôl pum mlynedd a 33 diwrnod ar ôl deng mlynedd.

Gweithio hyblyg

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnig polisi gweithio hyblyg i'ch helpu i gydbwyso'ch bywyd cartref a bywyd gwaith, gan gynnwys: opsiynau gweithio gartref, oriau rhan-amser a rhannu swydd.

Pensiwn

rydym wedi cofrestru i gynllun pensiwn y GIG. Os bydd staff yn ymuno â chynllun pensiwn y GIG, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfrannu 14.3% tuag at eu pensiwn.

Talebau gofal plant

Rydym yn cynnig aelodaeth i'r cynllun talebau gofal plant i'r holl weithwyr y mae ganddynt blant

Cynllun beicio i'r gwaith

Rydym yn cyfranogi mewn **cynllun beicio i'r gwaith**, sy'n cynnig arbedion hyd at 42% oddi ar gost beic newydd.

Benthyciadau teithio

Mae benthyciadau tocyn tymor di-log ar gael i staff (yn flynyddol).

Iechyd a llesiant

Mae mentrau iechyd a llesiant ar gael ar draws yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys aelodaeth campfa ostyngedig ledled Cymru.

Iechyd galwedigaethol

mae gan yr holl weithwyr fynediad at ein gwasanaethau iechyd galwedigaethol: gall y gwasanaeth gefnogi staff gyda rheoli straen, cwnsela cyfrinachol a brechiadau tymhorol.

Dull o Roi Cymorth i staff ar gyflog is

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn gyson â'r GIG ehangach, yn sicrhau y telir y cyflog byw, sef £17,460 y flwyddyn, i'w holl gyflogeion.

Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rheoleidd-dra gwariant

Mae'r gwariant yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol; Mae ffioedd am wasanaethau gan sefydliadau'r sector cyhoeddus yn trosglwyddo cost lawn darparu'r gwasanaethau hynny. Rydym yn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac i gyflawni'r amcanion a fwriadwyd.

Ffioedd a thaliadau

Lle rydym yn ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn cael eu cyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru rydym yn cael incwm i dalu ein costau. Caiff rhagor o fanylion am yr incwm a dderbynnir eu cyhoeddi yn y cyfrifon blyneddol; o fewn nodyn 4 o dan y pennawd 'refeniw gweithredu arall'.

Rheoli arian cyhoeddus

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cydymffurfio â'r dyraniad costau a'r gofynion o ran codi tâl a nodwyd yng nghanllawiau Trysorlys EM yn ystod y flwyddyn.

Rhwymedigaethau amodol bychan materol

Rydym wedi cael ein hysbysu gan ein cynghorwyr cyfreithiol bod £467,000 o honiadau o esgeulustod meddygol neu gyflogwr honedig yn ein herbyn wedi'u hasesu fel rhai â thebygolrwydd bychan o lwyddo. Pe bai'r honiadau'n llwyddo yn ein herbyn, byddai modd adennill £415,000 o'r ffigur hwn o Gronfa Risg Cymru. Felly, y rhwymedigaeth net i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yw £52,000.

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lif Arian a'r Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu llunio yw cyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi barn gywir a theg ar gyflwr materion Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2019 ac o'i gwarged ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r

- wedi'u llunio'n briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed oddi tani gan Weinidogion Cymru.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (DU)). Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio ymhellach yn adran fy adroddiad ar gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar yr ymddiriedaeth yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi bodloni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail ar gyfer fy marn.



NO2
Capital Quarter

Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd am y materion canlynol y mae'r safonau ISA (DU) yn eu gwneud yn ofynnol i mi adrodd arnynt mewn perthynas â hwy lle:

- nad yw'r defnydd o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r Prif Weithredwr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a allai fwrw cryn amheuaeth ynghylch gallu'r ymddiriedaeth i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi.

Gwybodaeth arall

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd ar hynny.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmparu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall i nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a gefais yn ystod cyflawni'r archwiliad, neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os deuaif i wybod am gamfynegiannau neu anghysondebau sylweddol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyriaeth berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwysu at y dibenion a fwrriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adrodd ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad taliad cydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i llunio'n unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed oddi tani gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Rhagair a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Rhagair a'r Adroddiad Atebolrwydd wedi'u paratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

Materion rwy'n adrodd arnynt trwy eithriad

Yn sgil y wybodaeth am yr Ymddiriedolaeth a'i amgylchedd a'r ddealltwriaeth o hyn a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiad perthnasol yn y Rhagair a'r Adroddiad Atebolrwydd na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd o ran y materion canlynol, a adroddaf i chi, os yw'r canlynol yn wir yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a nodwyd gan Drysorlys EM neu Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwyr [a nodir ar dudalennau 6 a 7], mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg ac ar gyfer y fath reolaeth fewnol y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am asesu gallu'r Ymddiriedolaeth i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni ystyrir bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed yn sgil twyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â safonau ISA (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellir, yn unigol neu gyda'i gilydd, disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol y defnyddiwyd y gwariant a'r incwm at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

11 Mehefin 2019

A photograph of three children standing on a dark, rocky shoreline, looking out at the ocean during sunset. The sun is low on the horizon, creating a bright, golden glow that reflects on the water. The child on the left is a boy wearing a red and yellow soccer jersey with 'STARK' and the number '8' on the back. The child in the middle is a girl wearing a white dress with a rainbow pattern and a purple bucket hat. The child on the right is a girl wearing a light blue dress and a straw hat. They are all holding hands and looking towards the horizon. The background shows a distant city skyline across the water.

EIN DATGANIADAU ARIANNOL

Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

	Nodyn	2018/19 £000	2017/18 £000
Refeniw o weithgarwch gofal cleifion	3	94,334	91,925
Refeniw gweithredu arall	4	41,047	37,062
Treuliau gweithredu	5.1	(135,403)	(128,935)
(Diffyg)/gwarged gweithredu		(22)	52
Refeniw buddsoddi	6	48	27
Enillion a cholledion eraill	7	0	(2)
Costau cyllid	8	0	(49)
Gwarged a gadwyd	2.1.1	26	28
Incwm Cynhwysfawr Arall			
Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net:			
Enillion/(colledion) net ar ailbrizio eiddo, offer a chyfarpar		40	102
Enillion/(colledion) net ar ailbrizio asedau anniriaethol		0	0
Enillion/(colledion) net ar ailbrizio asedau ariannol		0	0
Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn eraill		0	0
Enillion/(colledion) net ar ailbrizio PPE ac asedau anniriaethol a ddelir i'w gwerthu		0	0
Enillion/(colledion) net ar ailbrizio asedau ariannol a ddelir i'w gwerthu		0	0
Lleihad mewn gwerth a gwrthdroadau		0	(93)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn		0	0
Enillion/colledion net ar Gronfa Arall Wrth Gefn		0	0
Addasiad ailddosbarthu ar waredu asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu		0	0

	Nodyn	2018/19 £000	2017/18 £000
Is-gyfanswm		40	9
Eitemau y gellir eu hailddosbarthu wedyn i gostau gweithredu net			
Enillion/(colledion) net ar ailbrisio asedau ariannol a ddelir i'w gwerthu		0	0
Is-gyfanswm		0	0
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr arall am y flwyddyn		40	9
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		66	37

Datganiad o Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Mawrth 2019

		Nodyn	31 Mawrth 2019 £000	31 Mawrth 2018 £000
Asedau nad ydynt yn gyfredol	Eiddo, offer a chyfarpar	13	11,352	12,782
	Asedau anniriaethol	14	913	0
	Masnach a symiau derbyniadwy eraill	17.1	327	0
	Asedau ariannol eraill	18	0	0
	Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol		12,592	12,782
Asedau cyfredol	Stocrestrau	16.1	569	786
	Masnach a symiau derbyniadwy eraill	17.1	11,372	10,263
	Asedau ariannol eraill	18	0	0
	Arian parod ac arian parod cyfatebol	19	5,146	6,432
			17,087	17,481
	Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir i'w gwerthu	13.2	0	0
	Cyfanswm Asedau Cyfredol		17,087	17,481
Cyfanswm yr asedau			29,679	30,263
Rhwymedigaethau cyfredol	Masnach a symiau eraill sy'n daladwy	20	(12,219)	(10,397)
	Benthyciadau	21	0	0
	Rhwymedigaethau ariannol eraill	22	0	0
	Darpariaethau	23	(1,284)	(3,843)
	Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol		(13,503)	(14,240)
Asedau/(rhwymedigaethau) cyfredol net			3,584	3,241

Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			16,176	16,023
			31 Mawrth 2019 £000	31 Mawrth 2018 £000
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol	Masnach a symiau eraill sy'n daladwy	20	(1,004)	(622)
	Benthyciadau	21	0	0
	Rhwymedigaethau ariannol eraill	22	0	0
	Darpariaethau	23	(1,672)	(1,419)
	Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol		(2,676)	(2,041)
Cyfanswm yr asedau a ddefnyddiwyd			13,500	13,982
A ariennir gan ecwiti trethdalwyr:	Enillion argadwedig		567	597
	Cyfalaf difidend cyhoeddus		12,469	13,017
	Cronfa ailbrisio wrth gefn		464	368
	Cronfeydd wrth gefn eraill		0	0
	Cronfeydd a Ddelir ar Ymddiriedolaeth			
Cyfanswm ecwiti'r trethdalwyr			13,500	13,982

Datganiad o Newidiadau Ecwiti'r Trethdalwyr 2018/19

	Cyfalaf Difidend Cyhoeddus £000	Enillion argadwedig £000	Cronfa ailbriso wrth gefn £000	Cronfeydd wrth gefn eraill £000	Cyfanswm £000
Newidiadau ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2018-19					
Balans ar 31 Mawrth 2018	13,017	597	368	0	13,982
Addasiad ar gyfer Gweithredu IFRS 9	0	0	0	0	0
Balans ar 1 Ebrill 2018	13,017	597	368	0	13,982
Gwarged/(diffyg) a gadwyd am y flwyddyn		26			26
Enillion/(colledion) net ar ailbriso eiddo, offer a chyfarpar		0	40	0	40
Enillion/(colledion) net ar ailbriso asedau anniriaethol		0	0	0	0
Enillion/(colledion) net ar ailbriso asedau ariannol		0	0	0	0
Enillion/(colledion) net ar ailbriso PPE ac asedau anniriaethol a ddelir i'w gwerthu		0	0	0	0
Enillion/(colledion) net ar ailbriso asedau ariannol a ddelir i'w gwerthu		0	0	0	0
Lleihad mewn gwerth a gwrthdroadau		0	0	0	0
Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn eraill		0	0	0	0
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn		(56)	56	0	0
Addasiad ailddosbarthu ar waredu asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu		0	0	0	0
Cronfeydd wrth gefn a gafodd eu dileu wrth ddiddymu	0				0

Enillion/colledion net ar gronfeydd wrth gefn eraill (nodwch)				0	0
Symudiad yn ystod y flwyddyn	0	(30)	96	0	66
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus newydd a dderbyniwyd	0				0
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ad-dalwyd yn y flwyddyn	(548)				(548)
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ddiddymwyd/ddilëwyd	0				0
Symudiadau eraill mewn PDC yn y flwyddyn	0				0
Balans ar 31 Mawrth 2019	12,469	567	464	0	13,500

Datganiad o Newidiadau Ecwiti'r Trethdalwyr 2017/18

	Cyfalaf Difidend Cyhoeddus £000	Enillion argadwedig £000	Cronfa ailbrizio wrth gefn £000	Cronfeydd wrth gefn eraill £000	Cyfanswm £000
Newidiadau ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2017-18					
Balans ar 31 Mawrth 2017	14,688	551	377	0	15,616
Addasiad ar gyfer Gweithredu IFRS 9	0	0	0	0	0
Balans ar 1 Ebrill 2018	14,688	551	377	0	15,616
Gwarged/(diffyg) a gadwyd am y flwyddyn		28			28
Enillion/(colledion) net ar ailbrizio eiddo, offer a chyfarpar		0	102	0	102
Enillion/(colledion) net ar ailbrizio asedau anniriaethol		0	0	0	0
Enillion/(colledion) net ar ailbrizio asedau ariannol		0	0	0	0
Enillion/(colledion) net ar ailbrizio PPE ac asedau anniriaethol a ddeler i'w gwerthu		0	0	0	0
Enillion/(colledion) net ar ailbrizio asedau ariannol a ddeler i'w gwerthu		0	0	0	0
Lleihad mewn gwerth a gwrthdroadau		0	(93)	0	(93)
Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn eraill		0	0	0	0
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn		18	(18)	0	0
Addasiad ailddosbarthu ar waredu asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu		0	0	0	0
Cronfeydd wrth gefn a gafodd eu dileu wrth ddiddymu	0				0

Enillion/colledion net ar gronfeydd wrth gefn eraill (nodwch)				0	0
Symudiad yn ystod y flwyddyn	0	46	(9)	0	37
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus newydd a dderbyniwyd	0				0
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ad-dalwyd yn y flwyddyn	(1,671)				(1,671)
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ddiddymwyd/ddilëwyd	0				0
Symudiadau eraill mewn PDC yn y flwyddyn	0				0
Balans ar 31 Mawrth 2018	13,017	597	368	0	13,982



Datganiad o Lif Arian Parod

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

	Nodyn	2018/19 £000	Ailddosbarthwyd 2017/18 £000
Llif arian parod o weithgarwch gweithredu			
Gwarged/(diffyg) gweithredu	SOCI	(22)	52
Symudiadau mewn cyfalaf gwaith	30	179	1,749
Addasiadau llif arian eraill	31	3,791	5,240
Darpariaethau a ddefnyddiwyd		(2,897)	(1,143)
Llog a dalwyd		0	(49)
Mewnlif (all-lif) arian parod net o weithgarwch gweithredu		1,051	5,849
Llifau arian parod o weithgarwch buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		48	27
(Taliadau) ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar		(1,398)	(2,522)
Elw o waredu eiddo, offer a chyfarpar		0	737
(Taliadau) am asedau anniriaethol		(439)	0
Elw o waredu asedau anniriaethol		0	0
(Taliadau) am fuddsoddiadau gyda Llywodraeth Cymru		0	0
Elw o waredu buddsoddiadau gyda Llywodraeth Cymru		0	0
(Taliadau) ar gyfer asedau ariannol.		0	0

	Nodyn	Ailddosbarthwyd	
		2018/19 £000	2017/18 £000
Elw o waredu asedau ariannol.		0	0
Elw rhent		0	0
Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgarwch buddsoddi		(1,789)	(1,758)
Mewnlif/(all-lif) arian parod net cyn ariannu		(738)	4,091
Llifau arian parod o weithgarwch ariannu			
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a dderbyniwyd		0	0
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ad-dalwyd		(548)	(1,671)
Benthyciadau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru		0	0
Benthyciadau eraill a gafwyd		0	0
Benthyciadau a ad-dalwyd i Lywodraeth Cymru		0	0
Benthyciadau eraill a ad-dalwyd		0	0
Derbyniadau cyfalaf eraill		0	0
Elfennau cyfalaf o brydlesi cyllid ac ar-SOFP PFI		0	(116)
Arian parod a drosglwyddwyd (i)/oddi wrth gyrff eraill GIG Cymru		0	0
Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgarwch ariannu		(548)	(1,787)
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol		(1,286)	2,304
Arian parod [ac] arian parod cyfatebol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol	19	6,432	4,128
Arian parod [ac] arian parod cyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol	19	5,146	6,432





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Tyndall Street
Caerdydd
CF10 4BZ

Ffôn: 029 2022 7744

E-bost: ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk

phw.nhs.wales